------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Iau, 17 Gorffennaf 2014**

Amser:
**09.00**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
**Sarah Beasley**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8032
pwyllgor.CCLll@cymru.gov.uk

## Agenda

**Cyfarfod preifat cyn y prif gyfarfod (09.00-09.15)**

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

### 2 Y Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru): Sesiwn dystiolaeth 1: Lesley Griffiths, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth (09.15-10.45) (Tudalennau 1 - 222)

Lesley Griffiths AC, Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth
Lynne Schofield, Pennaeth y Tim Trais yn Erbyn Menywod a Cham-drin Domestig
Rhys Davies, Cyfreithiwr

### 3 Papurau i'w nodi (Tudalennau 223 - 232)

### 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol: eitemau 5 a 6

**5 Y Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) - Trafod y dystiolaeth a sesiynau tystiolaeth yn y dyfodol (10.45-11.00)** (Tudalennau 233 - 236)

**6 Y Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru): Y Prif Faterion (11.00 - 12.00)** (Tudalennau 237 - 267)

Eitem 2

**Lesley Griffiths AC / AM**
**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes**
**Minister for Local Government and Government Business**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref LF/LG/0563/14

Christine Chapman AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau,
Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

9 Gorffennaf 2014

Annwyl Christine

**Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig, a Thrais Rhywiol (Cymru)**

Cyflwynwyd Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig, a Thrais Rhywiol (Cymru) gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 30 Mehefin 2014. Ynghlwm ceir copïau o'r tair dogfen ganllawiau drafft a'r pedwar Datganiad o Fwriad y Polisi.

Darperir y dogfennau hyn i roi cymorth i'r Pwyllgor wrth iddo graffu ar y Bil.

Mae'r tair dogfen ganllawiau drafft wedi'u llunio er mwyn rhoi enghreifftiau i'r Pwyllgor o'r materion y gellid mynd i'r afael â nhw yn sgil y canllawiau statudol yr wyf yn ystyried eu cyhoeddi o dan y pŵer a roddir yn adran 12 o'r Bil. Mae'r rhain yn cynnwys canllawiau ar y canlynol:

Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol;
Gofyn a Gweithredu; a
Fforymau amlasiantaeth proffesiynol.

Ymgynghorwyd ag ychydig o randdeiliaid eisoes ar elfennau o'r canllawiau. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae'r canllawiau yn y camau drafft cychwynnol ac, yn unol ag adran 13 o'r Bil, bydd unrhyw ganllawiau a gyhoeddir o dan adran 12 yn ddarostyngedig i ymgynghoriad cyhoeddus cyn i'r fersiwn derfynol gael ei gosod gerbron y Cynulliad er mwyn iddo graffu arnynt. Ni fydd unrhyw ganllawiau o dan adran 12 yn cael eu cyhoeddi nes yr adeg honno.

Bae Caerdydd • Cardiff, Bay
Caerdydd • Caerdydd,
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.lesley.Griffiths@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*

*Printed on 100% recycled paper*

Ynghlwm wrth bob dogfen ceir ffurflen eglurhaol sy'n rhoi crynodeb o effaith pob un o'r canllawiau hyn. Gellir gweld copi hefyd yn y Memorandwm Esboniadol a gyhoeddwyd ar y cyd â'r Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru).

Mae Datganiad o Fwriad y Polisi yn rhoi mwy o wybodaeth am fwriad y polisi o ran yr is-ddeddfwriaeth a'r cyfarwyddydau y gellid eu gwneud o dan y Bil, os caiff ei basio.

Edrychaf ymlaen at roi tystiolaeth i'r Pwyllgor maes o law.

Yn gywir

Lesley

**Lesley Griffiths AC / AM**
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes
Minister for Local Government and Government Business

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)

Bwriad polisi mewn cysylltiad â rheoliadau ac is-deddfwriaeth arall sydd i'w gwneud o dan y Bil

Gorffennaf 2014

## Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **Cyflwyniad** | | 2 |
| **Datganiadau o Fwriad y Polisi** | | |
| - | Cyfarwyddydau o dan adran 5 (adolygiad o strategaethau lleol) | 3 |
| - | Rheoliadau o dan adran 6 (mewn perthynas â'r wybodaeth ychwanegol y mae'n rhaid ei hystyried wrth baratoi strategaethau lleol) | 5 |
| - | Cyfarwyddydau o dan adran 16 (i sicrhau cydymffurfiaeth â'r canllawiau a gyhoeddir o dan adran 12) | 7 |
| - | Gorchymyn o dan adran 22 (pennu dyddiad i'r darpariaethau ddod i rym) | 9 |

## Cyflwyniad

Mae’r ddogfen hon yn trafod y bwriad polisi presennol ar gyfer is-ddeddfwriaeth a chyfarwyddydau y gall Gweinidogion Cymru ddewis eu gwneud gan ddefnyddio’r pwerau a geir ym Mil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) (‘y Bil’) os caiff ei ddeddfu.

Cyflwynir y datganiadau yn y drefn y mae’r darpariaethau perthnasol yn ymddangos yn y Bil, ac mae cyfeiriadau at adrannau ym mhob adran hefyd yn cyd-fynd â rhifau’r adrannau yn y Bil, yn y drefn y cânt eu cyflwyno.

Mae’r Bil yn cynnwys 5 darpariaeth sy’n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru greu cyfarwyddydau, rheoliadau, gorchmynion a chanllawiau. Fodd bynnag, ni chyfeirir at ddarparu canllawiau yn y ddogfen hon gan fod canllawiau drafft wedi’u creu eisoes sy’n nodi bwriad polisi Gweinidogion Cymru.

Mae’r ddogfen hon yn amlinellu gweithdrefn y Cynulliad hefyd, os oes un, sy’n gysylltiedig â phob darpariaeth.

Dylid darllen y datganiad hwn ochr yn ochr â’r Bil a’r Memorandwm Esboniadol fel y’i cyhoeddwyd wrth ei gyflwyno.

Mae’r tablau ar y dudalen nesaf yn nodi’r bwriadau polisi ar gyfer pob un o’r darpariaethau hyn yn y Bil.

| | |
|---|---|
| **CYFARWYDDYDAU YN YMWNEUD AG:** | Adolygu strategaethau lleol |
| **ADRAN:** | 5(3)(b) |

**DISGRIFIAD O'R PŴER:**

Mae adran 5 yn gosod dyletswyddau ar Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol ynglŷn â phryd mae'n rhaid iddynt gyhoeddi ac adolygu eu strategaethau lleol.

Mae adran 5(3)(b) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gyfarwyddo Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol i adolygu eu strategaeth.

Nid yw'r pŵer hwn yn amodol ar unrhyw weithdrefn o eiddo'r Cynulliad.

**PAM MAE ANGEN Y PŴER:**

Mae adran 5(3)(b) yn rhoi'r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru gyfarwyddo Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol i adolygu eu strategaeth os bydd amgylchiadau'n awgrymu y dylid cynnal adolygiad, er enghraifft os bydd Gweinidogion Cymru'n penderfynu adolygu'r Strategaeth Genedlaethol.

Gan ei fod yn ymwneud ag adolygu strategaethau lleol, gallai'r amgylchiadau lle byddai'r cyfarwyddyd yn cael ei ddefnyddio newid o bryd i'w gilydd. Nid yw'r pŵer cyfarwyddo yn y Bil hwn yn amodol ar unrhyw weithdrefn o eiddo'r Cynulliad cyn y gellir ei weithredu. Mae hyn er mwyn sicrhau bod gan Weinidogion Cymru'r hyblygrwydd i ymateb yn gyflym i newidiadau mewn amgylchiadau, gan sicrhau bod strategaethau'n cael eu hadolygu ar lefel leol mewn modd amserol. Er enghraifft, gallai amgylchiadau lleol olygu y dylid adolygu strategaeth ardal benodol.

**BWRIAD POLISI'R PŴER:**

Bwriad polisi'r pŵer cyfarwyddo yw caniatáu i Weinidogion Cymru, pan fo newid neu ddigwyddiad sylweddol wedi digwydd ac nid oes disgwyl i strategaethau lleol gael eu hadolygu yn y dyfodol agos, i gyfarwyddo Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol i adolygu eu strategaethau ynglŷn â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Er enghraifft, gellid defnyddio'r pŵer hwn pe bai Gweinidogion Cymru'n penderfynu bod angen adolygu'r Strategaeth Genedlaethol, yn dilyn Etholiad Cynulliad o bosibl, ac y penderfynir hefyd y dylid adolygu strategaethau lleol er mwyn cymryd y newidiadau i'r Strategaeth Genedlaethol i ystyriaeth. Gellid ei ddefnyddio hefyd pan fo problem arwyddocaol wedi dod i'r fei mewn ardal benodol ac y gallai adolygu'r strategaeth helpu wrth fynd i'r afael â mater penodol.

Ystyrir ar hyn o bryd ei bod yn debygol na fydd y cyfarwyddyd hwn yn cael ei weithredu'n aml, gan fod dyletswydd eisoes ar Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol i adolygu eu strategaethau yn dilyn pob etholiad cyffredin o dan adran 5(2). Mae ganddynt yr hyblygrwydd hefyd i adolygu eu strategaethau eu hunain unrhyw bryd yr ystyrir bod hynny'n briodol. Fodd bynnag, mae'n dal i fod yn bwysig i'r pŵer hwn fod yn ei le rhag ofn y bydd ei angen.

| YSTYRIAETHAU ERAILL: |
| --- |
| Amherthnasol |
| **RHYNGDDIBYNIAETHAU A CHYSYLLTIADAU Â PHWERAU/RHEOLIADAU ERAILL:** |
| Amherthnasol |

| RHEOLIADAU SY'N YMWNEUD Â: | Y pŵer i bennu materion ychwanegol y mae'n rhaid eu hystyried wrth baratoi strategaethau lleol ac i'w gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol neu Fwrdd Iechyd Lleol gynnal asesiadau pellach. |
|---|---|
| ADRAN: | 6(2) |

**DISGRIFIAD O'R PŴER:**

Mae adran 6 yn amlinellu nifer o faterion y mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol eu hystyried wrth baratoi neu adolygu eu strategaeth leol, gan gynnwys asesiadau o anghenion sydd eu hangen o dan adran 14 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac asesiadau strategol a baratoir yn unol â'r rheoliadau a wnaed o dan adran 6 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 sy'n ymwneud â throsedd ac anhrefn, camddefnyddio sylweddau ac aildroseddu.

Mae adran 6(2) yn rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru bennu materion ychwanegol a chynnal asesiadau pellach sy'n gorfod cael eu cymryd i ystyriaeth wrth baratoi strategaethau lleol.

**PAM MAE ANGEN Y PŴER RHEOLEIDDIO:**

Mae adran 6(2) yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu materion ychwanegol neu bennu bod asesiadau pellach yn cael eu cynnal gan Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd Lleol os ydynt yn ystyried bod angen gwneud hyn er mwyn sicrhau bod pob mater sy'n ymwneud â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol wedi ei ystyried. Yna rhaid iddynt ystyried unrhyw wybodaeth bellach wrth baratoi eu strategaeth leol.

Cynigir bod y rheoliadau hyn yn amodol ar y weithdrefn negyddol gan y byddant yn pennu manylion materion technegol a all newid o bryd i'w gilydd.

**BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU:**

Bwriad polisi'r pŵer rheoleiddio yw y byddai'n cael ei ddefnyddio pe bai Gweinidogion Cymru'n penderfynu, ar ôl i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol ystyried eu hasesiadau o anghenion a'u hasesiadau strategol (a gyflawnir o dan bwerau rheoleiddio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998), eu bod yn annigonol at ddiben llywio datblygiad strategaethau lleol ar faterion trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn benodol. Felly byddai Gweinidogion Cymru'n gallu gweithredu'r pŵer rheoleiddio yn isadran (2) er mwyn pennu'r wybodaeth ychwanegol neu'r asesiadau pellach i'w cynnal, os yw'n ymddangos bod y cyfuniad o asesiadau o anghenion yn annigonol.

Cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym cânt eu gosod gerbron y Cynulliad o dan y weithdrefn negyddol.

| YSTYRIAETHAU ERAILL: |
|---|
| Pennir y trefniadau ar gyfer asesiadau o anghenion ac asesiadau strategol gan y ddeddfwriaeth ganlynol:<br><br>- Adran 14 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; a<br>- Rheoliadau o dan adran 6 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998). |
| **RHYNGDDIBYNIAETHAU A CHYSYLLTIADAU Â PHWERAU/RHEOLIADAU ERAILL:** |
| Amherthnasol |

| CYFARWYDDYDAU SY'N YMWNEUD Â: | Dan rai amgylchiadau, cyfarwyddo awdurdodau perthnasol i gydymffurfio â'r canllawiau statudol. |
|---|---|
| **ADRAN:** | 16(2) |

**DISGRIFIAD O'R PŴER:**

Mae adran 16 (2) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdod perthnasol i weithredu mewn unrhyw ffordd y mae Gweinidogion Cymru'n ei hystyried yn briodol at ddiben sicrhau y gweithreda'r awdurdod swyddogaethau, yn unol â'r canllawiau statudol a roddir i'r awdurdod perthnasol.

Dim ond mewn perthynas â datganiad polisi y mae awdurdod perthnasol yn ei gyflwyno (o dan adran 15 o'r Bil), y mae Gweinidogion Cymru'n ystyried nad yw polisi amgen yr awdurdod ar gyfer cyflawni swyddogaethau (yn rhannol neu yn eu cyfanrwydd) yn debygol o gyfrannu at gyflawni diben y Bil hwn, y gellir gweithredu'r pŵer.

Gall Gweinidogion Cymru gyfarwyddo'r awdurdod perthnasol i gyflawni unrhyw weithred gyda'r nod o sicrhau y gweithreda'r awdurdod y swyddogaethau yn unol â'r canllawiau statudol a roddir i'r awdurdod yn unol â'r Ddeddf hon.

**PAM MAE ANGEN Y PŴER:**

Mae'r pŵer cyfarwyddo hwn yn golygu, pan roddir cyfarwyddyd i awdurdod perthnasol o dan yr adran hon, bod rhaid iddo gydymffurfio â hyn ac mae'n rhoi'r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ymateb yn gyflym er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r canllawiau a gyhoeddir o dan adran 12, lle y bo'n briodol.

**BWRIAD POLISI'R PŴER:**

Gan ddefnyddio'r canllawiau draft a ddarperir ar gyfer craffu fel enghraifft, gellid defnyddio'r pŵer hwn pe bai awdurdod perthnasol yn dewis peidio â dilyn elfen o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol a ddarperir gan Weinidogion Cymru o dan adran 12. Er enghraifft, penderfynodd awdurdod perthnasol na fyddai'n ymgymryd â hyfforddiant lefel 1 gyda'i staff, ac yn hytrach cyhoeddodd ddatganiad polisi yn amlinellu dull amgen. Oni bai bod y dull amgen yn cynnig canlyniadau cyffelyb neu well o safbwynt y cyfraniad at gyflawni dibenion y Bil, gallai Gweinidogion Cymru gyfarwyddo'r awdurdod i ddilyn y canllawiau a sicrhau bod yr holl staff yn cael hyfforddiant lefel 1. Er enghraifft, pe bai'r awdurdod yn gwneud dim mwy na chyhoeddi datganiad polisi yn nodi mai ei ddull yw peidio â hyfforddi staff, ond dibynnu ar ymgyrch gyhoeddusrwydd fewnol, mae hyn yn annhebygol o gyflawni'r amcanion a ddymunir. Os mai ei ddull amgen fyddai cynnal hyfforddiant ar lefel fanylach gyda'r holl staff, yna byddai hynny'n cyflawni mwy na'r hyn sydd yn y canllawiau. Y bwriad felly yw sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r canllawiau a gyhoeddir o dan adran 12 oni bai bod dull amgen gwell yn cael ei gynnig.

| YSTYRIAETHAU ERAILL: |
|---|
| Amherthnasol |
| **RHYNGDDIBYNIAETHAU A CHYSYLLTIADAU Â PHWERAU/RHEOLIADAU ERAILL:** |
| Adran 12 - Y pŵer i gyflwyno canllawiau statudol<br><br>Adran 14 – Dyletswydd i ddilyn y canllawiau statudol<br><br>Adran 15 – Datganiadau polisi: gofynion a phwerau ategol |

| | |
|---|---|
| **PWERAU SY'N YMWNEUD Â:** | Cychwyn |
| **ADRAN:** | 22(3) |
| **DISGRIFIAD O'R PŴER** | |
| Mae adran 22 yn caniatáu i ddarpariaethau'r Bil gychwyn pe bai'r Bil yn cael ei ddeddfu.<br><br>Mae adran 22(3) yn nodi y gall Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, bennu dyddiad i adrannau o'r Bil ddod i rym nas nodir fel arall yn adran 22. | |
| **PAM MAE ANGEN Y PŴER :** | |
| Gorchymyn yw hwn i greu pŵer i roi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru benderfynu ar ddyddiad dod i rym ar gyfer rhai darpariaethau yn y Bil lle na ellir pennu beth fyddai dyddiad addas ar hyn o bryd.<br><br>Caiff y gorchymyn hwn ei gyfyngu i gychwyn ac mae'n dechnegol o ran natur, felly ni fydd angen unrhyw weithdrefn o eiddo'r Cynulliad ar gyfer y pŵer hwn. | |
| **BWRIAD POLISI'R PŴER:** | |
| Defnyddir y pŵer cychwyn hwn ar gyfer adrannau 2-10, 19 a 20 o'r Bil. Hyd yma, ni phennwyd pryd fydd y darpariaethau hyn yn dod i rym ar ôl deddfu'r Bil ac felly mae'r ddarpariaeth gychwyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru benderfynu pryd fyddant yn dod i rym ar ddyddiad diweddarach, mwy priodol. | |
| **YSTYRIAETHAU ERAILL:** | |
| Amherthnasol | |
| **RHYNGDDIBYNIAETHAU A CHYSYLLTIADAU Â PHWERAU/RHEOLIADAU ERAILL:** | |
| Mae'r Gorchymyn hwn yn ymwneud â holl ddarpariaethau'r Bil nas rhestrir yn adrannau 22(1) neu (2). | |

DRAFFT ENGHREIFFTIOL: GORFFENAF2014

# Cydweithio effeithiol rhwng asiantaethau

**Canllawiau ar sefydlu a chynnal partneriaethau gweithredol, strategol effeithiol sy'n canolbwyntio ar achosion, ar gyfer trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol**

Mae cydweithredu rhwng sefydliadau er mwyn rhoi terfyn ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn gysyniad eang a phellgyrhaeddol.

Mae'r canllawiau hyn yn archwilio'r camau sy'n angenrheidiol i gydweithredu, ac yn tynnu sylw at arferion da o ran trefniadau cydweithredu.[1] Er mwyn sicrhau effeithiolrwydd ar gyfer y rhai sy'n dioddef trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, **rhaid i'r cydweithredu ddigwydd ar bob lefel mewn sefydliadau - yr arweinwyr strategol, y rheolwyr gweithredol a'r rhai sydd ar y rheng flaen.**

Mae'r canllawiau hyn yn rhoi sylw i ddechrau i werth cydweithredu rhwng asianaethau ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a'r elfennau allweddol sydd eu hangen ar gyfer partneriaethau effeithiol.

Yna mae'r canllawiau'n rhoi sylw i dri math o gydweithredu: y bartneriaeth strategol, y bartneriaeth weithredol a'r fforwm amlasiantaethol. Mae'n mynd ati wedyn i fanylu ar yr hyn sydd ei angen mewn asiantaethau i gyflawni eu hymrwymiadau i'r bartneriaeth ac i sicrhau ymateb cadarn i drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn eu hasiantaethau.

**Ym mhob pennod yn y canllawiau ceir adran mewn blwch sy'n dangos pa ganllawiau y bwriedir eu cyhoeddi ar gyfer awdurdodau perthnasol, o dan adran 12 o Fil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru).**

O dan adran 12 gall Gweinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau i awdurdod penodol, sy'n nodi sut y dylai'r awdurdod gyflawni ei swyddogaethau er mwyn cyfrannu at wella'r trefniadau ar gyfer atal trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gwella'r trefniadau ar gyfer amddiffyn dioddefwyr a gwella'r cymorth sydd ar gael i'r bobl yr effeithir arnynt gan drais achamdriniaeth o'r fath.

Rhaid i'r awdurdodau hyn, yn rhinwedd adran 14 o'r Bil, ddilyn y canllawiau hyn wrth arfer eu swyddogaethau oni bai bod rheswm da dros beidio â gwneud hynny. Os bydd awdurdod perthnasol yn ystyried bod rheswm da dros beidio â dilyn y canllawiau, rhaid iddo benderfynu ar bolisi gwahanol er mwyn arfer ei swyddogaethau o ran y rhan honno o'r canllawiau. Rhaid iddo wedyn gyhoeddi datganiad polisi yn nodi sut y mae'n bwriadu arfer ei swyddogaethau a'i resymau dros beidio â dilyn y canllawiau.

**Diben gweddill y canllawiau yw cynnig testun ac arweiniad ynglŷn ag arferion da o ran cydweithredu a llunio trefniadau amlasiantaethol i fynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.**

[1] Drafft cynnar yw'r canllawiau hyn. Bydd proses graffu a rhagor o ymgynghori cyhoeddus yn digwydd cyn i ganllawiau terfynol gael eu cyflwyno gerbron y Cynulliad. Ni chyflwynir y canllawiau hyn fel fersiwn derfynol ac ni ddylid eu darllen felly. Bwriadwn ymgynghori'n ffurfiol ar y ddogfen hon a byddwn yn croesawu sylwadau ar ei chynnwys drwy gydol y broses.

**Mae Llywodraeth Cymru yn sylweddoli y gallai'r canllawiau hyn fod o gymorth i sefydliadau heblaw'r awdurdodau perthnasol o dan adran 12 o'r Bil. Felly, bydd Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i annog sefydliadau eraill i ystyried eu rôl mewn fforymau amlasiantaethol. Byddai'r ddogfen hon o gymorth hefyd i unrhyw sefydliad o'r fath sy'n ystyried creu fforwm amlasiantaethol neu sydd wrthi'n ystyried eu rôl mewn fforwm sy'n bodoli'n barod.**

DRAFT

**Cynnwys**


| | |
|---|---|
| Crynodeb gweithredol | 4 |
| Rhagarweiniad | 7 |
| Pam cydweithredu amlasiantaethol? | 9 |
| Cydweithredu o ran trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol | 13 |
| Cydweithredu'n strategol | 16 |
| Cydweithredu'n weithredol | 21 |
| Rôl y cynrychiolydd sefydliadol mewn cydweithredu | 24 |
| Fforymau amlasiantaethol i ymateb i achosion unigol | 28 |
| Model datblygu prosiectau ar gyfer fforymau amlasiantaethol cleient-ganolog | 32 |
| Geirfa a byrfoddau | 40 |
| Atodiadau | 41 |
| 1. Fforymau amlasiantaethol yng Nghymru heddiw | 43 |
| 2. Adnoddau i greu ymateb amlasiantaethol gwell | 49 |
| Dogfennau Cyfeirio | 50 |


DRAFT

## Crynodeb gweithredol

Mae trais a chamdriniaeth o unrhyw fath yn annerbyniol. Rhaid i unrhyw un sy'n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol dderbyn ymateb effeithiol a phrydlon gan awdurdodau perthnasol. Awgryma'r dystiolaeth fod menywod yn fwy tebygol o brofi trais ar sail rhywedd ac, felly, mae'r canllawiau'n cydnabod mai trais yn erbyn menywod yw'r enghraifft fwyaf cyffredin o drais ar sail rhywedd.

Fodd bynnag, nid yw cydnabod hyn yn awgrymu o gwbl y dylai unrhyw un sy'n dioddef trais a chamdriniaeth gael eu heithrio o gael mynediad at y cymorth a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt. Profir trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol mewn perthnasoedd o'r un rhyw, rhwng aelodau teuluol a chan ddynion sy'n cael eu cam-drin gan fenywod ac, felly, mae'r canllawiau hyn yn darparu proses sy'n cynnwys pob dioddefwyr posibl o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Ceir cydnabyddiaeth eang i'r ffaith fod angen cydweithredu rhwng gwahanol asiantaethau i ymateb yn effeithiol i drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. **Dywed y rhai a brofodd y problemau hyn wrthym fod ymatebion amlasiantaethol yn gweithio oherwydd** mai ond unwaith y mae'n rhaid iddynt ddweud eu stori, eu bod yn cael help y tro cyntaf y maent yn dweud wrth rywun ac yn cael yr un ymateb gan bob asiantaeth.

Ers tro byd mae Cymru wedi bod yn arloesol a phenderfynol wrth ymateb i drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Ar lefel cleient, mae arloesedd Cymru wedi creu'r model MARAC (y Gynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol) sy'n cael ei ddefnyddio a'i ymarfer yn rhyngwladol bellach. Yn strategol hefyd, dangoswn arferion da yn ein henghreifftiau o bartneriaethau, gan gynnwys y Bwrdd Gweithredu'r Hawl i Fod yn Ddiogel.

**Mae Llywodraeth Cymru am ddatblygu'r hanes perfformiad da hwn i annog mwy o gydweithrediad rhwng gwasanaethau cyhoeddus er mwyn rhoi ymateb holistig ac effeithiol i hyrwyddo diogelwch unigolion sydd mewn perygl.**

## Ffocws strategol a gweithredol

Wrth feddwl am weithio mewn cyd-destun amlasiantaethol mae'n bwysig ystyried arweinyddiaeth strategol unrhyw bartneriaeth a chydweithrediad gweithredol sy'n gyrru cynnydd a sicrhau effeithiolrwydd.

I weithio mewn partneriaeth, mae angen cyfathrebu, cyfarfodydd a chynllunio mewn sawl cyswllt: datblygu fframweithiau strategol a gweithredol a llwybr gofal unedig ar gyfer pob agwedd ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol; rhannu gwybodaeth a datblygu ymyriadau cydgysylltiedig mewn achosion penodol; ac yna monitro'r llwybr gofal ac adolygu'r canlyniadau i ddatblygu'r ymateb.

Bydd angen i bartneriaid ddychwelyd i'w hasiantaethau eu hunain a bod yn gyswllt rhwng y cydweithrediad amlasiantaethol a'u hasiantaethau hwy, gan sicrhau bod eu prosesau mewnol yn cydsynio ac yn gwella'r gwaith amlasiantaethol. Bydd angen i gyfraniad yr asiantaeth unigol at waith ac ymyriadau amlasiantaethol gael ei gefnogi gan ymrwymiad, systemau gweithredol a rheolaeth yr asiantaeth honno.

**Ffocws ar ddioddefwyr**

O ystyried bod y model MARAC wedi gwreiddio'n dda bellach, a'r gefnogaeth barhaus gan Lywodraethau Cymru a'r DU i'r gwaith hwn, mae'n arbennig o bwysig bod ffocws yr elfen greadigol yng Nghymru ar integreiddio a datblygu ymatebion i rai na chawsant eu hadnabod fel achosion risg uchel, er mwyn darparu gwasanaethau adnabod ac atal yn gynt i achosion risg is.

Er mai nod Llywodraeth Cymru yw hyrwyddo'r broses o ddatblygu atebion lleol ar sail angen, mae'n bwysig er hynny sicrhau cysondeb ac ansawdd. Wrth wneud hyn mae'n greiddiol bod partneriaid yn profi eu cynigion yn erbyn cyfres o gerrig milltir datblygiadol i sicrhau bod y model arfaethedig yn cwrdd â'r amcanion ac yn cynnig yr ateb sy'n ofynnol i'r broblem dan sylw. Ni ddylid creu modelau gwaith amlasiantaethol er eu mwyn eu hunain, rhaid iddynt fod yn effeithiol a chanolbwyntio ar bwrpas.

Mae deuddeg elfen allweddol o weithio'n effeithiol mewn partneriaeth wedi eu cydnabod yn "*In Search of Excellence: A Guide to Effective Domestic Violence Partnerships*"[i], ar sail ymweld â deg o bartneriaethau yng Nghymru a Lloegr. Pan gafodd yr ymweliadau gwreiddiol eu gwneud, roedd y partneriaethau'n anelu'n bennaf at fynd i'r afael â cham-drin domestig. Mae ail gyfres o ymweliadau bellach wedi eu gwneud a'r canllawiau'n cael eu diweddaru i gynnwys darganfyddiadau o'r 30 ymweliad pellach hwn. Mae'r canllawiau newydd yn ymgorffori profiadau'r partneriaethau'n dilyn ehangu i gynnwys trais yn erbyn menywod a genethod a'r gwersi am gomisiynu a ddysgwyd gan yr awdurdodau lleol yr ymwelwyd â nhw.

Mae'r canlynol yn amlinellu'r elfennau sy'n hanfodol ar gyfer cydweithrediad strategol a gweithredol a bydd y rhain yn ddefnyddiol wrth ystyried cynigion partneriaeth newydd ac i adolygu pa mor effeithiol yw'r gwaith partneriaeth sy'n digwydd yn barod.

**Gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth: Arferion da:**



DRAFT

**Amcanion cyffredin**

- Dylai'r awdurdodau perthnasol ymrwymo i weledigaeth a set o amcanion cyffredin..

**Strwythur a Llywodrethu**

- Dylai'r awdurdodau perthnasol gytuno i fod yn atebol i'r bartneriaeth, a bod â'r gallu i gyflawni ac i glymu'r bartneriaeth hon ag agendâu eraill.

**Strategaeth, Arwain, Cynllun Gweithredu**

- Rhaid i amcanion strategol a chynllun gweithredu unrhyw gydweithrediad fod yn gyson ar draws yr awdurdodau perthnasol. Mae gofyn i'r grŵp strategol gael arweinyddiaeth er mwyn mynnu bod y blaenoriaethau a nodwyd o fewn y bartneriaeth yn parhau i wthio'r ddarpariaeth leol.

**Cynrychioli**

- Dylai pob awdurdod perthnasol gael ei gynrychioli o fewn strwythur y bartneriaeth a chael eu cynrychioli gan rywun sydd ag awdurdod i weithredu ar ran yr asiantaeth ac i ymateb i anghenion y bartneriaeth o fewn eu strwythurau eu hunain.

**Adnoddau**

- Dylai awdurdodau perthnasol wybod faint mae trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn ei gostio iddynt bob blwyddyn. Dylai'r asiantaethau sydd wedi ysgwyddo'r gwasanaethau hyn yn draddodiadol ystyried cyfuno adnoddau er mwyn ariannu darpariaeth leol.

**Cyd-gysylltu**

- Dylai awdurdodau perthnasol weithio i gydgysytllu eu gweithgareddau a'u mentrau gyda rhai'r asiantaethau sy'n bartneriaid iddynt i gyflawni amcanion y bartneriaeth. Dylid cydnabod a chefnogi swyddogaeth bwysig yr ymateb cydgysylltiedig.

**Hyfforddiant**

- Rhaid rhoi hyfforddiant priodol i staff rheng flaen i'w galluogi i adnabod unigolion sydd mewn perygl o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ac ymateb yn briodol ac effeithiol.

**Data**

- Dylai awdurdodau perthnasol sy'n gweithio mewn partneriaeth gymryd rhan yn y gwaith o greu a chyfrannu at set ddata i fonitro, hysbysu a datblygu ei hymateb. Dylid casglu a dadansoddi'r wybodaeth hon fel rhan o broses rheoli perfformiad y bartneriaeth. Dylai'r awdurdodau perthnasol greu mesurau canlyniadau i farnu eu heffeithiolrwydd.

**Polisi a Phrotocol**

- Dylai cydweithredu amlasiantaethol gael ei gefnogi gan lwybrau gofal, rhannu gwybodaeth, proseau clir, asesiadau risg a'r gwersi a ddysgwyd o adolygiadau achosion difrifol a adolygiadau o ddynladdiad domestig. Dylid adolygu'r rhain yn rheolaidd.

**Gwasan-aethau arbenigol**

- Dylid cynnal dadansoddiad anghenion i nodi anghenion a darpariaeth leol. Lle bo modd, dylai gwasanethau arbenigol gael eu hariannu'n gynaliadwy i ddiwallu'r angen a nodwyd.

**Amrywiaeth**

- Dylid defnyddio ystadegau demograffig lleol yn sail i ymarfer, er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r gymuned yn gallu cael gafael ar wasanethau, ac yn gwneud hynny. **Dylai diwallu anghenion y gymuned gyfan fod yn flaenoriaeth.**

**Defnydd wyr gwasan-aeth**


- Dylai profiad defnyddwyr gwasanaethau gael eu defnyddio'n rheolaidd a systematig i roi gwybod i'r bartneriaeth am effeithiau eri waith ac i awgrymu gwelliannau.

## Rhagarweiniad

Er mwyn i fforymau amlasiantaethol fod yn effeithiol, mae angen i'r asiantaethau sy'n bartneriaid ynddynt gydweithredu'n **strategol a gweithredol.** Rhaid i wybodaeth lifo o'r rheng flaen, trwy grwpiau gweithredol i grwpiau strategol, gan ddefnyddio systemau cyfathrebu effeithiol, a hynny er mwyn sicrhau bod penderfyniadau gwybodus ac amserol yn cael eu gwneud, bod cefnogaeth i'r cydweithredu a bod diben y cydweithredu hwnnw yn cael ei hyrwyddo ar bob lefel er mwyn gwella canlyniadau i'r rhai sy'n dioddef trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae'r canllawiau hyn yn amlinellu'n gyntaf beth yw gwerth cydweithredu amlasiantaethol o safbwynt trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gan nodi'r elfennau angenrheidiol sydd eu hangen i greu partneriaethau effeithiol.

Mae'r canllawiau wedyn yn canolbwyntio ar dri math o gydweithredu: y bartneriaeth strategol, y bartneriaeth weithredol a fforymau amlasiantaethol. Yna mae'n manylu ynghylch yr hyn sydd ei angen mewn asiantaethau i'w galluogi i gyflawni eu hymrwymiadau fel partneriaethau a sicrhau bod eu hasiantaeth yn ymateb yn gadarn i drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.




1**) Partneriaethau strategol** a sefydlir i fynd i'r afael ag amcanion cyffredin, sy'n cael eu hadnabod drwy ddadansoddiad strategol o anghenion (e.e. Byrddau Gwasanaethau Lleol).

2) **Partneriaethau gweithredol** sy'n sicrhau bod y nodau y cytunir arnynt gan y bartneriaeth strategol yn cael eu cyflawni. Mae aelodau'r bartneriaeth weithredol yn rhoi arweinyddiaeth a chyfeiriad i'r rhai sy'n gyfrifol am gyflawni'r gweithredu i wireddu'r nodau.

3) **Fforymau amlasiantaethol** sy'n dod â gweithwyr rheng flaen proffesiynol at ei gilydd i rannu gwybodaeth er mwyn hyrwyddo diogelwch y rhai yr effeithir arnynt gan drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Yn olaf, mae'r canllawiau'n nodi beth yw pedwar conglfaen ymyriad effeithiol gan fforwm amlasiantaethol a phroses y corff ar gyfer ymgysylltu. Pan fydd gwaith i ddileu trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael ei lunio a'i wreiddio fel hyn, mae fforwm amlasiantaethol yn fwy tebygol o lwyddo.

Cyfeirir at y bobl fydd yn elwa o waith amlasiantaethol effeithiol fel unigolion sydd mewn perygl o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, dioddefwyr, goroeswyr, cleientiaid a defnyddwyr gwasanaeth. Mae gwahanol bartneriaid yn defnyddio gwahanol eiriau i ddiffinio eu perthynas â'r person sydd mewn perygl ac, felly, mae'r canllawiau yn adlewyrchu hyn.

Nod Llywodraeth Cymru yw hybu gwasanaethau effeithiol sy'n cael eu cynnal ac o safon gyson uchel ar draws Cymru. Mae ymyriadau seiliedig ar dystiolaeth yn allweddol i sicrhau bod pobl sy'n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn derbyn y gwasanaethau mwyaf effeithiol bosibl.

Mae tystiolaeth yn dangos bod gan rai ymyriadau werth sicr, fel rhai gan Gynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA) a Chynadleddau Asesu Risg Amlasiantaethol (MARAC). Ar gyfer rhai o'r ymyriadau arloesol mwy diweddar fel Canolfannau Diogelu Amlasiantaethol (MASH), nid yw'r dystiolaeth wedi'i chasglu a'i dadansoddi eto, yn rhannol oherwydd bod yr ymyriadau'n amrywio o ran ffocws ac ymarfer o un ardal i'r llall.

Wrth i ardaloedd ddatblygu eu hymatebion lleol i drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, bydd angen casglu data i weld sut y maent yn perfformio a pha ymyriadau sydd orau i gadw dioddefwyr trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn ddiogel yn y tymor byr a hir.

DRAFT

## Pam cydweithredu amlasiantaethol?


Ystyrir bod partneriaethau amlasiantaethol, cydweithredu a phrosesau rhannu gwybodaeth cadarn yn hanfodol i gynnig ymateb effeithiol i rai sy'n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.  Mae Cymru wedi dangos arloesedd a phenderfyniad ers tro wrth fynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ar lefel weithredol lle mae partneriaethau wedi datblygu ymyriadau fel MARAC (Cynadleddau Asesu Risg Amlasiantaethol) a lefel strategol drwy 'Strategaeth  Hawl i Fod yn Ddiogel' Llywodraeth Cymru.

Mae'r adran hon yn rhoi tystiolaeth dros ymateb yn gydweithredol i drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol i gefnogi gwella'r gwaith yn y maes hwn.

## Gwell effeithiolrwydd

I wella diogelwch dioddefwyr, mae angen i amryw o asiantaethau wneud eu rhan. Yn ôl *Safety in Numbers*[2], astudiaeth o waith y Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA) mewn saith lleoliad gyda mwy na dwy fil o ddioddefwyr trais domestig, roedd dwyster y cymorth (nifer y cysylltiadau ag IDVA) a nifer yr ymyriadau (gwasanaethau a chymorth gan asiantaethau eraill) yn cyfateb i leihad yn nifrifoldeb a pha mor aml oedd cam-drin yn digwydd. Felly, gyda mwy o gyswllt a chymorth mwy amrywiol, roedd dioddefwyr yn cael eu cam-drin yn llai aml ac yn llai difrifol.[3]  Darganfu'r astudiaeth hefyd nid yn unig bod angen gwasanaethau IDVA arbenigol ar ddioddefwyr, ond 'model o ddiogelwch parhaus' i ddiwallu'r myrdd anghenion sy'n datblygu dros gyfnod o gamdriniaeth[4].

Gwelir y mathau o ymyriad a ddefnyddiwyd a pha mor aml y defnyddiwyd pob un yn y tabl isod.[5]



Mae hwn yn dangos yr amrywiaeth cymorth a’r help sydd efallai ei angen ar rai sy’n dioddef cam-drin domestig i leihau’r niwed iddynt.  Mae’n debygol o fod yn wir hefyd am rai sy’n dioddef mathau eraill o drais ar sail rhywedd a thrais rhywiol.

## Amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed yn well

Mewn ymchwil gan CamlasiantaetholDA[6] i waith cynadleddau MARAC a Chynghorwyr IDVA, roedd gan ddau o bob tri o’r dioddefwyr blant yn byw yn neu’n ymweld â’r cartref lle’r oedd cam-drin domestig yn digwydd.  Roedd y rhan fwyaf o’r plant dan bump oed ac wedi bod yn byw gyda’r gamdriniaeth gydol eu hoes bron.  Ar gyfartaledd, roedd yn cymryd blwyddyn yn hirach i ddioddefwyr gyda phlant gael gafael ar gymorth na rhai heb blant. Mae plant sy’n byw gyda thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn wynebu risg uwch o broblemau ymddygiad a thrawma emosiynol, yn ogystal â thrafferthion iechyd meddwl ar ôl tyfu’n oedolion[7].

Drwy lunio ymateb mwy cyflawn i bobl sy’n dioddef trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, dylid adnabod yr angen yn gynt a byddino mwy o adnoddau i helpu, er mwyn cynnig ymateb pwrpasol a chynt i ddioddefwyr a'u plant.  Dylai ymateb cynt leihau'r niwed a ddioddefir gan ddioddefwyr a'u plant a lleihau nifer yr ymyriadau sydd eu hangen i sicrhau bod dioddefwyr a'u plant yn ddiogel.  Dylai hefyd ganiatáu ymyriadau cynt i roi sylw i ymddygiad y camdriniwr.

Mae oedolion agored i niwed yn aml yn defnyddio gwasanaethau.  Gall bod yn ddibynnol ar wasanaethau, a’r gofalwyr sy’n eu darparu, gynyddu'r risg o gamdriniaeth a'u gwneud yn llai tebygol o’i ddatgelu o gwbl.  Mae’r ymchwil i’r maes hwn yn brin, ond yn ôl un astudiaeth gallai fod 50% o fenywod anabl yn y DU wedi profi cam-drin domestig yn ystod eu hoes[8].  Bydd dull amlasiantaethol yn sicrhau gymaint o fewnbwn â phosibl i greu ymateb priodol i'r dioddefwyr trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol hyn.

## Canlyniadau gwell i rai ag anghenion cymhleth: camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl

Cam-drin domestig a mathau eraill o gam-drin yw’r prif beth sy’n achosi iselder a phroblemau iechyd meddwl eraill mewn menywod[9] gan arwain at gyfraddau hunan-niwed a hunanladdiad ymhlith goroeswyr sydd o leiaf bedair gwaith yn uwch nag yn y boblogaeth fenywod yn gyffredinol.[10]

Lle mae dioddefwyr trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn dioddef problemau iechyd meddwl – p’un ai o ganlyniad i’r gamdriniaeth neu lle mae’r problemau iechyd meddwl yn eu gwneud yn fwy agored i niwed – mae ymyriadau seicolegol yn annhebygol o'u gwneud yn well heb roi sylw i'r cam-drin neu’r trais, asesu'r risg a helpu cleientiaid i aros yn ddiogel. Ar adeg ysgrifennu’r ddogfen hon, yng Nghymru mynychir 70% o gynadleddau MARAC yn gyson gan achosion iechyd meddwl sy’n adnodd ychwanegol amhrisiadwy wrth gynllunio ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth.

Mae’r cysylltiad rhwng cam-drin a chamddefnyddio sylweddau mewn modd problematig  wedi’i sefydlu gan sawl astudiaeth.  Dangosodd ymchwil fod

menywod a brofodd drais 5.5 gwaith yn fwy tebygol o dderbyn diagnosis o broblem camddefnyddio sylweddau yn ystod eu bywyd[11] ac mae problem alcohol neu gyffuriau gronig gan gamdriniwr yn ffactor risg wrth asesu'r risg i ddioddefwyr cam-drin domestig.

Mewn rhai ardaloedd, mae'r problemau camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl a thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn parhau i gael sylw ar wahân. Yn adolygiad y Swyddfa Gartref o Adolygiadau Dynladdiad Domestig, un o'r prif themâu oedd bod angen codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o sut orau i weithio â dioddefwyr camdriniaeth sydd hefyd ag anghenion iechyd meddwl neu gamddefnyddio sylweddau.[12] Mae angen dull sy'n cyfuno arbenigwyr trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol a chamddefnyddio sylweddau, gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol, ac asiantaethau eraill.

### Ymateb cyson i unigolion sydd mewn perygl

Pa bynnag asiantaeth neu weithiwr proffesiynol y mae dioddefwyr neu gamdriniwr yn cysylltu â nhw gyntaf, dylent dderbyn yr un ymateb. Dylai pob asiantaeth roi'r un neges i ddioddefwyr: nid yw trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael ei oddef, nid bai'r dioddefwr ydyw ac mae help ar gael.

Gellir cyfleu'r un negeseuon drwy ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth, mewn swyddfeydd cyhoeddus, i staff ac i ddioddefwyr pan fyddant yn datgelu. Mae'r Bil hwn gam yn nes at newid diwylliant lle mae trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol mor annerbyniol â cham-drin plant. Dim ond drwy weithio gyda'n gilydd i gytgordio prosesau ac ymatebion y bydd y negeseuon hyn yn gyson o hyd, gan roi hyder i ddioddefwyr yn yr ymateb a roddir iddynt.

### Costau is a rhannu costau

Mae gwaith Sylvia Walby wedi helpu i wella ein dealltwriaeth o gostau trais domestig. Yn ei hymchwil wreiddiol (2004), aeth ati i gyfrifo faint oedd trais domestig yn ei gostio i Gymru a Lloegr. Diweddarodd y gwaith hwn yn 2009 ac, ar sail ei hymchwil ac amcangyfrifon ar sail poblogaeth, tybir bod trais domestig yng Nghymru'n costio £303.5m y flwyddyn – £202.6m yn gostau gwasanaeth a £100.9m mewn colledion mewnbwn economaidd.

Yn ei hymchwil fwy diweddar, darganfu fod cyfanswm cost trais domestig wedi gostwng o £23 biliwn i tua £16 biliwn y flwyddyn. Darganfu fod y gostyngiad mewn costau'n rhannol oherwydd datblygu a mwy o ddefnyddio ar wasanaethau cyhoeddus, gan brofi bod buddsoddi mewn ymatebion gwasanaeth cyhoeddus wedi bod yn gost-effeithiol.[13]

### Gwybodaeth a chynllunio gwell

Ar gyfer sawl agwedd ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, e.e. FGM a thrais ar sail "anrhydedd", mae tan-ryportio wedi arwain at ystadegau annibynadwy sy'n ei gwneud yn anodd asesu drwy ddadansoddi angen. Gyda mwy o ymwybyddiaeth ac ymatebion mwy trylwyr gan bob corff cyhoeddus i'r

materion hyn, bydd y dystiolaeth yn gryfach ac yn goleuo gwasanaethau a chynllunio gwell.

### Rhannu'r cyfrifoldeb

Drwy weithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, bydd asiantaethau partner yn ymwybodol o'r newidiadau mewn gwasanaethau eraill sy'n effeithio ar y llwybr gofal. Drwy weithio gyda'n gilydd, gellir amlygu, hysbysu a gweithredu'r newidiadau fel nad yw dioddefwyr yn disgyn drwy'r craciau pan fydd gwasanaethau'n torri'n ôl, ehangu neu'n newid eu cylch gwaith. Bydd y cydweithio agos hwn yn helpu'r bartneriaeth i reoli unrhyw dwf, torri'n ôl neu newid i wasanaeth fel y gellir parhau i ddarparu'r canlyniadau cyffredinol.

### Adnabod ac ymateb i risg a grëir gan wasanaeth

Problem gyda gwaith amlasiantaethol, nad yw'n cael sylw na'i chydnabod yn aml, yw 'risg a grëir gan wasanaeth'[14] neu 'risg a grëir gan ymyriad'[15]. Defnyddir y term lle ceir enghreifftiau o systemau neu ymarfer y gweithwyr proffesiynol yn creu neu'n cynyddu'r risg i'r cleient gan y camdriniwr, neu'n creu rhwystrau ychwanegol i'r cleient. Drwy weithio gyda'n gilydd a chynnwys cam wrth gynllunio sy'n gofyn a fydd y camau sydd i'w cymryd yn cynyddu'r risg neu'r trafferthion i'r cleient gan y camdriniwr, gall y bartneriaeth sicrhau bod ganddynt ddarlun llawnach o risg y cleient i weithio ag ef.

Nid yw adnabod risg a grëir gan wasanaeth yn rheswm dros gamu'n ôl o weithredu, yn hytrach dylai ysgogi asiantaethau i wneud cynlluniau pellach i ddiogelu mewn achos unigol ac i daclo neu addasu unrhyw strwythurau sy'n creu risgiau o'r fath yn rheolaidd.

Cododd y term hwn fel rhan o ddeall sut y gallai gwaith amlasiantaethol ar gam-drin domestig fynd o'i le, ond bydd yn berthnasol i bob strwythur yng nghyswllt unrhyw agwedd ar drais ar sail rhywedd a thrais rhywiol.

### Gwerth cydweithredu i ddioddefwyr


Mae pobl a brofodd drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn dweud bod gweithio mewn partneriaeth yn werthfawr iddynt yn y ffyrdd canlynol:

- dim ond unwaith y mae'n rhaid iddynt ddweud am eu camdriniaeth;
- maent yn cael help y tro cyntaf y maent yn dweud;
- maent yn derbyn yr un ymateb gan bob asiantaeth;
- maent yn cael eu helpu i ddeall y gwahanol reolau a meini prawf sydd gan wahanol asiantaethau; ac
- maent yn cael eu harwain drwy fap llwybr at ddiogelwch a bywyd gwell a mwy cyfartal.

**Cadarnheir dealltwriaeth dioddefwr bod ganddynt hawl i fod yn rhydd o ofn a chamdriniaeth pan roddir yr un ymateb cyson iddynt gan bawb. Maent yn deall bod eu cymuned a'r gwasanaethau sy'n ei chefnogi'n gweithio i sicrhau'r hawliau hynny.**

## Cydweithredu o ran trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Yn aml, bydd y cydweithredu ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn canolbwyntio ar fforymau amlasiantaethol sy'n dod ag asiantaethau ynghyd i reoli achosion y rhai sydd sydd mewn perygl, ac i'w cefnogi. Mae hon yn elfen sylfaenol a hanfodol o unrhyw ymateb effeithiol i'r rhai sydd mewn perygl, a bydd y canllawiau hyn yn amlinellu sut y dylid datblygu a chynnal fforymau o'r fath. Fodd bynnag, ni fydd fforymau amlasiantaethol sy'n wynebu'r cleientiaid weithio oni bai eu bod yn cael eu harwain yn strategol ac yn cael eu monitro a'u llywodraethu gan grwpiau gweithredol. Dim ond pan geir ymateb cyfunol a chydgysylltiedig ar draws y gwasanaeth cyhoeddus y bydd dioddefwyr trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael ymateb sy'n gyson, effeithiol a pharhaus.



### Lle mae'r bartneriaeth yn ffitio?

Bydd angen i ardaloedd lleol benderfynu lle mae eu partneriaeth trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn ffitio yn y fframwaith llywodraeth leol. Bydd angen i unrhyw bartneriaeth gael cysylltiadau cryf â'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant, Diogelu Oedolion, y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, Byrddau Iechyd a Llesiant, y Bwrdd Gwasanaethau Gwirfoddol Cymunedol a'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Bydd angen i bartneriaid strategol ddeall sut y mae trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn ffitio i'r holl agendâu eraill a sicrhau bod partneriaid ar y byrddau hynny'n gweld y cysylltiadau hefyd.

Gwendid cyffredin y partneriaethau hyn yw eu bod yn adlewyrchu byrddau statudol ac yn canolbwyntio ar ymrwymiadau statudol a'r gwaith a ariannir yn uniongyrchol ganddynt. Yn aml iawn maent yn anwybyddu gwaith a chyfraniadau nad ydynt yn eu rheoli neu ariannu. Ers degawdau, mae gwasanaethau i ddioddefwyr trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol wedi eu darparu gan y sector arbenigol ac mae'r mudiadau hyn wedi datblygu arbenigedd a ddylai fod yn greiddiol i'r gwaith partneriaeth hwn. Dylai pob gwasanaeth ac asiantaeth sy'n gweithio â dioddefwyr a chamdrinwyr mewn unrhyw gapasiti, p'un ai wedi neu heb eu datganoli, wedi eu hariannu'n gyhoeddus neu'n sector arbenigol, fod yn rhan o'r bartneriaeth ar ryw lefel. Drwy greu'r bartneriaeth eang hon, bydd y gwasanaethau i gyd yn cysylltu a gweithio law yn llaw gan ddarparu gwasanaeth di-dor i rai sy'n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

### Pwy yw'r partneriaid?

Mae gweithio'n gryf mewn partneriaeth yn fwy na gweithio ar sail yr awdurdodau a nodir yn y Bil - mae angen pob gwasanaeth, p'un ai wedi neu heb ei ddatganoli, anstatudol neu wirfoddol. Y partneriaid craidd, sydd eu hangen i gynnig ymateb cadarn i drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, yw'r Heddlu, Gwasanaethau Cymdeithasol Plant ac Oedolion, Gwasanaethau Prawf, Tai, Iechyd Meddwl, Gwasanaethau Cam-drin Sylweddau, Addysg, Iechyd (Damweiniau ac Achosion Brys, Ymddiriedolaethau'r GIG, Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru, Mamolaeth, Meddygon Teulu), Gwasanaethau Ieuenctid, cydgysylltwyr Dechrau'n Deg a Thimau o Amgylch y Teulu, a'r sector arbenigol.

Hyd yma, mae partneriaid neilltuol wedi eu hadnabod i fod â dyletswydd i gyfrannu at waith amlasiantaethol penodol, e.e. Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA) ac Adolygiadau Dynladdiad Domestig (DHR).

### Rôl y sector arbenigol


Rhaid i'r sector arbenigol fod yn rhan o unrhyw waith gan fforwm amlasiantaethol. Mae gan y sector arbenigwyr yn y gwahanol agweddau ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac maent yn deall, drwy eu gwaith â chleientiaid, lle mae'r rhwystrau yn y systemau. Gallant gynnig profiad y dioddefwr i unrhyw grŵp amlasiantaethol.

Lle comisiynwyd yr asiantaethau arbenigol i wneud hynny, y cyrff hyn sy'n darparu nodau strategol y bartneriaeth. Y tu allan i'r ffrydiau ariannu canolog a lleol, bydd asiantaethau arbenigol hefyd yn adnabod yr anghenion ychwanegol yn y gymuned

lle maent yn gweithio. I wneud hyn, maent yn aml yn codi arian eu hunain, gan gyfrannu at yr arian a werir ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn lleol a chynyddu'r ddarpariaeth yn lleol.

O gofio'r cyfraniad hwn a'r arloesedd a ddangosir yn aml gan y sector arbenigol, mae'n greiddiol bod partneriaethau'n cydweithredu'n ofalus ar gynllunio a strategaeth. Mae darparu'n gyson yn hollbwysig, felly hefyd y gydymdrech i sicrhau canlyniadau clir.

Mae'r olwyn yn dangos pa bartneriaid sy'n rhaid eu cael i ddarparu ymateb cymunedol cydgysylltiedig i drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.




DRAFT

### Cydweithredu'n strategol

**Mae gofyn i awdurdodau perthnasol:**

**Gymryd rhan mewn partneriaethau strategol sy'n canolbwyntio ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.**

**Sicrhau bod cynrychiolydd yr awdurdod perthnasol mewn partneriaethau o'r fath wedi'i awdurdodi i weithredu ac i wneud penderfyniadau ar ran y sefydliad.**

**Cyflawni camau gweithredu a chyfrifoldebau a nodir drwy unrhyw bartneriaethau a sefydlir, a bod yn atebol amdanynt.**

**Sicrhau, lle bo'n briodol, bod unrhyw gydweithredu a chamau gweithredu yn cael eu hadlewyrchu mewn strategaethau lleol.**

Mae partneriaethau strategol yn cael eu creu i fynd i'r afael ag amcanion cyffredin yng nghyswllt angen cymunedol penodol. Caiff yr amcanion hyn eu hadnabod orau drwy ddadansoddiad strategol o'r angen, fel rhai a wneir gan y Byrddau Gwasanaethau Lleol.

Yn ddelfrydol, bydd y rhai sy'n eistedd ar grŵp partneriaeth strategol i dargedu trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, yn cynnwys Cyfarwyddwyr a Phrif Weithredwyr eu sefydliadau, Cadeiryddion y grŵp gweithredol ac is-bwyllgorau neu grwpiau gorchwyl a gorffen neilltuol. Bydd angen iddynt fod ag awdurdod eu sefydliad i gysylltu gwaith unrhyw bartneriaethau â'u strategaeth leol hwy ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol (i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol, dyma fydd y strategaeth leol fydd yn ofynnol o dan Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)) fel eu bod yn adlewyrchu, cydsynio ac ategu ei gilydd. Mae angen iddynt ddangos arweinyddiaeth o fewn y bartneriaeth ac yn eu sefydliad a dileu unrhyw rwystrau systemig i ddarparu amcanion y grŵp.

Dylai aelodaeth y grŵp hwn gynnwys y partneriaid craidd sydd eu hangen i ddarparu ymateb i drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gan gynnwys sefydliadau wedi a heb eu datganoli a thrydydd sector i sicrhau bod gan y grŵp hwn y persbectif a'r ystod wybodaeth ehangaf posibl.

### Gofynion cydweithredu'n strategol

Mae'n bwysig, o'r cychwyn un, cael cytundeb ac eglurder ynghylch beth y mae'r partneriaid yn cytuno fydd sail eu cydweithrediad, beth mae'r ymrwymiad yn ei olygu a sut y rheolir yr ochr atebolrwydd. Y ffordd orau o wneud hyn yn aml yw drwy osod pethau allan mewn memorandwm dealltwriaeth neu ddogfen debyg.

Bydd hefyd yn ddefnyddiol creu a chytuno ar strwythur ymarferol i'r bartneriaeth, gyda systemau adrodd a mewnbwn rheolaidd gan ddefnyddwyr gwasanaeth.

## Penderfynu ar y nodau strategol

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau ar baratoi strategaeth ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Ceir braslun yma.

Bydd awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol yn cynnal dadansoddiad anghenion o dan adran 14 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a fydd yn nodi'r gwasanaethau a'r gweithgareddau sy'n ofynnol gan boblogaeth yr ardal. At hynny, bydd canlyniadau'r asesiadau strategol a wnaed dan reoliadau Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn cael eu cymryd i ystyriaeth hefyd.

Dylai'r awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd lleol fod wedi nodi cyfrifoldebau o fewn eu strategaeth leol o dan y Bil sy'n cael eu monitro, sy'n destun adrodd ac sy'n cael eu dadansoddi gan y ddau awdurdod. Bydd angen iddynt gytuno ar set gyffredin, integredig o ganlyniadau a set ddata gydgysylltiedig i lywio'u proses o roi'r strategaeth ar waith.

Bydd yr asesiadau angen a'r gwaith o baratoi strategaethau lleol yn rhoi gwybod i'r awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd lleol pa gydweithredu fydd ei angen i fynd i'r afael ag unrhyw anghenion a nodwyd.

## Casglu tystiolaeth a monitro canlyniadau

Bydd y gwaith hwn yn gofyn am ddatblygu set gydlynus o ddata a fydd yn monitro'r llwybr gofal ac yn dangos a yw'r nodau strategol yn cael eu diwallu.

Bydd angen i bartneriaid wahaniaethu rhwng monitro data a chanlyniadau.  Bydd angen monitro data a gesglir ar hyd y llwybr gofal i weld a oes newid sylweddol yn digwydd wrth ddilyn y llwybr.  Er enghraifft, mae sawl pwynt ar hyd y siwrne o ryportio trosedd i erlyn yn llwyddiannus lle gellir casglu data a gwybodaeth i adolygu'r broses honno.  Bydd angen i'r prosesau weithio i sicrhau canlyniadau i unigolion ond nid ydynt yn ganlyniadau ynddynt eu hunain.

Bydd y canlyniadau'n dweud wrthym a yw pobl sydd mewn perygl trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael eu gwneud yn fwy diogel. Mae'n faes heriol i asiantaethau partner ac yn un lle bydd cydweithrediad rhanbarthol a chenedlaethol yn hanfodol.  Dylai'r canlyniadau bob amser gynnwys gwybodaeth gan ddefnyddwyr gwasanaeth.

Bydd y fforymau a ddatblygir i ddiwallu anghenion y grŵp cleientiaid hwn yn casglu a darparu data i asesu effaith y gwaith hwn ar ddioddefwyr ac, felly, ar y nodau strategol.

DRAFT

## Gwreiddio trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol ym mhob agenda

Disgwylir i bartneriaid strategol hyrwyddo gwaith a gwasanaethau i ateb trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar Fyrddau eraill a sicrhau bod y gwaith hwn wedi'i gysylltu ag agendâu eraill. Bydd y bartneriaeth strategol yn creu atebolrwydd (lle bo hynny'n briodol) a threfniadau i gyfathrebu â byrddau strategol eraill, e.e. y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, Byrddau Diogelu Lleol, Grŵp Arwain ar Atal Caethwasiaeth Cymru [16]. Bydd yn bwysig hefyd sicrhau cytgord rhwng unrhyw ymgyrchoedd a rhaglenni strategol a bod unrhyw wrthdaro neu ddyblygu'n cael ei adnabod a'i ddatrys yn gyflym.

Bydd hefyd o fantais wrth gyfathrebu'n rhanbarthol bod gwersi a strategaethau'n cael eu rhannu a, thrwy wneud hynny, bydd y ddarpariaeth i rai sydd mewn perygl o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a'r ymateb i gamdrinwyr, yn unedig. Gallai hyn hefyd hwyluso'r defnydd gorau o adnoddau. Dylai partneriaid feddwl am gysylltu i strwythurau arweinyddiaeth rhanbarthol newydd fel y Gwent 'G7', Bwrdd Cydweithredu Cwm Taf a Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.

## Ariannu

Un o'r prif sialensau i bartneriaethau strategol yw dod o hyd i gyllid i ddarparu nodau strategol y grŵp a bod yr arian hwn yn cael ei wario'n unol â'r amcanion a'r anghenion fel y cawsant eu nodi. Bydd hefyd angen dod o hyd i gyllid i gefnogi fforymau amlasiantaethol gyda'r gwaith cymorth gweinyddol a chasglu a dadansoddi data. Eu gwaith nhw fydd dod o hyd i gyllid hirdymor i ddarparu ymyriadau llwyddiannus gan fforymau amlasiantaethol.

Cafwyd symudiad dros y blynyddoedd diwethaf i gomisiynu gwasanaethau trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a diddordeb pellach mewn manteision cyd-gomisiynu. Mae cronni cyllid yn gyfle i osgoi dyblygu gwasanaethau, sicrhau gwerth am arian ac effeithlonrwydd, datblygu gwasanaethau cydgysylltiedig a rhannu arferion gorau, arbenigedd a chanfyddiadau am anghenion. Mae'n faes heriol i bartneriaid ond gall wneud y mwyaf o effaith eu cyfraniadau.

Gall dadansoddi cost a budd helpu i adnabod pa asiantaethau fydd yn elwa fwyaf o fuddsoddi. Fel man cychwyn, mae amcan-gost ar gyfer pob ardal awdurdod lleol ar gael.[17] Mae'n dadansoddi costau gofal corfforol ac iechyd meddwl, cyfiawnder troseddol, gwasanaethau cymdeithasol, tai a llochesau, gwasanaethau cyfreithiol sifil, a cholledion economaidd yn ogystal â'r gost ddynol ac emosiynol. Mae rhai awdurdodau wedi ennill persbectif ychwanegol ar eu partneriaeth drwy weithio ar sail trosolwg oedd yn cynnwys buddsoddiad cyrff y sector arbenigol mewn gwasanaethau lleol drwy eu gwaith codi arian eu hunain ac arian gan ymddiriedolaethau dyfarnu grantiau. Mewn un maes, roedd hynny gymaint â 30% o'r buddsoddiad yn lleol.

Bydd angen i'r cyllid adlewyrchu'r angen a'r ddaearyddiaeth leol, fel y gost o ddarparu mewn ardal wledig ac anghenion penodol gwahanol boblogaethau. Bydd hefyd angen i gomisiynwyr weithio gyda darparwyr a phartneriaid i benderfynu ai drwy ariannu hyfforddiant i'r gwasanaethau presennol, neu gomisiynu gwasanaethau newydd, dynodedig a fyddai'r ffordd orau o ddiwallu anghenion yr agweddau llai datblygedig ar drais ar sail rhywedd a thrais rhywiol.

Wrth gomisiynu gwasanaethau, dylai'r bartneriaeth ystyried yr arbenigedd a'r strwythur a gynigir gan y gwasanaethau cyhoeddus presennol, a'r gwerth a ychwanegir gan gyrff arbenigol.

Un o gostau cudd darparu gwasanaethau arbenigol yw colli'r ddarpariaeth oherwydd cylch ariannu byr lle collir amser ac arian drwy ail-ymgeisio ac addasu gwasanaethau i fanylebau newydd. Wrth gomisiynu gwasanaethau, dylai partneriaid gydnabod y trafferthion hyn a wynebir gan wasanaethau a cheisio eu lleihau, er enghraifft drwy fod mor dryloyw â phosibl, cadw'r broses mor syml lle bo modd ac adolygu a rhoi estyniad ar gylchoedd ariannu lle bo hynny'n ymarferol.

### Arloesedd y sector arbenigol

Fel y nodwyd, mewn partneriaethau cryf, mae'r sector arbenigol yn cael ei ariannu i ddarparu gwasanaethau penodol a hefyd yn parhau i godi arian i lansio prosiectau a fydd, os yn llwyddiannus, yn cwrdd ag anghenion pellach eu defnyddwyr gwasanaeth. Gall y bartneriaeth strategol gefnogi'r gwasanaethau hyn i ymgeisio am gyllid allanol o'r fath gan felly gynyddu'r ddarpariaeth leol.

Drwy wneud y bartneriaeth yn effro i'r mentrau newydd hyn a'i chynnwys yn y cynllunio ar eu cyfer, gellir cefnogi'r cynlluniau peilot hyn drwy atgyfeiriadau ac argymhellion y bartneriaeth leol, yn ogystal ag adborth. Medrant hefyd sicrhau bod yr arloesi'n cyfrannu i'r cyfeiriad strategol yn lleol. Bydd y bartneriaeth yn ennill gwasanaethau ychwanegol wedi eu dylanwadu gan nodau'r bartneriaeth a syniad o ba wasanaethau y bydd efallai yn eu comisiynu yn y dyfodol.

### Atebolrwydd

Wrth weithio mewn partneriaeth, mae angen lefel o ymgysylltiad ac ymrwymiad i'r agenda hon fydd efallai'n newydd i rai - mae ymrwymiad yn golygu y gall partneriaid eu dal hwy eu hunain a'u hasiantaeth i gyfrif, er enghraifft am y canlynol:

- ymgysylltu ar y lefel iawn, hynny yw sicrhau bod eu sefydliad yn ymgysylltu â grwpiau partneriaeth - strategol, gweithredol neu fforwm amlasiantaethol - a bod gan bawb sy'n mynychu awdurdod i siarad ar ran eu sefydliad ar y materion hynny;

- cyfranogi mewn gwaith amlasiantaethol priodol;

- darparu arweinyddiaeth i addasu arferion gwaith asiantaethau i roi blaenoriaeth i ddiogelwch dioddefwyr trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gwella ymateb asiantaethau a dileu risg a grëir gan wasanaeth;

- diweddaru'r grŵp ar faterion perthnasol;

- cyfrannu at y set ddata gyffredin ac integredig sy'n cyfrannu at ddealltwriaeth y bartneriaeth o anghenion lleol a gwasanaethau lleol;

- darparu cyllid, lle bo hynny'n briodol; a

- gweithio gyda phartneriaid a chefnogi gwaith y Cynghorydd Gweinidogol i godi ymwybyddiaeth a monitro, cydgysylltu a gwella ymarfer a darpariaeth.

DRAFT

### Cydweithredu'n weithredol

**Mae gofyn i awdurdodau perthnasol:**

**Gymryd rhan mewn partneriaethau strategol sy'n canolbwyntio ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.**

**Sicrhau bod cynrychiolydd yr awdurdod perthnasol mewn partneriaethau o'r fath wedi'i awdurdodi i weithredu ac i wneud penderfyniadau ar ran y sefydliad.**

**Nodi cyrff perthnasol eraill y dylech gydweithio â hwy i gyflawni'r nodau strategol ac i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau sy'n codi.**

**Casglu, dadansoddi a monitro'r holl wybodaeth am berformiad yn erbyn nodau unrhyw bartneriaethau a sefydlwyd.**

Mae partneriaeth weithredol amlasiantaethol yn sicrhau bod y strategaeth trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael ei darparu. Mae aelodau'r bartneriaeth weithredol yn rhoi arweiniad a chyfeiriad i'r rhai sy'n cyflawni'r gweithredu i sicrhau bod y materion hyn yn cael eu taclo. Y rhain yw'r Penaethiaid Gwasanaeth neu'r Cyfarwyddwyr Cynorthwyol sy'n deall goblygiadau ymarferol y nodau strategol.

Bydd aelodaeth y grŵp hwn yn adlewyrchu'r grŵp strategol, ac yn defnyddio gwasanaethau trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol arbenigol i gyflawni unrhyw amcanion strategol a nodwyd.

Mae'r partneriaethau gweithredol yn debygol o fod yn gyfrifol am y canlynol:

### Creu llwybr gofal

Bydd angen i'r bartneriaeth sicrhau bod protocolau a gweithdrefnau amlasiantaethol yn eu lle i gefnogi gwaith amlasiantaethol ac i ddal sefydliadau i gyfrif. Yn benodol, bydd y bartneriaeth weithredol yn sicrhau bod gan bob partner lwybr gofal i'w ddefnyddio ar gyfer dioddefwyr trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Dylai'r llwybr gofal hwn gynnwys gwasanaethau lleol a chenedlaethol a threfniadau i roi gwybodaeth ac arweiniad pellach i staff.

Mae protocol cytûn ar rannu gwybodaeth rhwng partneriaid yn greiddiol i'r gwaith hwn. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau ar rannu gwybodaeth.

### Creu a gyrru cynllun gweithredu sy'n cyflawni'r nodau strategol

Dylai'r bartneriaeth weithredol yn cydweithredu i ddarparu'r nodau strategol drwy'r cynllun gweithredu gan roi sylw i unrhyw broblemau sy'n codi a dyrchafu pryderon na fedrant eu datrys i'r grŵp strategol. Dylai'r broses o weithredu rhwng yr



DRAFT

asiantaethau fod yn seiliedig ar ddatrys problemau. Dylent adnabod a rhoi sylw i risg a grëir gan wasanaeth.

Rhaid i'r grŵp gweithredol ddeall sut a pha brosesau sydd angen iddynt eu newid i ymateb i drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol a hefyd yn nodi pan fydd y cynllun gweithredu ar ei hôl hi, neu os nad yw'n cwrdd â'r nodau strategol.

Dylai fod gan bob partner gamau gweithredu yn y cynllun a dylai partneriaid ddal ei gilydd i gyfrif am ddarparu eu rhan hwy o'r cynllun. Pan fydd amgylchiadau neu ganlyniadau'n gofyn newid y cynllun gweithredu, dylai'r grŵp hwn fod mewn sefyllfa dda i gynnig ffordd arall o gyflawni'r un canlyniad.

### Goruchwylio fforymau amlasiantaethol

Bydd y grŵp gweithredol yn goruchwylio ymatebion amlasiantaethol i sicrhau eu bod yn cwrdd ag amcanion y grŵp strategol.

Bydd y grŵp hwn yn gallu cefnogi'r fforymau drwy adnabod rhai gyda dyletswydd i gyfranogi, h.y. gweithwyr proffesiynol mewn asiantaethau perthnasol sy'n gweithio ag unigolyn a / neu sydd â diddordeb neu a allai fod â diddordeb proffesiynol mewn unigolyn sy'n destun fforwm amlasiantaethol.  Gall y grŵp gweithredol helpu i sicrhau bod gan y fforwm yr aelodaeth a'r ymgysylltiad priodol - gan asiantaethau wedi eu datganoli a chyrff sector arbenigol perthnasol heb eu datganoli.  Dylai'r grŵp gweithredol fonitro presenoldeb ac yn tynnu sylw'r grŵp strategol at unrhyw absenoldebau cyson.

Gall y grŵp gweithredol hefyd gysylltu fforymau tebyg, er enghraifft gall sicrhau bod prosesau a phrotocolau fforymau amlasiantaethol lleol yn ategu ei gilydd gan gysylltu'r ddau fforwm i lwybr gofal ehangach.

### Galluogi lleisiau o fewn y bartneriaeth

I roi sylw i broblemau newydd, i lyfnu llwybr gofal neu i ddod â lleisiau penodol i'r bartneriaeth, gallai'r grŵp gweithredol, lle bo angen, greu grwpiau gorchwyl a gorffen neu is-grwpiau neu bwyllgorau sefydlog fel bo angen. Gallai fod angen i grŵp gorchwyl a gorffen adolygu'r fforymau yn erbyn anghenion a nodwyd.  Gallai grŵp o'r fath adrodd ar sut y gellid addasu fforwm amlasiantaethol i fynd i'r afael â grŵp cleientiaid ehangach, neu adolygu'r angen am fforwm newydd.  Gellid hefyd sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i adolygu gwasanaethau yn erbyn y cynllun gweithredu newydd.  Mae'n debyg y bydd gan y grwpiau hyn amcan clir ac amserlen benodol.

Gallai is-grwpiau sefydlog gan bartneriaethau gweithredol o'r fath gynnwys:

- Pwyllgor Llywio MARAC - mae'r grŵp hwn yn goruchwylio'r broses MARAC, yn sicrhau atebolrwydd yr asiantaethau sy'n cyfranogi, yn hyrwyddo cynaliadwyedd ac yn dangos ei bod yn broses sy'n darparu cydraddoldeb a chanlyniadau i ddioddefwyr.

DRAFT

- Is-grŵp iechyd - fel bod gwasanaethau iechyd yn gallu rhoi sylw gyda'i gilydd i broblemau cyffredin ac fel llais iechyd cryf yn y bartneriaeth trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Thema gyffredin mewn Adolygiadau Dynladdiad Domestig yw bod angen hyfforddiant ac ymwybyddiaeth well o gam-drin domestig ar Feddygon Teulu a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol [18]
- Is-grŵp Cyfiawnder Troseddol - i sicrhau bod systemau'r llysoedd yn ymatebol i anghenion penodol y grŵp cleientiaid hwn ac yn darparu'r gwasanaeth gorau posibl iddynt. Gallai'r grŵp hwn hefyd gasglu ac adrodd ar ganlyniadau cyfiawnder troseddol i'r grŵp cleientiaid hwn.
- Grŵp Cynghori Arbenigol - grŵp o rai sy'n darparu gwasanaethau arbenigol yn uniongyrchol i ddioddefwyr trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Bydd y grŵp hwn yn cynnwys gwasanaethau wedi a heb eu comisiynu ac yn gweithio i sicrhau bod y llwybr gofal yn rhedeg yn llyfn i bob dioddefwr, gan adnabod a rhoi sylw buan i unrhyw fylchau mewn a rhwng gwasanaethau. Medrant rannu a datblygu arferion gorau a darparu arbenigedd i'r bartneriaeth.
- Grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaeth i rymuso rhai oedd angen y gwasanaethau arnynt ac i gasglu mewnbwn ganddynt ar sut i wella'r gwasanaethau hynny. Gall defnyddwyr gwasanaeth ddweud wrth ddarparwyr a chyllidwyr lle orau i wario'r arian. Darparodd Llywodraeth Cymru gyllid yn 2013-14 i sefydlu grwpiau defnyddwyr gwasanaeth a chyhoeddodd ganllawiau arferion gorau ym mis Medi 2013 yn nodi sut i sefydlu grwpiau o'r fath.

### Monitro perfformiad

Dylai'r grŵp gweithredol gasglu gwybodaeth am arferion rheng flaen a sicrhau bod problemau'n cael eu datrys ar y lefel iawn a bod systemau'n cael eu haddasu fel bo angen i gwrdd â'r amcanion. Bydd yn adnabod a hyrwyddo arferion da.

Dylai'r grŵp gweithredol gasglu, dadansoddi a monitro'r holl wybodaeth am berfformiad yn erbyn y cynllun gweithredu. Gall hefyd adolygu perfformiad i sicrhau bod yr arian yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau. Gall asesu a yw'r hyfforddiant a dderbyniodd bartneriaid wedi arwain at ymgysylltu gwell gan ddefnyddwyr gwasanaeth, neu at fwy o adnabod ac atgyfeirio, er enghraifft.

Bydd y grŵp gweithredol hefyd yn gweld lle, i ateb y problemau, y bydd angen datblygu prosesau ac arferion gyda rhanbarthau neu bartneriaethau cyfagos. Er enghraifft, efallai y bydd MARAC am atgyfeirio at MARAC arall cyfagos a throsglwyddo gwybodaeth iddynt, efallai y bydd partneriaid eisiau gwybodaeth am gamdrinwyr 'cyfresol' o ardal arall neu efallai y bydd y bartneriaeth eisiau sefydlu llwybr atgyfeirio at gorff arbenigol gyda chyfansoddiad i wasanaethu ardal neu ranbarth gwahanol.

Dyma rai enghreifftiau o nifer o gwestiynau monitro sylfaenol y gallai'r bartneriaeth weithredol eu gofyn, a'u harwyddocâd:

DRAFT

- ydy gwerth yr hyfforddiant wedi'i adlewyrchu gan fwy o ddatgelu ac atgyfeirio? Os na, a yw'r asiantaethau partner yn cefnogi'r staff i ofyn ac ymateb i ddatgelu?
- a yw nifer y datgeliadau a'r atgyfeiriadau'n adlewyrchu'r nifer y byddid wedi'i ddisgwyl, ar sail poblogaeth? Os na, sut mae modd ei gwneud yn haws i bobl ddatgelu?
- a yw nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau arbenigol yn cyfateb i nifer y bobl sy'n cael eu hatgyfeirio? Os oes gwahaniaeth sylweddol rhwng faint sy'n cael eu hatgyfeirio a faint a welir gan wasanaethau arbenigol, nid yw'r bobl sydd mewn perygl o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn derbyn yr ymateb sydd ei angen arnynt i fod yn ddiogel.

### Hysbysu'r grŵp strategol ac adrodd iddo

Mae'r grŵp gweithredol yn sicrhau bod y grŵp strategol yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arno i wneud penderfyniadau, newidiadau a gwelliannau. Mae'n adrodd ar ddarparu'r cynllun gweithredu, ac yn nodi os gwyrir oddi wrth y cynllun. Mae'r mesurau perfformiad yn cael eu dadansoddi a'u darparu i'r grŵp strategol gyda sylwadau ac argymhellion. Dylai'r grŵp gweithredol dynnu sylw at y meysydd lle mae angen ymyriad strategol i'w datrys.

Dylai'r bartneriaeth weithredol nid yn unig ddarparu data, ond astudiaethau achos, mewnbwn gan ddefnyddwyr gwasanaeth, a gwybodaeth am faterion a gafodd eu hadnabod a'u datrys. Gall y grŵp gweithredol hefyd gynnig addasiadau i'r cynllun gweithredu lle mae amgylchiadau neu ganlyniadau'n awgrymu bod efallai angen dull gwahanol i gwrdd â nodau strategol y bartneriaeth.

### Rôl y cynrychiolydd sefydliadol mewn cydweithredu

Mae gweithio'n gydweithredol yn fwy na mynychu cyfarfodydd a fforymau. Pan fydd partneriaid yn dychwelyd i'w sefydliadau eu hunain, mae ganddynt gyfrifoldeb i barhau gwaith y bartneriaeth a sicrhau bod gwaith eu hasiantaethau'n adlewyrchu'r nodau cydweithredu.

Mae egwyddorion cynrychioli sefydliad yn dda ar bartneriaeth yn debyg p'un ai yw'r bartneriaeth yn un strategol neu weithredol. Ym mhob grŵp partneriaeth, y partneriaid unigol yw llais eu hasiantaeth, gan nodi lle mae nodau eu hasiantaeth hwy yn cefnogi ac yn ychwanegu at nodau'r bartneriaeth, lle mae gweithio gyda'i gilydd yn cael mwy o effaith ac yn creu'r cysylltiadau i strategaethau eraill.

Mae'n bosibl y bydd asiantaethau sy'n bartneriaid yn dymuno penodi arweinydd trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol i oruchwylio gwaith yr asiantaeth a rhoi sbardun strategol i'r sefydliad.

### Arweinyddiaeth

Bydd angen i gynrychiolwyr sefydliadau ddangos **arweinyddiaeth** a defnyddio eu dylanwad ar gydweithwyr a staff i wneud trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn fusnes craidd, drwy annog a hyfforddi gweithwyr rheng flaen proffesiynol i holi defnyddwyr gwasanaeth am eu profiadau, gofyn bod rheolwyr yn cefnogi staff i wneud hyn a chasglu gwybodaeth i ddadansoddi a meddwl yn ddwys am waith yr asiantaeth yn y maes hwn. Bydd angen iddynt ddatblygu polisïau a

gweithdrefnau mewnol yn nodi'n glir beth yw disgwyliadau'r sefydliad o ran dull ac ymrwymiad.[19]

Bydd hefyd angen i'r cynrychiolwyr arwain ar ddatblygu protocolau rhannu gwybodaeth yn unol â'r fframwaith WASPI. I rai asiantaethau partner, efallai y bydd y protocolau hyn yn gofyn am newid diwylliant a'u dealltwriaeth o'u cyfrifoldebau i ddefnyddwyr gwasanaeth. Bydd angen i newidiadau o'r fath gael eu cyflwyno'n ofalus a meddylgar fel na chaiff hyder staff ei danseilio.

Dylai'r arweinwyr strategol weithredu ar ran y bartneriaeth yn eu sefydliadau drwy:

- ymrwymo i gyfrannu'n weithredol at bartneriaeth ar bob lefel;
- ymgorffori'r gwaith trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol o fewn systemau rheoli perfformiad mewnol;
- sicrhau bod gan eu hasiantaeth eu hunain lwybr gofal mewnol ar gyfer dioddefwyr trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol sy'n cysylltu i lwybr y bartneriaeth;
- sicrhau nad yw ymdrechion i wireddu nodau strategol eu hasiantaethau unigol yn rhwystro'r amcanion trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol; a
- datrys problemau gyda'r partneriaid eraill i sicrhau llwybrau gofal llyfn.

### Systemau ymatebol

Bydd angen i bartneriaid sy'n cydweithredu'n weithredol a strategol greu systemau ymatebol yn eu sefydliadau eu hunain i sicrhau bod amcanion y bartneriaeth yn cael eu cwrdd.

Bydd y rhain yn cynnwys adolygu'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol a sicrhau bod staff yn derbyn hyfforddiant cydnabyddedig priodol. Dylai partneriaid ystyried gofyn bod yr holl staff sy'n dod i gysylltiad â'r cyhoedd yn derbyn datblygiad proffesiynol parhaus drwy hyfforddiant amlasiantaethol ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Bydd angen i bartneriaid atgyfnerthu'r hyfforddiant y mae staff yn ei dderbyn, gyda thrafodaethau mewnol a hyfforddiant ar brosesau mewnol. Bydd hyn yn cynnwys dod o hyd i rywle cyfrinachol i "Ofyn a Gweithredu". Ar gyfer sefydliadau a fydd wedi eu hadnabod i fod â phroffesiynau blaenoriaeth ar gyfer "Gofyn a Gweithredu", bydd angen i'r partneriaid strategol oruchwylio datblygiad y newid ymarfer hwn. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar wahân ar "Ofyn a Gweithredu".

Mae gan bob awdurdod lleol a bwrdd iechyd lleol bolisi gweithle ar gyfer trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol a ddylai fod yn nodi'r cymorth a gynigir i rai sydd mewn perygl o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac sy'n mynd i'r afael ag ymddygiad staff sy'n cyflawni'r materion hyn. Mae hyn yn arfer da a dylai asiantaethau partner eraill ddilyn eu hesiampl.[20] Dylid rhoi cyhoeddusrwydd i'r polisïau hyn i sicrhau bod rheolwyr yn deall eu cyfrifoldebau.

Dylai partneriaid sicrhau bod eu harferion cyflogaeth, ar draws y bwrdd, yn cefnogi staff sy'n datgelu camdriniaeth drwy weithredu i'w cadw'n ddiogel yn y gwaith a'u helpu i aros yn ddiogel y tu allan i'r gwaith.[21] Dylid briffio staff ar hyn ac ailadrodd y neges hon i staff yn rheolaidd.

### Monitro perfformiad

Bydd data am berfformiad yn hanfodol i'r gwaith o wella gwasanaethau. Bydd hefyd yn wybodaeth hanfodol i'r bartneriaeth ei chael a'i chyfuno â data gan asiantaethau partner eraill i gael darlun llawn o'r hyn sy'n cael ei gyflawni drwy gydweithredu.

Dylai'r holl bartneriaid adolygu eu gwaith trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn rheolaidd i adnabod meysydd sy'n gweithio'n dda a rhai sydd angen eu gwella.

Bydd angen i bartneriaid greu systemau mewnol i gofnodi a rhannu gwybodaeth ag asiantaethau partner fel rhan o'r gwaith fforwm, ond efallai hefyd y bydd angen iddynt ehangu eu systemau i hwyluso eu gwaith ar y cynllun gweithredu ac unrhyw gyfraniadau pellach a wneir ganddynt i helpu dioddefwyr trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Dylai partneriaid hefyd gasglu data sy'n adlewyrchu eu gwaith ar hyd y llwybr gofal, er enghraifft faint o bobl a holwyd am drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, faint a ddatgelodd, faint o gynlluniau diogelwch a grëwyd, faint o bobl a atgyfeiriwyd ac at ba wasanaeth. Dylai partneriaid gysylltu'r gwaith hwn i waith yr Arsyllfa VAW i helpu i greu set ddata Cymru gyfan.

Gall asiantaethau partner hefyd gyfrannu data fel tystiolaeth o ganlyniadau, er enghraifft llai o risg i gleientiaid, camdrinwyr yn cael eu herlyn yn llwyddiannus.

Dylai'r holl wybodaeth hon gael ei chasglu a'i defnyddio yn yr asiantaethau i oleuo a gwella gwasanaethau, a hefyd ei throsglwyddo i'w partneriaid. Dylai dangosyddion rheoli perfformiad yr asiantaethau partner eu hunain gynnwys rhai sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn.

O fewn eu hasiantaethau, bydd hefyd angen i bartneriaid strategol ymrwymo cyllid i hwyluso'r amcanion trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Gallai hyn gynnwys cyllid i hyfforddi staff. Bydd angen i bartneriaid sicrhau bod yr hyfforddiant a roddir ganddynt yn cyd-fynd â'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol.

### Yn cefnogi gwaith y fforymau amlasiantaethol

Bydd gan gyrff cyhoeddus perthnasol wedi eu datganoli ddyletswydd i gyfrannu at fforymau amlasiantaethol a sefydlir i rannu gwybodaeth a hyrwyddo diogelwch unigolion sydd mewn perygl o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Dylai'r holl bartneriaid sy'n cael cyswllt â phobl sydd mewn perygl o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ac sydd â gwybodaeth i'w rhannu, geisio cyfrannu at y fforymau hyn.



DRAFT

I staff sy'n cyfrannu'n briodol at y fforymau hyn, bydd angen i'w hasiantaeth:

- nodi rhywun i fod yn gyfrifol am ymgysylltu â'r fforwm;
- penderfynu pa wybodaeth a data perthnasol sydd gan yr asiantaeth i'w rhannu;
- cysoni eu polisïau diogelu data mewnol â pholisïau a phrosesau rhannu gwybodaeth y fforwm;
- penderfynu sut a phwy fydd yn tynnu gwybodaeth o'r system ar gyfer y gwaith hwn a sut y bwriedir cofnodi a storio unrhyw wybodaeth a enillir drwy'r fforwm;
- diweddaru systemau mewnol i gwrdd â'r cyfrifoldebau newydd hyn, e.e. drwy greu'r capasiti i 'fflagio' ffeil neu ychwanegu maes newydd at system electronig i wneud chwiliad penodol;
- sicrhau bod staff sy'n mynychu'r fforwm yn bobl ar y lefel iawn a bod ganddynt y wybodaeth briodol;
- bwydo canlyniadau proses y fforwm yn ôl i'w systemau eu hunain i wella ansawdd gwaith yr asiantaeth gyda phobl sydd mewn perygl o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
- cynnwys adolygiad o'r broses hon a'i heffaith ar waith yr asiantaeth wrth adolygu gwaith a pherfformiad y staff sy'n cymryd rhan.

DRAFT

**Mae gofyn i awdurdodau perthnasol:**

**Edrych ar drefniadau sy'n bodoli'n barod o ran trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol a cheisio wneud y defnydd gorau ohonynt.**

**Lle nad oes fforymau ar gael, cydweithredu ag awdurdodau perthnasol eraill i ystyried eu hymateb i'r rhai sydd wedi dioddef trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Bydd gofyn gwneud hyn yn arbenig y nachos y rhai sydd heb eu nodi fel pobl sydd mewn perygl mawr o niwed difrifol, er mwyn ymyrryd yn gynnar a nodi achosion lle mae angen uwchgyfeirio, o bosibl.**

**Wrth ystyried a ddylid sefydlu fforymau amlasiantaethol newydd, dylai awdurdod perthnasol ddilyn y model datblygu prosiectau ar gyfer fforymau amlasiantaethol sy'n canolbwyntio ar gleintiaid (fel yr amlinellir isod) i sicrhau ei bod yn cael ei monitor o ran diben, effeithiolrwydd a chanlyniadau.**

**Wrth ystyried y fforymau sy'n bodoli'n barod, a sefydlwyd yn lleol i fynd i'r afael a thrais ar sail rhyw, cam-drin domestig a thrais rhywiol, mae gofyn i'r awdurdodau perthnasol:**

**Sicrhau bod dulliau systematig o nodi clientiaid sydd angen ymateb amlasiantaeth yn cael eu rhoi ar waith drwy'r sefydliad a bod y brose hon yn efelychu ac yn ategu prosesau awdurdodau perthnasol eraillа phroses y fforymau.**

**Sicrhau bod y broses nodi hon yn arwain at atgyfeiriadau priodol drwy gyhoeddi a hyrwyddo meini prawf atgyfeirio'r fforymau amlasiantaethol i dimau staff yn rheolaidd.**

**Sicrhau cyfranogiad mewn llwybrau atgyfeirio i ddarparwyr gwasanaethau arbenigol ym maes trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, i sicrhau bod pob dioddefwr sydd wedi'i nodi yn cael mynediad i gymorth arbenigol.**

**Ymuno ag unrhyw brotocolau rhannu gwybodaeth lleol i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n gyfreithiol ac yn briodol drwy'r fforwm.**

**Cymryd camau i gynyddu ymwybyddiaeth staff o'r broses o rannu gwybodaeth a rhoi hysbysrwydd i ddiben y protocol rhannu gwybodaeth.**

**Mae gofyn i awdurdodau perthnasol:**

**Enwebu aelodau o adrannau perthnasol a fydd yn cynrychioli'r adrannau hynny yn y fforymau amlasiantaethol. Dylai'r adrannau hynny gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny: gwasanaethau beichiogrwydd ac ôl-feichiogrwydd, Damweiniau ac Achosion Brys, gofal cymdeithasol i blant, gofal cymdeithasol i oedolion, gwasanaethau iechyd meddwl, gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, addysg, tai a thimau troseddau ieuenctid.**

**Sicrhau bod dirprwyon ar gael i sicrhau cynrychiolaeth gyson a gwybodus mewn fforymau amlasiantaethol,**

**Dylai'r dirprwyon hynny fod ar y lefel briodol i gynnig camau gweithredu ac i wneud penderfyniadau yn y fforymau, ar ran y sefydliad perthnasol.**

**Cynnig camau gweithredu perthnasol i'r fforymau er mwyn diogelu dioddefwyr a phlant sy'n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.**

Er mwyn rhoi ymateb cynhwysfawr i rai sy'n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, mae'n bwysig bod yr holl awdurdodau perthnasol yn cyfrannu at, ac yn mynychu, fforymau amlasiantaethol lleol sy'n hwyluso rhannu gwybodaeth ac sy'n hyrwyddo diogelwch unigolion sydd mewn perygl.

Mae'r fforymau hyn yn arbennig o werthfawr, fel y nodir uchod, i fynd i'r afael â sawl agwedd ar fywydau cleientiaid: y niwed a wynebir ganddynt hwy a'u plant, y systemau sy'n rhaid gweu drwyddynt i gael help yn ogystal â'r ffactorau agored i niwed personol sy'n gwaethygu eu risg. Prif bwrpas y cyfarfodydd hyn yw rhannu gwybodaeth a gweithio gyda'n gilydd i helpu dioddefwyr ac adnabod camdrinwyr i ateb i'w camweddau.

Mae ymrwymiad gweithredol i'r fforymau hyn yn gofyn bod yr asiantaethau a'r byrddau sy'n cyfrannu atynt yn integreiddio gwaith y grwpiau hyn o fewn eu strwythurau mewnol, dulliau atebolrwydd a systemau casglu data, fel yr eglurir uchod.

Wrth i asiantaethau partner elwa o'r hyfforddiant a gallu adnabod dioddefwyr trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn gynt drwy'r broses "gofyn a gweithredu", bydd angen iddynt ddeall a chyfrannu i'r fforymau sy'n trafod prosesau a gweithdrefnau, a'r rhai sy'n adolygu achosion, i lunio cynllun amlasiantaethol ar sut i helpu dioddefwyr.

DRAFT

## Elfennau allweddol y fforymau amlasiantaethol

Cydnabyddir yn eang bod angen cydweithrediad nifer o wahanol asiantaethau i ymateb yn effeithiol i drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae amryw o fforymau'n bodoli i ddarparu ymateb o'r fath ac i fynd i'r afael yn briodol â phroblemau trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'r fforymau hyn hefyd yn gyfle i ystyried ffactorau agored i niwed ychwanegol ac i ymgysylltu'n eang â gwasanaethau (ceir rhestr yn atodiad 1).

Y math mwyaf sefydlog o fforwm amlasiantaethol yng Nghymru yw'r MARAC. Mae cynadleddau MARAC wedi bod yn rhedeg yng Nghymru ers dros ddeng mlynedd ac yn esiampl lwyddiannus o fforwm amlasiantaethol, gan ymateb yn gydweithredol i rai y cawsant eu nodi fel rhai sy'n wynebu "risg uchel" o niwed sylweddol neu farwolaeth oherwydd cam-drin domestig. Mae'r cynadleddau MARAC yn weithredol ar draws y wlad ac, yn 2013-14, rhoesant sylw i achosion 6000 o oedolion risg uchel, gan gynnwys 700 o blant.[22]

Mae'r broses MARAC yn canolbwyntio ar roi ymateb blaenoriaeth i rai sy'n wynebu'r risg fwyaf er mwyn atal y sefyllfa rhag gwaethygu ymhellach ac achosi niwed difrifol i ddioddefwyr a phlant. Er nad yw'n broses statudol, mae'r broses MARAC wedi gwreiddio'n dda bellach o fewn y prosesau datblygu a chanlyniadau sefydledig.

Mae ardaloedd lleol bellach yn datblygu ymatebion i rai nad ydynt yn risg uchel er mwyn darparu gwasanaethau adnabod ac atal yn gynt i rai sy'n risg is. Mae hyn yn faes ymarfer pwysig ac mae'r ardaloedd lleol yn dangos arloesedd a meddwl creadigol wrth ddatblygu'r ymatebion hyn. Mae'r rhain yn cynnwys y posibilrwydd o sefydlu Canolfannau Diogelu Amlasiantaethol, defnyddio galwadau cynadledda a 'sbardunau' ar gyfer amryw o wahanol ymyriadau. Mae'r arloesi hwn yn greiddiol i ymateb i drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol ond mae'n bwysig sicrhau ymateb cyson ledled Cymru.

Er y gallai ardaloedd ddewis datblygu eu modelau eu hunain, mae'n bwysig bod pob ardal yn ystyried ymateb yn gynt i ddioddefwyr trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol nad ydynt mewn perygl o niwed difrifol yn fuan, er mwyn adnabod achosion lle gallai'r sefyllfa waethygu.

Wrth wneud hyn mae'n greiddiol bod awdurdodau perthnasol yn profi eu cynigion yn erbyn cyfres o gerrig milltir datblygiadol i sicrhau bod y model arfaethedig yn cwrdd â'i amcanion ac yn cynnig yr ateb angenrheidiol i'r broblem dan sylw. Ni ddylid creu modelau gwaith amlasiantaethol er eu mwyn eu hunain, **rhaid iddynt fod yn effeithiol ac i'r pwrpas.**

Mae'r adran ganlynol yn cynnig canllawiau i'w hystyried wrth ddatblygu ymatebion amlasiantaethol newydd. Awgrymir bod pob cynnig lleol i gydweithredu mwy ar sail fforwm neu gleientiaid yn cael ei fwydo drwy'r model hwn i sicrhau y caiff ei fonitro am ei bwrpas, effeithiolrwydd a chanlyniad.

Wrth ystyried a ddylid sefydlu fforymau amlasiantaethol newydd, dylai awdurdodau perthnasol ddilyn y weithdrefn ganlynol i sicrhau eu bod yn cael eu monitro o ran diben, effeithiolrwydd a chanlyniadau.

Mae'r canllawiau'n canolbwyntio ar y penawdau canlynol:

- adolygu fforwm presennol neu sefydlu ymateb newydd - gofyn y cwestiynau caled i ddiffinio eich dull a'ch pwrpas;
- beth fydd angen i'r awdurdodau perthnasol ei wneud;
- ffactorau i'w monitro er mwyn sicrhau'r budd gorau i'r fforwm;
- creu fframwaith gwerthuso - casglua dadansoddi gwybodaeth i sicrhau bod yr ymyriad yn gwneud gwahaniaeth i fywydau'r rhai y mae'n ceisio eu helpu.

DRAFT

## Model datblygu prosiectau ar gyfer fforymau amlasiantaethol cleient-ganolog

### Adolygu fforwm presennol neu sefydlu ymateb newydd

**Penderfynu ar amcanion**

- Beth mae'r fforwm am ei gyflawni?
- Beth sydd ei eisiau a'i angen ar bobl sydd mewn perygl o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol?
- Sut byddwch chi'n gwybod eich bod yn llwyddo?

**Pa strwythurau sydd eu hangen ar y fforwm?**

- Pwy sydd angen bod yno?
- Pwy yw'r corff arweiniol?
- Pa ddogfennau fframwaith cyfreithiol a gweithdrefnol sydd eu hangen?
- Sut y bwriedir hwyluso rhannu gwybodaeth yn gyfreithiol ac effeithiol?
- Pwy sy'n gyfrifol am y drefniadaeth o ddydd i ddydd ac am gydgysylltu'r fforwm?
- Sut y bydd gwaith y fforwm hwn yn cael ei egluro i'r rhai y mae'n ceisio eu helpu?

**Llywodraethu a chyllid**

- Pa broses neu grŵp sydd yn ei le i oruchwylio'r fforwm hwn?
- Beth yw cyfrifoldebau ac ymrwymiadau'r partneriaid?
- Sut byddwch chi'n dal eich gilydd i gyfrif am wneud eich rhan?
- Sut bydd y fforwm amlasiantaethol hwn yn cael ei ariannu yn y tymor byr a'r tymor hir?

**Cysylltiadau â fforymau a sefydliadau presennol**

- Sut mae'r fforwm hwn yn cysylltu â gwaith a byrddau amlasiantaethol eraill?
- Sut mae'r fforwm hwn yn gweithio ochr yn ochr ag asiantaethau cysylltiedig, fforymau amlasiantaethol a chyfarfodydd amlasiantaethol eraill fel MAPPA?
- A yw'r fforwm wedi ymchwilio i, ac adolygu, fforymau eraill ag amcanion / grwpiau cleientiaid tebyg?

**Beth fydd gofyn i barteriaid ei wneud?**

Nodi
Gweithiwr allweddol
Ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth
Gweithdfrefnau atgyfeirio
Ymchwil a rhannu gwybodaeth
Cynllunio gweithredu
Gweithredu ac adrodd

**Ffactorau i'w monitro i wneud y gorau o fudd y fforwm**

Atgyfeiriadau
Aelodaeth
Niferoedd
Cydraddoldeb ac amrywiaeth

### Creu fframwaith gwerthuso

Sut beth yw llwyddiant ar gyfer yr ymyriad hwn?
Sut a phryd y gallwch gasglu ymateb y defnyddwyr gwasanaeth i'r newid yn eu sefyllfa?
A yw'r canlyniadau hyn yn cysylltu â'r nodau strategol?
Ystyriwch gost yr ymyriad hwn yn erbyn y budd i gleientiaid ac asiantaethau

## Adolygu fforwm presennol neu sefydlu ymateb newydd

### Penderfynu ar amcanion

- Beth y mae'r fforwm eisiau ei gyflawni? Dylai'r partneriaid gytuno ar amcan y fforwm ac ystyried risg, diogelwch, lles y cleient a dal camdrinwyr i gyfrif. Pan adolygir y fforwm, dylai'r partneriaid benderfynu a yw'n cwrdd â'i amcan ac a yw hynny'n parhau i gefnogi nodau strategol y bartneriaeth.
- Beth sydd ei eisiau a'i angen ar bobl sydd mewn perygl o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol? Dylai hyn ddeillio o ddadansoddi angen ac o broses o ymgynghori â grwpiau defnyddwyr gwasanaeth a dylai oleuo'r gwaith o gynllunio ac adolygu fforymau.
- Sut y byddwch yn gwybod eich bod yn llwyddo? Dylid penderfynu pa wybodaeth berthnasol i'w gasglu i ddadansoddi canlyniadau ansoddol a meintiol. Dylid cytuno ar neu ailystyried beth y disgwylir i'r ymyriad ei wneud. Sut y byddwch neu'r ydych yn monitro a gwerthuso?

### Pa strwythurau sydd eu hangen ar y fforwm?

- Pwy sydd angen bod yno? Dylid cytuno ar bartneriaid priodol a pha lefel swydd sydd ei angen i gyflawni nodau'r fforwm. Wrth adolygu, dylid ystyried partneriaid newydd a lefel ymgysylltiad hen bartneriaid.
- Adnabod corff i arwain ar faterion gweithredol. Wrth ailwampio pethau, dylid ystyried a yw'r corff neu'r unigolyn sy'n arwain yn dal yn gallu darparu'r arweinyddiaeth sydd ei hangen neu a ddylai'r cyfrifoldeb basio i rywun arall.
- Pa ddogfennau fframwaith cyfreithiol a gweithdrefnol sydd eu hangen? Dylid creu cyd-bolisïau a gweithdrefnau - gan adnabod unrhyw risg a grëir gan wasanaeth a'u dileu. Un o'r themâu cyffredin mewn Adolygiadau Dynladdiad Domestig yw bod angen dull cyson o adnabod, asesu a rheoli risg i bob gweithwyr proffesiynol. [23] Wrth arfarnu fforwm presennol, dylid adolygu'r dogfennau fframwaith: a ydynt yn ddigonol o hyd? A yw'r partneriaid yn dal i'w defnyddio? Os nad oes gan bartneriaid ddealltwriaeth gyffredin mwyach o elfennau allweddol y fforwm ac mae'r dulliau'n anghyson, dylai'r grŵp llywodraethu edrych eto ar y pethau sylfaenol i ail-greu unffurfiaeth.
- Sut y bwriedir hwyluso rhannu gwybodaeth yn gyfreithiol, diogel ac effeithiol? A fyddwch yn gofyn am, ac a fydd angen caniatâd yr unigolyn arnoch i rannu gwybodaeth? Thema gyffredin arall mewn Adolygiadau DHR yw bod angen rhannu gwybodaeth am risg rhwng asiantaethau'n well. Bydd canllawiau ar wahân ar gyfer hyn a dylai'r fforymau adolygu eu polisïau presennol yng ngoleuni'r cyngor newydd hwn.
- Pwy sy'n gyfrifol am y drefniadaeth o ddydd i ddydd ac am gydgysylltu'r ymarfer hwn? Pwy fydd yn talu amdano? Fel gyda'r corff sy'n arwain uchod, dylid adolygu'r cwestiynau hyn yn rheolaidd.

- Sut y bydd yr ymyriad hwn, gwaith y fforwm hwn, yn cael ei egluro i'r rhai y mae'n ceisio eu helpu? Dylai partneriaid gytuno ar eglurhad o'r gwaith hwn a rhoi taflen esboniadol i rai lle mae'r fforwm yn trafod eu hachosion, os yw'n ddiogel gwneud hynny, er mwyn hwyluso eu hymgysylltiad.

### Llywodraethu a chyllid

- Pa broses neu grŵp sydd yn ei le i oruchwylio'r fforwm hwn? Dylai strwythur llywodraethu'r fforwm gysylltu ac adrodd i grwpiau gweithredol a strategol y bartneriaeth.
- Beth y mae'r partneriaid yn ei ddisgwyl oddi wrth ei gilydd? Beth yw cyfrifoldebau ac ymrwymiadau'r partneriaid? Er enghraifft, dylai partneriaid ddefnyddio'r ffurflenni a'r prosesau a gytunwyd arnynt; dylent ddarparu data a gwybodaeth benodol i'r fforwm; a dylai'r partneriaid weithredu fel y cytunwyd o fewn amserlen benodol.
- Sut y byddwch yn dal eich gilydd i gyfrif am wneud eich rhan i sicrhau bod yr ymyriad hwn yn gweithio? Dylai asiantaethau partner y fforwm gytuno ar sut y bwriedir gwneud hyn. Bydd hefyd angen iddynt sicrhau bod eu hasiantaeth eu hunain yn disgwyl iddynt adrodd yn ôl yn rheolaidd i'w sefydliad. Fel awgrym ailwampio, dylid ystyried a yw'r trefniadau atebolrwydd hyn yn gweithio a rhoi sylw i unrhyw fethiant.
- Sut y bydd y fforwm amlasiantaethol hwn yn cael ei ariannu yn y tymor byr a hir? Dylid casglu gwybodaeth a chanlyniadau a'u bwydo i'r bartneriaeth fel y gall ddod o hyd i gyllid. Dechreuwch drwy gysylltu'r canlyniadau a'r manteision i'r cyfrifoldeb am gyllid.

### Cysylltiadau â fforymau a sefydliadau

- Sut y mae'r fforwm hwn yn cysylltu â gwaith a byrddau amlasiantaethol eraill? Dylid osgoi dyblygu a chydgysylltu a thynnu sylw'r holl gyrff ac awdurdodau perthnasol a chyfrifol at y gwaith.
- Sut y mae'r fforwm hwn yn gweithio ochr yn ochr ag asiantaethau cysylltiedig, fforymau amlasiantaethol a chyfarfodydd amlasiantaethol eraill fel y Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA)[24]? A oes trefniadau ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth rhwng fforymau, er enghraifft a oes gweithdrefnau i drosglwyddo o un MARAC i'r llall yn eu lle? Os yw'r un bobl yn cael eu trafod mewn amryw o wahanol fforymau, a oes angen gwneud hyn? Pa brosesau sydd yn eu lle i sicrhau bod y wybodaeth a rennir yn gyson a bod y cynlluniau gweithredu'n gydnaws ac wedi eu cwblhau gan wybod am y broses arall?
- A yw'r fforwm wedi gwneud ei ymchwil? A yw'r grŵp yn gwybod am ymyriadau eraill yn yr ardal leol, yn y rhanbarth neu yng Nghymru sydd ag amcanion neu grwpiau cleientiaid tebyg, neu sy'n defnyddio prosesau arloesol a allai weithio i gyflawni'r un nod?

## Beth a ddisgwylir gan awdurdodau perthnasol?

Unwaith y cytunir ar bwrpas, gweithdrefnau ac ymrwymiad i'r bartneriaeth, bydd angen datblygu'r systemau ar gyfer pob fforwm.  Mae gan unrhyw ymyriad amlasiantaethol sawl cam allweddol. Amlinellir y camau hyn isod, gydag enghreifftiau o'r broses MARAC, sef yr ymyriad amlasiantaethol mwyaf sefydledig ac a ddefnyddir ehangaf.

DRAFT

| Camau ar gyfer ymyriad amlasiant-aethol effeithiol | Eglurhad | Cwestiynau y mae angen i gyfranogwyr a'u sefydliadau eu gofyn | Enghreifftiau o ymarfer ac adnoddau MARAC[25] |
|---|---|---|---|
| Adnabod | Defnyddir proses neu ddull asesu penodol gan bob partner i adnabod rhai fydd yn elwa o'r ymyriad.<br><br>Dylai'r partneriaid anelu at gael dull asesu cyffredin | A oes gan eich sefydliad ffordd systematig o adnabod cleientiaid a fyddai'n elwa o'r ymyriad hwn?<br><br>Sut y bydd eich sefydliad yn adnabod pobl sy'n addas ar gyfer yr ymyriad hwn? | Rhestr Adnabod Risg DASH gan Camlasiantaethol DA |
| Gweithiwr allweddol | Bydd gan ddioddefwr weithiwr allweddol i'w gefnogi ac yn gallu darparu ei hun, neu gysylltu i wasanaeth trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol arbenigol a'r fforymau amlasiantaethol. | Pwy fydd yn darparu'r cymorth arbenigol i bob agwedd ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol?<br><br>A fydd eich sefydliad yn eich cefnogi i fod y gweithiwr allweddol os nad yw'r dioddefwr yn fodlon defnyddio gwasanaethau eraill? | IDVA hyfforddedig |
| Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth | Bydd angen cysylltu â defnyddwyr gwasanaeth i gasglu gwybodaeth fwy diweddar, i holi eu barn ac i roi gwybod iddynt am gyfarfod y fforwm, os yw'n ddiogel gwneud hynny. | Sut y mae eich sefydliad yn annog a chynnwys cleientiaid yn y broses hon?<br><br>Ydy eich sefydliad neu'r fforwm yn gallu cwrdd â disgwyliadau'r dioddefwyr: gwrandewir ar eu barn, diweddarir hwynt yn gyson a bod y broses yn dryloyw (lle bo'n ddiogel)?<br><br>Sut ydych yn cael gafael ar y wybodaeth yma?<br><br>Sut y defnyddir profiad y defnyddiwr i wella'r broses? | IDVA hyfforddedig<br><br>Gwybodaeth i ddioddefwyr a atgyfeiriwyd at MARAC.<br><br>Adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth. |
| Gweithdrefnau Atgyfeirio | Llwybr gofal clir gyda chamau a ffurflenni i roi cymorth priodol i ddioddefwyr a gwybodaeth briodol i'r fforwm. | A oes gan eich sefydliad lwybr clir i weithwyr rheng flaen ei ddilyn ar ôl adnabod cleientiaid?<br><br>A oes cyhoeddusrwydd da i'r broses hon? | Ffurflen Atgyfeirio MARAC<br><br>Ffurflen Atgyfeirio o un MARAC i'r llall |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | A oes gennych ffurflen safonol ar gyfer atgyfeirio i'r fforwm? | |
| Rhannu gwybodaeth ac ymchwil | Mae partneriaid yn chwilio drwy eu ffeiliau ac yn mynychu cyfarfodydd gyda'r wybodaeth briodol a llawn | A yw'r sefydliad wedi ymrwymo i'r Protocol Rhannu Gwybodaeth perthnasol?<br><br>A yw gwybodaeth yn cael ei rhannu a'r fforwm yn unol â hyn ac â'r fframwaith deddfwriaethol?<br><br>Pa wybodaeth y gallwch ei rhannu i roi gwybod i'r fforwm i ddarparu gwasanaeth gwell i'r cleient | Ffurflen Ymchwil MARAC<br><br>Ffurflen rhannu gwybodaeth heb ganiatâd<br><br>Cwestiynau Cyffredin - datgelu gwybodaeth yn y MARAC |
| Cynllunio gweithredu | Pawb yn cyfrannu i'r cynllun gweithredu a gyda'r capasiti i gyflawni'r camau gweithredu Cynllun gweithredu'n blaenoriaethu risg | Pa gamau gweithredu allwch chi eu cynnig?<br><br>Ydy'r camau'n rhai CAMPUS?<br><br>Allwch chi weithio ar y cyd i wella'r ymateb i'r dioddefwr?<br><br>Sut allwch chi ddefnyddio a chydgysylltu gwaith eich partneriaid? | Cofnodion a Chynllun Gweithredu MARAC |
| Gweithredu ac adrodd | | Sut ydych chi'n rhoi gwybod i'r fforwm amlasiantaethol eich bod wedi cwblhau eich gweithredu?<br><br>A yw eich sefydliad yn gweld gweithrediad y cynllun gweithredu amlasiantaethol fel busnes craidd? | Ffurflen olrhain gweithredu i'w defnyddio gan y Cydgysylltydd MARAC.<br><br>Gwybodaeth a data wedi eu casglu a'u dadansoddi i ddangos tystiolaeth o effaith y gwaith amlasiantaethol. |

DRAFT

## Ffactorau i'w monitro er mwyn manteisio i'r eithaf ar y fforwm

Os yw fforwm i gwrdd ag angen wedi'i nodi, mae ffactorau penodol yn bwysig, er nad ydynt yn arwydd o lwyddiant ynddynt eu hunain, Dylai sefydliadau perthnasol fonitro pwyntiau ar hyd y llwybr gofal a dangosyddion o ymgysylltiad y bartneriaeth. Dyma'r agweddau, os byddant yn dechrau llithro, sy'n debygol o effeithio ar lwyddiant cyffredinol yr ymyriad.

Dyma restr fer o ffactorau o'r fath. Gallai sefydliadau perthnasol ddarganfod bod ffactorau pwysig eraill sy'n berthnasol i'w fforwm amlasiantaethol. Pan fydd perfformiad yn erbyn y rhain yn dechrau dirywio, bydd angen i'r corff llywodraethu ateb y broblem. Lle erys perfformiad y ffactorau hyn yn wael, efallai y bydd y corff llywodraethu am ddychwelyd at y cwestiynau adolygu uchod, a'r mesurau canlyniad, i ailasesu ai'r fforwm yw'r ffordd orau o gwrdd ag anghenion y grŵp cleientiaid hwnnw.

| **Ffactor** | **Pam ei fod yn bwysig** | **Beth allai fynd o'i le** | **Ateb** |
|---|---|---|---|
| Atgyfeiriadau | Bydd angen i bob partner adnabod dioddefwyr trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol | Gall partneriaid gymryd yn ganiataol y bydd rhywun arall yn atgyfeirio'r achos neu mai cyfrifoldeb rhywun arall ydyw Gall partneriaid hefyd atgyfeirio'n amhriodol am nifer o resymau. | Monitro atgyfeiriadau gan bob asiantaeth ac asesu a rhoi sylw i lefel atgyfeirio isel, gostyngiad neu gynnydd mewn atgyfeirio. |
| Aelodaeth (wedi a heb eu datganoli) a phresenoldeb | Bydd gan gleientiaid amrywiaeth o anghenion lle mae angen i amrywiaeth o gyrff wneud eu rhan. Heb iddynt wneud eu rhan, ni fydd ansawdd yr ymyriad cyfunol cystal. | Nid yw sefydliadau allweddol yn mynychu.<br><br>Nid yw gwasanaethau gwirfoddol yn cael eu gwahodd neu ddim yn mynychu.<br><br>Nid oes gan y rhai sy'n mynychu'r awdurdod i ymrwymo adnoddau | Monitro presenoldeb a'r asiantaeth arweiniol a / neu'r corff llywodraethu i roi sylw i absenoldebau. Trafod pam fod y presenoldeb wedi newid a rhoi sylw i broblemau. |
| Niferoedd | Mae nifer y bobl sy'n cael eu hatgyfeirio i'r fforwm amlasiantaethol yn gymesur â'r boblogaeth leol a / neu lefel y troseddu, e.e. caethwasiaeth fodern. | Mae nifer y bobl sy'n cael eu hatgyfeirio'n lleihau neu'n cynyddu'n sylweddol.<br><br>Dim ond un neu ddwy asiantaeth sy'n atgyfeirio. | Trafod y rhesymau pam - ai problem systematig ydyw neu wedi'i chysylltu i broblem neu ddigwyddiad neilltuol. |
| Cydraddoldeb ac amrywiaeth | Fel bod y fforwm amlasiantaethol yn broses sy'n darparu cydraddoldeb i holl aelodau'r gymuned. | Nid yw cymunedau anodd eu cyrraedd yn ymgysylltu â'r broses. | Adolygu aelodaeth y fforwm i wahodd cyrff arbenigol.<br><br>Creu grŵp gorchwyl a gorffen |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | i roi sylw i wendidau. |

| Creu fframwaith gwerthuso |
|---|

Penderfynir ar ddangosyddion allweddol a chanlyniadau ar gyfer yr ymyriad, mae data'n cael ei gasglu a'i ddadansoddi'n rheolaidd. Bydd angen i bartneriaid y fforwm gytuno ar ddata sylfaenol a'i gasglu fel cam cychwynnol. Mae hyn yn debygol o fod yn fwy o broses na phenderfyniad, oherwydd efallai y bydd angen creu neu addasu systemau TG a gwaith papur i gasglu data dangosol.

Wrth ddatblygu cyfres o ganlyniadau ar gyfer fforwm amlasiantaethol, meddyliwch am:

- sut beth yw llwyddiant ar gyfer yr ymyriad hwn? Sut ydych yn dangos tystiolaeth fod yr ymyriad yn effeithiol, h.y. y newidiadau a'r gwelliannau i sefyllfaoedd a bywydau pobl;
- asesiad defnyddwyr gwasanaeth o'r newid yn eu sefyllfa - sut a phryd y gallwch casgluy wybodaeth hon;
- ydy'r canlyniadau hyn yn cysylltu i'r nodau strategol;
- ystyriwch gost yr ymyriad hwn a phwyso honno yn erbyn y manteision i gleientiaid ac asiantaethau[26]

Wrth i ymyriad fforwm amlasiantaethol ddatblygu ac wrth i ddealltwriaeth ac ymarfer yr asiantaethau partner ddod yn fwy soffistigedig, mae'r mesurau canlyniad yn debygol o ddatblygu hefyd. Dylai'r grŵp llywodraethu adolygu'r gyfres ganlyniadau'n rheolaidd i fod yn siŵr eu bod yn cyfleu gwerth y gwaith yn llawn. Dylid gweu hyblygrwydd o fewn y model canlyniadau fel na chollir gwerth yr ymyriad drwy lynu'n gaeth at y rhagolygon gwreiddiol.

Unwaith y bydd y fforwm amlasiantaethol wedi bod yn rhedeg am gryn amser, bydd yn ddefnyddiol adolygu enillion y gwaith yn erbyn y gost. A oes modd darparu'r manteision a gofnodir mewn ffordd wahanol ar raddfa lai?

## Geirfa a Byrfoddau

**Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod:** gweithred sy'n drosedd o dan adrannau 1, 2 neu 3 yn Neddf Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod 2003 (c. 31)

**Awdurdod Lleol (fel y'i diffinnir yn y Bil):** Cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol

**Cam-drin (fel y'i diffinnir gan y Bil):** Cam-drin corfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol.

**Cam-drin domestig (fel y'i diffinnir gan y Bil):** cam-drin lle mae'r dioddefwr yn, neu wedi bod yn gyd-gysylltiedig â'r camdriniwr.

**Cydgysylltiad (fel y'i diffinnir gan y Bil):** Mae gan berson gydgysylltiad â pherson arall, i bwrpas y diffiniad o 'gam-drin domestig':

(a) os ydynt ar hyn o bryd, neu wedi bod yn briod â'i gilydd;

(b) os ydynt ar hyn o bryd, neu wedi bod yn bartneriaid sifil i'w gilydd;

(c) os ydynt yn byw, neu wedi bod yn byw gyda'i gilydd mewn perthynas deuluol barhaus (p'un ai o wahanol ryw neu o'r un rhyw);

(d) os ydynt yn byw, neu wedi bod yn byw ar yr un aelwyd; ac i'r pwrpas hwn, mae person yn aelod o aelwyd person arall os-

(i) os yw'r person fel arfer yn byw gyda'r person arall fel aelod o'i deulu ef neu hi, neu

(ii) os gellid disgwyl yn rhesymol i'r person fod yn byw gyda'r person arall hwnnw;

(e) os ydynt yn perthyn;

(f) os ydynt wedi cytuno i briodi ei gilydd (p'un ai yw'r cytundeb hwnnw wedi'i derfynu neu beidio);

(g) os ydynt wedi llunio cytundeb partneriaeth sifil â'i gilydd (p'un ai yw'r cytundeb hwnnw wedi'i derfynu neu beidio);

(h) os oes ganddynt neu os cawsant berthynas bersonol agos â'i gilydd;

(i) yng nghyswllt plentyn, os yw'r ddau neu'r ddwy yn rhiant i'r plentyn neu mae, neu roedd ganddynt gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn.

**Cydweithredu:** Mae'r term "cydweithredu" yn cyfeirio at ymateb rhyngasiantaethol cydgysylltiedig drwy strwythur ffurfiol, neu fforwm, lle mae'r prif ffocws ar ddiogelu'r dioddefwr, lleihau fictimeiddio eilwaith a dal camdrinwyr i gyfrif. Dylai'r fforwm:

(a) mabwysiadu cyd-bolisïau a chyd-weithdrefnau cyson, gan gynnwys asesiad risg a chynllun rheoli risg a diogelwch, sy'n cydgysylltu a safoni'r ymyriadau proffesiynol i bawb sydd mewn perygl a lleihau'r risg o niwed;

(b) rhannu gwybodaeth i wella diogelwch, iechyd a lles dioddefwyr / goroeswyr - oedolion a'u plant;

(c) gweithio gyda'i gilydd i leihau fictimeiddio drachefn;

(d) gwella atebolrwydd asiantaethau;

(e) gwella'r cymorth, gan gynnwys hyfforddiant, a roddir i'r holl staff sy'n rhan o achosion cam-drin domestig; a

(f) penderfynu a yw'r camdriniwr honedig yn cyflwyno risg sylweddol i unrhyw unigolyn penodol neu i'r gymuned yn gyffredinol.

**Cynghorwr Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA):** Gweithiwr arbenigol wedi'i hyfforddi sy'n darparu cymorth gwaith achos tymor byr i ganolig i ddioddefwyr sy'n wynebu risg uchel o gam-drin domestig.

**Cynghorwr Annibynnol ar Drais Rhywiol:** Gweithiwr arbenigol wedi'i hyfforddi sy'n darparu cymorth gwaith achos tymor byr i ganolig i ddioddefwyr cam-drin rhywiol.

**DACC:** Galwad Gynadledda Cam-drin Domestig

**Ecsbloetio rhywiol:** rhywbeth a wneir i neu yng nghyswllt person sydd

(a) yn golygu cyflawni trosedd o dan Ran 1 Deddf Troseddau Rhywiol 2003 (c.42), o ran ei heffaith yng Nghymru a Lloegr, neu

(b) yn golygu cyflawni trosedd o'r fath pe bai'n cael ei wneud yng Nghymru a Lloegr;

**Gofyn a Gweithredu:** Proses o holi wedi'i dargedu ar draws y Gwasanaeth Cyhoeddus yw "Gofyn a Gweithredu" yng nghyswllt trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Prif amcan "Gofyn a Gweithredu" yw ei gwneud yn ofynnol i weithwyr proffesiynol perthnasol "Ofyn" i ddioddefwyr posibl am y posibilrwydd o Drais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol mewn rhai amgylchiadau ac yna "Gweithredu" i leihau'r dioddefaint a'r niwed sy'n digwydd o ganlyniad i drais a chamdriniaeth.

Dylai "Gofyn a Gweithredu" fod yn ofynnol ar lefel sefydliadol yn hytrach nag unigol a digwydd ar ffurf holi wedi'i dargedu yn hytrach na holi cyffredinol.

Mae'r term holi wedi'i dargedu'n disgrifio lle caiff arwyddion o Drais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol eu hadnabod gan yna ysgogi gweithiwr proffesiynol i ofyn i'w cleient a gawsant eu heffeithio gan unrhyw un o'r materion hyn.

**Harasio:** Cwrs ymddygiad gan berson lle mae ef neu hi'n gwybod, neu fe ddylai fod yn gwybod, ei fod yn gyfystyr â harasio'r person arall; ac i bwrpas y diffiniad hwn:

(a) dylai person wybod bod ei ymddygiad ef neu hi'n gyfystyr â neu'n golygu harasio os byddai person rhesymol oedd yn meddu ar yr un wybodaeth yn meddwl bod y cwrs ymddygiad yn gyfystyr â neu'n golygu harasio person arall, a

(b) mae “ymddygiad” yn cynnwys iaith lafar.

**Holi wedi’i dargedu:** Y broses a ddefnyddir wrth “Ofyn a Gweithredu”

**MAPPA:** Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd

**MARAC:** Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol

**SWOT:** Tîm Gweithredol Gweithwyr Rhyw

**Trais yn erbyn Menywod**: Y profiad o drais ar sail rhywedd (fel y’i diffinnir yn y Bil) gan fenywod.

**Trais ar sail Rhywedd (fel y’i diffinnir gan y Bil):**

(a) trais, bygythiadau o drais neu harasio’n codi’n union neu’n anuniongyrchol o werthoedd, credoau neu arferion yng nghyswllt rhywedd neu dueddiad rhywiol;

(b) anffurfio organau cenhedlu menywod;

(c) gorfodi person (p’un ai drwy rym corfforol neu orfodaeth drwy fygwth neu ddulliau seicolegol eraill) i gymryd rhan mewn seremoni briodasol grefyddol neu sifil (p’un ai yw’n eu rhwymo’n gyfreithiol neu beidio).

**Trais Rhywiol:** ecsbloetio rhywiol, harasio rhywiol neu fygwth trais o natur rywiol.

DRAFT

## Atodiad 1

### Fforymau amlasiantaethol yng Nghymru

Isod rhoddir sampl o fforymau amlasiantaethol sy'n weithredol yng Nghymru heddiw.  Dim ond mewn un ardal y mae rhai fforymau ar gael.  Pan fydd partneriaid yn ystyried a ddylid sefydlu grŵp amlasiantaethol newydd i roi sylw gwell i angen wedi'i nodi, dylent adolygu pa fforymau presennol sydd yn eu hardal a gofyn nifer o gwestiynau:

- Os yw'r fforwm hwn yn gwasanaethu'r un grŵp cleientiaid - a allai'r grŵp arall hwn ddiwallu'r angen sydd wedi'i nodi?
- Pa wersi y gallwn eu dysgu o brofiadau'r grwpiau eraill hyn?

Am wybodaeth am y gwaith amlasiantaethol sy'n cael ei wneud yn lleol, gall partneriaid gysylltu â'u cydgysylltydd cam-drin domestig lleol.

### Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol (MARAC)

Cyfarfod rhwng darparwyr gwasanaethau lleol yw MARAC lle rhennir gwybodaeth am oedolion sy'n dioddef cam-drin domestig a aseswyd i fod yn wynebu risg uchel o lofruddiaeth neu niwed difrifol.  Gall dioddefwyr gael eu hatgyfeirio gan unrhyw asiantaeth sy'n rhan o gynhadledd MARAC ac, fel arfer, mynychir y cynadleddau hyn gan gynrychiolwyr yr heddlu, iechyd, amddiffyn plant, tai, gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol, prawf, iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau ac arbenigwyr eraill o'r sectorau statudol a gwirfoddol. Mae'r gwasanaethau arbenigol (IDVA) yn cysylltu â'r dioddefwyr cyn y cyfarfod, os yw'n ddiogel gwneud hynny, a chynrychiolir eu barn gan y gwasanaeth arbenigol hwnnw sydd yna'n adrodd yn ôl ar y cyfarfod i'r dioddefwr.

Yn ystod y cyfarfod rhennir gwybodaeth berthnasol a chymesur am y peryglon presennol a wynebir gan y dioddefwr cam-drin domestig.  Mae'r wybodaeth yma'n helpu'r cynrychiolwyr i ddewis opsiynau i wella diogelwch y dioddefwr a'u plant. Yn y cyfarfod, datblygir cynllun gweithredu amlasiantaethol i leihau'r risg a wynebir gan y dioddefwr a'u plant ac i fynd i'r afael â'r risg a gyflwynir gan y camdriniwr.

Yn ôl Adroddiad Ymchwil 55 y Swyddfa Gartref (2011), wrth adrodd ar effeithiolrwydd MARAC, roedd gan gynadleddau MARAC (a Chynghorwyr IDVA) botensial i wella diogelwch dioddefwyr a lleihau fictimeiddio drachefn.   Yn ôl *Saving Lives, Saving Money* gan CamlasiantaetholDA[27] roedd dadansoddiad buan wedi dangos bod hyd at 60% o ddioddefwyr cam-drin domestig heb ryportio unrhyw drais pellach.

Gall asiantaethau partner gael gafael ar wybodaeth am eu MARAC lleol drwy'r cydgysylltydd cam-drin domestig lleol, a leolir fel arfer yn y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol leol.  Mae adnoddau ymarferol ar gael i'w lawrlwytho oddi ar wefan CamlasiantaetholDA yn: www.camlasiantaetholda.org.uk <http://www.camlasiantaetholda.org.uk>.

## Galwad Gynadledda Cam-drin Domestig (DACC)

Caiff galwadau cynadledda cam-drin domestig eu cadeirio gan yr heddlu a'u cynnal bob dydd i drafod y digwyddiadau cam-drin domestig a ryportiwyd dros nos. Mae’r galwadau’n cynnwys nifer o asiantaethau proffesiynol perthnasol. Mae’r wybodaeth yn cael ei phostio ar wefan ddiogel sydd ar gael i bartneriaid statudol er mwyn rhannu gwybodaeth yn ddiogel, rhwydd a chyflym.

Yn ystod yr alwad, cytunir ar gynllun rheoli risg i ddiogelu’r dioddefwyr a’r teulu ehangach ac i roi sylw i ymddygiad y camdriniwr. Nod y galwadau yw ymyrryd yn gynt (cyn i’r risg waethygu) a rhannu gwybodaeth yn effeithlon a chyfrifol ym mhob achos ar draws ystod o asiantaethau.

Mae partneriaid yn cael budd o dderbyn gwybodaeth yn fuan, adnabod mwy ac atgyfeirio dioddefwyr at wasanaethau arbenigol. Roedd yr ymyriadau a gynigiwyd i ddioddefwyr ar bob lefel risg yn glyfrach, yn fwy amserol a phriodol i anghenion penodol yr unigolion ac roedd asiantaethau’n fwy ymwybodol o’r camdrinwyr cyfresol a'r dioddefwyr ac yn gallu cynnig ymyriadau mwy holistig.[28] Pan fydd asiantaethau’n ymgysylltu â dioddefwyr ar lefel risg is, mae llai o niwed wedi’i achosi gan ddisgwyl felly y bydd y canlyniadau’n well i’r dioddefwr ac i blant y dioddefwr. Mae’r camdrinwyr hefyd yn cael eu hadnabod a’u dal i gyfrif[29].

Manteision yr Alwad Gynadledda Cam-drin Domestig (o wefan heddlu Gwent):

- Cyfleoedd i ymyrryd yn gynt a gwneud dioddefwyr yn fwy diogel
- Rhannu gwybodaeth yn gyflym ac effeithiol
- Mwy o graffu a goruchwyliaeth
- Cyd-gyfrifoldeb a chyd-atebolrwydd
- Atgyfeirio gwell at SSD
- Codi Cam-drin Domestig ar agenda pob asiantaeth
- Adnabod materion risg, niwed a bygythiadau’n fuan
- Atgyfnerthu’r egwyddorion ‘gweithio gyda’n gilydd’
- Dangosodd ddadansoddiad buan leihad o 28% mewn dioddefwyr drachefn.

## Y Tîm Gweithredol Gweithwyr Rhyw (SWOT)

Mae gan y SWOT rôl debyg i’r cynadleddau MARAC gyda ffocws ar weithwyr rhyw. Mae’r SWOT yn dod â gweithwyr proffesiynol o'r Heddlu, Iechyd, Prawf, DIP, Tai, Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddol a'r trydydd sector at ei gilydd i rannu gwybodaeth a chydgysylltu eu gwaith gyda gweithwyr rhyw.

## Canolfan Diogelu Amlasiantaethol (MASH)

Sefydliad arloesol diweddar iawn yw MASH ac mae’r acronym yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio sawl model gwaith gwahanol.

Mae gan y rhan fwyaf o ganolfannau MASH ffocws ar ddiogelu plant ac yn aml yn darparu'r lleoliad ffisegol ar gyfer tîm o weithwyr proffesiynol o wahanol asiantaethau fel yr heddlu, prawf, tân, ambiwlans, iechyd, addysg a gofal cymdeithasol. Mae’r gweithwyr proffesiynol hyn yn rhannu gwybodaeth i sicrhau y

caiff niwed sylweddol posibl ei adnabod yn fuan, gan ysgogi ymyriadau i atal niwed pellach.  Mewn rhai mannau, mae'r MASH yn gweithio fel gwasanaeth brysbennu ac yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd gan bob asiantaeth i benderfynu pa asiantaeth fyddai yn y sefyllfa orau i ddal a gweithio ar yr achos hwnnw.  Mewn mannau eraill, mae staff MASH yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd i benderfynu ar yr ymyriad mwyaf priodol i ymateb i anghenion y plentyn.  Mae rhai modelau'n datblygu i gynnwys oedolion y tynnwyd eu sylw atynt oherwydd pryderon diogelu.

Mae rhith-ganolfannau MASH a chanolfannau MASH gyda ffocws penodol ar feysydd arbenigol (gan gynnwys cam-drin domestig) hefyd ar gael.

Roedd astudiaeth o effaith MASH yn Llundain yn Rhagfyr 2013 wedi adolygu'r canolfannau mewn pum bwrdeistref yn y ddinas[30].  Dyma oedd pum elfen graidd y canolfannau MASH hyn:

- Mae pob hysbysiad ynghylch diogelu a hybu lles plant yn mynd drwy'r ganolfan MASH.
- Tîm wedi'i gydleoli o weithwyr proffesiynol o asiantaethau craidd (Gofal Cymdeithasol Plant, yr Heddlu, Iechyd, Addysg, Prawf, Tai a'r Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc) yn darparu gwasanaeth integredig gyda'r nod o ymchwilio, dehongli a phenderfynu beth sy'n gymesur a pherthnasol i'w rhannu.
- Mae gan y ganolfan 'wal dân' o'i chwmpas gan gadw gwaith y MASH yn gyfrinachol ac ar wahân i'r ochr weithredol gan ddarparu system gyfrinachol o gofnodi gwaith i gefnogi hyn.
- Proses gytunedig ar gyfer dadansoddi ac asesu risg, ar sail y darlun gwybodaeth mwyaf cyflawn a dosbarthu 'cynnyrch' gwybodaeth addas i'r asiantaeth fwyaf priodol i wneud y gwaith sydd angen ei wneud.
- Proses o adnabod dioddefwyr posibl a gwirioneddol, ac adnabod niwed sydd ar y gorwel drwy ymchwil a dadansoddi.

Er bod y canolfannau MASH yn newydd iawn, neu'n cael eu lansio yn ystod yr adolygiad, yn ôl yr astudiaeth roedd yr amser cyfartalog rhwng atgyfeirio a derbyn gwasanaeth diogelu, ar bob lefel risg, wedi'i haneru neu bron wedi'i haneru. Roedd tystiolaeth fod mwy o blant yn derbyn gwasanaethau oedd yn briodol i'w hanghenion ar ôl atgyfeirio.  Roedd pryderon gan rai o'r tu allan i'r system MASH ynghylch rhannu gwybodaeth, y cyfraniad prin yr oedd rhai staff gofal di-gymdeithasol yn cael eu gwahodd i'w wneud, a'r diffyg adborth ar ganlyniadau i asiantaethau oedd yn atgyfeirio.

### Siopau un stop

Mae siopau un stop yn dod â grŵp o weithwyr proffesiynol at ei gilydd fel bod dioddefwr cam-drin domestig yn cael mynediad at amrywiaeth o asiantaethau mewn un lle, e.e. cyngor cyfreithiol, gwybodaeth tai, cyswllt heddlu a chynghorwyr a gweithwyr arbenigol.

Mewn rhai modelau, mae'r IDVA yn adnodd canolog sy'n rhoi mynediad i wasanaethau eraill y gallai fod person eu hangen arnynt, gan ddod fwy neu lai yn 'siop un stop'.

### Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC)

Lleoliad un stop yw SARC lle gall dioddefwyr treisio, cam-drin rhywiol ac ymosodiadau rhywiol difrifol, beth bynnag yw eu rhyw neu oed, ddod i dderbyn gofal meddygol a chwnsela, a chael cyfle i helpu'r heddlu gyda'u hymchwiliad, gan gynnwys cael archwiliad fforensig os ydynt yn dewis hynny. Maent felly'n cyfrannu at waith y GIG a'r Heddlu. Mae'r gwasanaethau wedi datblygu'n wahanol dros amser, gyda gwahanol drefniadau llywodraethu, trefniadau ariannu a dulliau o ddarparu gwasanaeth.

### Grŵp Arwain ar Atal Caethwasiaeth Cymru

Mae Grŵp Arwain ar Atal Caethwasiaeth Cymru'n darparu arweinyddiaeth strategol i fynd i'r afael â chaethwasiaeth yng Nghymru. Mae'r Grŵp yn cydgysylltu'r cydweithrediad rhwng partneriaid (wedi a heb eu datganoli) a Chyrff Anllywodraethol i gynllunio a chefnogi'r gwaith hwn yng Nghymru. Un o'i amcanion yw darparu tystiolaeth ar ba mor eang yw caethwasiaeth yng Nghymru.

Llywodraeth Cymru sy'n cadeirio'r grŵp ac mae'n cynnwys partneriaid perthnasol fel ACPO Cymru, yr Asiantaeth Droseddu Genedlaethol, Uned Ranbarthol Cudd-wybodaeth Cymru, yr Awdurdod Trwyddedu Gangfeistri, Y Swyddfa Gartref, Gwasanaeth Erlyn y Goron, Prawf Cymru, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, yr Adran Gwaith a Phensiynau, Byrddau Iechyd Lleol Cymru, Awdurdodau Lleol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Fforwm Cyrff Anllywodraethol Atal Caethwasiaeth Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru.

### Fforymau Atal Caethwasiaeth Rhanbarthol

Bellach mae grwpiau rhanbarthol wedi eu sefydlu ar draws Cymru, yng Ngwent, De Cymru, Dyfed Powys, Gogledd Cymru a'r Bae Gorllewinol. Maent yn cynnwys partneriaid perthnasol fel Diogelwch Cymunedol, Troseddau Cyfundrefnol Difrifol, yr Heddlu, NOMS, Byrddau Cyfiawnder Ieuenctid, Byrddau Iechyd, awdurdodau lleol a BAWSO sy'n cwrdd yn fisol i adrodd ar gynnydd yn erbyn y cynllun darparu ac i rannu gwybodaeth a chudd-wybodaeth.[31].

### Fforwm Cyrff Anllywodraethol Atal Caethwasiaeth Cymru

Mae hwn yn cynnwys Barnardos Cymru, BAWSO, New Pathways, Cymru Ddiogelach a Chyngor Ffoaduriaid Cymru - asiantaethau rheng flaen sy'n gweithio gyda'i gilydd i godi ymwybyddiaeth a gwella gwasanaethau a chymorth i bobl a fasnachwyd yng Nghymru.

### Canolfan Masnachu Pobl y DU yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (UKHTC)

Dylai fod gan bartneriaid broses i'w dilyn, h.y. llwybr gofal, lle mae staff rheng flaen yn meddwl bod y cleient y maent yn siarad â nhw efallai sydd mewn perygl o gael ei fasnachu (PVoT). Mae Ymatebwyr Cyntaf penodol wedi eu hyfforddi i ymateb i rai a allai fod yn gaethweision cyfoes. Mae Dulliau Atgyfeirio Cenedlaethol

rhagnodedig, gyda ffurflenni a fframweithiau i wneud penderfyniadau, ar gael i adnabod a yw person yn gaethwas cyfoes neu beidio, a llwybrau at adnoddau i'w helpu.

### Adolygiadau Dynladdiad Domestig

Ers Ebrill 2011, o dan Adran 9 (3) *Deddf trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004*, mae'n ofynnol i bartneriaethau diogelwch cymunedol lleol gyflawni adolygiadau dynladdiad domestig o farwolaethau lle 'mae [marwolaeth] person 16+ oed wedi, neu'n ymddangos i fod wedi digwydd o ganlyniad i drais, camdriniaeth neu esgeulustod gan (a) person yr oedd yn perthyn iddo neu a oedd neu a fu unwaith mewn perthynas bersonol agos â fo, neu (b) aelod o'r un aelwyd â fo, i nodi pa wersi sydd i'w dysgu o'r farwolaeth honno.' Yr asiantaethau a ddylai fod yn rhan o'r adolygiadau hyn yw:

- Prif swyddogion heddluoedd Cymru a Lloegr;
- Awdurdodau lleol;
- Comisiynu GIG Cymru (ers Ebrill 2012)
- Grwpiau Comisiynu Clinigol (ers Ebrill 2012)
- Darparwyr gwasanaethau prawf
- Byrddau Iechyd Lleol
- Ymddiriedolaethau'r GIG

Mae'r adolygiadau hyn yn gofyn bod asiantaethau partner a rhai a gafodd gyswllt â'r dioddefwr neu'r camdriniwr yn adolygu amgylchiadau'r farwolaeth gyda'i gilydd i sefydlu pa wersi y gellir eu dysgu am y ffordd y mae gweithwyr proffesiynol a sefydliadau lleol yn gweithio gyda'i gilydd i ddiogelu dioddefwyr a chyflwyno newidiadau i atal marwolaethau oherwydd cam-drin domestig ac i wella ymatebion gwasanaeth rhwng ac o fewn asiantaethau i bob dioddefwr cam-drin domestig a'u plant.

### Grŵp Arwain Strategol Cymru ar Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod (FGM)

Mae Grŵp Arwain Strategol Cymru ar FGM yn cynnwys gwneuthurwyr penderfyniadau strategol allweddol o gyrff statudol ac anstatudol, sydd wedi a heb eu datganoli, ac o sefydliadau eraill gan gynnwys y sector gwirfoddol. Mae'n cael ei gyd-gadeirio gan yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron ac yn cael ei fynychu gan gynrychiolwyr Llywodraeth Leol (Iechyd, Addysg, Diogelu Plant), y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, Byrddau Iechyd Lleol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, BAWSO, y NSPCC a Chomisiynydd Plant Cymru.

Nod y Grŵp Arwain yw rhoi cyfeiriad strategol ar gyfer mynd i'r afael ag FGM yng Nghymru. Mae'r Grŵp mewn sefyllfa unigryw i ychwanegu gwerth drwy gydgysylltu cydweithrediad rhwng partneriaid i gynllunio a chefnogi darpariaeth yng Nghymru, gan felly wneud y mwyaf o'r cyfleoedd a gyflwynir gan y tirlun darparu.

## Fforwm FGM Cymru Gyfan

Mae'r grŵp hwn yn cynnig fforwm ar gyfer cynrychiolwyr statudol, trydydd sector a chymunedol i weithio gyda'i gilydd i ddileu FGM drwy addysg ac ymwybyddiaeth a thrwy wella polisi ac ymarfer i amddiffyn menywod a genethod.

Mae'r **aelodaeth graidd** yn cynnwys cynrychiolwyr o BAWSO, y NSPCC, Cyngor Ffoaduriaid Cymru, Plant yng Nghymru, Migrant Help, Partneriaeth Mewnfudo Cymru, Iechyd (gofal Sylfaenol ac Eilaidd), cynrychiolwyr o'r gymuned, Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru (Diogelu), Gwasanaethau Cymdeithasol, yr Heddlu, Addysg, Llywodraeth Cymru, Cymorth i Fenywod Cymru, Rhwydwaith Cynghori Cymdeithasol Islamaidd, Islamic Social Advisory Network, Sefydliad Henna a Chanolfan Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

DRAFT

## Atodiad 2

### Adnoddau i greu ymateb amlasiantaethol gwell

| Ymyriad | Adnodd | |
|---|---|---|
| MARAC | Adnoddau ymarferol ar gyfer cymryd rhan yn y MARAC:<br>○ Rhestr wirio dangosyddion risg DASH ACPO CamlasiantaetholDA<br>○ Ffurflenni atgyfeirio MARAC<br>○ Ffurflenni trosglwyddo i un MARAC i'r llall<br>○ Canllawiau asiantaeth-benodol<br>○ Pecynnau cymorth / adnoddau | www.camlasiantaetholda.org.uk |
| Caethwasiaeth Gyfoes | Canllaw Ymarfer Gorau ar weithio gyda phobl sydd mewn perygl o gael eu masnachu. | www.nationalcrimeagency.gov.uk/about-us/what-we-do/specialist-capabilities/uk-human-trafficking-centre/best-practice-guide |
| | Ffurflenni atgyfeirio cenedlaethol ar gyfer plant ac oedolion a allai gael eu masnachu, p'un ai'n Ymatebwr Cyntaf neu beidio. | www.gov.uk/government/publications/human-trafficking-victims-referral-and-assessment-forms |
| Iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau | Mae'r Prosiect Stella'n rhoi sylw i'r materion sy'n gorgyffwrdd rhwng trais domestig a rhywiol, cyffuriau ac alcohol ac iechyd meddwl. | www.avaproject.org.uk |
| Cyflogwyr | Adnodd i gyfrifo cost Cam-drin Domestig i fusnes.<br><br>Adnoddau i gyflogwyr. | www.camlasiantaetholdv.org.uk |
| | Canllawiau i gyflogwyr a chydweithwyr i gefnogi dioddefwyr yn y gwaith. | www.camlasiantaetholda.org.uk |
| Gwaith partneriaeth | Canllawiau ar bartneriaethau amlasiantaethol. | www.standingtogether.org.uk |
| Datblygu grwpiau defnyddwyr gwasanaeth | Cyllid a chanllawiau uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol. | |

## Dogfennau cyfeirio

[i]www.standingtogether.org.uk/fileadmin/user_upload/standingUpload/Publications/HOP_-_guidance-_final_July_2011.pdf.

[2] Howarth, E, Stimpson, L., Barran, D., Robinson, A., *Safety in Numbers: A Multi-Site Evaluation of Independent Domestic Violence Advisor Services,* Tachwedd 2009. http://camlasiantaetholda.org.uk/policy/Safety_in_Numbers_full_report.pdf. Casglwyd gwybodaeth gan Gynghorwyr IDVA mewn saith gwasanaeth mewn lleoliadau trefol, maestrefol a gwledig. Casglwyd gwybodaeth gan 2567 o ddioddefwyr ar bwynt eu hatgyfeirio a chan 1247 ar bwynt cau'r gwaith achos neu ar ôl pedwar mis, pa un bynnag a ddaeth gyntaf.

[3] Roedd gwaith ôl-ddilyn wedi'i gyfyngu i gau'r achos neu bedwar mis ar ôl ymgysylltu ac yn cael ei gofnodi ond ar gyfer rhai oedd yn parhau i ymgysylltu.

[4] Howard, *et al*., t. 93.

[5] Howard, *et al*., t. 10.

[6] *A Place of Greater Safety*, CamlasiantaetholDA, 2010. www.camlasiantaetholda.org.uk

[7] NSPCC (2010) *'The Impact of Abuse and Neglect on the Health and Mental Health of Children and Young People'*. Llundain: NSPCC.

[8] Magown, P. "*The impact of disability on women's experience of abuse: an empirical study into disables women's experiences of, and responses to, domestic abuse."* Ymchwil PhD, Prifysgol Nottingham, 2004.

[9] Astbury, J. (1999) *Gender and Mental Health* (Papur a baratowyd o dan Brosiect y Rhaglen Cydraddoldeb Iechyd Fyd-Eang ar sail Canolfan Astudiaethau Poblogaeth a Datblygu Harvard); O'Keane, V. (2000) *"Unipolar depression in women"* yn Steiner, M. et al. (2000) *Mood Disorders in Women* (Llundain: Martin Dunitz, Ltd.) Humphreys, Cathy (2003) *Mental Health and Domestic Violence: A research overview.* Papur a gyflwynwyd i'r Seminar *"Making Research Count"* ar Drais Domestig ac Iechyd Meddwl, Coventry, 2003; Humphreys, Cathey a Thiara, Ravi, (2003) "*Mental Health and Domestic Violence: "I call it symptoms of abuse"*, British Journal of Social Work 33, t.209-226; Vidgeon, N. (2003) *Are support services failing victims of domestic violence?* Traethawd Gradd Meistr heb ei gyhoeddi. Prifysgol Polytechnig Anglia, Caergrawnt.

[10] Humphreys, Cathy a Thiara, Ravi (2003) *Mental Health and Domestic Violence: 'I call it symptoms of abuse',* British Journal of Social Work, 33, 209-226; Golding, J. (1999). *Intimate partner violence as a risk factor for mental disorders: a meta-analysis.* Journal of Family Violence. 14:2, 99-132

[11] Rees, S. et al (2011) '*Lifetime prevalence of gender-based violence in women and the relationship with mental disorders and psychosocial function,* ' Journal of American Medical Association, 306/5: 513-521.

[12] Adroddiad gan y Swyddfa Gartref, *Domestic Homicide Reviews: Common Themes Identified as Lessons to be Learned.*

[13]Walby, Sylvia. *The Cost of Domestic Violence: Update 2009*, t. 9 – 10.

DRAFT

[14] O Fframwaith Cynllunio Gwasanaethau Diogel i Fenywod y System Galedonaidd[14], rhan o'r System Galedonaidd, rhaglen camdrinwyr yn yr Alban.

[15] Pence a Sadusky *The Praxis Safety and Accountability Audit Tool Kit*, Praxis International.

[16] Sefydlwyd yn Chwefror 2013 ac yn cynnwys gwneuthurwyr penderfyniadau strategol allweddol o gyrff statudol ac anstatudol wedi a heb eu datganoli, a sefydliadau eraill gan gynnwys y sector gwirfoddol. Ei bwrpas yw darparu arweinyddiaeth strategol, goleuo'r broses o wneud penderfyniadau a chydgysylltu'r gwaith i fynd i'r afael â masnachu mewn pobl.

[17]www.avaproject.org.uk/media/60461/costs%20of%20dv%20by%20local%20authority.pdf

[18] Y Swyddfa Gartref, *Domestic Homicide Reviews: Common Themes Identified as Lessons to be Learned*, 2013.

[19] Gweler *Responding to Domestic Abuse: Guidance for General Practices*, cyhoeddiad ar y cyd gan Goleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol, y prosiect IRIS a CamlasiantaetholDA yn http://www.camlasiantaetholda.org.uk/dvservices/CamlasiantaetholDA_GP_guidance_manual_FINAL.pdf

[20] Adnoddau: *Responding to colleagues experiencing domestic abuse: Practical guidance for line managers, Human Resources and Employee Assistance Programmes,* cyhoeddiad ar y cyd gan yr Adran Iechyd a CamlasiantaetholDA: www.camlasiantaetholda.org.uk/documents/DH_DV_Employers_guidance_FINAL.pdf

[21] Er enghraifft: *Responding to colleagues experiencing domestic abuse: Practical guidance for line managers Human Resources and Employee Assistance Programmes, a* chyhoeddiad ar y cyd gan yr Adran Iechyd a CamlasiantaetholDA. Mae cyhoeddiad cysylltiedig ar gyfer staff o'r enw: *Responding to colleagues experiencing domestic abuse: Practical guidance for employees experiencing domestic abuse.* Mae'r ddau yn yr adran Adnoddau yn www.camlasiantaetholda.org.uk

[22] www.CamlasiantaetholDA.org.uk

[23] Y Swyddfa Gartref, *Domestic Homicide Reviews: Common Themes Identified as Lessons to be Learned.*

[24] Canllawiau MAPPA 2012: www.justice.gov.uk/downloads/offenders/mappa/mappa-guidance-2012-part1.pdf.

[25] www.caada.org.uk

[26] Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys y Seren Ganlyniadau (www.outcomesstar.org.uk) a mesur MARAC o'r lleihad yn nifer y digwyddiadau drachefn sy'n cael eu ryportio i'r holl asiantaethau.

[27] www.camlasiantaetholda.org.uk.

[28] T&F, t. 46 a 47

[29] Thomas ac Allen, 2012

[30] Crockett, R., Gilchrist, G., Davies, J., Menshall, A., Hoggart, Ls., Chandler, V., Sims, D., Webb, J., *Assessing the Early Impact of Multi Agency Safeguarding Hubs (MASH) in London*, Rhagfyr 2013.

[31] Adroddiad Blynyddol Cydgysylltydd Atal Masnachu Pobl Llywodraeth Cymru, 2013

DRAFT

# Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol Cymru

**Trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol**

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol[1]. Mae'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol wedi'i ddatblygu i gynnig hyfforddiant cymesur ar y meysydd pwnc hyn ar draws y gwasanaeth cyhoeddus i gryfhau'r ymateb ar draws Cymru i rai sy'n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi gwybodaeth am ddyluniad y Fframwaith a throsolwg ar sut y bydd y Fframwaith yn edrych. Mae'n rhoi esboniad manwl o bob lefel yn y Fframwaith a'u pwrpas, gan gynnwys nod pob lefel, y gynulleidfa ofynnol, cynnwys yr hyfforddiant, y dull darparu a'r opsiynau achredu.

Mae'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth agos â rhanddeiliaid i greu pecyn o hyfforddiant wedi'i anelu at amryw o wahanol grwpiau proffesiynol i gryfhau'r ymateb a roddir i rai sy'n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Y bwriad hefyd yw bod y Fframwaith yn gymorth i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol wrth baratoi a gweithredu eu strategaethau lleol fel sy'n ofynnol o dan Fil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru). Gallai'r hyfforddiant i staff sy'n dod i gysylltiad â phobl yr effeithir arnynt gan drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, fod yn amcan allweddol mewn rhai strategaethau lleol.

**Ym mhob pennod yn y canllawiau mae blwch yn nodi'r canllawiau sydd i'w cyflwyno o dan adran 12 Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) i awdurdodau perthnasol.**

O dan adran 12, gall Gweinidogion Cymru roi canllawiau i awdurdod perthnasol ar sut y dylai'r awdurdod ymarfer ei swyddogaethau gyda golwg ar gyfrannu at wella'r trefniadau i atal trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gwella'r trefniadau i amddiffyn dioddefwyr a gwella'r cymorth i bobl yr effeithir arnynt gan drais a chamdriniaeth o'r fath.

Rhaid i'r awdurdodau perthnasol hyn, o dan adran 14 y Bil, ddilyn y canllawiau hyn wrth ymarfer eu swyddogaethau oni bai fod rheswm da pam nad yw'r awdurdod yn dilyn y canllawiau. Os yw awdurdod perthnasol yn meddwl bod rheswm da dros beidio â dilyn y canllawiau, rhaid iddo benderfynu ar bolisi arall i ymarfer ei swyddogaethau yng nghyswllt y pwnc dan sylw yn y canllawiau. Rhaid iddo yna gyhoeddi datganiad polisi'n nodi sut y mae'n bwriadu ymarfer ei swyddogaethau, a'r rhesymau dros beidio â dilyn y canllawiau.

[1] Dylid edrych ar y canllawiau hyn fel dim mwy na drafft cynnar. Bydd craffu a mwy o ymgynghori cyhoeddus yn goleuo fersiwn derfynol unrhyw ganllawiau a roddir gerbron y Cynulliad. Ni chyflwynir y canllawiau hyn fel fersiwn derfynol ac ni ddylid eu darllen felly. Bwriedir ymgynghori'n ffurfiol ar y ddogfen hon a byddwn yn croesawu sylwadau ar eu cynnwys drwy gydol y broses hon.

**Diben gweddill y canllawiau yw cynnig arweiniad a chynnwys esboniadol ar bwrpas y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol a'i ymdrechion i wella gwybodaeth a setiau sgiliau'r gwasanaethau cyhoeddus yng nghyswllt trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.**

**Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod y gallai'r Fframwaith fod o fudd i sefydliadau heblaw'r awdurdodau perthnasol o dan adran 12 y Bil. Felly, bydd Llywodraeth Cymru'n mynd ati i annog sefydliadau eraill yn weithredol i ystyried a fyddai modd i'r Fframwaith gael ei ddarparu yn eu sefydliadau hwy, a pha lefelau yn y Fframwaith sy'n berthnasol iddynt. Byddai'r ddogfen hon hefyd o gymorth i unrhyw sefydliad sy'n ystyried a ddylai a sut y gallai weithredu'r Fframwaith yn eu sefydliad.**

Mae trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn faterion dychrynllyd o gyffredin sy'n cael effeithiau pellgyrhaeddol ar iechyd, lles a diogelwch y bobl sy'n eu profi. Mae'n bwysig bod pob sefydliad yn ystyried sut y gallai godi ymwybyddiaeth o'r materion hyn a gwella'r ymateb a roddir i ddioddefwyr.

DRAFT

**Y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.**

**Cynnwys**


| | |
|---|---|
| Crynodeb gweithredol | 4 |
| Rhagarweiniad | 6 |
| Grŵp Datblygu'r Cynnwys | 7 |
| Y Fframwaith | 8 |
| Lefel 1 | 15 |
| Lefel 2 | 20 |
| Lefel 3 | 26 |
| Lefel 4 | 29 |
| Lefel 5 | 37 |
| Lefel 6 | 40 |
| Cynllun darparu a lledaenu | 45 |
| Diffiniadau | 46 |


DRAFT

## Crynodeb gweithredol

Mae trais a chamdriniaeth o unrhyw fath yn annerbyniol.  Rhaid darparu ymateb effeithiol ac amserol, gan awdurdodau perthnasol, i unrhyw un sy'n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod menywod yn fwy tebygol o brofi trais ar sail rhywedd ac, felly, mae'r canllawiau hyn yn cydnabod mai trais yn erbyn menywod yw'r math mwyaf cyffredin o drais ar sail rhywedd.

Fodd bynnag, nid yw cydnabod hyn yn awgrymu mewn unrhyw ffordd y dylid eithrio unrhyw ddioddefwr trais a chamdriniaeth o'r fath o'r cymorth a'r gefnogaeth sydd ei angen arnynt.  Profir trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol mewn perthnasoedd o'r un rhyw, rhwng aelodau teuluol a chan ddynion sy'n cael eu cam-drin gan fenywod ac, felly, mae'r canllawiau hyn yn cynnig proses sy'n cynnwys holl ddioddefwyr posibl trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae'r rhai sy'n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol ymhlith rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.  Maent yn defnyddio ystod eang o wasanaethau cyhoeddus a rhaid i staff pob un o'r rheini feddu ar y sgiliau i adnabod arwyddion trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, i "ofyn a gweithredu", cael cleientiaid i ymgysylltu'n effeithiol a darparu gwasanaethau i deuluoedd.

Rhaid i'r rhai yn y proffesiynau sy'n darparu gwasanaethau arbenigol i ddioddefwyr trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, arbenigo yn eu gwaith a chynnig y safon gofal uchaf a gweithio mewn gwasanaethau gydag arweinyddiaeth gref.

Mae'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol wedi'i fapio yn erbyn "siwrne'r dioddefwr" i sicrhau safon gofal cyson i rai sy'n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a safon gwasanaeth di-ball ar draws y gwasanaeth cyhoeddus i'r grŵp cleientiaid hwn.

Mae dwy ran i'r Fframwaith:

1) Hyfforddiant cyson wedi'i ledaenu'n gymesur i'r awdurdodau perthnasol er mwyn gwella dealltwriaeth sylfaenol y gweithlu a, thrwy hynny, yr ymateb i rai sy'n profi trais ar sail rhywedd cam-drin domestig a thrais rhywiol.

2) Cysoni'r hyfforddiant arbenigol presennol er mwyn proffesiynoli'r sector arbenigol ymhellach, gwella cysondeb yr hyfforddiant mewn pynciau arbenigol ar lefel genedlaethol a gosod gofynion craidd ar gyfer gwasanaethau arbenigol.

Atal → Datgelu → Ymgysylltu → Cymorth → Adferiad

| Perthnasoedd iach | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 |
|---|---|---|---|

| Atal | Codi ymwybyddiaeth | Gofyn a Gweithredu | (ymateb pellach) | Arbenigol |
|---|---|---|---|---|

| Addysgu'r cyhoedd | Pob aelod o staff, pob corff cyhoeddus, wedi neu heb eu datganoli, a'r trydydd sector | Rhai sy'n debygol o fod yn cyfarfod pobl sy'n cael eu cam-drin | Rhai fydd yn darparu gwasanaeth (mewn rôl gyffredinol) i rai sy'n cael eu cam-drin, e.e. staff diogelu arweiniol | Rhai sy'n darparu ymyriadau argyfwng arbenigol (IDVA, | Rhai sy'n darparu ymyriadau arbenigol (allgymorth, cymorth hyblyg) |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cam-drin domestig, trais rhywiol, priodi dan orfod, trais ar sail "anrhydedd", Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod, caethwasiaeth, stelcio a harasio<br>• Beth ydyw?<br>• Beth ddylid ei wneud yn ei gylch?<br>• Pwy sy'n gallu helpu? | Arwyddion / symptomau / risgiau<br>"Gofyn": Codi'r mater<br>Gweithredu: Rhannu gwybodaeth / cyfeirio at wasanaeth arall / atgyfeirio<br>Llwybrau gofal a gwaith amlasiantaethol | Adnabod risg<br>Sicrhau diogelwch ar fyrder<br>Llwybrau gofal a gwaith amlasiantaethol | Sgiliau ymgysylltu'n arbenigol â dioddefwr: risg, diogelwch, gwaith amlasiantaethol, gweithio mewn partneriaeth, y System Cyfiawnder Troseddol (Heddlu, CPS, Prawf), effaith ar iechyd, camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl, digartrefedd, stelcio, HBV/FM, FGM, systemau cyfreithiol sifil, gwaith diogelu plant gyda CAFCASS, cyllid, Dim | |

Hyfforddiant lefel 5 i reolwyr

| Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol | Achredu |
|---|---|

**Hyfforddiant statudol, gorfodol: diogelu plant (gloywi pob tair blynedd), diogelu oedolion agored i niwed**

**Lefel 6 YMGYSYLLTU STRATEGOL: Strategaeth, Polisi, Sicrhau Newid**


| Safonau gofynnol cyffredinol (10,000 o fywydau diogelach) | Safonau arbenigol ar gyfer gwasanaethau |
|---|---|

| Ymwybyddiaeth well | Mwy o ddatgelu | Ymgysylltu gwell | Cymorth effeithiol | Cam-drin yn dod i ben yn y tymor hir / perthnasoedd camdriniol |
|---|---|---|---|---|

## Rhagarweiniad

Wrth ymgynghori ar ei Phapur Gwyn ar ddeddfwriaeth i ddileu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, roedd Llywodraeth Cymru’n cynnig cyflwyno Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar y materion hyn. Wrth wneud hynny, nod Llywodraeth Cymru oedd cyfuno'r gwahanol raglenni hyfforddiant yn un adnodd ariannu wedi'i reoli'n ganolog.

Roedd y Papur Gwyn yn cyflwyno'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol mewn pedair lefel:




Hyfforddiant strategol i arweinwyr ac asiantau newid (e.e. penaethiaid, nyrsys arwain, swyddogion arweiniol mewn awdurdodau lleol).

Cymwysterau arbenigol achrededig i unrhyw weithiwr proffesiynol gyda chyfrifoldeb arweiniol yn eu proffesiwn (e.e. IDVA, ISVA, nyrsys diogelu, gweithwyr cymdeithasol arbenigol).

Hyfforddiant i □arfogi’ staff proffesiynol perthnasol i weithredu ‘gofyn a gweithredu’.

Hyfforddiant codi ymwybyddiaeth i gynulleidfa eang, wedi’i ddarparu drwy ddull effeithlon fel e-Ddysgu.

Roedd y Papur Gwyn yn cydnabod nad oedd safon hyfforddiant gyson i’r sector cyhoeddus nac ychwaith i weithwyr proffesiynol arbenigol y trydydd sector yng Nghymru.  Y nod, felly, oedd sicrhau bod hyfforddiant o ansawdd cyson ar gael i godi ymwybyddiaeth, newid agweddau a gwella natur ac ansawdd y cymorth oedd ar gael i ddioddefwyr.

Hefyd, ac yn anad dim, roedd yn amlwg bod angen cefnogi gweithwyr proffesiynol i deimlo’n hyderus ynghylch holi am a gweithredu ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Gall y diffyg gwybodaeth a’r diffyg hyder hwn i adnabod trais neu gam-drin o’r fath gael effaith sylweddol ar allu gweithwyr proffesiynol i ymateb yn briodol i ddatgelu, i helpu dioddefwyr i ddod dros eu profiad ac i atal fictimeiddio drachefn.

Roedd cefnogaeth gref i Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol fel yr amlinellir yn y Papur Gwyn, gyda'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno y byddai hyn yn cefnogi dull cyson o ddarparu hyfforddiant.

Mae’r adolygiad a wnaed wedyn o’r Papur Gwyn, ac o’r ymateb i’r ymgynghori, wedi arwain at ddatblygu Fframwaith diwygiedig a chyflwynir hwnnw’n fanwl yn y ddogfen hon.

## Grŵp Datblygu'r Cynnwys

Cafodd y Grŵp Datblygu'r Cynnwys ei ymgynnull gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2014 i ddarparu cyngor ymarferol arbenigol ar y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol arfaethedig ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ac i wneud argymhellion ar beth ddylai'r Fframwaith ei gynnwys.

Mae aelodaeth y Grŵp Datblygu'r Cynnwys yn cynnwys rhai sy'n gyfrifol am swyddogaethau dysgu, datblygu a hyfforddiant eu sefydliad, ac arbenigwyr pwnc.

Mae'r aelodaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sefydliadau canlynol:

Yr Heddlu;
Y Gwasanaeth Prawf;
Gofal Cymdeithasol;
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru;
Byrddau Iechyd Lleol;
Iechyd Cyhoeddus Cymru;
Sefydliad Tai Siartredig Cymru;
Y sector trais yn erbyn menywod a cham-drin domestig;
Y sector Trais Rhywiol;
Partneriaeth Mewnfudo Cymru; ac
Y NSPCC

DRAFT

## Y Fframwaith

**Mae'n ofynnol i awdurdodau perthnasol:**

**Sicrhau bod awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol yn ystyried ei gwneud yn ofynnol bod pob aelod o staff yn derbyn hyfforddiant o dan y Fframwaith wrth baratoi a gweithredu eu strategaethau lleol.**


**Sicrhau bod yr holl hyfforddiant perthnasol ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a ddarperir i staff awdurdodau perthnasol yn cael ei ategu drwy'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol.**

Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyflwyno Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, i ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus ac arbenigol allweddol a, thrwy wneud hynny, am gyfuno amrywiaeth o raglenni hyfforddiant yn un adnodd wedi'i reoli'n ganolog.

Nod Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar gyfer Cymru yw creu safon gofal cyson i rai sy'n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol a safon gwasanaeth di-ball ar draws y gwasanaeth cyhoeddus i'r grŵp cleientiaid hwn.

Mae gan y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol chwe lefel:

DRAFT




Ar gyfer pob lefel yn y Fframwaith, mae cynnwys, canlyniadau dysgu a'r cymwyseddau gofynnol wedi eu datblygu a'u mapio i'r cynulleidfaoedd arfaethedig ac i'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol.

Yn ei hanfod, mae dwy ran i'r Fframwaith:

1) Hyfforddiant cyson wedi'i ledaenu'n gymesur i'r awdurdodau perthnasol er mwyn gwella dealltwriaeth sylfaenol y gweithlu'n gyffredinol a, thrwy hynny, yr ymateb i rai sy'n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.


2) Cysoni'r hyfforddiant arbenigol presennol er mwyn proffesiynoli'r sector arbenigol ymhellach, gwella cysondeb yr hyfforddiant mewn pynciau arbenigol ar lefel genedlaethol a gosod gofynion craidd ar gyfer gwasanaethau arbenigol (lefelau 4 a 5).

Mae cynnwys lefelau 1, 2 a 3 yn y Fframwaith yn adeiladu ar lefelau blaenorol, h.y. i gwblhau lefel 2 rhaid cwblhau lefel 1 , ac i gwblhau lefel 3 rhaid cwblhau lefel 2.

Gyda'i gilydd mae'r lefelau hyn yn darparu hyfforddiant i helpu gweithwyr proffesiynol anarbenigol yn yr awdurdodau perthnasol i adnabod camdriniaeth ac i gynnig cymorth ehangach i rai sy'n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae lefelau 4 a 5 yn y Fframwaith yn ymwneud yn benodol â rhai sy'n arbenigo mewn  trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol neu mewn meysydd pwnc arbenigol.

Mae lefel 6 yn ymwneud ag arweinyddiaeth yn yr awdurdodau perthnasol a bydd yn cyfrannu mewnbwn i'r staff yn y swyddi uchaf i helpu i wella ymateb y sefydliad i rai sy'n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, naill ai fel aelodau o'r gweithlu neu ddefnyddwyr gwasanaeth.




## Cynulleidfa

Cyhoeddir y canllawiau hyn o dan adran 12 Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) ac, yn unol ag adran 14, rhaid i awdurdodau perthnasol ddilyn y canllawiau hyn. Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio â sefydliadau eraill (wedi neu heb eu datganoli ac anstatudol) i annog cyrff i gyfranogi yn y Fframwaith a bydd gan bob sefydliad gyda budd yn y pynciau a drafodir gan y Fframwaith fynediad at ei adnoddau a'i gyrsiau.

## Canlyniadau

Er mwyn ennill y ddealltwriaeth orau o effeithiolrwydd unrhyw raglenni hyfforddiant a gomisiynwyd neu a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru, defnyddir y mesurau gwerthuso canlynol[2].

- Meini prawf ymateb

Bydd y rhain yn mesur sut yr effeithiodd yr hyfforddiant ar hyfforddeion, ac unrhyw newid mewn agwedd o ganlyniad.

DRAFT

[2] KirkPatrick (1959, 1976, 1996)

- Meini prawf dysgu

Bydd y rhain yn mesur yn erbyn canlyniadau dysgu'r hyfforddiant.  Byddant yn ystyried canfyddiad y dysgwr o ran gwybodaeth, hyder a'r bwriad i weithredu.

- Meini prawf ymddygiad

Bydd y rhain yn adnabod effaith yr hyfforddiant ar berfformiad mewn gwirionedd. Bydd yn cynnwys mesur ôl-ddilyn.

- Meini prawf canlyniadau

Bydd hyn yn golygu ystyried effaith hirdymor yr hyfforddiant, pa mor ddefnyddiol yr ystyriwyd iddo fod gan yr awdurdodau perthnasol a pha mor berthnasol yr ystyriwyd oedd effaith yr hyfforddiant ar newid arferion.

Bydd pob cwrs hyfforddiant yn defnyddio cwestiynau cyn ac ar ôl eu cwblhau.  Bydd mesurau gweithredu ôl-ddilyn ychwanegol yn cael eu hystyried lle bo hynny'n briodol.

DRAFT

| | Nod hyfforddiant | Canlyniadau dysgu arfaethedig: Yn dilyn cwblhau'r hyfforddiant hwn bydd y cyfranogwyr yn: |
|---|---|---|
| **Lefel 1** | Bydd gan y cyfranogwyr ymwybyddiaeth well o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. | Deall beth yw trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.<br><br>• Gall y dysgwr ddisgrifio gwahanol fathau o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.<br><br>Adnabod arwyddion trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.<br><br>• Gall y dysgwr adnabod gwahanol fathau o ymddygiad sy'n gysylltiedig â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.<br><br>• Gall y dysgwr adnabod rhai arwyddion syml o effaith trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.ar y rhai sy'n eu profi.<br><br>Deall eu rôl mewn mynd i'r afael â trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.<br><br>• Mae'r dysgwr yn gwybod beth yw rhif y llinell gymorth ac yn gwybod am y wefan Byw Heb Ofn fel adnodd proffesiynol (yn ogystal ag adnodd i ddefnyddwyr gwasanaeth).<br><br>• Mae'r dysgwr yn gwybod bod ganddynt bolisi ar gyfer y gweithle, beth yw ei bwrpas a lle i ddod o hyd iddo. |

| | | |
|---|---|---|
| **Lefel 2** | Lefel 1 + Adnabod arwyddion a symptomau, ymateb yn briodol i ddatgelu heb ei ysgogi, gofyn cwestiynau priodol ac ymateb i'r atebion. | Adnabod arwyddion a symptomau trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.<br>▪ Gall y dysgwr adnabod arwyddion a symptomau trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.<br>▪ Gall y dysgwr ddisgrifio sut y gall trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, effeithio ar unrhyw un ac nad yw ei brofi'n gysylltiedig ag unrhyw ddiwylliant, crefydd na statws economaidd-gymdeithasol penodol.<br>Deall pwrpas holi wedi'i dargedu a'r rhesymau drosto<br>▪ Gall y dysgwr egluro pam fod angen holi wedi'i dargedu a'u rôl yn y gwaith hwn.<br>Dangos eu bod yn gwybod am y ddeddfwriaeth ar rannu gwybodaeth a'r ddyletswydd i gadw cyfrinachedd.<br>▪ Gall y dysgwr gyfeirio at ddeddfwriaeth ar rannu gwybodaeth.<br>▪ Mae'r dysgwr yn dangos dealltwriaeth o'u dyletswyddau / ystyriaethau moesegol ynghylch cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth.<br>Gallu dangos sut i gychwyn siarad am drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.<br>▪ Gyda diogelwch y cleient fel eu prif bryder; gall y dysgwr ofyn cwestiynau i rai sy'n dangos arwyddion a symptomau sy'n berthnasol i'w profiad posibl o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.<br>▪ Mae'r dysgwr yn dangos hyder i ofyn y cwestiwn yn ddiogel.<br>▪ Mae'r dysgwr yn gallu ymateb yn briodol i ateb y cleient.<br>▪ Mae'r dysgwr yn gallu disgrifio anghenion amrywiol a chymhleth ychwanegol y bydd yn eu hystyried wrth ofyn y cwestiynau. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Gallu adnabod risg mewn achosion priodol o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.<br><br>▪ Mae'r dysgwr yn deall pwrpas y Rhestri Adnabod Risg.<br>▪ Mae'r dysgwr yn gallu defnyddio Rhestr Adnabod Risg, a gytunwyd arni'n genedlaethol, gyda'r cleient i nodi lefel y risg y mae'r cleient yn ei wynebu.<br>▪ Mae'r dysgwr yn deall pwysigrwydd adnabod unrhyw risg daer ac yn gallu defnyddio llwybrau i hwyluso hyn.<br><br>Gallu gweithredu'r llwybr gofal holi wedi'i dargedu[i]<br><br>▪ Mae'r dysgwr yn ymwybodol o'r dewisiadau gwasanaeth, yr opsiynau atgyfeirio a'r fforymau amlasiantaethol sydd ar gael i rai sy'n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.<br>▪ Mae'r dysgwr yn gallu egluro'r rhain i'w cleient ac yn gallu hwyluso atgyfeiriad ar sail dewis y cleient.<br><br>Lle mae'r cleient neu berson cysylltiedig mewn perygl o gael niwed difrifol, mae'r dysgwr yn gallu dangos pa gamau gweithredu y bydd yn eu cymryd i ddiogelu unrhyw un mewn perygl, gan gynnwys plant. |
| **Lefel 3** | Lefel 1 a 2 + Ystyried y risg a gyflwynir i'r cleient, cymryd camau priodol i'w diogelu'n syth, cymryd rhan briodol mewn gwaith amlasiantaethol. | Ystyried trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.yng nghyd-destun teulu.<br><br>Gallu asesu risg mewn achosion priodol o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng nghyd-destun teulu gan gynnwys risg a wynebir gan y dioddefwyr, a gyflwynir gan y camdriniwr ac a brofir gan blant.<br><br>Gallu rhoi sylw i ofynion diogelwch taer aelodau o deulu sy'n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, naill ai drwy gamau gweithredu neu atgyfeirio.<br>Deall rôl eu hasiantaeth a rôl cynrychiolydd yr asiantaeth mewn fforymau gweithredol amlasiantaethol.<br><br>Deall y cysylltiad rhwng trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a'r risg i blant a chymryd camau priodol i leihau'r risg hon. |
| **Lefel 4** | Lefel 1, 2, a 3 + Cynnig ymyriadau arbenigol penodol i rai sy'n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ac i'w plant. | Rhaglen benodol, achrededig gyda chorff achredu perthnasol ar gyfer rôl benodol.<br><br>Fframwaith o gyrsiau pwnc-benodol, wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. |
| **Lefel 5** | Haen 2: rheolaeth a strategaeth: | Deall y prosesau sy'n ofynnol i reoli gwasanaeth ar lefel weithredol i rai yr effeithir arnynt gan drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. |

| | | |
|---|---|---|
| | darparwyr arbenigol | Deall y prosesau sy'n ofynnol i reoli gwasanaeth ar lefel strategol i rai yr effeithir arnynt gan drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. |
| **Lefel 6** | Cynllun ymgysylltu strategol ar gyfer arweinyddiaeth y Gwasanaeth Cyhoeddus | Mae trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, yn faterion sy'n berthnasol i ddefnyddwyr gwasanaeth a'r gweithlu ei hun. Mae angen creu diwylliant lle mae gwaith gweddill y lefelau yn y Fframwaith yn cael ei gydnabod i fod yn hollbwysig i waith yr adrannau gwasanaethau cyhoeddus perthnasol ac yn y gweithle. |

DRAFT

## Lefel 1

**Mae'n ofynnol i awdurdodau perthnasol:**

**Sicrhau bod eu staff i gyd yn cwblhau'r pecyn e-Ddysgu lefel 1 o fewn chwe mis i'r dyddiad y darperir y pecyn eDdysgu i'r awdurdod perthnasol.**

**Sicrhau bod y pecyn e-Ddysgu lefel 1 yn rhan o hyfforddiant cynefino gorfodol pob awdurdod i sicrhau bod unrhyw staff newydd eu penodi hefyd yn cwblhau'r hyfforddiant.**

**Monitro cyfraddau cwblhau'r pecyn e-Ddysgu i sicrhau bod y staff i gyd yn cwblhau'r hyfforddiant o fewn yr amser penodedig.**

DRAFT

Mae lefel 1 y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol yn darparu ymwybyddiaeth graidd o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.  Bydd yn cael ei anelu at staff Gwasanaethau Cyhoeddus fel a ddisgrifir isod.

### Nod

Bydd gan gyfranogwyr ymwybyddiaeth well o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

### Cynulleidfa

Lefel 1 y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol fydd yn cyrraedd y gynulleidfa ehangaf, sef 284,000[3] o weithwyr gwasanaethau cyhoeddus ar adeg ei lansio.

### Cynnwys

| **Cwestiynau allweddol yr hyfforddiant** | **Canlyniadau dysgu arfaethedig:**<br>*Yn dilyn cwblhau'r hyfforddiant hwn bydd y cyfranogwyr yn:*<br><br>**Cymwyseddau arfaethedig**<br>*Yn dilyn cwblhau'r hyfforddiant hwn bydd y cyfranogwyr yn:* | **Cynnwys posibl** |
|---|---|---|

[3] Mae'r ffigur hwn yn cynrychioli 85% o holl weithwyr y Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru ac nid yw'n cynnwys gweithwyr DVLA, CThEM, y Weinyddiaeth Amddiffyn neu gwmni Bws Caerdydd.

| | | |
|---|---|---|
| Beth yw trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol? | **Deall beth yw trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.**<br><br>• Gall y dysgwr ddisgrifio gwahanol fathau o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. | **Diffiniadau a disgrifiadau o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol:**<br><br>Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol, Stelcio, Priodi dan Orfod, Cam-drin ar sail “Anrhydedd”, Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod, Ecsbloetio Rhywiol. |
| | | Natur ryweddiaethol y profiad, a chydnabod y gall trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol ddigwydd i unrhyw un a’i bod yn bwysig cydnabod pob math o gamdriniaeth. |
| | | Cyffredinolrwydd |
| Sut ydych yn adnabod trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol? | **Adnabod arwyddion o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.**<br><br>• Gall y dysgwr adnabod gwahanol fathau o ymddygiad sy’n gysylltiedig â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.<br><br>• Gall y dysgwr adnabod rhai arwyddion syml o effaith trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ar y rhai sy’n eu profi. | Gwahanol fathau o ymddygiad camdriniol: Cam-drin corfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol ac ariannol a’r cysylltiad â rheoli drwy orfodaeth.<br><br>Mathau o effaith: Diogelwch a risg, effaith ar iechyd, effaith emosiynol, ariannol, effaith ar blant. |

| | | |
|---|---|---|
| Beth y dylech ei wneud os byddwch yn adnabod trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol? | **Deall eu rôl mewn mynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.**<br><br>• Mae'r dysgwr yn gwybod beth yw rhif y llinell gymorth Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Cymru Gyfan ac yn gwybod am y wefan Live Fear Free fel adnodd proffesiynol (yn ogystal ag adnodd i ddefnyddwyr gwasanaeth).[4]<br><br>• Mae'r dysgwr yn gwybod bod ganddynt bolisi gweithle, beth yw ei bwrpas, lle i ddod o hyd iddo a sut i gael gafael ar gymorth. | Negeseuon allweddol: Mae gennych bolisi Gweithle.<br><br>Rhif y llinell gymorth / y wefan *Live Fear Free* |

DRAFT

### Darparu

Bydd lefel 1 y Fframwaith yn cael ei darparu mewn dwy ffordd:

1) Drwy ymgyrch codi ymwybyddiaeth yn tynnu sylw at arwyddion a symptomau trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol; a

2) Drwy becyn e-Ddysgu byr ar gyfer pob gweithiwr Gwasanaeth Cyhoeddus sy'n wynebu'r cyhoedd.

### Ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth

Bydd yr ymgyrch i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd yn cael ei rhedeg a'i hariannu gan Lywodraeth Cymru ac yn rhoi'r cyd-destun ar gyfer y pecyn e-Ddysgu gan "haenu'r" dylanwadau i'r gynulleidfa. Bydd yr ymgyrch yn canolbwyntio ar arwyddion o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Bydd yn cynnwys hysbysfyrddau, arosfannau bws a gorsafoedd trên, ystafelloedd ymolchi (h.y. – canolfannau hamdden, tafarndai, toiledau mewn archfarchnadoedd, canolfannau siopa) a meddygon, deintyddion a chlinigau iechyd cymunedol (tua 25% o'r holl feddygon teulu yng Nghymru).

Ei hamcanion fydd:

- Codi ymwybyddiaeth o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol a'i fod yn drosedd ac yn annerbyniol;

[4] Livefearfree.org.uk
0808 80 10 800

- Herio agweddau ac ymddygiad sy'n gallu arwain at dderbyn trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
- Codi ymwybyddiaeth o'r flaenoriaeth a roddir gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
- Tynnu sylw at wahanol fathau o gam-drin – seicolegol, corfforol ac ariannol;
- Codi ymwybyddiaeth o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol a gwaith cysylltiedig, yn enwedig herio agweddau hen ffasiwn ac annerbyniol at y pwnc; a
- Rhoi gwybod i rai sy'n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, am y gwasanaethau a'r wybodaeth sydd ar gael.

### E-ddysgu

Fel y dywedwn uchod, mae'r gynulleidfa ar gyfer hyfforddiant lefel 1 yn anferth ac, er mwyn cyrraedd nifer mor fawr o staff gwasanaeth cyhoeddus, mae e-Ddysgu'n cynnig dull fforddiadwy a hygyrch o ddarparu'r hyfforddiant.

Yn ogystal â bod yn gost-effeithiol ac o ansawdd uchel, mae dysgu ar-lein yn cynnig gwerth ychwanegol. Mae sesiynau tiwtorial ar-lein, sy'n annog arferion dysgu gweithredol, yn ffordd effeithiol a defnyddiol o ddarparu gwybodaeth. Lle cynigir adborth adeiladol drwy'r rhaglen, mae hyn yn annog dysgu annibynnol. [5]

Bydd y pecyn e-Ddysgu'n sylfaenol o ran ei gynnwys a'r nod cyffredinol fydd codi ymwybyddiaeth. Bydd yn cynnwys ymarferion rhyngweithiol, ffilm, sain a pheth hunanasesu.

Mae cydbwysedd cynnwys y pecyn wedi'i ystyried yn ofalus gan y Grŵp Datblygu'r Cynnwys. Mae angen i'r cynnwys sy'n gysylltiedig â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a allai fod yn sensitif a thrallodus, gael ei reoli'n ofalus i ddarparu profiad dysgu ysgogol heb achosi gofid i'r rhai sydd â phrofiad o'r materion hyn.

Ynghyd â'r cynnwys gofalus hwn, bydd y gwaith o reoli'r rhaglen e-Ddysgu hefyd yn cynnwys archwiliadau lles sy'n cydnabod y bydd cwblhau'r hyfforddiant ar-lein, i rai o'r cyfranogwyr, yn eu hysgogi i ofyn cwestiynau am eu perthnasoedd eu hunain ac, efallai, i adnabod arwyddion a symptomau cam-drin ynddynt eu hunain. Er mwyn rhoi sylw i hyn, bydd cyngor i'r cyfranogwyr a dolen gyswllt i Linell Gymorth Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Cymru Gyfan ar gael.

Wrth ei lansio, y nod yw y bydd y pecyn e-Ddysgu'n cyrraedd nifer sylweddol o bobl yn gyflym iawn. Bydd ar gael am ddim ac yn cael ei ddosbarthu drwy'r e-bost, gyda dolen gyswllt i'r wefan Live Fear Free. Bydd y pecyn yn cynnwys canllawiau ar y gynulleidfa darged a'r amserlen sy'n ofynnol ar gyfer ei gwblhau. Bwriedir cysylltu ag uwch-arweinwyr Gwasanaethau Cyhoeddus cyn lansio'r pecyn fel y gellir darparu cyfeiriad clir i staff ynghylch pwrpas yr hyfforddiant a'r amserlen sy'n ofynnol ar gyfer ei gwblhau. Dylid monitro'r cyfraddau cwblhau drwy adborth i reolwyr ac adrodd mewnol.

[5] Grant MJ, Brettle AK, Developing and evaluating an interactive information skills Tutorial, Canolfan Nyrsio, Bydwreigiaeth ac Ymchwil Gydweithredol Salford, y Sefydliad Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd, Prifysgol Salford, Salford, y DU.

Ar ôl hynny, rhaid cynnwys y pecyn e-Ddysgu ym mhob hyfforddiant cynefino gorfodol i roi sylw i drosiant staff.

Bydd y pecyn e-Ddysgu'n cael ei gryfhau a'i ategu gan gyfres o adnoddau atodol fydd yn adlewyrchu'r delweddu a ddefnyddir yn y pecyn codi ymwybyddiaeth cysylltiedig.

Gall yr adnoddau hyn gynnwys:

- deunyddiau cyfeirio cyflym, gan gynnwys taflenni neu lyfrynnau sy'n crynhoi'r hyfforddiant;
- Posteri gyda manylion y Llinell Gymorth Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Cymru Gyfan; a
- Cudd-wybodaeth i gleientiaid, fel y 'balmau gwefus' a roddir eisoes drwy'r ymgyrchoedd.

**Achredu**

Ni fydd y lefel hon yn y Fframwaith yn cael ei hachredu. Bydd yn cydymffurfio ag unrhyw Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) perthnasol a bwriedir cymryd pob cam rhesymol i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â CPD ar draws gwahanol broffesiynau.

DRAFT

Lefel 2

**Mae'n ofynnol i awdurdodau perthnasol:**

**Enwebu gweithwyr proffesiynol lleol sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer bod yn aelodau o'r consortia hyfforddiant rhanbarthol.**

**Sicrhau bod y gweithwyr proffesiynol enwebedig hyn yn cael eu hyfforddi ar y rhaglen Hyfforddi'r Hyfforddwr.**

**Sicrhau bod pob un o'r hyfforddwyr hyfforddedig hyn yn cael eu rhyddhau o'u dyletswyddau craidd i ddarparu hyfforddiant hyd at chwe gwaith y flwyddyn.**

**Blaenoriaethu'r rolau proffesiynol perthnasol canlynol i dderbyn hyfforddiant "Gofyn a Gweithredu".**

**Bydwragedd**
**Ymwelwyr Iechyd**
**Ymarferwyr Cyffredinol (Meddygon Teulu)**
**Staff Damweiniau ac Achosion Brys**
**Tîm Argyfwng Iechyd Meddwl**
**Nyrsys Ardal**
**Parafeddygon**
**Gweithwyr Cymdeithasol Amddiffyn Plant**
**Gweithwyr Cymdeithasol Diogelu Oedolion Agored i Niwed**
**Arweinwyr ar Ddiogelu mewn Addysg**
**Nyrsys Ysgol**
**Swyddogion Tai, Opsiynau Tai a Digartrefedd**
**Cynrychiolwyr y Timau Troseddwyr Ifanc**
**Yr holl ymladdwyr tân gyda chyfrifoldebau cymunedol**

**Sicrhau bod y gweithwyr proffesiynol hyn yn derbyn yr hyfforddiant a gynigir drwy'r consortia hyfforddi rhanbarthol.**

**Ystyried anghenion hyfforddi parhaus y gweithwyr proffesiynol perthnasol er mwyn cynnal eu sgiliau a gloywi eu gwybodaeth.**

Bydd lefel 2 y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol yn darparu hyfforddiant i gefnogi'r egwyddor o "Ofyn a Gweithredu". Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau manwl, ar wahân ar "Gofyn a Gweithredu". Mae'r adran hon yn canolbwyntio'n benodol ar elfen hyfforddiant y gwaith hwn.
Mae gan Wasanaeth Cyhoeddus Cymru rôl hanfodol i'w chwarae mewn cefnogi datgelu [gan gleientiaid] a chryfhau'r gwasanaethau a roddir iddynt. Mae angen dull mwy cyson o adnabod dioddefwyr, asesu risg ac atgyfeirio'n briodol ar draws Cymru. Prif amcan "Gofyn a Gweithredu" yw ei gwneud yn ofynnol i weithwyr proffesiynol perthnasol "ofyn" i ddioddefwyr posibl am y posibilrwydd o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, mewn rhai amgylchiadau, ac yna "gweithredu" i leihau'r dioddefaint a'r niwed sy'n digwydd o ganlyniad i drais a chamdriniaeth.

Proses o holi wedi'i dargedu ar draws y Gwasanaeth Cyhoeddus yw "Gofyn a Gweithredu" yng nghyswllt trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'r term holi wedi'i dargedu'n disgrifio lle caiff arwyddion o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, eu hadnabod, neu lle mae gwybodaeth arall yn bresennol sy'n awgrymu'r profiad hwn, gan yna ysgogi gweithiwr proffesiynol i ofyn i'w cleient a gawsant eu heffeithio gan unrhyw un o'r materion hyn ac i hwyluso atgyfeirio a chymorth priodol i'r cleient, yn defnyddio gwasanaethau lleol a chenedlaethol a dulliau atgyfeirio presennol.

## Nod

Bydd gan y cyfranogwyr y sgiliau, yr hyder ac yn gallu "Gofyn a Gweithredu".

## Cynulleidfa

Anelir lefel 2 y Fframwaith at staff Gwasanaethau Cyhoeddus mewn rolau proffesiynol "perthnasol".

Dylai'r awdurdodau perthnasol flaenoriaethu'r rolau proffesiynol perthnasol canlynol ar gyfer hyfforddiant ar "Ofyn a Gweithredu".

DRAFT

| Y Bwrdd Iechyd Lleol |
| --- |
| Bydwragedd<br>Ymwelwyr Iechyd<br>Ymarferwyr Cyffredinol<br>Staff Damweiniau ac Achosion Brys<br>Camddefnyddio Sylweddau<br>Nyrsys Seiciatrig Cymunedol<br>Tîm Argyfwng Iechyd Meddwl<br>Nyrsys Ardal Parafeddygon |
| **Awdurdod Lleol** |
| Gweithwyr Cymdeithasol Amddiffyn Plant<br>Gweithwyr Cymdeithasol Diogelu Oedolion Agored i Niwed<br>Arweinwyr Diogelu mewn Addysg<br>Nyrsys Ysgol<br>Swyddogion Tai, Opsiynau Tai a Digartrefedd<br>Cynrychiolwyr y Tîm Troseddwyr Ifanc |
| **Awdurdod Tân ac Achub** |
| Yr holl ymladdwyr tân gyda chyfrifoldebau cymunedol. |

**Nid yw'r rhestr yma'n gynhwysfawr** a gallai fod rolau ychwanegol lle bydd angen hyfforddi ar eu cyfer, ar sail angen lleol. I benderfynu a ddylai proffesiwn fod yn un "blaenoriaeth", dylid cymhwyso'r meini prawf canlynol:

### Meini prawf "blaenoriaeth"

Mae gweithiwr proffesiynol blaenoriaeth:

- mewn rôl sy'n wynebu'r cyhoedd, ac yn dod i gysylltiad rheolaidd â'r cyhoedd; a
- mewn rôl lle mae profiad eu grŵp cleientiaid o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cymhlethu ac effeithio ar natur ymgysylltiad y cleient â'r gwasanaeth a gynigir yn y rôl honno.

DRAFT

Cynnwys

| **Canlyniadau dysgu arfaethedig**<br><br>**Yn dilyn cwblhau'r hyfforddiant hwn bydd y cyfranogwyr yn:** | **Cymwyseddau arfaethedig** |
|---|---|
| Adnabod arwyddion a symptomau trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. | Gall y dysgwr adnabod arwyddion a symptomau trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.<br><br>Gall y dysgwr ddisgrifio sut y gall trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, effeithio ar unrhyw un ac nad yw ei brofi'n gysylltiedig ag unrhyw ddiwylliant, crefydd na statws economaidd-gymdeithasol penodol. |
| Deall pwrpas holi wedi'i dargedu a'r rhesymau drosto. | Gall y dysgwr egluro pam fod angen holi wedi'i dargedu a'u rôl yn y gwaith hwn. |
| Dangos eu bod yn gwybod am y ddeddfwriaeth ar rannu gwybodaeth a'r ddyletswydd i gadw cyfrinachedd. | Gall y dysgwr gyfeirio at ddeddfwriaeth ar rannu gwybodaeth.<br><br>Mae'r dysgwr yn dangos dealltwriaeth o'u dyletswyddau / ystyriaethau moesegol ynghylch cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth. |
| Gallu dangos sut i gychwyn siarad am drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. | Gyda diogelwch y cleient fel eu prif bryder; gall y dysgwr ofyn cwestiynau i rai sy'n dangos arwyddion a symptomau sy'n berthnasol i'w profiad posibl o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol..<br><br>Mae'r dysgwr yn dangos hyder i ofyn y cwestiwn yn ddiogel.<br><br>Mae'r dysgwr yn gallu ymateb yn briodol i ateb y cleient.<br><br>Mae'r dysgwr yn gallu disgrifio anghenion amrywiol a chymhleth ychwanegol y bydd yn eu hystyried wrth ofyn y cwestiynau. |
| Gallu adnabod risg mewn achosion o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. | Mae'r dysgwr yn deall pwrpas y Rhestri Adnabod Risg.<br><br>Mae'r dysgwr yn gallu defnyddio Rhestr |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | Adnabod Risg, a gytunwyd arni'n genedlaethol, gyda'r cleient i nodi lefel y risg y mae'r cleient yn ei wynebu.<br><br>Mae'r dysgwr yn deall pwysigrwydd adnabod unrhyw risg daer ac yn gallu defnyddio llwybrau i hwyluso hyn. |
| Gallu gweithredu'r llwybr gofal holi wedi'i dargedu.[6] | Mae'r dysgwr yn ymwybodol o'r dewisiadau gwasanaeth, yr opsiynau atgyfeirio a'r fforymau amlasiantaethol sydd ar gael i rai sy'n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.<br><br>Mae'r dysgwr yn gallu egluro'r rhain i'w cleient ac yn gallu hwyluso atgyfeiriad ar sail dewis y cleient.<br><br>Lle mae'r cleient neu berson cysylltiedig mewn perygl o gael niwed difrifol, mae'r dysgwr yn gallu dangos pa gamau gweithredu y bydd yn eu cymryd i ddiogelu unrhyw un mewn perygl, gan gynnwys plant. |

### Darparu

Cyflwynir lefel 2 y Fframwaith, i ddechrau, i gynulleidfa o tua 35,000 o weithwyr proffesiynol gwasanaethau cyhoeddus yn y grwpiau blaenoriaeth. Y dull arfaethedig o ddarparu'r hyfforddiant hwn fydd yn yr ystafell ddosbarth gyda'r cynllun darparu cychwynnol i'w gyflwyno dros dair blynedd.

Bydd pob opsiwn i integreiddio lefel 2 y Fframwaith gyda fframweithiau eraill, gan gynnwys y Fframwaith Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus (CPELF) i staff Gwaith Cymdeithasol a'r Ddogfen Ryng-golegol i staff Iechyd, yn cael eu hystyried i osgoi dyblygu unrhyw hyfforddiant ac i gydnabod dysgu blaenorol perthnasol.

Bydd lefel 2 y Fframwaith yn cael ei darparu drwy fodel lledaenu rhanbarthol.

Bydd Llywodraeth Cymru'n comisiynu i gaffael rhaglen hyfforddiant a phecyn o ddeunyddiau ategol. Bydd y pecyn yn cynnwys deunydd cyffredinol ar ymarfer craidd "Gofyn a Gweithredu" ynghyd â deunyddiau wedi eu teilwrio i gynulleidfa benodol. Bydd hyn yn darparu negeseuon hyfforddiant a chanlyniadau dysgu cyson ynghyd â'r cymwyseddau sy'n ofynnol i ddarparu'n genedlaethol.

Bydd y comisiwn i greu rhaglen hyfforddiant a phecyn o ddeunyddiau ategol hefyd yn cynnwys gofyniad ar wahân i ysgrifennu a darparu rhaglen "Hyfforddi'r Hyfforddwr".

Bydd yn galw am enwebu staff proffesiynol lleol sy'n cynrychioli rhanbarth, gwybodaeth arbenigol a chynulleidfa. Bydd y staff proffesiynol a enwebir yn derbyn hyfforddiant drwy'r rhaglen Hyfforddi'r Hyfforddwr ar negeseuon allweddol yr

[6] Bydd hwn yn cael ei deilwrio yn ôl y proffesiwn.

hyfforddiant a'r cymorth “Gofyn a Gweithredu” ynghyd â hyfforddiant sgiliau ar sut i ddarparu’r negeseuon hyn yn rhanbarthol.

Yr hyfforddwyr hyfforddedig hyn fydd aelodau cyntaf y consortia hyfforddi rhanbarthol. Bydd y consortia hyn yn rhan o’r model fydd yn darparu sawl lefel yn y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol a bydd rhanbarthau a sefydliadau’n gallu mabwysiadu dull hyblyg o hyfforddi staff proffesiynol lleol gan hefyd roi sylw i anghenion y cynulleidfaoedd blaenoriaeth sydd i’w targedu.

Bydd Llywodraeth Cymru’n comisiynu i gaffael rhaglen hyfforddiant a phecyn o ddeunyddiau ategol. Bydd cynnwys y pecyn yn eithaf cyffredinol o ran ymarfer "Gofyn a Gweithredu" craidd ynghyd â deunyddiau fydd wedi eu teilwrio i gynulleidfa benodol. Bydd y comisiwn i greu rhaglen hyfforddiant a phecyn o ddeunyddiau ategol hefyd yn cynnwys gofyniad ar wahân i ysgrifennu a darparu rhaglen “Hyfforddi’r Hyfforddwr”.

Gofynnir i’r consortia ddatblygu a gweithredu cynlluniau hyfforddi rhanbarthol, i'w cyflwyno fesul cyfnod dros dair blynedd i gyrraedd nifer cytunedig o staff proffesiynol. Bydd cynnydd a chanlyniadau’n cael eu monitro gan Lywodraeth Cymru, drwy’r Cynghorydd Gweinidogol.

### Canlyniadau

Yn ogystal â’r mesurau a ddisgrifir yn adran “Y Fframwaith” y canllawiau hyn, bydd canlyniadau ychwanegol wedi eu cysylltu i’r broses “Gofyn a Gweithredu” yn cael eu mesur ac, felly, hefyd yn cael eu hystyried fel rhan o ôl-astudio’r hyfforddiant. Bydd y canlyniadau hyn yn cynnwys:

- cyfraddau adnabod trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
- cyfraddau atgyfeirio at wasanaethau arbenigol;
- y cam-drin yn dod i ben;
- fictimeiddio drachefn;
- ymyrryd yn gynt; a
- pa mor hir y mae perthnasoedd camdriniol yn para.

### Achredu

Ni fydd y lefel hon yn y Fframwaith yn cael ei hachredu. Bydd yn cydymffurfio ag unrhyw Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) perthnasol a bwriedir cymryd pob cam rhesymol i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â CPD ar draws gwahanol broffesiynau.

## Lefel 3

**Mae'n ofynnol i awdurdodau perthnasol:**

**Ddewis consortia hyfforddi rhanbarthol sy'n cwrdd â meini prawf manwl i hyfforddi ar lefel 3.**

**Sicrhau bod y gweithwyr proffesiynol enwebedig hyn yn cael eu hyfforddi ar y rhaglen Hyfforddi'r Hyfforddwr ychwanegol.**

**Sicrhau bod pob un o'r hyfforddwyr hyfforddedig hyn yn cael eu rhyddhau o'u dyletswyddau craidd i ddarparu hyfforddiant hyd at chwe gwaith y flwyddyn.**

**Dewis pencampwyr o'r proffesiynau canlynol i dderbyn hyfforddiant lefel 3: gwaith cymdeithasol, tai, troseddau ieuenctid, camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl.**

**Sicrhau bod y gweithwyr proffesiynol hyn yn derbyn yr hyfforddiant lefel 3 fel a ddarperir drwy'r consortia hyfforddi rhanbarthol.**

Anelir lefel 3 y Fframwaith at rai fydd yn ofynnol iddynt wneud mwy na "Gofyn a Gweithredu"; rhai gyda chyfrifoldeb clir yn eu sefydliad i ddarparu gwasanaeth i gleient yr effeithir arnynt gan drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, neu i gefnogi aelodau o'r tîm. Bydd angen i'r gweithwyr proffesiynol hyn fod â dealltwriaeth ddofn o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, yr effaith bosibl ar ddiogelu plant a rheoli'r risg a gyflwynir gan y camdriniwr.

Bydd y gweithwyr proffesiynol hyn yn cefnogi eu sefydliadau i liniaru'r risg ac amddiffyn dioddefwyr sy'n oedolion, a'u plant. Mae'n bosibl y byddant hefyd yn gweithio â'r camdrinwyr. Mae'n bwysig cynnig hyfforddiant priodol i wella sgiliau a gwybodaeth ac i ddysgu gwersi o'r amrywiol Adolygiadau Dynladdiad Domestig ac Achosion Difrifol.

Dylai'r grwpiau proffesiynol canlynol gynnwys gweithwyr proffesiynol mewn rolau arwain neu sy'n gweithio gyda thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Gwaith Cymdeithasol
Tai
Timau Troseddwyr Ifanc
Camddefnyddio Sylweddau
Iechyd Meddwl

Er mwyn sicrhau bod gweithiwr proffesiynol gydag uwch-ddealltwriaeth o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, yn hysbys ac ar gael i bawb sy'n gweithio yn y maes hwn, dylid sicrhau bod o leiaf 10% o weithwyr proffesiynol penodol yn derbyn hyfforddiant lefel 3 yn ystod tair blynedd gyntaf y rhaglen.

## Nod

Bydd cyfranogwyr yn gallu ystyried y risg ac effaith y profiad o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ar holl aelodau'r teulu a gweithredu ymarfer effeithiol i liniaru'r risg hon.

## Cynulleidfa

Bydd yr hyfforddiant hwn yn berthnasol i unrhyw weithiwr proffesiynol gyda chyfrifoldeb arweiniol yn eu proffesiwn dros drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol (e.e. nyrsys diogelu, bydwragedd arbenigol) neu i rai sy'n gweithio gyda grŵp cleientiaid lle mae trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, yn gyffredin iawn (fel gweithwyr cymdeithasol, rhai sy'n gweithio mewn lleoliadau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau). Ei nod fydd darparu uwch-hyfforddiant i rai gyda rôl greiddiol mewn amddiffyn dioddefwyr a'u plant.

## Cynnwys

| **Canlyniadau dysgu arfaethedig: Yn dilyn cwblhau'r hyfforddiant hwn bydd y cyfranogwyr yn:** | **Cymwyseddau arfaethedig** |
|---|---|
| Deall rôl eu hasiantaeth a rôl cynrychiolydd yr asiantaeth mewn fforymau gweithredol amlasiantaethol. | Gall y dysgwr ddisgrifio proses, pwrpas a throthwyon pob fforwm gweithredol amlasiantaethol perthnasol a rôl eu hasiantaeth yn y fforwm.<br><br>Gall y dysgwr egluro beth yw cylch gwaith rhannu gwybodaeth pob fforwm.<br><br>Gall y dysgwr restru enghreifftiau o weithredu sy'n ofynnol drwy'r fforwm amlasiantaethol. |
| Deall y cysylltiad rhwng trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a'r risg i blant a chymryd camau priodol i leihau'r risg hon. | Mae gan y dysgwr ddealltwriaeth fanwl o'r berthynas rhwng trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a cham-drin plant, ac yn gallu cymhwyso eu gwybodaeth i brosesau diogelu priodol a chadarn. |
| Deall goblygiadau gweithio gyda theuluoedd lle mae'r camdriniwr yn parhau i fod yn y cartref teuluol. | Mae'r dysgwr yn deall y risg i'r teulu o ymgysylltu â mynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. |

## Darparu

Ar y lefel arbenigedd hon, gyda'r goblygiadau ymarfer ychwanegol i'r gwaith, cynigir mai hyfforddi'n uniongyrchol yn yr ystafell ddosbarth yw'r dull darparu mwyaf priodol.

### Achredu

Bydd asesu ac achrediad ffurfiol yn cael eu hystyried ar y lefel hon.

DRAFT

## Lefel 4

**Mae'n ofynnol i awdurdodau perthnasol:**

**Sicrhau bod unrhyw weithiwr sy'n gweithio eisoes fel Cynghorwr Annibynnol ar Drais Domestig, Cynghorwr Annibynnol ar Drais Rhywiol, gweithiwr allgymorth, gweithiwr prosiect, gweithiwr achos, gweithiwr cymorth hyblyg, gweithiwr lloches, gweithiwr allweddol, gweithiwr argyfwng, gweithiwr cymorth eiriolaeth neu mewn unrhyw rôl arall sy'n darparu cymorth arbenigol i rai sy'n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, yn cael eu hyfforddi ar gwrs priodol (fel a ddisgrifir yn y canllawiau hyn).**

**Sicrhau bod unrhyw weithiwr sy'n cael ei recriwtio i weithio fel Cynghorwr Annibynnol ar Drais Domestig, Cynghorwr Annibynnol ar Drais Rhywiol, gweithiwr allgymorth, gweithiwr prosiect, gweithiwr achos, gweithiwr cymorth hyblyg, gweithiwr lloches, gweithiwr allweddol, gweithiwr argyfwng neu weithiwr cymorth eiriolaeth yn cael eu hyfforddi ar gwrs priodol o fewn 12 mis i ddechrau yn eu rôl.***

*Caiff ei gydnabod bod y rhan fwyaf o broffesiynau arbenigol wedi eu lleoli y tu allan i'r awdurdodau perthnasol, yn y sector elusennau arbenigol. Mae Llywodraeth Cymru'n annog pob gweithiwr arbenigol i dderbyn hyfforddiant priodol, i ba bynnag sefydliad y maent yn gweithio.

Mae amryw byd o gyrsiau hyfforddi eisoes ar gael ar draws Cymru. Cynigir rhai o'r cyrsiau hyn fel rhan o ymgyrch genedlaethol i broffesiynoli'r ymateb i rai sy'n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, tra bod eraill yn deillio o raglenni lleol i roi sylw i angen newydd.

Mae lefel 4 y Fframwaith yn cyflwyno'r cymwysterau proffesiynol hynny sy'n cael eu hargymell ar gyfer rolau arbenigol penodol a'i nod yw cyfuno'r gwahanol raglenni hyfforddiant ar bynciau arbenigol eraill yn un adnodd wedi'i reoli'n ganolig sy'n cynnig ansawdd cyson a sicr, ym mhob ardal.

Ni fwriedir i'r Fframwaith 'fygu' y cyrsiau hyfforddi hynny a ddatblygir i ddiwallu angen wedi'i nodi. Caiff ei gydnabod bod gan y rhain, yn aml, rôl werthfawr i'w chwarae mewn ymateb i amgylchiadau lleol ond, er hynny, mae'n bwysig eu cysoni ag amcanion y Fframwaith o ddarparu ansawdd cyson a sicr.

## Nod

Cynnig cymwysterau proffesiynol, cynhwysfawr i'r bobl sy'n darparu gwasanaethau arbenigol ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, er mwyn sicrhau bod gan gleientiaid fynediad at ymarferwyr arbenigol ar y pwynt pan ofynnir am help, a;

chasglu cynnwys, canlyniadau dysgu a chymwyseddau trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, at ei gilydd yn un maes llafur canolog sy'n cynnig ansawdd cyson a sicr, ym mhob ardal, gan arwain at:

unffurfiaeth o ran ymarfer y gweithwyr proffesiynol hyfforddedig, a gwasanaethau gwell i rai sy'n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

**Cynulleidfa**

Mae'r gynulleidfa yn lefel 4 yn cynnwys dau grŵp:

1) Rhai sydd angen cymwysterau achredadig arbenigol arnynt i ymarfer mewn rolau penodol. Mae'r rolau hyn yn cynnwys Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig, Gweithwyr Allgymorth, Gweithwyr Achos, Gweithwyr Cymorth Hyblyg, Gweithwyr Allweddol / Lloches, Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol, a Gweithwyr Argyfwng.

2) Rhai nad ydynt mewn rolau arbenigol ond sydd angen addysg ar faterion pwnc penodol arnynt i ymateb i anghenion newydd gan eu cleientiaid. Gallai hyn gynnwys ymwelydd iechyd a fyddai'n elwa o hyfforddiant mewn Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod fel y gallai adnabod y risg o hyn yn digwydd ac ymateb yn effeithiol.

Mae gweddill y bennod hon mewn dwy ran i adlewyrchu'r gwahaniaeth yn y grŵp cynulleidfa.

**1) Rhai sydd angen cymwysterau achredadig arbenigol arnynt.**

**Cynnwys**

Cyflawnir amryw o rolau yn y sector arbenigol i ddarparu gwasanaethau i rai a brofodd drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae teitl, disgrifiad ac i ba bwrpas y comisiynwyd y rolau hyn yn amrywio'n lleol. Fodd bynnag, mae llawer yn amrywio mwy o ran teitl na swyddogaeth ac, felly, mae angen yr un set o sgiliau arnynt. Nid yw'n bosibl yn y canllawiau hyn rhoi rhestr gynhwysfawr o'r holl rolau lleol. Mae'r tabl isod yn categoreiddio'r rolau'n faes pwnc, yn rhoi'r teitlau swydd arferol cysylltiedig, a chrynodeb byr o'u pwrpas.

Mae'r rolau a restrir yma'n ymwneud â chymorth ymarferol ac eiriolaeth. Nid yw'r Fframwaith hwn yn cynnwys gwasanaethau cwnsela; dylai'r rhain gydymffurfio â gofynion y corff rheoleiddio perthnasol.

Mae cynnwys y cyrsiau a restrir isod yn eithaf tebyg ond yn amrywio o ran manylder a strwythur.

Argymhellir bod y cyrsiau sy'n canolbwyntio ar gam-drin domestig yn cynnwys:

- diffiniadau, cylch gwaith a phwrpas y rolau;
- y cyfnodau newid a chyfweld ysgogiadol;
- hunanofal a thrawma dirprwyol;

- deall sut i gynllunio ar gyfer ac ymateb i anghenion amrywiol cleientiaid;
- adnabod, asesu a rheoli risg;
- cydweithrediad amlasiantaethol;
- y System Cyfiawnder Troseddol (gweithio gyda'r heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a Phrawf);
- rheoli achosion;
- rhannu gwybodaeth;
- defnyddio atebion cyfraith sifil;
- diogelu plant;
- iechyd meddwl;
- defnyddio sylweddau;
- opsiynau Tai a digartrefedd;
- trais ar sail "anrhydedd", priodi dan orfod, anffurfio organau cenhedlu menywod a dim mynediad at arian cyhoeddus;
- trais rhywiol;
- yr effaith ar iechyd;
- stelcio a harasio; a
- nodweddion y camdriniwr.

Dylai'r cyrsiau sy'n canolbwyntio ar drais rhywiol ddarparu'r cynnwys perthnasol uchod a chynnwys ychwanegol ar:

- ymateb pobl i drawma;
- iechyd rhywiol;
- asesiad o'r anghenion trais rhywiol; a
- trefn a swyddogaeth y Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol.

DRAFT

| **Cyrsiau penodol ar gyfer rolau arbenigol** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Rôl** | **Pwrpas y rôl** | **Gwasanaeth yn cael ei roi i rai a brofodd:** | **Grŵp cleientiaid y rhoddir y gwasanaeth iddynt** | **Gofynion hyfforddiant** |
| Cam-drin domestig | Cynghorwr Trais Domestig Annibynnol (IDVA) | Cynnig cymorth argyfwng a thymor canolig i rai sy'n wynebu'r risg fwyaf, a chydgysylltu cydweithrediad amlasiantaethol cleient-ganolog. | Cam-drin domestig, trais rhywiol mewn perthynas bersonol agos, trais ar sail "anrhydedd", anffurfio organau cenhedlu menywod, priodi dan orfod, stelcio a harasio mewn perthynas bersonol agos. | Pob grŵp cleientiaid. | Hyfforddiant IDVA CAADA[7] |
| | Gweithwyr Allgymorth / Gweithwyr Achos | Cynnig cymorth argyfwng a thymor canolig i rai nad ydynt yn wynebu risg uchel. | | Gallai fod yn fenywod yn unig, gan ddibynnu ar y sefydliad. | Hyfforddiant IDVA CAADA<br><br>Tystysgrif WWA |
| | Gweithwyr Cymorth Hyblyg | Darparu cymorth emosiynol ac ymarferol yng nghartref y cleient. Gallai gynnwys cymorth tenantiaeth. | | Gallai fod yn fenywod yn unig, gan ddibynnu ar y sefydliad. | Hyfforddiant IDVA CAADA<br><br>Tystysgrif WWA |
| | Gweithwyr Allweddol / Lloches | Darparu cymorth ymarferol ac emosiynol i breswylwyr mewn lloches. | | Mae'r rhan fwyaf o lochesau'n rhai i un rhyw'n unig ac mae'r rhan fwyaf yng Nghymru'n rhai ar gyfer menywod (er bod rhai unedau i ddynion yn unig ar gael). | Hyfforddiant IDVA CAADA<br><br>Tystysgrif WWA |

DRAFT

[7] Mae Llywodraeth Cymru'n ariannu gwasanaethau IDVA yn rhannol ar draws Cymru a bydd y cymhwyster hwn yn un o ofynion y cyllid o 2014-15 ymlaen.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Trais rhywiol | Cynghorwr Annibynnol ar Drais Rhywiol (ISVA) | Cynnig cymorth ac arbenigedd ar sail angen ar y broses cyfiawnder troseddol ac adennill DNA fforensig. | Trais rhywiol mewn perthynas bersonol agos a lle mae'r camdriniwr yn ddieithryn neu'n gydnabod. Cam-drin rhywiol hanesyddol. | Pob grŵp cleientiaid. | Hyfforddiant ISVA yr Ymddiriedolaeth Goroeswyr.<br><br>Hyfforddiant ISVA *Lime Culture*<br><br>Cwrs trosi IDVA-ISVA CAADA |
| | Gweithwyr Argyfwng / Gweithwyr Eiriolaeth | Cynnig cymorth yn syth pan fo'r cleient yn datgelu a thrwy unrhyw archwiliad fforensig neu feddygol yn dilyn trais rhywiol. | Trais rhywiol mewn perthynas bersonol agos a lle mae'r camdriniwr yn ddieithryn neu'n gydnabod. | Pob grŵp cleientiaid. | Hyfforddiant ISVA yr Ymddiriedolaeth Goroeswyr.<br><br>Hyfforddiant ISVA *Lime Culture*<br><br>Cwrs trosi IDVA-ISVA CAADA |

### Darparu

Mae'r cyrsiau uchod ar gael ar hyn o bryd i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yng Nghymru.
Cynigir pob un o'r cyrsiau gan ddarparwr cenedlaethol a'r bwriad yw bod y trefniant hwn yn parhau. Ar hyn o bryd mae cyllid gan y Swyddfa Gartref ar gael ar gyfer hyfforddiant IDVA ac ISVA ac yn debygol o fod ar gael tan fis Mawrth 2015 o leiaf.

Dylid hyfforddi pob gweithiwr arbenigol newydd o fewn 12 mis i ddechrau yn eu rôl.

### Achredu

Mae pob un o'r cyrsiau proffesiynol a ddisgrifir yn y bennod hon yn achrededig naill ai ar lefel 3 neu 4 gyda Rhwydwaith y Coleg Agored neu ar lefel dystysgrif ar y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau. Dylai bob cwrs penodol ar gyfer rolau arbenigol gael ei achredu ar y lefelau hyn.

### 2) Rhai nad ydynt mewn rolau arbenigol ond sydd angen addysg ar faterion pwnc penodol arnynt i ymateb i anghenion newydd gan eu cleientiaid.

### Cynnwys

Bydd lefelau 2 a 3 y Fframwaith yn darparu'r cynnwys sylfaenol fel bod gweithwyr proffesiynol anarbenigol yn gallu ymateb yn effeithiol i rai sy'n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. I ddilyn hyn, ac fel rhan o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus, gall y gweithwyr proffesiynol hyn nodi meysydd penodol lle byddent yn elwa o wybodaeth well. Mae'n debyg na fydd y cymwysterau proffesiynol yn lefel 4 yn briodol oherwydd gofynion cost ac amser, ond gallai cyrsiau byrrach gyda ffocws mwy penodol fod yn addas.

Cynigiwyd y math hwn o hyfforddiant mewn sawl rhan o Gymru ers blynyddoedd, yn aml gan ddarparwyr gwasanaethau arbenigol neu drwy bartneriaethau fel y Bwrdd Lleol Diogelu Plant.

Yn ôl arolwg byr o Gydgysylltwyr Cam-drin Domestig[8], mae'r cyrsiau canlynol ar gael yng Nghymru ar hyn o bryd:

- ymwybyddiaeth o gam-drin domestig - cyrsiau 1 a ½ diwrnod;
- cam-drin domestig a'r effeithiau ar blant;
- asesu risg a gweithio'n amlasiantaethol;
- deall y rhai sy'n cyflawni cam-drin domestig;
- ymwybyddiaeth o gam-drin rhywiol;
- cam-drin ar sail "anrhydedd" a phriodi dan orfod;
- Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod; a
- trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: profiad pobl ifanc.

[8] Roedd arolwg Llywodraeth Cymru 2014-18 o'r 22 o Gydgysylltwyr Cam-drin Domestig wedi ymateb mewn pryd i gael ei gynnwys yn y canllawiau hyn.

Fodd bynnag, ac eithrio hyfforddiant ymwybyddiaeth o gam-drin domestig, a gynigir ym mhob ardal, nid yw hyfforddiant yn y pynciau hyn ar gael ar lefel genedlaethol. Dim ond mewn un neu ddwy ardal Awdurdod Lleol y mae llawer o'r pynciau a restrir ar gael, ac mae strwythur y cyrsiau'n amrywio.

Bydd lefel 4 y Fframwaith yn llunio rhestr o gyrsiau hanfodol sy'n berthnasol i Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus pob gweithiwr proffesiynol. Bydd hefyd yn nodi'r canlyniadau dysgu a'r cymwyseddau fydd yn ofynnol ar gyfer y cyrsiau hyn er mwyn creu cysondeb o ran cynnwys ac ansawdd.

Fel blaenoriaeth, bydd y cyrsiau canlynol yn cael eu llunio:

- cwrs undydd ar ymwybyddiaeth o gam-drin domestig;
- cwrs ½ diwrnod ar gaethwasiaeth fodern;
- cwrs ar stelcio a harasio;
- cwrs undydd ar drais rhywiol;
- sesiynau ar drais ar sail "anrhydedd", priodi dan orfod, Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod a Dim Mynediad at Arian Cyhoeddus;
- cwrs undydd ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol: profiad pobl ifanc.

### Darparu

Bydd llunio'r maes llafur lefel 4 yn amlinellu'r gofynion canlynol ar gyfer cyrsiau pwnc-benodol i ddarparu'r cysondeb a'r ansawdd sicr sy'n ofynnol:

- y canlyniadau dysgu, canlyniadau gwerthuso a chymwyseddau sy'n ofynnol;
- y goblygiadau i ymarfer sy'n deillio o'r cwrs;
- safon y deunyddiau;
- y meini prawf ar gyfer hyfforddwyr y pwnc hwn (i gynnwys profiad hyfforddiant ac ymarfer);
- trefn y cwrs (nifer y dysgwyr, dull hyfforddi); a
- y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) perthnasol.

### Cyrsiau sy'n bodoli'n barod

Bydd cyrsiau sy'n bodoli'n barod (h.y. a restrir uchod) yn cael eu mapio yn erbyn ei gilydd i gytuno ar gyfres o ganlyniadau dysgu sy'n cynrychioli ansawdd y cwrs sy'n ofynnol ar gyfer Cymru. Cytunir ar y canlyniadau dysgu hyn gan y Grŵp Datblygu'r Cynnwys sy'n banel cytbwys a chynrychiadol o'r gynulleidfa. Gofynnir i'r Grŵp hefyd ystyried y gofynion ychwanegol uchod.

Bydd y canlyniadau a'r gofynion dysgu hyn yn sail ar gyfer cwrs cymeradwy gan Lywodraeth Cymru ar y pwnc perthnasol ac, felly, y model hyfforddiant cymeradwy ar gyfer y pwnc hwn. Bydd y canlyniadau a'r gofynion dysgu cymeradwy ar gael ar y wefan *Live Fear Free* a bydd darparwyr hyfforddiant lleol yn cael eu hannog i ddefnyddio'r modelau hyn yn sail ar gyfer hyfforddiant ar y pwnc hwn.



DRAFT

Bydd deunyddiau ac adnoddau defnyddiol hefyd yn cael eu rhestru gyda'r gofynion i gefnogi hyfforddiant cyson, yn ogystal â ffurflen werthuso. Bydd canlyniadau'r monitro a'r gwerthuso hwn yn cael eu monitro gan y Cynghorydd Gweinidogol i asesu effaith y model hyfforddiant cymeradwy ac i roi sylw'n flynyddol i unrhyw ddiffygion.

### Pynciau neu gyrsiau newydd

Lle nodir bod angen cwrs newydd yn lleol, bydd y camau canlynol yn ofynnol i restru'r cwrs ar y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ac, felly, i dderbyn sêl bendith ansawdd Llywodraeth Cymru ar ei gyfer.

Dylid cyflwyno manylion y cwrs i'r Grŵp Datblygu'r Cynnwys am sylw.

Dylai'r manylion hyn gynnwys:

- dadansoddiad o anghenion hyfforddi sy'n dangos bod angen y cwrs hwn;
- y meini prawf ar gyfer hyfforddwyr y pwnc hwn (i gynnwys profiad hyfforddiant ac ymarfer);
- y gynulleidfa darged ar gyfer y cwrs;
- trefn y cwrs (nifer y dysgwyr, dull hyfforddi);
- canlyniadau dysgu, canlyniadau gwerthuso a deunyddiau; a
- sut y mae'n mapio i'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) perthnasol.

Bydd y Grŵp Datblygu'r Cynnwys yn cyflwyno proses rheoli ansawdd ar gyfer cyflwyno cyrsiau hyfforddi ar lefel 4. Bydd y Grŵp yn ystyried a yw ansawdd y cwrs yn ddigon da i'w restru ar y Fframwaith, a yw'r cwrs yn gorgyffwrdd ag unrhyw gwrs arall a restrir, addasrwydd y cwrs ar gyfer cynulleidfaoedd amlasiantaethol a hefyd a yw'n cysylltu'n briodol i'r llwybrau atgyfeirio cenedlaethol sy'n gysylltiedig â gwasanaethau arbenigol a Gofyn a Gweithredu.

Lle caiff cwrs ei gymeradwyo i'w gynnwys ar y Fframwaith, mae'n dod yn gwrs cymeradwy gan Lywodraeth Cymru ac yna'n model hyfforddiant cymeradwy ar gyfer pwnc penodol.

### Achredu

Bydd y cyrsiau pwnc-benodol ar lefel 4 yn cael eu cynnig i gynulleidfa amrywiol. Dylai cyrsiau gydymffurfio ag unrhyw Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) perthnasol a bwriedir cymryd pob cam rhesymol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â CPD ar draws gwahanol broffesiynau. Bydd achredu cyrsiau'n ffurfiol hefyd yn cael ei ystyried fel opsiwn i'r dysgwr, felly hefyd integreiddio'r cyrsiau i hyd mewn pecyn dysgu achrededig, fydd ar gael dros amser.

### Lefel 5

**Mae'n ofynnol i awdurdodau perthnasol:**

**Sicrhau bod unrhyw weithiwr sy'n gweithio eisoes fel rheolwr gwasanaeth cymunedol, rheolwr lloches, arweinydd tîm neu mewn rôl arwain / uwch yn derbyn hyfforddiant lefel 5 y Fframwaith ar ôl lansio'r hyfforddiant hwn.**

**Sicrhau bod unrhyw weithiwr sy'n cael ei recriwtio i weithio fel rheolwr gwasanaeth cymunedol, rheolwr lloches, arweinydd tîm neu mewn rôl arwain / uwch yn derbyn hyfforddiant ar gwrs priodol o fewn 12 mis i ddechrau yn eu rôl.***

*Caiff ei gydnabod bod y rhan fwyaf o broffesiynau arbenigol wedi eu lleoli y tu allan i'r awdurdodau perthnasol, yn y sector elusennau arbenigol. Mae Llywodraeth Cymru'n annog pob gweithiwr arbenigol i dderbyn hyfforddiant priodol, i ba bynnag sefydliad y maent yn gweithio.

Anelir lefel 5 y Fframwaith at rai sy'n rheoli gwasanaethau eiriolaeth a chymorth arbenigol i rai sy'n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'r gwasanaethau hyn yn aml yn fach ac yn dibynnu ar reolaeth effeithiol i gynnig gwasanaeth o safon uchel a chynaliadwy.

Bydd yr hyfforddiant yn ceisio 'arfogi' rheolwyr gwasanaeth, uwch-weithwyr neu weithwyr proffesiynol arweiniol i weithredu strwythurau rheoli achosion effeithiol, darparu data rheoli perfformiad priodol ac ystyried lles staff. Bydd hefyd yn eu harfogi i arwain eu gwasanaeth drwy fframweithiau comisiynu, codi arian, Adolygiadau Dynladdiad Domestig ac Adolygiadau Achosion Difrifol.

### Nod

Bydd yr hyfforddiant hwn yn arfogi'r cyfranogwyr i ddeall y prosesau sy'n ofynnol i reoli gwasanaethau ar gyfer rhai yr effeithir arnynt gan drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ac yn gwella perfformiad staff rheng flaen drwy reolaeth ac arweinyddiaeth gadarn.

### Cynulleidfa

Byddai'r swyddi a dargedir gan yr hyfforddiant hwn yn cynnwys rheolwyr gwasanaethau cymunedol, rheolwyr llochesau, arweinwyr tîm ac uwch-staff fel uwch-gynghorwyr IDVA neu gynghorwyr IDVA arweiniol.

## Cynnwys

| **Canlyniadau dysgu arfaethedig**<br><br>**Yn dilyn cwblhau'r hyfforddiant hwn bydd y cyfranogwyr yn:** | **Cymwyseddau arfaethedig** |
|---|---|
| Deall y nodweddion rheoli ac arwain sy'n ofynnol ar gyfer rhai sy'n darparu gwasanaethau trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. | Gall y dysgwr dywys eu staff i gynnal prosesau rheoli achosion effeithiol sy'n ddiogel, cyfreithiol a thrylwyr.<br><br>Mae'r dysgwr yn deall ei rôl reoli mewn cefnogi'r gweithlu i ddarparu gwasanaethau i rai sy'n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ac mewn sicrhau prosesau gofal effeithiol ar lefel unigolyn a sefydliad. |
| Deall yr Ymateb Cymunedol Cydgysylltiedig a gweithio'n effeithiol oddi mewn iddo. | Gall y dysgwr ddangos cydweithrediad ffurfiol ac anffurfiol wrth weithio.<br><br>Mae'r dysgwr wedi'i arfogi i arwain eu tîm drwy Adolygiadau Dynladdiad Domestig ac Adolygiadau Achosion Difrifol ac yn deall rôl eu gwasanaeth o fewn y broses hon. |
| Deall a gallu cynllunio cyfeiriad strategol y gwasanaeth. | Gall y dysgwr greu strategaethau codi arian effeithiol.<br><br>Mae'r dysgwr yn deall y fframwaith comisiynu ac yn gwybod sut i baratoi ar gyfer prosesau comisiynu a chyfrannu'n effeithiol atynt. |
| Deall pwysigrwydd monitro a gwerthuso gwasanaethau i rai yr effeithir arnynt gan drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. | Gall y dysgwr fesur effaith gwasanaeth mewn canlyniadau.<br><br>Gall y dysgwr ddangos rheolaeth effeithiol o ddata a defnyddio hyn i wella gwasanaethau. |

## Darparu

Darperir lefel 5 y Fframwaith drwy hyfforddiant yn yr ystafell ddosbarth, gweithdai a setiau dysgu gweithredol. Daw'r rhain â rheolwyr gwasanaeth at ei gilydd ar draws

Cymru, gan roi cyfle i rwydweithio a derbyn cymorth gan gydweithwyr ar draws y sector ehangach.

### Achredu

Bydd y cwrs hwn yn cael ei achredu a'i gynnig ar lefel uwch na chyrsiau lefel 4. Mae'r dyluniad hwn yn cynnig datblygiad academaidd rhwng lefel 4 a 5 y Fframwaith fydd yn proffesiynoli'r sector arbenigol ymhellach ac yn rhoi cyfle i gyfrannu at gadw staff medrus.

DRAFT

## Lefel 6

Bydd lefel 6 y Fframwaith yn creu diwylliant a seilwaith fydd yn helpu rheolwyr ac arweinwyr i gyflwyno a gweithredu’r cyfarwyddyd ymarfer a gwybodaeth a enillir drwy lefel 1 hyd at 5. Mae lefel 6 yn cyfuno Cynllun Ymgysylltu Strategol i’w adolygu’n flynyddol wedi'i atodi gan ddeunyddiau ategol perthnasol.

Bydd lefel 1 a 6 y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol yn cael eu lansio gyda’i gilydd.

## Nodau

Ennyn cyfranogiad arweinwyr Gwasanaethau Cyhoeddus drwy godi ymwybyddiaeth a’u haddysgu am drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, fel mater darparu gwasanaeth a gweithlu.

Creu diwylliant a seilwaith sy’n cefnogi amcanion y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

## Cynulleidfa

Bydd lefel 6 y Fframwaith yn canolbwyntio ar Uwch-Arweinwyr y Gwasanaeth Cyhoeddus.  Maent yn cynnwys (ond heb eu cyfyngu i) Prif Swyddogion Gweithredol, Arweinwyr Cynghorau, Cyfarwyddwyr Personél, Cyfarwyddwyr Gweithlu, Rheolwyr Hyfforddi a Datblygu, Undebau Llafur, Prif Gwnstabliaid, Prif Swyddogion Tân ac Achub a chomisiynwyr perthnasol.

## Cynnwys

Bydd cynnwys lefel 6 y Fframwaith yn esblygu gan ddibynnu ar flaenoriaethau strategol ac unrhyw sialens i weithredu.  Yn y lle cyntaf bydd yn canolbwyntio ar Fil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig, a Thrais Rhywiol (Cymru).

Dros amser bydd lefel 6 yn darparu cynnwys ar:

- cyfrifoldebau’r awdurdod perthnasol sy’n deillio o’r Bil, sy’n ceisio gwella’r trefniadau ar gyfer atal trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
- fel mater gweithlu - pwysigrwydd cael gweithlu ymwybodol a gwybodus;
- “Gofyn a Gweithredu” - ei bwrpas, rhesymeg a’i bwysigrwydd;
- arweinyddiaeth mewn sefyllfaoedd cynyddol gymhleth[9];
- gweithio mewn partneriaeth rhwng gwasanaethau arbenigol a chyhoeddus;
- cynnal a chyfrannu at asesiadau trylwyr o angen;
- adolygu a monitro polisˆau’r Gweithle; a
- gwybodaeth pwnc-benodol wedi’i harwain gan randdeiliaid arbenigol.

Lle bo hynny’n briodol, bydd lefel 6 yn cynnwys adborth, astudiaethau achos a, lle bo hynny’n addas a diogel, tystiolaeth uniongyrchol gan ddefnyddwyr gwasanaeth.

[9] Fel rheoli “teuluoedd trwblus” neu rai sydd angen ymyriadau niferus a thraws-bynciol arnynt.

DRAFT

### Darparu

Bydd darparu lefel 6 y Fframwaith yn digwydd drwy ddwy ffrwd waith.

1) Cynllun Ymgysylltu Strategol

2) Y Gyfres Cryfhau Arweinyddiaeth

1) Cynllun Ymgysylltu Strategol

Bydd y Cynllun Ymgysylltu Strategol yn golygu ymyrryd yn uniongyrchol i ennyn cyfranogiad arweinwyr Gwasanaethau Cyhoeddus a sicrhau ymrwymiad i weithredu penodol, i godi ymwybyddiaeth a chyfrannu mewnbwn at loywi polisi a deddfwriaeth.

Mae'r Cynllun Ymgysylltu Strategol yn cynnwys amserlen o ddigwyddiadau perthnasol wedi eu hanelu at arweinwyr Gwasanaethau Cyhoeddus, sydd eisoes yn dylanwadu ar strategaeth a chyfeiriad ac eisoes yn derbyn mewnbwn gan arweinwyr. Rhoddir crynodeb isod o’r mathau o ddigwyddiadau:

| **Math o fforwm** | **Gweithgaredd penodedig** |
|---|---|
| Byrddau / cyfarfodydd / partneriaethau | Grŵp Darparu Diwygiadau (RDG)<br>Cyfarfod Gwasanaethau Effeithiol i Grwpiau Agored i Niwed<br>Cyfarfod y Prif Grŵp Darparu (G42)<br>Bwrdd Gweithredu’r Hawl i Fod yn Ddiogel<br>Gwasanaethau Tân ac Achub<br>Grŵp Datblygu Sefydliadol a Phersonél (PODG - Tân ac Achub)<br>Cyngor Partneriaeth y Gweithlu<br>Cwnselwyr Arweiniol Awdurdod Lleol<br>Cyfarwyddwyr Grŵp Adnoddau Dynol y WLGA<br>Cyfarfod Cyfarwyddwyr Gweithlu’r GIG<br>Conffederasiwn y GIG<br>Fforwm Cydgysylltwyr Cam-drin Domestig<br>Cyfarfod gweinidogol â Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu<br>Gwasanaethau’r Heddlu ar draws Cymru |
| Cyfarfodydd Llywodraeth Cymru | Grŵp Busnes |
| Digwyddiadau | Cynhadledd y WLGA<br>Y Gynhadledd Genedlaethol i Gwnselwyr<br>Cynhadledd / digwyddiadau penodol yn ymwneud â'r Bil |
| Cyhoeddiadau | Cyswllt Cynghorwyr<br>Municipal Journal<br>Cylchlythyrau i staff |
| Llythyrau / cyfathrebu | Llythyrau Gweinidogol<br>Llythyrau CEO – Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru |

Y bwriad yw y bydd cyflwyniadau Gweinidogol, presenoldeb uwch-swyddogion o'r Llywodraeth ac, ymhen amser y Cynghorydd Gweinidogol, yn y digwyddiadau hyn yn cynnig gwybodaeth a chyfle i ddylanwadu ar arweinyddiaeth y Gwasanaeth Cyhoeddus, yng nghwmni eu cydweithwyr, heb wneud galwadau ychwanegol diangen ar eu hamser. Mae'n debygol o arwain at ymgysylltu cryfach a chyrraedd yn ehangach.

Bwriedir hefyd cynnal cynhadledd benodol wedi'i hanelu at arweinwyr Gwasanaethau Cyhoeddus, i drafod y Cydsyniad Brenhinol ar gyfer y Bil, er mwyn cryfhau ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth, egluro'r dyletswyddau fydd yn ofynnol a chreu impetws ar gyfer ymarfer ar ôl deddfu.

2) Y Gyfres Cryfhau Arweinyddiaeth

Cyhoeddir y Gyfres Cryfhau Arweinyddiaeth i gefnogi'r negeseuon a ledaenir drwy'r Cynllun Ymgysylltu Strategol. Bydd y gyfres yn cyfleu'r arweinyddiaeth a'r ymrwymiad Gweinidogol, yn rhannu arbenigedd y sector arbenigol ac yn rhoi canllawiau ar weithredu cynnwys y Bil a'r Polisi er mwyn cyfathrebu'n rheolaidd ar faterion trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Cyflwynir cynnwys y gyfres mewn amrywiaeth o wahanol fformatau, wedi eu dylunio i gynnig mynediad cyflym ac i annog yr ymgysylltiad gorau. Bydd y fformatau hyn yn cynnwys:

Clipiau fideo: Portreadau bychain i roi gwybodaeth benodol am bwnc. Gallai hyn gynnwys neges gan y Gweinidog ar Fil Trais ar Sail Rhywedd, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) neu arbenigwr pwnc yn siarad ar fater cysylltiedig.

Gweminarau: Gallai'r rhain gael eu recordio neu eu ffrydio'n fyw gan roi gwybodaeth fanwl am bwnc neu faes gweithredu. Gallai olygu dysgu rhwng cydweithwyr a rhannu arferion gorau. Byddai'r gweminarau a fyddai'n cael eu ffrydio'n fyw'n rhyngweithiol gan roi cyfle i holi ac ateb a thrafod.

Sesiynau briffio: Byddai clipiau fideo a gweminarau yn cynnwys sesiynau briffio i roi canllawiau ychwanegol. Gellir defnyddio'r rhain i helpu i ddirprwyo tasgau cysylltiedig, e.e. i adolygu polisi'r gweithle neu i greu llwybrau atgyfeirio.

Ffrydio'n fyw: Lle bo'n bosibl, bwriedir recordio cynadleddau a digwyddiadau byw i gynnig rhith-fynediad atynt. Hefyd, byddai clipiau wedi eu recordio o'r digwyddiadau hyn ar gael wedyn.

Disgrifir y cynllun i dreialu'r Gyfres Darparu Gwybodaeth isod:

| | Gorffennaf | Awst | Medi | Hydref | Tachwedd | Ionawr | Chwefror |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Clip fideo** | Neges weinidogol wedi’i chysylltu i gyflwyno’r Bil | | Polisˆau’r gweithle – ymhen blwyddyn | | | | |
| **Gweminar** | | | | | Cyflwyniad gan arbenigwr: Trawma dirprwyol | | Cydnabod y risg: Gwaith anarbenigol gyda'r camdrinwyr. |
| **Briffio** | | | Monitro effeithiolrwydd polisˆau’r Gweithle | | Trawma dirprwyol | | Staff sy’n cam-drin – cyfrifoldeb y Gwasanaeth Cyhoeddus. |
| **Ffrydio’n fyw** | | | | | | | Wedi’i gysylltu i gynhadledd ar y Bil |

DRAFT

## Canlyniadau

Yn ogystal â'r mesurau a ddisgrifir yn adran "Y Fframwaith" y canllawiau hyn, ystyrir hefyd ganlyniadau ychwanegol yn ymwneud â newid diwylliant a chryfhau seilwaith. Bydd y canlyniadau hyn yn cynnwys:

- ✓ Mwy o ymwybyddiaeth o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol gan uwch-arweinwyr y Gwasanaeth Cyhoeddus
- ✓ Cyrhaeddiad y digwyddiadau
- ✓ Faint o sefydliadau a Chenhadon Rhuban Gwyn sydd yng Nghymru
- ✓ Monitro polisˆau'r gweithle
- ✓ Ymrwymiad ysgrifenedig i feysydd gwaith penodol.

## Achredu

Ni fydd y lefel hon yn y Fframwaith yn cael ei hachredu. Bydd yn cydymffurfio ag unrhyw Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) perthnasol a bwriedir cymryd pob cam rhesymol i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â CPD ar draws gwahanol broffesiynau.

DRAFT

Cynllun darparu a lledaenu

| | 2014-2015 | 2015-2016 | 2016-2017 | 2017-2018 |
|---|---|---|---|---|
| **Lefel 1** | Dylunio a lansio pecyn e-Ddysgu | Y pecyn e-Ddysgu'n rhan o hyfforddiant cynefino gorfodol | Y pecyn e-Ddysgu'n rhan o hyfforddiant cynefino gorfodol | Y pecyn e-Ddysgu'n rhan o hyfforddiant cynefino gorfodol |
| **Lefel 2** | | Lansio blwyddyn 1 yr hyfforddiant Gofyn a Gweithredu | Lansio blwyddyn 2 yr hyfforddiant Gofyn a Gweithredu | Lansio blwyddyn 3 yr hyfforddiant Gofyn a Gweithredu |
| **Lefel 3** | | | Lansio'r rhaglen hyfforddiant blwyddyn 1 | Lansio'r rhaglen hyfforddiant blwyddyn 2 |
| **Lefel 4** | Annog Cymru i fanteisio ar hyfforddiant wedi'i ariannu gan y Swyddfa Gartref ar gyfer Cynghorwyr IDVA ac ISVA. [10] | Annog Cymru i fanteisio ar hyfforddiant wedi'i ariannu gan y Swyddfa Gartref ar gyfer Cynghorwyr IDVA ac ISVA. | Hyfforddiant arbenigol penodol i Gymru | Hyfforddiant arbenigol penodol i Gymru |
| **Lefel 5** | Lansio cwrs cymorth i reolwyr gwasanaethau arbenigol | | | |
| **Lefel 6** | Cynhadledd<br><br>Cynllun Ymgysylltu Strategol<br><br>Y Gyfres Cryfhau Arweinyddiaeth | Cynllun Ymgysylltu Strategol<br><br>Y Gyfres Cryfhau Arweinyddiaeth | Cynllun Ymgysylltu Strategol<br><br>Y Gyfres Cryfhau Arweinyddiaeth | Cynllun Ymgysylltu Strategol<br><br>Y Gyfres Cryfhau Arweinyddiaeth |

[10] Bydd pynciau arbenigol perthnasol yn cael eu hariannu lle bo hynny'n bosibl, ar sail angen wedi'i adnabod.





DRAFT

## Diffiniadau

**Cam-drin (fel y'i diffinnir gan y Bil):** Cam-drin corfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol.

**Achredu:** I bwrpas y canllawiau hyn, mae'r term "achredu" yn disgrifio awdurdodi neu gymeradwyo cwrs hyfforddiant a ddarperir gan gorff swyddogol pan fydd safonau cydnabyddedig wedi eu cwrdd.

**"Gofyn a Gweithredu":** Proses o holi wedi'i dargedu ar draws Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru yng nghyswllt trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a phroses o holi cyffredinol gan wasanaethau iechyd y fam a bydwreigiaeth.

**Cleient:** Defnyddir cleient yma fel term i ddisgrifio person sy'n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'r term yn cwmpasu'r termau "dioddefwr", "goroeswr", "defnyddiwr gwasanaeth" a "claf". Mae gwahanol bartneriaid yn defnyddio gwahanol eiriau i ddiffinio eu perthynas â'r person mewn perygl ac, felly, mae'r canllawiau yn adlewyrchu hyn.

Ar ystyr ymarferol, awgrymir fod person sy'n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, yn dewis y term sy'n well ganddynt ei ddefnyddio, lle mae angen term. Yn gyffredinol, dylai fod yn bosibl defnyddio enw cleient yn lle termau disgrifiadol eraill.

**Cam-drin domestig (fel y'i diffinnir gan y Bil):** Cam-drin lle mae'r dioddefwr yn, neu wedi bod yn gysylltiedig â'r camdriniwr.

Mae person yn gysylltiedig â pherson arall i bwrpas y diffiniad o "gam-drin domestig" os yw'n dod o dan y diffiniad yn adran 21(2) neu (3) Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig, a Thrais Rhywiol (Cymru).

**Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod (fel y'i diffinnir gan y Bil):** Gweithred sy'n drosedd o dan adrannau 1, 2 neu 3 yn Neddf Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod 2003 (c. 31)

**"Trais ar sail Rhywedd" (fel y'i diffinnir gan y Bil):**
(a) trais, bygythiadau o drais neu harasio'n codi'n union neu'n anuniongyrchol o werthoedd, credoau neu arferion yng nghyswllt rhywedd neu dueddiad rhywiol
(b) anffurfio organau cenhedlu menywod;
(c) gorfodi person (p'un ai drwy rym corfforol neu orfodaeth drwy fygythiadau neu ddulliau seicolegol eraill) i gymryd rhan mewn seremoni briodas grefyddol neu sifil (p'un ai'n eu rhwymo'n gyfreithiol neu beidio);

**Harasio (fel y'i diffinnir gan y Bil):**

Cwrs ymddygiad gan berson lle mae ef neu hi'n gwybod neu lle dylai wybod ei fod yn gyfystyr â harasio'r person arall; ac i bwrpas y diffiniad hwn:

(a) dylai person wybod bod ei ymddygiad ef neu hi'n gyfystyr â neu'n golygu harasio os byddai person rhesymol oedd yn meddu ar yr un wybodaeth yn meddwl bod y cwrs ymddygiad yn gyfystyr â neu'n golygu harasio person arall, a

(b) mae "ymddygiad" yn cynnwys iaith lafar;

**Cynghorwr Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA):** Gweithiwr arbenigol wedi'i hyfforddi sy'n darparu cymorth gwaith achos tymor byr i ganolig i ddioddefwyr sy'n wynebu risg uchel o gam-drin domestig.

**Cynghorwr Annibynnol ar Drais Rhywiol (ISVA):** Gweithiwr arbenigol wedi'i hyfforddi sy'n darparu cymorth gwaith achos tymor byr i ganolig i ddioddefwyr cam-drin rhywiol.

**Awdurdod Lleol (fel y'i diffinnir gan y Bil):** Cyngor sir neu fwrdeistref sirol.

**Gwasanaeth cyhoeddus:** Gwasanaethau sy'n cael eu darparu er budd y cyhoedd. Gall hyn gynnwys gwasanaethau a ddarperir gan y trydydd sector, gan fentrau cymdeithasol neu wasanaethau sy'n cael eu contractio allan.

Yng nghyd-destun y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol, diffinnir y gwasanaeth cyhoeddus ar sail amcan o 'weithwyr sector cyhoeddus datganoledig' yng Nghymru - sy'n cynnwys y gwasanaeth sifil datganoledig, awdurdodau lleol, iechyd, awdurdodau addysg a Chyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Er heb eu datganoli, mae Awdurdodau'r Heddlu wedi eu cynnwys oherwydd bod LlC yn eu hariannu'n rhannol. Mae 'gweithwyr sector cyhoeddus datganoledig' yn eithrio gweision sifil heb eu datganoli (e.e. sy'n gweithio i CthEM a'r DVLA), personél milwrol a phobl a gyflogir gan Gorfforaethau Cyhoeddus (fel S4C a Bws Caerdydd etc) yng Nghymru.

**Awdurdodau perthnasol (fel y'u diffinnir gan y Bil):** Mae'r Bil yn diffinio awdurdodau perthnasol fel cynghorau sir a bwrdeistref sirol, Byrddau Iechyd Lleol, awdurdodau tân ac achub ac ymddiriedolaethau'r GIG.

**Trais Rhywiol (fel y'i diffinnir gan y Bil):** Ecsbloetio rhywiol, harasio rhywiol neu fygwth trais o natur rywiol.

**Ecsbloetio Rhywiol (fel y'i diffinnir gan y Bil):**
Rhywbeth a wneir i neu yng nghyswllt person sydd

(a) yn golygu cyflawni trosedd o dan Ran 1 Deddf Troseddau Rhywiol 2003 (c.42), o ran ei heffaith yng Nghymru a Lloegr, neu

(b) yn golygu cyflawni trosedd o'r fath pe bai'n cael ei wneud yng Nghymru a Lloegr.

**Trais yn erbyn menywod:** Yw'r profiad o drais ar sail rhywedd (fel y'i diffinnir yn y Bil) gan fenywod.

---

[i] Bydd hwn yn cael ei deilwrio yn ôl y proffesiwn.

DRAFT

# “Gofyn a Gweithredu”

**Canllawiau i gefogi’r cynnig bod gweithwyr proffesiynol allweddol yn y sector cyhoeddus yn “Gofyn a Gweithredu” ynghylch trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.**

**Llywodraeth Cymru**

Mae'r canllawiau hyn yn rhoi enghraifft o'r math o gyfarwyddyd a gyhoeddir i gefnogi proses "Gofyn a Gweithredu" – proses o holi wedi'i dargedu i adnabod trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, yn gynt a chynnig ymyriad effeithiol a buan i ddioddefwyr.

Dylid edrych ar y canllawiau hyn fel drafft cynnar yn unig. Disgwylir iddynt newid a thyfu drwy ymgynghori pellach. Y gobaith yw, drwy gyhoeddi'r canllawiau ochr yn ochr â Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru), y bydd yn manylu ar beth mae "Gofyn a Gweithredu" yn ei feddwl, ar lo mân y dull hwn a gwerth ei weithredu. Ni chyflwynir y canllawiau hyn fel fersiwn derfynol ac ni ddylid eu darllen felly. Bwriadwn ymgynghori'n ffurfiol ar y ddogfen hon a byddwn yn croesawu sylwadau ar ei chynnwys drwy gydol y broses.

Mae'r canllawiau'n rhoi gwybodaeth am y mathau o weithgareddau y dylid eu cyflawni i helpu i weithredu'r dull "Gofyn a Gweithredu" yn drylwyr, gan gynnwys yr hyfforddiant, lles a chymorth a'r monitro fydd ei angen. Maent hefyd yn darparu proses cam wrth gam yn nodi'r prif bethau fydd angen eu hystyried wrth ymarfer "Gofyn a Gweithredu", gan gynnwys lleoliad, cyfrinachedd y cleient a gofyn cwestiynau sensitif. Bwriad Llywodraeth Cymru, yn y pen draw, yw cyhoeddi canllawiau ar "Ofyn a Gweithredu" o dan adran 12 Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru).

O dan adran 12 gall Gweinidogion Cymru roi canllawiau i awdurdod perthnasol ar sut y dylai'r awdurdod ymarfer ei swyddogaethau gyda golwg ar gyfrannu at wella'r trefniadau i atal trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gwella'r trefniadau i ddiogelu dioddefwyr a gwella'r cymorth i bobl yr effeithir arnynt gan drais a chamdriniaeth o'r fath. Mae awdurdod perthnasol yn cynnwys awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol, awdurdodau tân ac achub ac ymddiriedolaethau'r GIG.

Rhaid i'r awdurdodau perthnasol hyn, o dan adran 14 yn y Bil, ddilyn y canllawiau hyn wrth ymarfer eu swyddogaethau oni bai fod ganddynt reswm da dros beidio. Os yw awdurdod perthnasol yn ystyried bod ganddo reswm da dros beidio â dilyn y canllawiau, rhaid iddo benderfynu ar bolisi arall ar gyfer ymarfer ei swyddogaethau yng nghyswllt yr hyn sy'n destun y canllawiau. Rhaid iddo yna gyhoeddi datganiad polisi'n nodi sut y mae'n bwriadu ymarfer ei swyddogaethau a'r rhesymau dros beidio â dilyn y canllawiau.

O dan adran 13 y Bil, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ar y canllawiau ymlaen llaw. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod gwerth ymgynghori'n fanwl ar y canllawiau hyn cyn eu mabwysiadu fel canllawiau drafft terfynol o dan adran 12 a'u rhoi gerbron y Cynulliad fel sy'n ofynnol yn adran 13. Mae sawl rheswm dros hyn:

Mae Llywodraeth Cymru eisiau ymgynghori'n uniongyrchol â chynghorau priodol, cyrff rheoleiddio a Cholegau Brenhinol i adnabod prosesau a gofynion sy'n berthnasol i'r amrywiol swyddi mewn awdurdodau perthnasol. Er enghraifft, mae gwaith swyddog tai awdurdod lleol yn wahanol o ran strwythur, cyd-destun a gweithgaredd i rôl nyrs yn gweithio mewn uned brysbennu adran damweiniau ac achosion brys. Ni fydd un esgid yn ffitio pawb wrth "Ofyn a Gweithredu" ac mae'n debyg y bydd y gofynion ar awdurdodau lleol yn benodedig ar gyfer adrannau neu

grwpiau proffesiynol. Rydym eisiau gwneud hyn mewn partneriaeth â’r grwpiau proffesiynol hyn.

Bydd adnabod ac ymateb i drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, yn ofynion mewn canllawiau sydd i ddod. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod y prosesau ar gyfer sicrhau’r gofynion hyn yn amrywiol ac efallai wedi eu strwythuro mewn gwahanol ffyrdd, gydag amrywiol strwythurau a rolau staff. Mae Llywodraeth Cymru eisiau hyrwyddo hyblygrwydd wrth gymhwyso proses “Gofyn a Gweithredu” fel bod awdurdodau perthnasol yn gallu defnyddio eu setiau sgiliau, strwythurau a’u partneriaethau presennol wrth ei datblygu gan hefyd sicrhau bod staff yn hyderus, wedi eu harfogi ac yn barod i adnabod trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, yn gwybod sut i ymateb ac yn hyderus ac wedi eu cefnogi i wneud hynny ym mhob sefydliad.

Mae Llywodraeth Cymru’n cydnabod bod rhannu gwybodaeth a gwneud penderfyniadau ynghylch trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, yn parhau i fod yn her ar draws awdurdodau perthnasol. Er ei bod yn her sy’n cael sylw ar lefel leol, mae’r gwahaniaeth barn ledled Cymru’n rhwystr o hyd i weithrediad cyson proses “Gofyn a Gweithredu”. Mae angen mwy o waith partneriaeth ar draws yr awdurdodau perthnasol i ddarparu canllawiau y gellir eu cymhwyso’n gyson ar draws Cymru.

Mae dewis y gweithwyr proffesiynol blaenoriaeth fydd yn derbyn hyfforddiant ar sut i “Ofyn a Gweithredu” yn fater y bydd angen ymgynghori ymhellach arno. Cyn bod angen llunio rhestr o weithwyr proffesiynol y bydd angen eu hyfforddi, mae Llywodraeth Cymru eisiau holi barn yr awdurdodau perthnasol a chyrff perthnasol eraill i gytuno ar ddull.

Mae peth ymarfer eisoes ar waith yng Nghymru sy’n gweithio tuag at broses “Gofyn a Gweithredu” fel y’i diffinnir yma. Mae’n debyg y bydd angen mireinio mewnbwn y prosesau hyn a’r gweithwyr proffesiynol sy’n eu hymarfer er mwyn datblygu’r prosesau hyn ymhellach i adlewyrchu’r gofynion ychwanegol ar gyfer “Gofyn a Gweithredu”, ac er mwyn osgoi baich neu ddyblygu diangen bwriadwn edrych eto i weld ble mae’r prosesau hyn yn gorgyffwrdd.

DRAFT

## Cynnwys


Crynodeb gweithredol 6

1. Rhagarweiniad 9

Pwrpas y canllawiau 11

Pam fod angen proses "Gofyn a Gweithredu"? 12

2. Y rhesymeg 13

Beth yw "Gofyn a Gweithredu"? 13

Nodau "Gofyn a Gweithredu" 13

3. Rheoli'r Broses "Gofyn a Gweithredu" – rôl y sefydliad 19

Gofynion allweddol "Gofyn a Gweithredu" 20

Gweithwyr proffesiynol perthnasol 21

Cyfrinachedd y cleient, diogelu data a rhannu gwybodaeth 22

Asesu risg a Llwybrau Gofal 24

Diogelu plant 26

Trawma dirprwyol 28

Monitro ac adolygu 30

Hyfforddiant 32

Manteision cost 36

4. Darparu "Gofyn a Gweithredu" – rôl yr ymarferydd rheng flaen 37

Y broses 38

Cymhwyso "Gofyn a Gweithredu" i rai ag anghenion amrywiol 71

Enghreifftiau o ymarfer presennol 75

Diffiniadau 77

Dulliau sgrinio 79

Dogfennau cysylltiedig a dolenni defnyddiol 82

**Atodiadau** 84

Atodiad 1: Y dystiolaeth dros sgrinio 84


DRAFT

Atodiad 2: Rhwystrau posibl i “Ofyn a Gweithredu” 85

Dogfennau cyfeirio 89

DRAFT

## Crynodeb gweithredol

Mae trais a chamdriniaeth o unrhyw fath yn annerbyniol. Rhaid i unrhyw un sy'n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol dderbyn ymateb effeithiol a phrydlon gan awdurdodau perthnasol. Awgryma'r dystiolaeth fod menywod yn fwy tebygol o brofi trais ar sail rhywedd ac, felly, mae'r canllawiau'n cydnabod mai trais yn erbyn menywod yw'r enghraifft fwyaf cyffredin o drais ar sail rhywedd.

Fodd bynnag, nid yw cydnabod hyn yn awgrymu o gwbl y dylai unrhyw un sy'n dioddef trais a chamdriniaeth gael eu heithrio o gael mynediad at y cymorth a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt. Profir trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol mewn perthnasoedd o'r un rhyw, rhwng aelodau teuluol a chan ddynion sy'n cael eu cam-drin gan fenywod ac, felly, mae'r canllawiau hyn yn darparu proses sy'n cynnwys pob dioddefwyr posibl o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Proses o holi wedi'i dargedu i'w hymarfer ar draws y Gwasanaeth Cyhoeddus yw "Gofyn a Gweithredu" yng nghyswllt trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'r term holi wedi'i dargedu'n disgrifio lle caiff arwyddion (dangosyddion) o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol eu hadnabod gan yna ysgogi gweithiwr proffesiynol i ofyn i'w cleient a gawsant eu heffeithio gan unrhyw un o'r materion hyn.

Nodau "Gofyn a Gweithredu" yw:

- adnabod mwy o bobl sy'n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

- cynnig atgyfeiriadau ac ymyriadau i rai sy'n cael eu hadnabod, fel y darperir cymorth arbenigol ar sail risg ac angen y cleient.

- dechrau creu diwylliant ar draws y gwasanaeth cyhoeddus lle mae trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn faes busnes sy'n cael ei dderbyn a lle mae datgelu'n cael ei ddisgwyl, ei gefnogi, ei dderbyn a'i hwyluso.

- gwella'r ymateb i rai sy'n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac sydd ag anghenion cymhleth eraill fel camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl.

- ymgysylltu'n rhagweithiol, ar y cyfle cyntaf posibl, â rhai sy'n agored i niwed a chuddiedig, yn lle dim ond ymgysylltu'n ymatebol â rhai sydd eisoes mewn argyfwng neu mewn perygl taer o gael niwed difrifol.

Bydd yr arferion gweithio lle cynigir proses "Gofyn a Gweithredu" yn amrywio gan ddibynnu ar strwythur y sefydliad, y grŵp cleientiaid a'r rolau proffesiynol. Fodd bynnag, rhaid i un datganiad sylfaenol gefnogi pob amrywiad ar y broses:

DRAFT

**Mae angen ymateb gwasanaeth cyhoeddus ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae hyder proffesiynol i adnabod y problemau hyn, holi yn eu cylch ac ymateb yn effeithiol yn hollbwysig i sicrhau ymarfer clinigol a gofal cymdeithasol da.**

Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE) a Sefydliad Iechyd y Byd yn argymell system o holi wedi'i dargedu (neu glinigol) ar draws Iechyd a Gofal Cymdeithasol i nodi ac felly ymateb yn well i gam-drin domestig.[1] [2]

Mae Llywodraeth Cymru'n mynd â'r argymhelliad hwn, ac arferion da sefydledig, ymhellach drwy gefnogi defnyddio'r dull holi hwn ar draws y gwasanaeth cyhoeddus Cymru (i gynnwys pobl mewn rolau diogelu, addysg, Tân ac Achub ac sy'n gweithio yn y gwasanaethau Tai). Mae hefyd yn cynnig ffocws mymryn yn ehangach ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

DRAFT

## Y 10 egwyddor ar gyfer "Gofyn a Gweithredu"

1) **Mae angen ymateb Gwasanaeth Cyhoeddus ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae hyder proffesiynol i adnabod y problemau hyn, holi yn eu cylch ac ymateb yn effeithiol yn hollbwysig i sicrhau ymarfer clinigol a gofal cymdeithasol da.**

2) **Dylai'r bobl sy'n datgelu trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol adlewyrchu poblogaeth gyffredinol yr ardal leol.**

3) **Mae gan Wasanaeth Cyhoeddus Cymru rôl bwysig i'w chwarae mewn mynd i'r afael â'r problemau hyn, drwy gefnogi cleientiaid a chryfhau'r gwasanaethau a roddir iddynt. Mae angen dull mwy cyson o adnabod rhai sy'n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, o asesu risg ac atgyfeirio'n briodol ar draws Cymru.**

4) **Nid yw cleientiaid bob amser yn dweud wrth weithwyr proffesiynol am eu profiad heb gael eu hysgogi. Rôl y gweithiwr proffesiynol yw holi cwestiynau uniongyrchol a sensitif mewn amgylchedd diogel a chyfrinachol.**

5) **Mae angen i'r cleient fod yn eglur ar sut yr ymdrinnir â'u cyfrinachedd.**

6) **Ni ddylai *"Gofyn a Gweithredu"* byth olygu croesholi ac nid yw ychwaith yn ymyriad unigol. Mae pob cwestiwn yn gyfle i gynnig cymorth. Dylai proses o holi wedi'i dargedu gynnwys ôl-ddilyn gyda'r dioddefwr ar ôl adnabod ac ail-ofyn cwestiynau.**

7) **Mae'n well cael sgwrs â'r cleient na defnyddio dull sgrinio. Gallai cwestiwn cyffredinol am brofiad rhywun o gamdriniaeth arwain at ddatgelu sawl math o gamdriniaeth.**

8) **Dylai'r bartneriaeth rhwng darparwyr gwasanaethau cyhoeddus a darparwyr arbenigol lleol gael ei hatgyfnerthu fel y darperir polisi ac ymarfer yn fwy cynhwysfawr.**

9) **Rhaid cael hyfforddiant ac arweinyddiaeth i gyd-fynd ac i gefnogi gweithredu proses "Gofyn a Gweithredu".**

10) **Mae colli cyfle i adnabod trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn gyfle a gollwyd i atal cam-drin pellach, i adnabod unrhyw risg i blant ac i achub bywydau.**

DRAFT

## Rhagarweiniad

Mae trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn broblem fawr a hollbresennol sy’n achosi marwolaethau diangen ac sy'n andwyo miloedd o fywydau ar draws Cymru pob blwyddyn.

- Mae Cam-drin Domestig yn effeithio ar 11% o fenywod a 5% o ddynion pob blwyddyn yng Nghymru. Mae hyn yn cyfateb i tua 140,000 o ddioddefwyr pob blwyddyn.[3]

- Mae trais rhywiol yn effeithio ar 3.2% o fenywod a 0.7% o ddynion.[4] Mae hyn yn cyfateb i tua 34,000 o ddioddefwyr pob blwyddyn.

- Mae 1% o achosion gan yr Uned Priodi Dan Orfod yn dod o Gymru.[5]

- Yn ôl amcan-ffigyrau gan FORWARD mae tua 66,000 o fenywod sy’n byw yng Nghymru a Lloegr wedi dioddef anffurfio eu horganau cenhedlu (FGM)[6]**.**

- Mae tua 0.4% o’r holl enedigaethau yng Nghymru’n rhai i fenywod FGM. Mae hyn yn cyfateb i tua 140 o achosion pob blwyddyn.

Er bod y problemau hyn yn ddychrynllyd o gyffredin, gwyddom fod y rhai sy’n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn tan-adrodd a rhaid trin y ffigurau cyffredinrwydd hyn fel tan-amcan.

Ceir gorgyffwrdd sylweddol hefyd rhwng niwed uniongyrchol i blant a cham-drin domestig. Mae 62% o blant hefyd yn cael niwed eu hunain. Ychwaith, ni wyddai’r gwasanaethau cymdeithasol plant awdurdod lleol ond am hanner y plant sy’n cael profiad o gam-drin domestig, a dim ond am ddau o bob tri o rai sy'n byw gyda cham-drin domestig difrifol. Roedd dau o bob tri o’r plant hyn hefyd yn cael niwed uniongyrchol, 91% gan yr un person oedd yn cam-drin yr oedolyn.[7]

Yn ogystal â’r risg gorfforol o gael niwed, gwyddom fod plant sy’n byw ar aelwyd lle mae trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn digwydd yn profi effeithiau negyddol ar eu lles emosiynol, setlo yn yr ysgol, eu datblygiad cymdeithasol ac wrth greu perthynas.[8]

**Mae colli cyfle i adnabod trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn gyfle a gollwyd i adnabod unrhyw risg i blant.**

Mae profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael effaith gymdeithasol ddifrifol a negyddol ar iechyd yr oedolion sy'n dioddef, gyda chanlyniadau hysbys i'w hiechyd meddwl, beichiogrwydd, anhwylderau bwyta, iechyd atgenhedlu a'u lles corfforol; maent hefyd yn gysylltiedig â digartrefedd a chamddefnyddio sylweddau.[9] [10]

Gall trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, achosi niwed corfforol ac, yn yr achosion gwaethaf, marwolaeth. Mae dwy fenyw yn cael eu lladd yn wythnosol gan bartner neu gyn-bartner ac mae traean o’r rhai sy’n profi cam-drin domestig wedi ystyried lladd eu hunain.[11] [12]

O ystyried pa mor gyffredin ydyw a'i ganlyniadau amrywiol, union ac uniongyrchol, mae llawer o Wasanaethau Cyhoeddus eisoes yn cynnig ymateb i rai sy'n ei brofi.

- Mae mwy nag un o bob tair menyw sy'n mynd at eu Meddygon Teulu wedi profi trais corfforol gan bartner neu gyn-bartner ac mae Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol wedi gwneud cam-drin domestig yn flaenoriaeth glinigol.[13]

- *Mae Tackling FGM in the UK: Intercollegiate recommendations for identifying, recording and reporting* yn cydnabod yr ymateb sydd angen i Iechyd ei roi i sicrhau bod genethod ifanc mewn perygl o Anffurfio Organau Cenhedlu (FGM) yn cael eu hamddiffyn.[14]

- Mae 30% o drais domestig yn cychwyn pan fo'r fenyw yn feichiog ac yn gysylltiedig â phwysau geni isel a thrafferthion fel colli'r babi a babi marw-anedig.[15] [16]

- Mae bron i dri chwarter y plant ar y gofrestr 'mewn perygl' yn byw ar aelwydydd lle mae trais domestig yn digwydd ac mae 52% o achosion amddiffyn plant yn cynnwys trais domestig.[17]

- Mae 22% o'r holl geisiadau digartrefedd yng Nghymru o ganlyniad i gam-drin domestig.[18]

**Mae gan Wasanaeth Cyhoeddus Cymru rôl bwysig i'w chwarae mewn mynd i'r afael â'r problemau hyn, drwy gefnogi cleientiaid a chryfhau'r gwasanaethau a roddir iddynt. Mae angen dull mwy cyson o adnabod rhai sy'n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol , o asesu risg ac atgyfeirio'n briodol ar draws Cymru.**

### Pwrpas y canllawiau hyn

Mae'r canllawiau hyn wedi'u hysgrifennu ar gyfer arweinwyr ac ymarferwyr sy'n gweithio ar draws y Gwasanaeth Cyhoeddus ac sy'n gyfrifol am weithredu, rheoli ac ymarfer yng nghyswllt “Gofyn a Gweithredu”.

Defnyddir y term “Gofyn a Gweithredu” i ddisgrifio proses o holi wedi'i dargedu ar draws y Gwasanaeth Cyhoeddus yng nghyswllt trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae'r ddogfen hon mewn pedair rhan:

- rhagarweiniad;
- crynodeb o'r nodau a'r dystiolaeth ar gyfer y polisi hwn (y rhesymeg);
- canllawiau i arweinwyr Gwasanaethau Cyhoeddus i fodloni gofynion y Bil; a
- modelau proses a chanllawiau ymarferol i gefnogi gweithredu'r broses holi wedi'i dargedu ar draws y Gwasanaeth Cyhoeddus.

DRAFT

## Pam fod angen proses "Gofyn a Gweithredu"?

Er bod rhai o effeithiau trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar iechyd a gofal cymdeithasol yn ddigon amlwg a'r profiadau a'r effeithiau hyn yn ddychrynllyd o gyffredin, caiff hefyd ei gydnabod bod y rhai sy'n profi'r pethau hyn yn tan-adrodd ac, felly, rhaid trin yr holl ffigurau cyffredinrwydd fel tan-amcan.

Mae llawer o'r rhai sy'n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn teimlo'n gyfrifol mewn rhyw ffordd am yr hyn a ddigwyddodd iddynt ynghyd â chywilydd a stigma.  Gall hyn gyfyngu ar ba mor barod ydynt i ddatgelu eu profiadau heb anogaeth a chefnogaeth broffesiynol i wneud hynny.

Mae hefyd yn gyffredin i rai sy'n profi'r pethau hyn i fod ag ofn effaith datgelu'r profiad.  Yn aml iawn bydd bygythiadau wedi eu gwneud ynghylch beth fyddai canlyniadau datgelu neu adael y berthynas fel bod gan y cleient lai fyth o opsiynau ryportio.  Dylid cymryd y bygythiadau hyn o ddifrif; cysylltir ymdrechion i orffen perthynas yn gryf â dynladdiad ac mae ymchwil yn awgrymu bod menywod mewn perygl neilltuol o fewn y deufis cyntaf i adael perthynas gamdriniol.[19] [20]

Ar hyn o bryd nid yw Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru'n glynu wrth brotocol rheolaidd na chyson i geisio adnabod digwyddiadau o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn well, ac ymateb yn briodol i'r peryglon a wynebir gan rai sy'n profi'r pethau hyn, yr effaith ar eu hiechyd, profiad eu plant neu ar gyfer eu hatgyfeirio at gymorth arbenigol.  Yn aml felly, ni chaiff dioddefwyr eu hadnabod ac ni roddir iddynt y gwasanaethau hanfodol sydd ar gael gan Wasanaeth Cyhoeddus Cymru a'r sector arbenigol.

Yn draddodiadol y System Cyfiawnder Troseddol a fu'n gyfrifol am adnabod ac ymateb i drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.  Materion Diogelu'r Cyhoedd yw'r rhain ac, yn hyn o beth, mae'n iawn fod asiantaethau cyfiawnder troseddol yn chwarae rôl flaenllaw yn y gwaith.

Fodd bynnag, dengys tystiolaeth fod llawer sy'n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn dewis peidio ei ryportio i'r Heddlu o gwbl neu'n ryportio ond y digwyddiadau gwaethaf neu phan fydd y trais a'r gamdriniaeth yn gwaethygu.[21] Fodd bynnag, mae'r grŵp cleientiaid hwn weithiau'n gofyn am help gyda chanlyniadau eu profiad drwy'r gwasanaethau iechyd neu drwy ddweud bod eu perthynas wedi chwalu, oherwydd cam-drin, fel rhan o gais digartrefedd.

**Mae hyder proffesiynol i adnabod trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, i holi am y materion hyn a sicrhau ymateb priodol yn gwbl hanfodol i sicrhau ymarfer clinigol a gofal cymdeithasol da.**

## Y rhesymeg

### Beth yw "Gofyn a Gweithredu"?

Proses o holi wedi'i dargedu ar draws y Gwasanaeth Cyhoeddus yw "Gofyn a Gweithredu" yng nghyswllt trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Prif amcan "Gofyn a Gweithredu" yw:

- annog gweithwyr proffesiynol perthnasol i "Ofyn" i ddioddefwyr posibl am y posibilrwydd o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol mewn rhai amgylchiadau; a
- "gweithredu" i leihau'r dioddefaint a'r niwed sy'n digwydd o ganlyniad i drais a chamdriniaeth.

Dylai "Gofyn a Gweithredu" fod yn ofynnol ar lefel sefydliadol yn hytrach nag unigol a digwydd ar ffurf holi wedi'i dargedu yn hytrach na holi cyffredinol.

Mae'r term holi wedi'i dargedu'n disgrifio lle caiff arwyddion o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol eu hadnabod gan yna ysgogi gweithiwr proffesiynol i ofyn i'w cleient a gawsant eu heffeithio gan unrhyw un o'r materion hyn.

### Nodau "Gofyn a Gweithredu

Mae holi cleifion am gam-drin mewn rhai lleoliadau gofal iechyd arbenigol yn cael ei ystyried yn ymarfer da gan weithwyr proffesiynol yn y meysydd hynny[22]. Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE) a Sefydliad Iechyd y Byd[23] yn argymell system o holi wedi'i dargedu (neu glinigol) ar draws iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn adnabod ac felly ymateb yn well i gam-drin domestig.

**Mae Llywodraeth Cymru'n mynd â'r argymhelliad hwn, ac arferion da sefydledig, ymhellach** drwy gefnogi defnyddio'r dull holi hwn ar draws Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru (i gynnwys pobl mewn rolau diogelu, Addysg, yn yr Awdurdodau Tân ac Achub a'r gwasanaethau Tai). Mae hefyd yn cynnig ffocws ehangach ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Rhoddir rhestr lawn o'r diffiniadau yn yr atodiad sy'n cyd-fynd â'r canllawiau hyn. Yn fyr, mae cam-drin domestig yn cynnwys cam-drin corfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol ac ariannol lle mae neu lle bu'r dioddefwr yn "gyd-gysylltiedig" â'r camdriniwr. Mae trais ar sail rhywedd yn cynnwys trais, bygythiadau o drais neu harasio'n codi o werthoedd, credoau neu arferion yn ymwneud â thueddiad rhywiol neu rywedd. Mae trais rhywiol yn cynnwys ecsbloetio rhywiol (gan gynnwys troseddau o dan Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003), harasio rhywiol neu fygwth trais o natur rywiol.

Penderfynwyd ar y dull hwn mewn ymgynghoriad â darparwyr gwasanaeth arbenigol ar y sail lle gofynnir cwestiwn cyffredinol am brofiad rhywun o gam-drin y gallai arwain at ddatgelu sawl math o gam-drin. Disgwylir y gallai'r mathau hyn o gam-drin gynnwys:

- Cam-drin domestig
- Trais rhywiol (o fewn ac nid o fewn perthynas)
- Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod
- Priodi dan orfod
- Cam-drin ar sail "anrhydedd"
- Stelcian a harasio (o fewn ac nid o fewn perthynas)
- Ecsbloetio rhywiol

Nodau dull o'r fath yw:

- adnabod mwy o bobl sy'n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol;

- cynnig atgyfeiriadau ac ymyriadau i rai sy'n cael eu hadnabod, fel y darperir cymorth arbenigol ar sail risg ac angen y cleient;

- dechrau creu diwylliant ar draws Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru lle mae trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn faes busnes sy'n cael ei dderbyn a lle mae datgelu'n cael ei gefnogi, ei dderbyn a'i hwyluso;

- gwella'r ymateb i rai sy'n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac sydd ag anghenion cymhleth eraill fel camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl; a

- ymgysylltu'n rhagweithiol, ar y cyfle cyntaf posibl, â rhai sy'n agored i niwed a chuddiedig, yn lle dim ond ymgysylltu'n ymatebol â rhai sydd eisoes mewn argyfwng neu mewn perygl taer o gael niwed difrifol.

### Adnabod mwy o bobl sy'n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Mae'r rhan fwyaf o'r ymchwil i effeithiolrwydd dulliau sgrinio ar gyfer trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol wedi canolbwyntio ar leoliadau gofal iechyd. Er bod llai o ddata ar gael y tu allan i'r maes iechyd, mae prosiectau tebyg ac arloesol yn awgrymu bod y dull hwn yn effeithiol ar draws y Gwasanaeth Cyhoeddus.[24]

Lle holir yn gyffredinol, caiff mwy o fenywod wedi eu cam-drin eu hadnabod gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol na lle na ddefnyddir sgrinio, er nid mwy o reidrwydd nag y byddai wedi eu hadnabod drwy holi clinigol.[25] Mae holi fel arfer yn arwain at ddyblu'r cyfraddau adnabod cam-drin domestig ac yn cynyddu atgyfeiriadau at asiantaethau allanol.[26]

Lle darperir cymorth a hyfforddiant arbenigol i'r clinigwr i ddefnyddio trothwy isel fel rhan o holi clinigol, mae clinigwyr gofal iechyd sylfaenol deirgwaith yn fwy tebygol o gael rhywun i ddatgelu trais domestig na rhai nad ydynt yn holi.[27]

Lle caiff gwybodaeth am gleient ei darparu neu ei chasglu gan weithiwr proffesiynol, sydd yna'n "cymell" y gweithiwr i ymchwilio i broblemau cam-drin domestig, mae hyn yn gwella cyfraddau adnabod a datgelu cam-drin domestig.[28]

Mae holi am gam-drin domestig pan fydd menyw'n feichiog, os cefnogir hyn gan hyfforddiant i weithwyr a chefnogaeth sefydliadol, yn gwella arferion sgrinio a chofnodi cam-drin domestig.

### Cynnig atgyfeiriadau ac ymyriadau i rai sy'n cael eu hadnabod, fel y darperir cymorth arbenigol ar sail risg ac angen y cleient

Gallai gweithwyr proffesiynol na chawsant eu hyfforddi i adnabod trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, beidio â sylwi ar broblemau pobl, neu eu cam-labelu a'u cam-ddehongli, gan arwain at gynlluniau amhriodol neu atebion aneffeithiol.[29] [30] Lle caiff y prif fater y ceisir triniaeth ar ei gyfer ei adnabod fel trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, mae'r gwasanaethau a gynigir yn berthnasol i'r prif fater hwn yn hytrach nag i'r symptomau a achoswyd ganddo.

Mae atgyfeirio at adnoddau allanol (e.e. yr heddlu, gwasanaethau arbenigol a gofal cymdeithasol) yn cynyddu o ganlyniad i holi ac yn rhoi cyfle i ddarparu ymyriadau eiriolaeth, strategaeth gysylltiedig â llai o drais a theimlo'n ynysig, cynnydd mewn arferion diogelwch a manteision cost.[31] Yn dilyn gwerthuso'r prosiect IRIS (Adnabod ac Atgyfeirio i Wella Diogelwch), cafwyd bod unigolion yn yr ymyrraeth 22 gwaith yn fwy tebygol o gael eu hatgyfeirio at wasanaeth eiriolaeth na rhai dan law'r meddyg nad oedd wedi derbyn y rhaglen.

Yn ôl astudiaethau i fesur cyfraddau cam-drin domestig fel canlyniad, roedd menywod a gafodd eu hadnabod mewn clinigau cyn-geni wedi profi llai o gam-drin corfforol a cham-drin fel arall ar ôl derbyn cwnsela ac eiriolaeth. [32]

Cafwyd fod model eiriolaeth y Cynghorwr Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA) (a ddefnyddir ar draws Cymru) fel gwasanaeth i rai sy'n wynebu risg uchel o niwed difrifol, oherwydd eu profiad o gam-drin domestig, wedi cael effaith lesol ar wella bywydau'r dioddefwyr, ac o ran gwerth am arian.[33]

Mae'r IDVA yn elfen greiddiol o ddull y Gynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol (MARAC) ac o'r dystiolaeth gwyddom hefyd ei bod yn ffordd effeithiol o ddelio â cham-drin domestig risg uchel. Mae'r rhan fwyaf o oedolion a brofodd gam-drin ac a ddefnyddiodd y gwasanaethau hyn wedi ryportio lles a diogelwch gwell ar ôl derbyn cymorth, gan gynnwys bod y gamdriniaeth wedi dod i ben, teimlo'n fwy diogel ac ansawdd bywyd gwell.

- Mae 63% o'r dioddefwyr a ddefnyddiodd IDVA yn ryportio bod eu camdriniaeth wedi dod i ben yn llwyr erbyn i'w hachos gael ei gau.
- Am bob punt a werir ar wasanaethau MARAC ac IDVA, gellir arbed o leiaf £2.90 o arian cyhoeddus pob blwyddyn mewn costau uniongyrchol i asiantaethau fel yr heddlu a'r gwasanaethau iechyd.

### Dechrau creu diwylliant ar draws Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru lle mae trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn faes busnes sy'n cael ei dderbyn a lle mae datgelu'n cael ei gefnogi, ei dderbyn a'i hwyluso

Os yw rhywun yn eich holi am gam-drin mae'n dileu'r stigma y mae rhai'n ei gysylltu â'r profiad. Dywed rai a brofodd drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, fod holi hefyd yn ffordd o wella gwybodaeth, datblygu teimlad o hunan-

gadarnhad ac o dderbyn cymorth.[34] Gall mabwysiadu proses glir o holi wedi'i dargedu ddileu'r teimlad o stigma drwy ddangos bod y gwasanaeth yn ymwybodol o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol a bod gweithwyr proffesiynol yn agored i gael y trafodaethau hyn fel rhan o'u gwaith beunyddiol a allai arwain at atgyfeirio at wasanaethau arbenigol.

Mae ymchwil i ba mor dderbyniol yw holi wedi'i dargedu wedi canolbwyntio ar brofiad menywod; dangosodd fod y rhan fwyaf o blaid proses o holi am gam-drin domestig mewn lleoliadau mamolaeth, ar yr amod y gwneir hyn yn rhywle diogel a chyfrinachol.[35]

### Gwella'r ymateb i rai sy'n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac sydd ag anghenion cymhleth eraill fel camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl

Cyfeiriwyd at gydfodolaeth cam-drin domestig, iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau fel y "tri gwenwyn". Pan fydd rhiant yn profi'r tri pheth uchod, edrychir arnynt fel arwyddion o risg uwch o niwed i blant a phobl ifanc. Gall cyfuniad y profiad o'r pethau hyn greu amgylchedd gofal "gwenwynig".

Mae darparu a dewis gwasanaethau i ateb y tri pheth hyn, o'u profi mewn cyfuniad neu fel rhan o ddiagnosis deuol, yn anodd i ymarferwyr a gall lesteirio ymgysylltiad y cleient. Mae adroddiadau seiliedig ar ymarfer yn pwysleisio pa mor bwysig yw rhoi sylw i bob mater ar wahân gan ddefnyddio arbenigedd pob proffesiwn cysylltiedig ond hefyd drwy ddarparu triniaeth neu wasanaethau mewn partneriaeth i gydnabod cymhlethdod sefyllfa'r cleient. I wneud hyn yn effeithiol, rhaid yn gyntaf adnabod pob problem.

Mae'r risg o gael iselder, anhwylder straen wedi trawma (PTSD), problemau sylweddau neu deimlo fel cyflawni hunanladdiad yn dair i bum gwaith yn uwch gyda menywod a brofodd drais yn eu perthynas o'i gymharu â rhai na chafodd y profiad.[36] Mae gan 70% o fenywod sy'n gleifion mewnol seiciatrig a 80% o fenywod mewn lleoliadau diogel hanes o gael eu cam-drin yn gorfforol neu'n rhywiol ac mae cael eich cam-drin yn rhywiol yn blentyn yn gysylltiedig â chyfradd uwch o anhwylderau meddwl, i ddynion a menywod, ar ôl tyfu'n oedolyn.[37,38]

Er nad yw camddefnyddio sylweddau naill ai gan y camdriniwr neu'r sawl sy'n dioddef trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, yn ffactor achosol, mae'r ddau beth yn aml yn cyd-fodoli; felly rhaid i'r gweithiwr proffesiynol ddefnyddio'i wybodaeth a'i sgiliau adnabod. Mae 44% o droseddwyr trais domestig dan ddylanwad alcohol ac mae 12% dan ddylanwad cyffuriau pan fyddant yn cyflawni trais corfforol. Yn ôl sawl astudiaeth, mae'r ffaith bod y camdrinwyr yn yfed alcohol, ac yn aml yn yfed yn drwm, yn debygol o arwain at anaf mwy difrifol i'w partneriaid na phe byddent wedi bod yn sobor.[39,40] Hefyd, dechreuodd ddau o bob tri a brofodd gamdriniaeth gymryd cyffuriau'n dilyn y profiad hwn.[41]

Mae o leiaf hanner yr holl fenywod sydd mewn cysylltiad â'r gwasanaethau iechyd meddwl wedi profi trais a cham-drin, ond eto ymddengys mai isel yw ymwybyddiaeth y garfan iechyd meddwl broffesiynol, ac er y canllawiau i'r gwrthwyneb, pur anaml yr holir menywod am eu profiad o drais neu gam-drin rhywiol.[42]

Cafwyd fod protocol o sgrinio am gam-drin domestig wrth sgrinio / cyflawni asesiad cychwynnol ar gyfer alcohol neu gamddefnyddio sylweddau yn gwella cyfraddau o adnabod y broblem.[43] Mae'r Dull Integredig ar gyfer Asesiad Trylwyr o Gamddefnyddio Sylweddau yng Nghymru (WIISMAT) yn cynnwys cwestiynau union ac anuniongyrchol am drais a chamdriniaeth ac yn cymell pobl i ddefnyddio'r llinell gymorth Cymru Gyfan. Fodd bynnag, dylid nodi nad oes gorfodaeth lwyr i ddefnyddio WIISMAT ac na wneir defnydd cyflawn ohono bob tro.

Mae cyflawni asesiad risg yn rhan o'r canllawiau yn y Mesur Iechyd Meddwl i gefnogi datblygu cynllun gofal a thriniaeth.[44] Mae holi am drais yn rhan o bob asesiad risg gan y gwasanaethau Iechyd Meddwl yng Nghymru a Lloegr, fodd bynnag mae'n ymwneud â phob math o drais, nid â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn benodol. Ar hyn o bryd holir yn ei gylch, fel y bo'n briodol, os yw pobl yn cyfaddef i hanes neu feddyliau o drais.

**Ymgysylltu'n rhagweithiol, ar y cyfle cyntaf posibl, â rhai sy'n agored i niwed a chuddiedig, yn lle dim ond ymgysylltu'n ymatebol â rhai sydd eisoes mewn argyfwng neu mewn perygl taer o gael niwed difrifol**

Gallai adnabod ac atal trais yn fuan hefyd helpu i sicrhau nad yw trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn gwaethygu gan felly leihau costau cymorth a chyfiawnder troseddol yn y dyfodol.

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu, lle rhoddir ymateb gwell gan yr asiantaethau cyfiawnder troseddol, y gellir adnabod grŵp cleientiaid nad ydynt yn ymgysylltu â gwasanaethau eraill ac sydd felly wedi eu cuddio oddi wrth asiantaethau eraill.[45]

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd gan wasanaethau arbenigol a gyd-leolir â gwasanaethau iechyd y fam neu iechyd aciwt yn awgrymu bod yna grŵp o gleientiaid sy'n profi cam-drin domestig ac nad ydynt yn ryportio i'r heddlu mor aml â dioddefwyr eraill ond sy'n defnyddio'r gwasanaethau iechyd brys yn rheolaidd[46].

Wrth adnabod trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol drwy'r gwasanaethau iechyd a chyd-leoli arbenigwyr ysbytai mewn lleoliadau clinigol, mae grŵp o ddioddefwyr iau, mwy agored i niwed yn cael eu hadnabod. Mae'r cleientiaid hyn yn profi cam-drin mwy difrifol ynghyd ag anghenion cymhleth ychwanegol, e.e. camddefnyddio sylweddau, problemau iechyd meddwl. Maent yn tueddu i ddal i fod mewn perthynas neu'n byw gyda'r camdriniwr ac wedi bod mewn perthynas am gyfnod byrrach na'r grŵp cleientiaid sy'n defnyddio gwasanaethau cymunedol. [47]

Yn aml iawn, nid yw cyd-leoli arbenigwyr trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn realistig. Yn y lleoliadau hyn, mae'n hanfodol cael llwybrau atgyfeirio penodol rhwng clinigwyr a'r arbenigwyr hyn, a leolir yn aml mewn cyrff trydydd sector.

Gall adnabod y problemau hyn yn gynt, drwy ddulliau ymgysylltu llai traddodiadol, wneud pobl yn fwy ymwybodol yn gynt bod gwasanaethau ar gael a diogelu pobl agored i niwed yn syth, yn hytrach na phan fyddant eisoes mewn argyfwng.

# Rheoli'r Broses "Gofyn a Gweithredu" - rôl y sefydliad

DRAFT

## Gofynion allweddol "Gofyn a Gweithredu"

Rôl Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru yn ei gyfanrwydd yw rhoi ymateb effeithiol i rai sy'n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae hyn yn golygu cydweithredu yn yr ystyr ehangaf bosibl i greu ymateb cyson a safonol, pa bynnag borth (tai, iechyd, gofal cymdeithasol etc) a ddefnyddir gan gleient i gael gafael ar wasanaeth.  Mae arweinyddiaeth a chydgysylltu strategol yn allweddol i sefydlu proses sy'n addas i'r gweithlu, y sefydliad ac, yn anad dim, i'r cleient.

Mae'r canllawiau hyn yn darparu proses "Gofyn a Gweithredu" fanwl i gefnogi gweithrediad.  Fodd bynnag, bydd yr arferion gweithio y cynigir ymateb cyson drwyddynt, wrth gwrs, yn amrywio gan ddibynnu ar strwythur y sefydliad a'r grŵp cleientiaid.  **Ni ddisgwylir i'r un broses "Gofyn a Gweithredu" gael ei gweithredu gan bob sefydliad ond bod pob sefydliad yn ystyried sut orau i gynnig "Gofyn a Gweithredu" o fewn eu gwahanol swyddogaethau a rolau proffesiynol.**

Wrth wneud hynny, dylid profi unrhyw fodel gwaith arfaethedig yn erbyn y pedwar gofyniad allweddol a ganlyn. **Ni waeth pa broses "Gofyn a Gweithredu" a weithredir, rhaid iddi roi sylw i bob un o'r gofynion allweddol hyn.**

1. Diwylliant ac arweinyddiaeth
2. Eglurder a hyder
3. Adnabod ac ymateb
4. Ôl-ddilyn a monitro

Cyn belled ag y dilynir y pedwar gofyniad allweddol hwn, nid **sut** y gweithredir holi wedi'i dargedu yw'r peth pwysicaf yn y canllawiau hyn.  P'un ai y mabwysiedir y broses yma neu brosesau lleol, pwrpasol, mae'r egwyddor yma'n eithriadol bwysig:

**Mae angen ymateb Gwasanaeth Cyhoeddus ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.  Mae hyder proffesiynol i adnabod y problemau hyn, holi yn eu cylch ac ymateb yn effeithiol yn hollbwysig i sicrhau ymarfer clinigol a gofal cymdeithasol da.**

## Diwylliant ac arweinyddiaeth

Nod: Diwylliant gwaith sy'n cydnabod bod "Gofyn a Gweithredu" yn greiddiol i bwrpas y sefydliad.

Gofynion:

- Dod o hyd i arweinyddiaeth a rheolaeth gref
- Ystyried a rhoi sylw i'r rhwystrau posibl i weithredu "Gofyn a Gweithredu"
- Cydnabod a rhoi sylw i'r effaith bosibl ar staff.




## Eglurder a hyder

Nod: Gweithlu wedi'i arfogi'n dda; sy'n hyderus ac atebol, ac wedi'i gefnogi gan bolisïau a gweithdrefnau clir.

Gofynion:

- Polisïau ffit i'r pwrpas ar gyfrinachedd a rhannu gwybodaeth
- Llinellau atebolrwydd clir rhwng staff, rheolwyr ac arweinwyr
- Adnabod a hyfforddi staff "perthnasol" sy'n gwybod yn glir beth yw eu cyfrifoldebau




DRAFT

## Cydnabod ac ymateb

Nod: Proses wedi'i theilwrio gan y sefydliad ac yn cynnwys cydnabod, holi wedi'i dargedu ac ymyriadau i rai sy'n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Gofynion:

- Bod staff yn ymwybodol o arwyddion trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol
- Proses fewnol glir sy'n dilyn cydnabod ac sy'n cynnwys holi wedi'i dargedu
- Ymateb sy'n sicrhau ymyriad effeithlon a phositif ar gyfer y cleient
- Partneriaeth a phrosesau cydweithredol sy'n cynnig mynediad effeithlon i'r cleient at gymorth arbenigol.

## Ôl-ddilyn a monitro

Nod: Yn strategol, goruchwylio a gwerthuso proses sy'n mapio datgelu i'r boblogaeth a defnyddio data a chydweithrediad lleol i'w datblygu ymhellach.

Gofynion:

- Canllawiau clir ar gadw cofnodion datgelu
- Sefydlu data sylfaenol i fonitro datgelu yn ei erbyn
- Yn strategol, goruchwylio a monitro'r broses yn rheolaidd
- Ystyried sut y cymhwysir y broses yng nghyswllt cydraddoldeb ac amrywiaeth

### Gweithwyr proffesiynol perthnasol

Dylai awdurdodau perthnasol ystyried y rolau proffesiynol canlynol i fod yn rolau blaenoriaeth ar gyfer “Gofyn a Gweithredu”. Dylai awdurdodau perthnasol, fel cyflogwyr y gweithwyr proffesiynol hyn:

- sicrhau y cawsant hyfforddiant digonol (drwy’r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol);
- eu cefnogi i weithredu “Gofyn a Gweithredu” mewn ffordd empathig a diogel; a
- sicrhau bod ymarfer yn cael ei fonitro i wneud yn siŵr bod diogelwch a lles y cleient yn ganolog i’r holl waith.

| |
|---|
| **Byrddau Iechyd Lleol** |
| Bydwragedd<br>Ymwelwyr Iechyd<br>Ymarferwyr Cyffredinol<br>Meddyg Damweiniau ac Achosion Brys<br>Nyrs Damweiniau ac Achosion Brys<br>Camddefnyddio Sylweddau<br>Nyrsys Seiciatrig Cymunedol<br>Tîm Argyfwng Iechyd Meddwl<br>Nyrsys Ardal<br>Parafeddygon |
| **Awdurdod Lleol** |
| Gweithwyr Cymdeithasol Amddiffyn Plant<br>Gweithwyr Cymdeithasol Diogelu Oedolion Agored i Niwed<br>Arweinwyr Diogelu mewn Addysg<br>Nyrsys Ysgol<br>Swyddogion Opsiynau Tai a Digartrefedd<br>Cynrychiolwyr y Tîm Troseddwyr Ifanc |
| **Awdurdod Tân ac Achub** |
| Yr holl ymladdwyr tân gyda chyfrifoldebau cymunedol |

**Nid yw’r rhestr yma’n gynhwysfawr** a bydd rolau ychwanegol lle bydd angen hyfforddi ar eu cyfer, ar sail angen lleol. I benderfynu a ddylai proffesiwn fod yn un “blaenoriaeth”, dylid cymhwyso’r meini prawf canlynol:

### Meini prawf “blaenoriaeth”

Mae gweithiwr proffesiynol yn weithiwr blaenoriaeth:

- mewn rôl sy’n wynebu’r cyhoedd, ac yn dod i gysylltiad rheolaidd â’r cyhoedd; a

- mewn rôl lle mae profiad eu grŵp cleientiaid o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cymhlethu ac effeithio ar natur ymgysylltiad y cleient â’r gwasanaeth a gynigir yn y rôl honno.

### Cyfrinachedd y cleient, diogelu data a rhannu gwybodaeth[48]

Bydd proses “Gofyn a Gweithredu”, yn anochel, yn arwain at ddatgelu gwybodaeth bersonol a sensitif ac, yn ei dro, rhaid i’r gweithiwr proffesiynol benderfynu a ddylid rhannu’r wybodaeth yma ymhellach. Gall y rhain fod yn benderfyniadau anodd, ac mae angen arweinyddiaeth glir, cefnogaeth gan reolwyr, protocol cyffredinol a dealltwriaeth dda o Ddeddf Diogelu Data 1998.

Mae’r hyn sy’n ofynnol gan reolwyr, yng nghyswllt cyfrinachedd y cleient, diogelu data a rhannu gwybodaeth, mewn dwy ran:

1. creu amgylchedd lle eglurir y fframwaith cyfreithiol, a’r gofynion wrth wneud penderfyniadau, gan broses, protocol a chanllawiau; a

2. darparu cefnogaeth reoli “yn y fan a’r lle” i rai sy’n ymarfer “Gofyn a Gweithredu” ac ystyried penderfyniadau unigol.

### Creu amgylchedd lle eglurir y fframwaith cyfreithiol, a’r gofynion wrth wneud penderfyniadau, gan broses, protocol a chanllawiau.

Dylai polisi’r sefydliad ar ddiogelu data, rhannu gwybodaeth a chyfrinachedd gael ei ddiweddaru, dylai fod yn gyfreithiol a chael ei adolygu’n rheolaidd. Dylai gofynion y polisïau hyn gael eu cyfathrebu’n glir i weithwyr i sicrhau eu bod yn deall eu dyletswydd i gadw cyfrinachedd, a chyfyngiadau hynny. Bydd angen cyswllt agos â’r timau cyfreithiol a rhannu gwybodaeth i sicrhau bod y prosesau priodol yn eu lle i reoli data’n ddiogel a chyfreithiol.

Dylid gweithredu systemau a phrosesau i sicrhau bod data’n cael ei brosesu’n unol â Deddf Diogelu Data 1998.

Mae’n bwysig bod y timau arweinyddiaeth a rheoli yn y Gwasanaeth Cyhoeddus yn adnabod trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol fel problem sy'n effeithio ar y gweithlu yn ogystal â'r grŵp cleientiaid. Mae pob Awdurdod Lleol, Bwrdd Iechyd Lleol ac Awdurdod Tân ac Achub wedi sefydlu polisïau a gweithdrefnau yn y gweithle i weithwyr yr effeithiwyd arnynt gan drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Dylai’r polisïau hyn sicrhau bod gan weithwyr gyfle i roi sylw i broblemau sy’n gysylltiedig â’u profiadau personol eu hunain yn ogystal â rhai a allai godi ar ôl dod i gysylltiad â chleientiaid a chydweithwyr.

Dylai awdurdodau perthnasol ddatblygu neu addasu protocol a dulliau clir o rannu gwybodaeth, o fewn a rhwng asiantaethau, am bobl sydd mewn perygl o brofi neu o gyflawni trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Dylai’r rhain ddiffinio’n glir pa wybodaeth y gellir ei rhannu a chyda phwy.

### Y fframwaith Rhannu Gwybodaeth

Rhaid i awdurdodau perthnasol brosesu gwybodaeth yn unol â’r fframwaith cyfreithiol perthnasol. Hefyd, efallai y bydd awdurdodau perthnasol am ystyried

unrhyw ddogfennau sector-benodol (e.e. egwyddorion gwarcheidwad Caldicott) a allai helpu i ddeall y gofynion cyfreithiol yng nghyswllt prosesu gwybodaeth.

Mae Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) yn fframwaith a ddyluniwyd i hwyluso rhannu gwybodaeth bersonol yn gyfreithlon. Mae'n gwneud hyn drwy sefydlu gofynion a dulliau a gytunwyd arnynt ar gyfer cyfnewid gwybodaeth bersonol rhwng yr holl asiantaethau perthnasol.

Mae gan y fframwaith WASPI ddau allbwn craidd; cyfres gyffredin o egwyddorion a safonau y bydd sefydliadau'n glynu wrthynt wrth rannu gwybodaeth (sef y Cytundeb), a chreu Protocol Rhannu Gwybodaeth (ISP) at ddibenion penodol.

Mae'r fframwaith WASPI yn cydymffurfio â Chod Ymarfer y Comisiynydd Gwybodaeth ar Rannu Data a safonau, polisïau a gofynion deddfwriaethol eraill. Mae cryn dipyn o waith wedi'i wneud yng nghyswllt trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac, felly, mae'r fframwaith yn adnodd defnyddiol i arweinwyr ar draws y Sector Cyhoeddus.

**Darparu cefnogaeth reoli "yn y fan a'r lle" i rai sy'n ymarfer "Gofyn a Gweithredu" ac ystyried penderfyniadau unigol.**

Gellir galw ar rai gyda chyfrifoldebau rheoli llinell neu oruchwylio i gefnogi penderfyniadau proffesiynol a wneir mewn achosion unigol. Yn yr achosion hyn dylid dilyn y gofynion cyfreithiol perthnasol a dylent gael eu hadlewyrchu ym mholisi a gweithdrefn y sefydliad. Dylai rheolwyr a goruchwylwyr fod wrth law i gefnogi cydweithiwr drwy broses o wneud penderfyniadau'n unol â'r gyfraith, Deddf Diogelu Data 1998 yn benodol.

DRAFT

### Asesu risg a llwybrau gofal

Yn aml iawn, cynigir gwasanaeth arbenigol i rai sy'n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar sail trothwyon risg a blaenoriaethir achosion yn ôl pwy sy'n wynebu'r risg fwyaf a thaeraf o gael niwed difrifol a sylweddol. Mae'r risg i'r cleient, ac i'w plant, hefyd yn rhywbeth sydd angen ei ystyried ochr yn ochr â dyletswydd y gweithiwr proffesiynol i gadw cyfrinachedd.

Mae asesu risg yn "broses o edrych ar beth allai canlyniadau unrhyw berygl neu fygythiad fod, yn defnyddio cyfuniad o farn a gwybodaeth hysbys.[49] Cyfeirir at hyn hefyd fel 'barn glinigol ffurfiol' am sefyllfa'r cleient[50] neu "asesiad actiwaraidd" a barn broffesiynol.

Mae Rhestr Adnabod Risg yn golygu y gellir adnabod a chofnodi risgiau a adwaenir yn gyffredin, yn hytrach na thrwy asesu sefyllfa unigol y cleient. Pwrpas y Rhestr yw darparu dull cyson a syml i ymarferwyr sy'n gweithio â dioddefwyr i'w helpu i ddechrau adnabod y risg a wynebir gan eu cleient a chynnig gwasanaethau priodol a pherthnasol iddynt. Dylai gweithwyr proffesiynol sy'n ymarfer "Gofyn a Gweithredu" fod yn gallu defnyddio'r dull yn fedrus i gynnig gwasanaeth ar sail risg cyn gynted â phosibl.

Mae defnyddio Rhestr Adnabod Risg yn gyson ar draws ardal leol yn cynyddu'r tebygolrwydd o gynnig ymateb priodol i'r dioddefwr ac, felly, o roi sylw i'r peryglon y maent yn eu hwynebu drwy ddefnyddio meini prawf cyffredin ac iaith risg gyffredin. Mae'r Rhestr Adnabod Risg hefyd yn ddull o atgyfeirio sy'n cefnogi proses y Gynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol (MARAC) i rai sy'n wynebu risg uchel o gael niwed difrifol o ganlyniad i gam-drin domestig.

Dylai'r gwaith o roi sylw i ddiogelwch presennol y cleient a mynd i'r afael ag unrhyw risg a gyflwynir gan ddatgelu, a rôl gwasanaethau o ganlyniad, gael ei wneud naill ai gan y person proffesiynol y datgelir iddynt neu gan gydweithwyr priodol.

Mae'n bwysig rhoi cyfle i'r cleient gyfrannu at asesiad manwl o'r risg a gyflwynir iddynt gan eu camdriniwr. Dylid rhoi'r cyfle hwn i'r cleient yn effeithlon ac ar unwaith lle bo'n bosibl, er mwyn sicrhau y gwneir y defnydd mwyaf effeithiol o ymgysylltiad y cleient.

Dylai arweinwyr awdurdodau perthnasol ystyried a ydynt am i'w timau staff ymgorffori adnabod risg yn eu proses "Gofyn a Gweithredu" fewnol (h.y. lle mae'r person sy'n gwneud yr holi wedi'i dargedu hefyd yn cwblhau'r Rhestr Adnabod Risg) neu sefydlu llwybr i atgyfeirio at wasanaethau arbenigol a allai yna gynnig y gwasanaeth hwn ynghyd â chynllunio rheoli risg cysylltiedig.

Dyma rai o'r opsiynau i'w hystyried fel rhan o lwybrau o'r fath:

- cydleoli gwasanaethau i gynnwys gweithwyr proffesiynol arbenigol mewn timau anarbenigol.
- rôl 'pencampwr' neu 'arweiniol' yn y timau, sef rhywun a dderbyniodd hyfforddiant manwl mewn trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac sy'n gallu rhoi amser i helpu cydweithwyr i adnabod risg.

- asiantaethau arbenigol lleol sy'n darparu gwasanaethau galw heibio, clinigau neu gymorthfeydd drwy gyrff Gwasanaethau Cyhoeddus.
- prosesau atgyfeirio glir at wasanaethau arbenigol lleol, gyda disgwyliadau penodol ynghylch paramedrau cyswllt (e.e. gwarantu ymgais i gysylltu o fewn 24 awr).
- defnyddio Llinell Gymorth Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Cymru Gyfan – naill ai drwy roi mynediad yn syth at ffôn er mwyn gallu ffonio, neu drefnu i ffonio'r cleient yn ôl pan fo'n gyfleus.

Dylai'r llwybr atgyfeirio gynnwys opsiynau priodol i oed ac opsiynau i helpu rhai sydd efallai'n cael trafferth cael mynediad at wasanaethau, neu'n gyndyn o wneud hynny. Yn aml iawn bydd angen ymgysylltu'n bendant a rhagweithiol â chleientiaid.

DRAFT

## Diogelu plant

Mae’r Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan yn cynnig safonau cyffredin ar ymarfer amddiffyn plant yng Nghymru, tra bo’r Cyfarwyddyd Ymarfer ar Ddiogelu Plant a Phobl Ifanc yr Effeithiwyd Arnynt gan Gam-drin Domestig yn siarad yn benodol am amddiffyn plant wedi’i gysylltu i bryderon am gam-drin domestig uniongyrchol neu lle tystiwyd iddo.

Mae’r gweithdrefnau’n adlewyrchu’r dyletswyddau o dan Ddeddf Plant 1989 sy’n rhoi dyletswydd ar gynghorau sirol a bwrdeistref sirol i ddiogelu a hybu lles plant mewn angen drwy ddarparu ystod a lefel o wasanaethau sy’n briodol i anghenion y plant hynny a, lle mae ganddynt le i gredu bod y plentyn yn dioddef, neu mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol, darparu asesiad cychwynnol o risg ac angen. Hefyd, o dan Ddeddf Plant 2004, rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau’r GIG wneud trefniadau i sicrhau eu bod yn cyflawni eu swyddogaethau wedi ystyried yr angen i ddiogelu a hybu lles plant yn eu hardal.

Mae’r Cyfarwyddyd Ymarfer hefyd yn nodi pedwar rheidrwydd canolog ar gyfer unrhyw ymyriad i blant sy’n byw gyda cham-drin domestig:

- amddiffyn y plentyn neu’r plant;
- helpu’r rhiant diniwed i amddiffyn eu hunain a’u plant;
- dal y partner camdriniol yn atebol am eu hymddygiad a rhoi cyfle iddynt newid; a
- hyrwyddo gwydnwch mewn plant drwy feithrin y berthynas rhwng y partner diniwed a’r plentyn.

Dylid ystyried y pedwar rheidrwydd hwn fel rhan o gyswllt pob gwasanaeth â phlant a sicrhau bod gan weithwyr yr hyfforddiant a’r sgiliau i ddarparu ar eu cyfer, gan gynnwys hyfforddiant amddiffyn plant i lefel sy’n gymesur â rôl a chyfrifoldebau’r staff.

## Pobl ifanc mewn perthnasoedd camdriniol

Mae “trais partner” wedi’i adnabod fel pryder sylweddol am les pobl ifanc. Bydd nifer sylweddol o bobl ifanc yn profi rhyw fath o drais gan eu partner cyn iddynt dyfu’n oedolion.

- Mae tair o bob pedair geneth mewn perthynas yn profi trais emosiynol;
- Mae un o bob tair yn ryportio trais rhywiol;
- Mae chwarter yn profi trais corfforol;
- Mae hanner y bechgyn mewn perthynas yn ryportio trais emosiynol;
- Mae 18 y cant yn profi trais corfforol;
- Mae 16 y cant yn ryportio trais rhywiol.

Bydd nifer sylweddol o bobl ifanc felly’n profi rhyw fath o drais gan bartner cyn tyfu’n oedolion ac, i nifer helaeth o fenywod ifanc, mae'r gamdriniaeth yma’n ddifrifol.[51]

Menywod ifanc rhwng 16 a 24 oed sydd fwyaf mewn perygl o ddioddef cam-drin domestig; mae un o bob chwech o enethod yn ryportio rhyw fath o drais difrifol gan

bartner. Mae menywod ifanc dan ddeunaw oed wedi eu diffinio’n gyfreithiol fel plant ac, o’r herwydd, yn dod o dan y cymorth, gofal a’r warchodaeth a ddarperir gan awdurdodau lleol o dan Ddeddf Plant 1989. Fodd bynnag, bydd y menywod ifanc hyn mewn perthynas sy’n debygol o fod yn “aeddfed” ei natur – efallai perthynas rywiol ei natur, gallent fod yn famau a gallent fod yn byw gyda’u partner. Yn ogystal, awgryma'r ymchwil fod y gamdriniaeth a brofir ganddynt yn ddifrifol ac yn gwaethygu wrth i amser fynd yn ei flaen.[52]

Mae'n bosibl felly bod angen cymorth cydgysylltiedig gan ystod eang o asiantaethau lleol ar y bobl ifanc hyn. Gall cyd-ymyrryd gan y Gwasanaethau Plant a’r sector arbenigol fod yn ffordd effeithiol o gynnig atebion i'r anghenion cymhleth efallai sydd gan y person ifanc ac o gwrdd â'u dyletswydd statudol i’w hamddiffyn. Dylid ystyried hyn wrth fabwysiadu proses “Gofyn a Gweithredu”. Yn benodol, dylai arweinwyr awdurdodau perthnasol:

- ystyried anghenion pobl ifanc wrth gyflawni asesiadau strategol o angen ac wrth gynllunio;
- ffurfioli cydweithio agos ac effeithiol rhwng y fforymau cydweithredol ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a'r rhai sy'n diogelu plant;
- cynnwys gwasanaethau pobl ifanc mewn partneriaethau a fforymau trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gan gynnwys arbenigwyr ar ymddygiad ac anghenion y grŵp cleientiaid ar wahân hwn, ac ystyried y materion ehangach sy'n effeithio'n anghymesur ar bobl ifanc fel gangiau, ecsbloetio rhywiol, seiber gam-drin a thrais ar sail ‘anrhydedd’; a
- sicrhau bod llwybrau gofal sy’n canolbwyntio ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cynnwys gwasanaethau penodol i bobl ifanc.

DRAFT

### Trawma dirprwyol

Caiff ei gydnabod yn dda bod gweithio gyda phobl sy'n profi trawma, hyd yn oed yn ysbeidiol, yn effeithio ar rai mewn rôl 'helpwr'. Gelwir yr effaith yma'n aml yn Drawma Dirprwyol neu'n flinder cydymdeimlo.[53]

Mae Trawma Dirprwyol yn disgrifio trallod yr helpwr o ganlyniad i straen emosiynol yn y gwaith; lle caiff "hunan" y gweithiwr neu'r helpwr trawma ei drawsnewid.[54] Yn ganolog i'r profiad yw'r berthynas empathetig rhwng y gweithiwr proffesiynol a'r cleient. Dros amser ac yn gronnus, gall empathi proffesiynol â phrofiad person arall bylu terfynau emosiynol ac arwain at newid persbectif gwybyddol a system gredoau'r gweithiwr proffesiynol.[55] Gall hyn arwain at deimlo:

- bod y sefyllfa'n eich llethu neu wedi ymlâdd;
- yn ynysig ac wedi dieithrio;
- yn besimistaidd a negyddol;
- yn ddig a thrist;
- gor-ymwneud â'r cleient;
- hunan-amheuaeth, euogrwydd a phoeni a ydych yn ddigon cymwys;
- yn or-wyliadwrus – teimlad llethol o fygythiad.

Am gyfnod gall y teimladau hyn barhau gan dueddu i fodoli'n gyfochrog â theimladau'r trawma.

Mae peth profiad o Drawma Dirprwyol o weithio â dioddefwyr cam-drin yn anochel er na fydd y symptomau o hyd yr un fath.[56] Cafodd nifer o ffactorau sy'n cyfrannu at Drawma Dirprwyol eu nodi:

| Sefydliadol | Personol |
|---|---|
| Diffyg adnoddau, amser, staff a gorweithio | Diffyg profiad / mewn rôl is |
| Diffyg cefnogaeth yn y gweithle (gan gydweithwyr, goruchwyliaeth) | Hanes personol o drawma |
| Teimlo'n broffesiynol ynysig | Straen personol ar y pryd |
| Gwahanol ethos gan asiantaethau / gwrthdaro diwylliant | Disgwyliadau afrealistig o'r rôl ac o 'wneud yn dda' |

Bydd amryw o staff Gwasanaethau Cyhoeddus eisoes mewn rolau sy'n eu gwneud yn fwy agored i Drawma Dirprwyol (Gweithwyr Cymdeithasol, Plismyn etc) ac mae gan awdurdodau perthnasol gyfrifoldeb i leihau effaith y gwaith anodd hwn arnynt.

Mae gweithredu proses "Gofyn a Gweithredu" yn debygol o olygu y bydd mwy o staff yn yr awdurdodau perthnasol yn gweithio â chleientiaid a fu'n agored am eu profiad o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Nid oes disgwyl i staff awdurdodau perthnasol ddatblygu rôl waith arbenigol yng nghyswllt trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Fodd bynnag, mae'n anochel y bydd datgelu profiad o gam-drin yn effeithio ar y berthynas waith



DRAFT

ac, felly, ar y gweithiwr proffesiynol.  Fel cyflogwr, felly, dylai arweinwyr awdurdodau perthnasol sicrhau (os na wnaethant hyn eisoes) bod cyfres o ffactorau lliniaru yn eu lle i leihau effaith Trawma Dirprwyol ar staff.

**Dylai arweinwyr:**

- gydnabod Trawma dirprwyol a nodi'n glir nad yw'r profiad yn arwydd o ymarfer proffesiynol gwael;
- sicrhau bod gan staff llai profiadol fwy o gymorth;
- ffurfioli trefniadau cyfeillio / rhwyd ddiogelwch;
- sicrhau bod cyfarfodydd tîm yn mynd i'r afael â chanlyniadau emosiynol y gwaith ac yn treulio amser yn adolygu achosion / prosesau arbennig o anodd;
- ystyried goruchwyliaeth glinigol ar gyfer staff;
- cymell staff i ofalu'n dda amdanynt eu hunain a chynnal rhwydweithiau proffesiynol;
- o annog staff i hunanasesu eu lefelau straen fel rhan o reoli achosion.[57]

**Dylai gweithwyr:**

- gydnabod trallod fel rhywbeth normal, ac ystyried cymorth pellach os yw'n parhau;
- adolygu strategaethau ymdopi / gofyn am gymorth neu oruchwyliaeth;
- adolygu eu llwyth gwaith;
- rhoi caniatâd i chi eich hun gael seibiant;
- sicrhau bod ganddynt amser i ymlacio, cysgu a chymdeithasu.[58]

Bydd y rhan fwyaf o weithwyr sy'n profi Trawma Dirprwyol yn profi ffactorau sy'n anghyffyrddus ond y gellir yn hawdd eu rheoli ac sy'n debygol o ddatrys eu hunain dros amser.

Gall y ffaith bod y gweithle'n cydnabod yn weithredol y posibilrwydd bod y gwaith yn drallodus, ac yn helpu gweithwyr sy'n cael trafferth ymdopi, greu ymwybyddiaeth well o'r posibilrwydd o drallod ac ysgogi strategaethau ymdopi i wella gwydnwch.

Nid yw trawma dirprwyol yn ddiweddglo nac yn brofiad negyddol anochel ac ni ddylid ei gyflwyno felly yn y gweithle.  Er y dylid cydnabod effaith bosibl gweithio â phobl drwblus, wedi eu cam-drin ac agored i niwed, lle rheolir hyn yn dda gyda chefnogaeth gref gan weithwyr, gall Trawma Dirprwyol arwain at Drawsnewid Dirprwyol; proses o drawsnewid trawma dirprwyol yn ddatblygiad proffesiynol. Mae trawsnewid dirprwyol yn broses o ymgysylltu'n weithredol â'r newidiadau negyddol sy'n digwydd drwy waith trawma, a gall arwain at ymrwymiad dyfnach i'r gwaith ac i grwpiau cleient agored i niwed.[59]

## Monitro ac Adolygu

Dylid gwerthuso proses "Gofyn a Gweithredu" yn erbyn y nodau yn y bennod ar Resymeg yn y canllawiau hyn. Bydd hyn yn golygu monitro data perthnasol ac adolygu canlyniadau ac allbynnau ehangach.

**Rhaid i adnabod unrhyw broblem trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol arwain at ymyriadau a lefelau cymorth priodol a, <u>thros gyfnod hirach o amser</u>, lleihau ymhellach yr achosion o drais a cham-drin a'r canlyniadau cysylltiedig i iechyd.**

Yn y tymor byr, os cryfheir ymateb gweithwyr rheng flaen proffesiynol mewn awdurdodau perthnasol i "Ofyn a Gweithredu", dylid cyflawni'r canlynol:

- **Adnabod mwy o bobl sy'n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.**

  Ystyriaethau monitro

  - ✓ A oes modd sefydlu data sylfaenol ar ddatgelu o'r math yma?
  - ✓ A oes gan bob sefydliad system rheoli achosion addas i gofnodi datgelu, i gyfrif pa mor aml y caiff arwyddion eu hadnabod, pa mor aml y gweithredir holi wedi'i dargedu a pha ganran o gwestiynau sy'n arwain at ddatgelu?

- **Cynnig atgyfeiriadau ac ymyriadau i rai sy'n cael eu hadnabod, fel y darperir cymorth arbenigol ar sail risg ac angen y cleient.**

  Ystyriaethau monitro

  - ✓ Sut y cofnodir y gweithredu sy'n digwydd yn dilyn datgelu
  - ✓ A yw'r opsiynau atgyfeirio a gymerir yn cael eu monitro a sut y caiff y canlyniadau i'r cleient eu monitro wedyn?
  - ✓ Sut y gellir defnyddio data ar Gynadleddau Asesu Risg Amlasiantaethol (MARAC) lleol, ac o fforymau lleol eraill, i asesu a yw pob corff Sector Cyhoeddus yn atgyfeirio mwy i'r broses?

- **Dechrau creu diwylliant ar draws Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru lle mae trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn faes busnes sy'n cael ei dderbyn a lle mae datgelu'n cael ei gefnogi, ei dderbyn a'i hwyluso.**

  Ystyriaethau monitro

  - ✓ A oes gan bob gwasanaeth lleol bolisi gweithle ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol?
  - ✓ A yw'r data dienw ar ddatgelu a wneir o dan y polisïau hyn yn cael ei fonitro?

- **Gwella'r ymateb i rai sy'n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac sydd ag anghenion cymhleth eraill fel camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl.**

  Ystyriaethau monitro

  ✓ Ar y pwynt datgelu, a nodir bod trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cyd-ddigwydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl?
  ✓ A yw rôl yr asiantaethau camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl mewn fforymau amlasiantaethol, ac atgyfeiriadau gan yr asiantaethau hyn, yn cael ei monitro?

- **Ymgysylltu'n rhagweithiol, ar y cyfle cyntaf posibl, â rhai sy'n agored i niwed a chuddiedig, yn lle dim ond ymgysylltu'n ymatebol â rhai sydd eisoes mewn argyfwng neu mewn perygl taer o gael niwed difrifol.**

  Ystyriaethau monitro

  ✓ A yw hyd y berthynas ar y pwynt datgelu'n cael ei nodi?
  ✓ A yw lefel y risg ar y pwynt datgelu'n cael ei nodi?
  ✓ A yw defnydd cyson o wasanaethau trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael ei fonitro?

### Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Bydd casglu gwybodaeth ddemograffig hefyd yn bwysig i oleuo cynllunio ar gyfer y dyfodol.

Mae'n bwysig bod data ar ddatgelu'n cael ei fonitro'n ofalus i sicrhau ei fod yn cynrychioli'r boblogaeth leol. Dylid ystyried bylchau mewn datgelu - er enghraifft, gan grwpiau lleiafrifol, a rhoi mesurau cymorth yn eu lle i'r gweithlu er mwyn gweld mwy o'r materion hyn yn cael eu ryportio gan grwpiau penodol.

DRAFT

## Hyfforddiant

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Bydd canllawiau'n cael eu cyhoeddi o dan adran 12 Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)i helpu awdurdodau perthnasol i gael mynediad at ac elwa'n llawn o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol. Cynigir hyfforddiant "Gofyn a Gweithredu" drwy lefel 2 y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol.

## Nod

Nod yr hyfforddiant yw cefnogi'r dysgwr i:

- adnabod arwyddion o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
- ymateb yn briodol i ddatgelu heb ei ysgogi;
- gofyn cwestiynau priodol; ac
- ymateb yn effeithiol i'r ateb.

## Darparu

Bydd hyfforddiant "Gofyn a Gweithredu" yn cael ei ariannu a'i gynnig i tua 35,000 o weithwyr proffesiynol blaenoriaeth rhwng 2015 a 2018.

Cynigir hyfforddiant wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru drwy fodel lledaenu rhanbarthol sy'n defnyddio sgiliau ac arbenigedd ymarferwyr lleol ac sy'n fodel cynaliadwy ar gyfer darpariaeth barhaus.

Bydd Llywodraeth Cymru'n comisiynu i gaffael rhaglen hyfforddiant a phecyn o ddeunyddiau ategol. Bydd y pecyn yn cynnwys deunydd cyffredinol ar ymarfer craidd "Gofyn a Gweithredu" ynghyd â deunyddiau wedi eu teilwrio i gynulleidfa benodol. Y comisiwn fydd creu rhaglen hyfforddiant a phecyn o ddeunyddiau ategol fydd hefyd yn cynnwys gofyniad ar wahân i ysgrifennu a darparu rhaglen "Hyfforddi'r Hyfforddwr".

Bydd yn galw am enwebu gweithwyr proffesiynol lleol sy'n cynrychioli rhanbarth, gwybodaeth arbenigol a chynulleidfa. Bydd y gweithwyr proffesiynol a enwebir yn derbyn hyfforddiant drwy'r rhaglen Hyfforddi'r Hyfforddwr ar negeseuon allweddol yr hyfforddiant a'r cymorth "Gofyn a Gweithredu" ynghyd â hyfforddiant sgiliau ar sut i ddarparu'r negeseuon hyn yn rhanbarthol.

Yr hyfforddwyr hyfforddedig hyn fydd aelodau cyntaf y consortia hyfforddi rhanbarthol. Bydd y consortia hyn yn rhan o'r model fydd yn darparu sawl lefel o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol a bydd rhanbarthau a sefydliadau'n gallu mabwysiadu dull hyblyg o hyfforddi gweithwyr proffesiynol lleol gan hefyd roi sylw i anghenion y cynulleidfaoedd blaenoriaeth sydd i'w targedu.

Gofynnir i'r consortia ddatblygu a gweithredu cynlluniau hyfforddi rhanbarthol, i'w cyflwyno fesul cyfnod dros dair blynedd i gyrraedd nifer cytunedig o weithwyr

proffesiynol.  Bydd cynnydd a chanlyniadau'n cael eu monitro gan Lywodraeth Cymru, drwy'r Cynghorydd Gweinidogol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar wahân ar gyfer y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol. Dylid cyfeirio atynt am wybodaeth bellach am yr hyfforddiant "Gofyn a Gweithredu".

DRAFT

Cynnwys

| Yn dilyn cwblhau'r hyfforddiant hwn bydd y cyfranogwyr yn: | Meini prawf asesu arfaethedig |
|---|---|
| **Adnabod arwyddion a symptomau trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol** | Gall y dysgwr adnabod arwyddion a symptomau trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.<br><br>Gall y dysgwr ddisgrifio sut y gall trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol effeithio ar unrhyw un ac nad yw ei brofi'n gysylltiedig ag unrhyw ddiwylliant, crefydd na statws economaidd-gymdeithasol penodol. |
| **Deall pwrpas holi wedi'i dargedu a'r rhesymau drosto** | Gall y dysgwr egluro pam fod angen holi wedi'i dargedu a'u rôl yn y gwaith hwn. |
| **Dangos eu bod yn gwybod am y ddeddfwriaeth ar rannu gwybodaeth a'r ddyletswydd i gadw cyfrinachedd** | Gall y dysgwr gyfeirio at ddeddfwriaeth ar rannu gwybodaeth.<br><br>Mae'r dysgwr yn dangos dealltwriaeth o'u dyletswyddau / ystyriaethau moesegol ynghylch cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth. |
| **Gallu dangos sut i ddechrau sôn am y pwnc trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol** | Gyda diogelwch y cleient fel eu prif bryder; gall y dysgwr ofyn cwestiynau i rai sy'n dangos arwyddion a symptomau sy'n berthnasol i'w profiad posibl o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.<br><br>Mae'r dysgwr yn dangos hyder i ofyn y cwestiynau'n ddiogel.<br><br>Mae'r dysgwr yn gallu ymateb yn briodol i ymateb y cleient.<br><br>Mae'r dysgwr yn gallu disgrifio anghenion amrywiol a chymhleth ychwanegol y bydd yn eu hystyried wrth ofyn y cwestiynau. |
| **Gallu adnabod risg mewn achosion priodol o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol** | Mae'r dysgwr yn deall pwrpas y Rhestri Adnabod Risg.<br><br>Mae'r dysgwr yn gallu defnyddio Rhestr Adnabod Risg, a gytunwyd arni'n genedlaethol, gyda'r cleient i nodi lefel y risg y mae'r cleient yn ei wynebu.<br><br>Mae'r dysgwr yn deall pwysigrwydd adnabod unrhyw risg daer ac yn gallu defnyddio llwybrau i hwyluso hyn. |
| **Gallu gweithredu'r llwybr gofal holi wedi'i dargedu[60]** | Mae'r dysgwr yn ymwybodol o'r dewisiadau gwasanaeth, yr opsiynau atgyfeirio a'r fforymau amlasiantaethol sydd ar gael i rai sy'n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | Mae’r dysgwr yn gallu egluro’r rhain i’w cleient ac yn gallu hwyluso atgyfeiriad ar sail dewis y cleient.<br><br>Lle mae’r cleient neu berson cysylltiedig mewn perygl o gael niwed difrifol, mae'r dysgwr yn gallu dangos pa gamau gweithredu y bydd yn eu cymryd i ddiogelu unrhyw un mewn perygl, gan gynnwys plant. |

DRAFT

## Manteision cost

Amcangyfrifir bod cam-drin domestig yng Nghymru'n costio £303.5m y flwyddyn - £202.6m yn gostau gwasanaeth a £100.9m mewn colledion mewnbwn economaidd.[61]

Mae'n debygol y bydd "Gofyn a Gweithredu", i ddechrau, yn gweld cynnydd mewn atgyfeirio at wasanaethau arbenigol gan gynnwys gwasanaeth y Cynghorwr Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA). Yn ôl y dystiolaeth mae'r model hwn, o'i integreiddio â Chynadleddau Asesu Risg Amlasiantaethol, yn rhoi arbedion cost o £2.90 o leiaf am bob punt o gost uniongyrchol i'r cyhoedd.

Os gweithredir proses "Gofyn a Gweithredu" yn llawn, disgwylir y bydd mwy o bobl sy'n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael eu hadnabod a'u helpu. Gallai hyn gynyddu costau yn y tymor byr, o ran capasiti'r gweithlu presennol a gwasanaethau cymorth. Fodd bynnag, gallai hefyd arwain at arbedion hirdymor i nifer o sefydliadau.

Mae'n anodd disgrifio'r arbedion hyn yn gywir oherwydd mae ymarfer lleol yn amrywio'n sylweddol a bydd arbedion o'r fath yn gysylltiedig â nodweddion y broses a'r gwasanaethau lleol. Mae ymchwil Walby i gostau trais domestig yn awgrymu bod defnyddio mwy ar Wasanaethau Cyhoeddus i fynd i'r afael â'r problemau hyn yn cynyddu costau gwasanaeth. Fodd bynnag mae hefyd yn cysylltu datblygiad a gwneud mwy o ddefnydd o Wasanaethau Cyhoeddus â llai o drais domestig ac, o ganlyniad, mae cost trais domestig i fusnesau ac i gymdeithas yn gyffredinol hefyd yn llai.[62]


Felly, mae disgwyliadau cost-effeithlonrwydd y model "Gofyn a Gweithredu" yn cynnwys arbedion ychwanegol yn gysylltiedig â chostau is i'r system cyfiawnder troseddol, yr economi ac o ran blynyddoedd ansawdd bywyd ychwanegol i rai yr effeithiwyd arnynt gan drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae cynlluniau bach a fu'n treialu prosesau tebyg i "Ofyn a Gweithredu" yn awgrymu bod y gost, yn nhermau pobl ac i'r economi, mor sylweddol fel y byddai unrhyw weithredu i ymyrryd yn gost-effeithiol.[63]

DRAFT

# Darparu “Gofyn a Gweithredu” - rôl yr ymarferydd rheng flaen


DRAFT

## Gofyn a Gweithredu: Y broses



Mae'r bennod ganlynol yn rhoi gwybodaeth seiliedig ar ymarfer am bob cam o’r broses hon.  Mae’n cefnogi gweithrediad y broses “Gofyn a Gweithredu” ac wedi’i chefnogi gan y canllawiau sefydliadol yn adran flaenorol y ddogfen hon.

Fel y nodir ar ddechrau’r ddogfen hon, bydd modd gweithredu prosesau diwygiedig i gyd-fynd ag anghenion sefydliad, i ddefnyddio partneriaethau a chymorth arbenigol. Sut bynnag y gweithredir proses, bydd dal angen ystyried pob cam ar y pwynt hwn yn ofalus.  Mae’r bennod yn rhoi cyngor cyffredinol ar weithredu’r broses a chanllawiau penodol i weithwyr proffesiynol.



## Gweithwyr proffesiynol hyfforddedig, hyderus a pherthnasol

I “Ofyn a Gweithredu” mae angen sgiliau gwrando, rhaid ymateb yn ddigyffro ac empathig i gleient sydd efallai mewn gofid mawr, a gwybod sut i gael gafael ar wasanaethau lleol drwy lwybrau gofal lleol.

I’r proffesiynau hynny sydd eisoes yn gweithio â grŵp cleientiaid, lle dysgwyd y sgiliau hyn fel rhan o’u haddysg cyn-gymhwyso a’u mireinio drwy gyswllt â chleientiaid, ni ddylai cyflawni’r gweithredu sy'n ofynnol o dan y broses “Gofyn a Gweithredu” fod yn dra gwahanol i’r gweithredu a gyflawnir eisoes ar gyfer eu rôl. Disgwylir i’r gweithwyr proffesiynol hyn ymarfer “Gofyn a Gweithredu” a chael eu blaenoriaethu i dderbyn hyfforddiant “Gofyn a Gweithredu” er mwyn ffurfioli beth ddylai eisoes fod yn ymarfer da.

Mae proffesiynau eraill mewn awdurdodau perthnasol nad ydynt yn gweithio’n gyson â grŵp cleientiaid ac a fyddai efallai’n cael y broses “Gofyn a Gweithredu” yn newydd a braidd yn frawychus.  Fodd bynnag, dylai’r broses “Gofyn a Gweithredu” fod yn syml ac awgryma’r dystiolaeth ei bod yn dderbyniol i ddefnyddwyr gwasanaeth.

Ni anelir y broses “Gofyn a Gweithredu” at y proffesiynau hynny nad ydynt eisoes mewn rolau sy'n wynebu'r cleient neu mewn rôl lle mae profiad eu grŵp cleientiaid o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cymhlethu ac effeithio ar natur ymgysylltiad y cleient â’r gwasanaeth a gynigir yn y rôl.

Drwy raglen hyfforddiant ranbarthol i’w darparu drwy’r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, bydd hyfforddiant “Gofyn a Gweithredu” dwys wedi’i ariannu gan Lywodraeth Cymru ar gael rhwng 2015-16 a 2017-18. Bydd yn cael ei gynnig i ddechrau i’r grwpiau proffesiynol blaenoriaeth a restrir yn y bennod flaenorol.  Ar ôl hynny, bydd yr hyfforddiant “Gofyn a Gweithredu” yn rhan barhaus o gynlluniau hyfforddiant rhanbarthol i ddiwallu anghenion lleol, cynnal trosiant gweithwyr mewn proffesiynau hyfforddedig a chaniatáu hyblygrwydd i ddiwallu angen lleol a sefydliadol.

DRAFT

## Y polisi cyfrinachedd

Nid yw cyfrinachedd gwybodaeth unigolyn yn absoliwt a gallai fod achosion lle datgelir gwybodaeth, o ganlyniad i holi wedi'i dargedu, a bydd angen i weithiwr proffesiynol farnu a ddylid rhannu'r wybodaeth ac, os felly, pa wybodaeth i'w rhannu.

Mewn rhai achosion, fel pan fydd awdurdod lleol yn credu bod plentyn yn debygol o gael niwed, ac mae'r plentyn hwnnw'n byw neu'n bwriadu byw mewn ardal awdurdod arall, bydd gan awdurdod lleol ddyletswydd i roi gwybod i'r awdurdod arall hwnnw. Mewn achosion eraill, er enghraifft lle gallai oedolyn nad yw'n agored i fwy o niwed fod mewn perygl, nid oes raid rhannu'r wybodaeth.

Mae'n hollbwysig bod pob cleient yn ymwybodol o bolisi cyfrinachedd y sefydliad dan sylw ac felly'n gallu gwneud penderfyniadau gwybodus am ba wybodaeth i'w rhannu â'r gweithiwr proffesiynol y maent yn gweithio â fo neu hi a bod ganddynt ddisgwyliadau rhesymol ynghylch sut yr ymdrinnir â'r wybodaeth hon.

Mae rhai o gefndiroedd lleiafrifoedd, gydag anghenion amrywiol, yn pwysleisio pa mor bwysig yw cael canllawiau clir a thryloyw ar gyfrinachedd i wella eu profiad o wasanaethau.[64]



## Ar waith

Mae cael yr hyder i gymhwyso protocol rhannu gwybodaeth lleol ac, yn benodol, Deddf Diogelu Data 1998, yn allweddol ar gyfer "Gofyn a Gweithredu".

DRAFT

## Adnabod arwyddion o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Math o holi wedi'i dargedu yn hytrach na holi cyffredinol yw “Gofyn a Gweithredu”.

Mae holi cyffredinol yn golygu holi pob defnyddiwr gwasanaeth am eu profiad o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, p'un ai oes arwyddion o gam-drin neu beidio, a ph'un ai oes amheuaeth o gam-drin neu beidio.

Mae holi wedi'i dargedu'n golygu bod gweithwyr proffesiynol perthnasol yn cymhwyso “trothwy isel wrth holi" a yw'r cleient yn profi cam-drin domestig pan fydd y cleient yn cyflwyno arwyddion penodol o gam-drin. Defnyddir “arwyddion” i ddisgrifio'r holl wahanol fathau o arwyddion, symptomau, ciwiau neu sefyllfaoedd lle gallai trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol gael ei adnabod.

Mae trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn digwydd mewn perthnasoedd heterorywiol, lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol a gall gynnwys aelodau eraill o'r teulu, gan gynnwys rhai yn eu harddegau, plant a phobl ifanc. Er bod rhai grwpiau'n fwy agored i brofi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol nag eraill, gall unrhyw un ei brofi, beth bynnag yw eu hil, grŵp ethnig neu grefyddol, statws economaidd-gymdeithasol neu ffordd o fyw. Fodd bynnag, awgryma'r dystiolaeth fod rhai mathau o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn fwy cyffredin mewn rhai cymunedau ac y dylai'r gweithiwr proffesiynol dalu sylw dyledus i hyn, ond gan geisio osgoi barnu'n anwybodus a rhagfarnllyd ar sail myth neu stereoteipio.

Mae'n hanfodol bod y broses “Gofyn a Gweithredu” yn seiliedig ar gymhwyso arwyddion hysbys o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn gyson, yn hytrach nag ar farn a phersbectif personol neu unrhyw fath o stereoteipio. Mae adnabod arwyddion hysbys yn gofyn bod y gweithiwr proffesiynol yn defnyddio disgresiwn gwybodus, meddwl-agored ac, felly, mae hyfforddiant i adnabod arwyddion o gam-drin ac ymateb yn briodol iddynt yn eithriadol bwysig. Darperir hyfforddiant “Gofyn a Gweithredu” drwy'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol.

DRAFT



## Ar waith

Gall unrhyw un ddioddef trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a dylai proses “Gofyn a Gweithredu” adlewyrchu hyn; yn y pen draw, dylai fod pawb sy’n profi unrhyw fath o gam-drin fod yn gallu cael gafael ar y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt, p’un ai drwy wasanaethau Cyhoeddus neu Arbenigol, a dylid monitro arwyddion y profiadau hyn ar draws y grŵp cleientiaid cyfan.

I bwrpas y canllawiau hyn, defnyddir y term arwyddion i gwmpasu pedwar sbardun i holi cleientiaid am eu profiad o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol; arwyddion, symptomau, ciwiau a lleoliadau.

Er y bydd pob cleient yn rheoli ei phrofiad neu brofiad o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn wahanol, mae arwyddion hysbys a chyffredin o’r broblem y dylai gweithwyr proffesiynol wybod amdanynt ac a ddylai ysgogi holi pellach.

Gallai’r arwyddion hyn adlewyrchu ystod o broblemau a hefyd ysgogi pryderon diogelu ynghylch plant neu oedolion agored i niwed cysylltiedig. Gan hynny, dylai eu cydnabod a'u trafod ymhellach eisoes fod yn rhan annatod o ymarfer da.

Ni waeth beth yw nodweddion eraill y cleient, lle sylwir ar un o’r pedwar arwydd, mae’n awgrymu bod yna brofiad posibl o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol a dylai’r gweithiwr proffesiynol ddilyn camau pellach y broses "Gofyn a Gweithredu" fel y'i disgrifir isod.

DRAFT

Y pedwar math o arwydd




DRAFT

**Arwyddion:**

Bydd yr arwyddion allanol a chorfforol posibl bod rhywun yn profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn rhai corfforol ac wedi eu cysylltu i ymddygiad ac ymarweddiad y cleient.  Gallent gynnwys newid agwedd.

| Arwyddion cymdeithasol-ddiwylliannol | Arwyddion corfforol |
|---|---|
| Newid mewn agwedd neu ymddygiad: mynd yn dawel iawn, gorbryderus, ofnus, dagreuol, ymosodol, colli ffocws, isel etc.<br><br>Y partner yn dod gyda nhw'n rheolaidd, hyd yn oed lle mae'n ymddangos yn gefnogol a pharod i helpu.<br><br>Y partner yn mynnu neu'n dangos gormod o reolaeth dros y cyswllt â'r gwasanaeth, gan gynnwys dod gyda'r dioddefwr bob tro.<br><br>Dibynnu ar y partner i wneud penderfyniadau - dim ewyllys rhydd ac annibyniaeth.<br><br>Obsesiwn â phrydlondeb.<br><br>Tawedog ynghylch bywyd y cartref.<br><br>Yn poeni am adael y plant gartref gyda'r partner neu'r teulu.<br><br>Y partner neu'r cyn-bartner yn mynnu neu'n dangos gormod o reolaeth dros amserlen y cleient.<br><br>Wedi ynysu'n gymdeithasol oddi wrth deulu / ffrindiau. | Anafiadau diesboniad.<br><br>Newid ym mhatrwm neu mewn faint o golur a ddefnyddir.<br><br>Newid gwisg: er enghraifft, gwisgo dillad nad ydynt yn addas i'r hinsawdd, efallai i guddio anafiadau.<br><br>Defnyddio / camddefnyddio sylweddau<br><br>Blinder / anhwylderau cysgu |

**Symptomau:**

Fel y mae'r term yn ei awgrymu, disgwylir i'r broses adnabod a holi wedyn ar sail arwyddion fod wedi'i gwreiddio mewn ymarfer clinigol a meddygol. Dyma rai o'r symptomau a ddylai sbarduno holi:

- Iselder
- Gorbryderu
- Poen cronig (diesboniad)
- Blinder
- Symptomau gastroberfeddol cronig diesboniad
- Symptomau atgenhedlu diesboniad, gan gynnwys poen pelfig, problemau rhywiol
- Canlyniadau atgenhedlu andwyol, gan gynnwys bod yn feichiog yn anfwriadol droeon a / neu derfynu beichiogrwydd, oedi cyn derbyn gofal pan yn feichiog, canlyniadau genedigaeth andwyol
- Problemau gynaecolegol[65]
- Yfed alcohol neu ddefnydd o sylweddau eraill
- Hunan-niwed
- Ymdrechion i ladd ei hun
- Anhwylderau bwyta
- Symptomau cenhedlol-wrinol diesboniad, gan gynnwys heintiau cyson ar y bledren neu'r arennau
- Gwaedu'n gyson o'r fagina a heintiau a drosglwyddir yn rhywiol
- Problemau gyda'r system nerfol ganolog - cur pen, problemau gwybyddol a chlyw
- Apwyntiadau ymgynghori niferus ynghylch iechyd ond heb ddiagnosis clir
- Partner ymwthiol yn yr apwyntiadau ymgynghori

**Ciwiau:**

Mae ciwiau'n disgrifio naill ai ddarn o wybodaeth neu batrwm ymddygiad sydd angen holi yn ei gylch. Gallai hyn gynnwys bwrw golwg ehangach a thros amser ar ymgysylltiad cleient â gwasanaethau a holi am y rhesymau y tu ôl i gyswllt ysbeidiol neu o achos argyfwng. Gallai hefyd gynnwys gwybodaeth gan asiantaeth bartner, ar sail atgyfeiriad neu a rannwyd drwy ddilyn Protocol lleol ar Rannu Gwybodaeth sy'n awgrymu pryder, amheuaeth neu wybodaeth heb ei chadarnhau y gallai'r cleient fod yn profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Nid mater o groesholi rhywun yw "Gofyn a Gweithredu" ond, lle sylwir ar neu lle derbynnir ciw, dylai'r gweithiwr holi'n briodol yn ei gylch.

**Lleoliadau:**

Mae tystiolaeth i awgrymu bod holi cyffredinol, mewn rhai lleoliadau, yn briodol oherwydd bod y rheswm dros ymgysylltiad y cleient â'r lleoliad hefyd yn sbardun i holi am drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Dylai gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y lleoliadau canlynol holi pob cleient yn gyffredinol a ydynt yn profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol

oherwydd gwyddom fod cam-drin domestig yn cyd-ddigwydd â phwrpas craidd y gwasanaeth a ddarperir (iechyd meddwl, beichiogrwydd, cam-drin plant):

- **Iechyd meddwl**

Mae'r risg o gael iselder, anhwylder straen wedi trawma (PTSD), problemau sylweddau neu deimlo fel cyflawni hunanladdiad yn dair i bum gwaith yn uwch i fenywod a brofodd drais yn eu perthynas o'i gymharu â rhai na chafodd y profiad hwn.[66]

- **Lleoliadau iechyd y fam ac ôl-enedigol**

Mae 30% o drais domestig yn cychwyn pan fo'r fenyw yn feichiog ac yn gysylltiedig â phwysau geni isel a thrafferthion fel colli'r babi a babanod marw-anedig[67] [68].

Bydd proses "Gofyn a Gweithredu", gyda hyfforddiant ychwanegol, yn cryfhau eto'r llwybr gofal presennol i famau sy'n defnyddio dull seiliedig ar dystiolaeth o ofyn i bob menyw am gam-drin domestig ar ôl rhoi genedigaeth.

- **Pryderon am gam-drin plant**

Mae bron i dri chwarter y plant ar y gofrestr 'mewn perygl' yn byw ar aelwydydd lle mae trais domestig yn digwydd ac mae 52% o achosion amddiffyn plant yn cynnwys trais domestig.[69]

Mae 62% o blant sy'n cael profiad o gam-drin domestig hefyd yn cael niwed eu hunain.  Mae colli cyfle i adnabod trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn gyfle a gollwyd i adnabod unrhyw risg i blant.

Yn ogystal â'r pedwar prif fath o arwydd, gwyddom hefyd o dystiolaeth fod rhai grwpiau o bobl yn fwy agored nag eraill i brofi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac yn rhan o brofiad ehangach o gam-drin ar sail rhywedd; trais a gyflawnir yn erbyn menywod yn benodol am eu bod yn fenywod, neu o ganlyniad i agweddau seiliedig ar rywedd.

DRAFT

## Darparu lle diogel, cyfrinachol a phreifat i ymgynghori â’r cleient

Rhaid gweithredu’r broses “Gofyn a Gweithredu” o fewn diwylliant ac amgylchedd lle mae cyfrinachedd, preifatrwydd a data’r grŵp cleientiaid yn cael ei barchu a’i drin yn ofalus dros ben.  Yn fyr, bydd angen:

- creu gwasanaeth sy’n hyrwyddo diogelwch y cleient fel blaenoriaeth ac sy’n gwbl agored yng nghyswllt cyfrinachedd; a
- creu prosesau mewnol lle gellir defnyddio mannau preifat yn effeithlon i ofyn cwestiynau perthnasol mewn lleoliad lle mae’r cleient yn teimlo’n ddiogel a chyfrinachol.



### Ar waith

Dylai'r gweithiwr proffesiynol roi sylw i ddwy ystyriaeth bwysig cyn gofyn y cwestiwn:

- yr amgylchedd; a
- eu cytgord â’r cleient.

### Amgylchedd

Rhaid i’r lle a ddefnyddiwch i ofyn i’r cleient am eu profiad o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol fod yn ddiogel a bydd hynny’n dibynnu ar farn y cleient am y lle.  Rhaid sicrhau eu bod yn teimlo’n ddiogel yn y lle a gofynnwch iddynt beth fyddai’n gwneud iddynt deimlo’n fwy diogel i gael y sgwrs.

Peidiwch â chodi’r pwnc os oes pobl eraill o gwmpas neu os gall pobl eraill glywed eich sgwrs. Rhaid i’r cleient fod ar ei ben ei hun yn llwyr.

Dylid dangos gwybodaeth yn glir yn y mannau aros a chymunedol ac mewn mannau addas eraill am y cymorth sydd ar gael i rai yr effeithiwyd arnynt gan drais a cham-drin. Dylai hyn gynnwys manylion cyswllt ar gyfer llinellau cymorth lleol a chenedlaethol perthnasol.

Dylid sicrhau y dangosir deunyddiau sy’n nodi y cynhwysir cleientiaid sydd efallai’n adnabod eu hunain fel lleiafrifoedd neu gydag anghenion amrywiol (gweler **Cymhwyso “Gofyn a Gweithredu” i rai gydag anghenion amrywiol ychwanegol**).

DRAFT

Dylid sicrhau bod y wybodaeth am ble i gael cymorth fod ar gael mewn ystod o wahanol fformatau ac ieithoedd a ddefnyddir yn lleol. Gallai'r fformatau cynnwys Braille a thâp sain a gellid defnyddio ffontiau mawr. Gallai hefyd fod ffyrdd llai amlwg o gyfleu'r wybodaeth, er enghraifft drwy ddosbarthu pinnau ysgrifennu neu 'fodrwyau' allweddi gyda rhif ffôn cymorth.

Peidiwch â chymryd yn ganiatаol fod unrhyw un yn ffrind neu'n aelod teulu "diogel". Mae gan rai mathau o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol sawl camdriniwr gan gynnwys aelodau o'r teulu o bob rhyw, a rhwydweithiau cymdeithasol estynedig. Gallai fod hyn yn arbennig o wir gyda cham-drin ar sail "anrhydedd" ac mewn cymunedau clòs fel rhai teithwyr. **Nid yw'n briodol defnyddio aelod o'r teulu neu ffrind fel cyfieithydd**.

Mae cleient yn llai tebygol o ddatgelu os yw eu plant yn bresennol a gallent geisio eu hamddiffyn rhag y wybodaeth yma, cymryd y trais yn ysgafn a bod yn ymwybodol bod eu plant yn cael eu defnyddio gan y camdriniwr i gadw llygad ar bethau.

Peidiwch â chymryd rhyw neu rywedd y cleient neu bartner y cleient yn ganiatаol a cheisiwch osgoi labelu lle bo hynny'n bosibl.

Efallai na fydd cleientiaid LGBT yn "dod allan" i'r person sy'n dod gyda nhw a gallent fod yn gyndyn o ddatgelu unrhyw beth am eu bywyd preifat.

Rhaid i'r cleient deimlo bod ganddynt sylw llwyr y gweithiwr proffesiynol.

### Cytgord

Mae'n bwysig normaleiddio'r broses o "ofyn y cwestiwn". Y ffordd orau o annog rhywun i fwrw eu bol gyda chi yw drwy fabwysiadu dull holi ystyrlon. Ceisiwch osgoi cymell rhywun i beidio â datgelu naill ai drwy fabwysiadu dull ymddiheurol neu fod yn rhy ddi-flewyn-ar-dafod.

Gall siarad am drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol fod yn emosiynol i'r person sy'n cael ei gam-drin ac i'r gwrandäwr a rhaid delio'n sensitif â'r sefyllfa.

Rhaid i'r person proffesiynol ymddangos yn hyderus i ofyn y cwestiwn. Gallai person proffesiynol sy'n ymddangos yn nerfus wrth ofyn roi'r argraff i'r cleient nad yw'n gallu delio â'r ateb.

Dylai'r person proffesiynol fod yn ymwybodol o negeseuon dieiriau a roddir ganddynt i sicrhau eu bod yn ymddangos yn "agored" i dderbyn yr ateb i'w cwestiwn.

Dylai'r person proffesiynol ddefnyddio eu sgiliau gwrando'n weithredol i sicrhau bod y cleient yn teimlo bod y sylw i gyd arnynt.




DRAFT

## Y dull holi

Gall yr arwyddion o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol adlewyrchu ystod o broblemau a hefyd ysgogi pryderon diogelu ynghylch plant, neu oedolion agored i niwed cysylltiedig. Gan hynny, dylai eu cydnabod a'u trafod ymhellach eisoes fod yn rhan annatod o ymarfer da.

Mae holi wedi'i dargedu fel arfer yn arwain at ddyblu'r cyfraddau adnabod cam-drin domestig ac yn cynyddu atgyfeiriadau at asiantaethau allanol.[70] Felly, mae ganddo'r potensial i effeithio'n gadarnhaol ar fywydau llawer o ddioddefwyr trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a bywydau eu plant. Y flaenoriaeth gan bob gwasanaeth sy'n "Gofyn a Gweithredu" ddylai rhoi sylw i anghenion a diogelwch y dioddefwyr hyn.

Mae'r rhan fwyaf o fenywod o blaid proses o holi am drais domestig, ar yr amod y gwneir hynny mewn amgylchedd diogel a chyfrinachol.[71] Awgryma'r adborth seiliedig ar ymarfer bod rhai sy'n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol eisiau i weithwyr proffesiynol eu holi am eu profiad a'i bod yn haws i gleient ymateb i gwestiwn uniongyrchol na chynnig y wybodaeth o'u gwirfodd.



## Ar waith

Dylid addasu'r technegau sgrinio i weddu orau i anghenion y lleoliad proffesiynol a'r grŵp cleientiaid. Os defnyddir y dulliau hyn, dylent fod yn fyr ond eto'n gynhwysfawr a dylid eu profi ar draws poblogaeth amrywiol. Dylai'r bartneriaeth rhwng darparwyr gofal iechyd a sefydliadau arbenigol lleol gael ei hatgyfnerthu fel y darperir polisi ac ymarfer yn fwy cynhwysfawr.[72]

Ni ddylid drysu rhwng dulliau sgrinio a dulliau adnabod neu asesu risg sy'n ateb pwrpas tra gwahanol i adnabod y broblem ac sy'n gam fydd yn dilyn y broses "Gofyn a Gweithredu".

## Y cwestiwn

Mae'r wybodaeth isod yn rhoi arweiniad i weithwyr proffesiynol perthnasol ar sut i gychwyn sgwrs â chleient lle sylwir ar arwyddion bod y cleient yn profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

- dylech egluro wrth y cleient yr hyn a sylwoch arno:
- dylech egluro wrth y cleient eich bod yn poeni beth y gallai'r hyn a sylwoch arno fod yn gysylltiedig ag ef

DRAFT

### Cwestiynau anuniongyrchol

O ystyried y gallai'r arwyddion o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol hefyd fod yn arwyddion o broblemau iechyd cyhoeddus a chymdeithasol ehangach, gallai’r person proffesiynol efallai ddewis holi wedi’i dargedu mewn sgwrs yn cynnwys cwestiynau anuniongyrchol. Bydd hyn yn sefydlu cytgord pellach gyda’r cleient.

Gallai’r cwestiynau hyn gynnwys esboniad ynghylch pam y gofynnir hwynt, fel:

> *“Rwyf wedi sylwi ar yr arwyddion / symptomau hyn”*
>
> *“Rwyf wedi derbyn y wybodaeth yma”*

Yna gallwch ddilyn hyn gyda chwestiwn anuniongyrchol fel:

> *A oes unrhyw broblemau neu resymau sydd efallai’n cyfrannu at yr arwyddion a’r symptomau hyn?*
>
> *A oes unrhyw beth yn digwydd efo ti sy’n achosi’r arwyddion a’r symptomau hyn?*

Gallai’r cwestiynau hyn ysgogi datgelu trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol neu broblemau eraill sydd angen cymorth ar eu cyfer ac, yn yr achosion hyn, dylai'r holi wedi'i dargedu fod ar ffurf sgwrs ysgafn.

Fodd bynnag, gyda rhai cleientiaid, ni fydd y dull hwn yn ddigon eglur iddynt ddeall neu ddim yn ddigon i oresgyn eu rhwystrau personol i ddatgelu. Mae’n bwysig felly bod gweithwyr proffesiynol hefyd yn dilyn cwestiynau anuniongyrchol gyda chwestiynau uniongyrchol lle bo angen. Rhaid i’r person proffesiynol fod yn sicr eu bod wedi gofyn y cwestiwn sy’n ofynnol gyda phroses “Gofyn a Gweithredu” a bod y cleient wedi’i ddeall.

### Cwestiynau uniongyrchol

Er y dylai gwestiynau uniongyrchol fod yn glir a chryno, dylid hefyd eu gofyn mewn ffordd ofalus a sensitif iawn. Mae’n bwysig bod y person proffesiynol yn ymarfer a meddwl drwy ba gwestiynau y gellir eu gofyn yn gyffyrddus a chlir mewn ffordd sy’n normaleiddio’r broses i’r cleient.

Dyma rai enghreifftiau o gwestiynau uniongyrchol i ddechrau datblygu ymarfer proffesiynol yn y maes hwn, ond ni ddylid eu defnyddio fel sgript.

> *“Mae cam-drin yn y cartref yn gyffredin iawn a gall weithiau arwain at bobl yn ymddwyn neu’n teimlo fel yr wyt wedi’i ddisgrifio i mi heddiw. Mae cam-drin yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio partner neu aelod o’r teulu’n brifo neu'n dy ypsetio - gallai olygu dy frifo'n gorfforol, rheoli dy sefyllfa ariannol neu alw enwau arnat neu dy frifo drwy'r pethau y mae’n ei ddweud. Gall hefyd olygu*

*dy wthio i wneud pethau rhywiol yn groes i dy ewyllys.  Ydy hyn yn digwydd i ti"?*

*"Mae rhai o'r pethau yr wyt wedi eu disgrifio'n arwydd bod person yn dioddef niwed neu'n cael ei gam-drin gan bartner neu aelod o'r teulu.  Ydy hyn yn digwydd i ti"?*

Yn aml iawn nid yw pobl sy'n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn ei adnabod felly.  Felly mae'n bwysig bod y person proffesiynol yn gallu egluro beth mae'r term hwn yn ei feddwl a'i dorri lawr yn gwestiynau am ymddygiad, yn lle terminoleg.  Bydd hyn yn arbennig o wir am bobl iau sy'n tueddu i normaleiddio'r profiad o drais gan bartner agos.

Isod rhoddir rhai enghreifftiau o gwestiynau seiliedig ar ymddygiad:

*Ydy dy bartner / aelod o'r teulu yn mynd yn genfigennus pan fyddi'n gweld ffrindiau, yn siarad â phobl eraill neu'n mynd allan? Os ydy o, beth sy'n digwydd?*

*Ydy dy bartner / aelod o'r teulu'n colli ei dymer efo ti? Os ydy o, beth sy'n digwydd i ti o ganlyniad?*

*Ydy rhywun yn dy deulu wedi bygwth dy frifo neu dy orfodi i wneud rhywbeth nad wyt ti eisiau ei wneud?*

*A oes gennyt ofn rhywun yn dy fywyd?*

*Pwy sy'n gwneud penderfyniadau yn dy deulu / am beth fedri ac na fedri ei wneud?*


*Wyt ti'n gallu cael gafael ar dy arian dy hun a dewis sut i'w wario?*

Mae'n bwysig nad yw'r person proffesiynol yn canolbwyntio'n ormodol ar drais corfforol ar draul cam-drin emosiynol, seicolegol ac ariannol ac agweddau eraill ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, sydd i gyd yn ddinistriol a niweidiol ac i'w cymryd o ddifrif.

Lle mae cleient yn cyfeirio o gwbl at drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, neu'n cydnabod eu profiad ohono'n rhannol, mae'n bwysig nad yw'r gweithiwr proffesiynol yn rhoi pwysau arnynt i ddatgelu'n llawn os nad yw'r cleient yn gyffyrddus yn gwneud hyn.




DRAFT



### Delio gyda datgelu

Mae ymateb y person proffesiynol yr un mor bwysig â'r cwestiwn a ofynnir.  Efallai mai dyma'r tro cyntaf i'r cleient ddatgelu ac maent yn debygol o fod ag ofn y canlyniadau.  Bydd ymateb y person proffesiynol yn eithriadol bwysig i dawelu meddwl y cleient.



### Ar waith

### Mae'r cleient yn datgelu profiad o gam-drin presennol neu hanesyddol

Lle mae cleient yn datgelu profiad o gam-drin, mae'n bwysig bod y person proffesiynol yn credu a dilysu'r wybodaeth gan y cleient.  Bydd amryw o gleientiaid yn ofni na fydd pobl yn eu credu ac mae'n bwysig bod y person proffesiynol yn dilysu'r profiad, yn cydnabod bod trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn broblem ddifrifol ac yn un y mae'r sefydliad yn ei gymryd o ddifrif.

Rhaid i ddatganiad dilysu fod yn addas i ymarweddiad y person proffesiynol ac felly ni ddylid ei sgriptio. Fodd bynnag, dyma rai enghreifftiau o ddatganiadau dilysu:

> *"Mae'n cymryd rhywun dewr iawn i rannu'r hyn a ddywedaist heddiw"*
>
> *"Nid yw neb yn haeddu cael ei gam-drin. Nid oes esgus dros drais ac rwyt ti'n haeddu gwell"*
>
> *"Rwy'n poeni am dy ddiogelwch a dy les ond mae opsiynau ac adnoddau ar gael i ti"*
>
> *"Nid wyt ti ar dy ben dy hun"*
>
> *"Nid ti sydd ar fai am y cam-drin / trais"*

Dylid tawelu meddwl y cleient bod y sefydliad yn deall sut y gallai trais a cham-drin effeithio arnynt a dweud pa gymorth sydd ar gael iddynt.

Mae hefyd yn bwysig bod y person proffesiynol yn ystyried y canlynol:

- diogelwch y cleient ac unrhyw bobl gysylltiedig ar yr adeg benodol honno;
- a oes angen rhoi sylw meddygol ar fyrder i unrhyw anaf;
- pa mor ddiogel yw'r cleient i ddychwelyd adref a beth ellir ei gynnig i liniaru'r risg;

DRAFT

- sut y bwriedir rhoi sylw i'r datgeliad, naill ai drwy'r sefydliad neu'n defnyddio partneriaethau (gweler y camau dilynol yn y broses am fwy o wybodaeth);
- opsiynau ar gyfer gofal parhaus.

### Nid yw'r cleient yn datgelu cam-drin

Bydd achosion lle sylwir ar arwydd o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol ond ni fydd cleient yn datgelu cam-drin. Yn yr achosion hyn mae'n bwysig ystyried y canlynol:

### Nid croesholi yw "Gofyn a Gweithredu"

Efallai y bydd person proffesiynol yn dal i boeni am y cleient ond ni fydd herio eu hymateb yn debygol o wella eu hymgysylltiad. Dylai fod gan gleient bob amser ddewis ynghylch beth i'w ddatgelu ac efallai na fyddant yn barod i rannu gwybodaeth.

### Peidiwch â diystyru eich barn broffesiynol


Bydd achosion lle na fydd cleient yn datgelu ond bydd gweithwyr proffesiynol yn dal i boeni am eu diogelwch a'u lles. Gall greddf broffesiynol fod yn un o'r sgiliau gorau ac, felly, ni ddylid ei diystyru. Dylai person proffesiynol ystyried beth yw eu pryderon a pha dystiolaeth sydd ganddynt dros bryderu. Dylid codi hyn ymhellach gyda rheolwr i ystyried a fyddai'r pryder yn bodloni meini prawf cyfreithiol ar gyfer rhannu'r wybodaeth a pha gamau y gellir eu cymryd i ddiogelu'r cleient.

### Mae arwyddion o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol hefyd yn arwyddion o fathau eraill o ddiffyg grym ac ymddygiad pryderus.

Mae'n bwysig cofio nad yw profiad y cleient efallai'n gysylltiedig â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac y gallai fod yn arwydd o fod yn agored i fath arall o niwed. Gallai cwestiwn dilynol yn holi a oes unrhyw beth arall yr hoffai'r cleient ei rannu fod yn effeithiol, ynghyd â chyfeiriadur gwasanaeth cyffredinol wedi'i gysylltu i anghenion cymhleth eraill fel cam-drin sylweddau, iechyd meddwl neu hunan-niwed.

Dylai fod gan bob sefydliad ddeunyddiau i godi ymwybyddiaeth o wasanaethau lleol i'w rhoi i gleientiaid (lle bo'n ddiogel gwneud hynny) os ydynt am eu defnyddio yn y dyfodol.

Yn anad dim, mae'n greiddiol peidio ag ystyried "Gofyn a Gweithredu" fel un ymyriad. Yn aml iawn, disgrifir rhai sy'n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol i fod yn symud drwy **Gyfnodau Newid** yn eu barn am eu sefyllfa.[73] Mae'r cyfnodau'n penderfynu pa mor abl a pharod yw cleient i newid eu bywydau, ac yng nghyswllt trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol gall hyn olygu bod yn barod i adnabod eu sefyllfa, datgelu gwybodaeth neu weithredu i ddianc rhag y gamdriniaeth y maent yn ei phrofi.




Dyma rai enghreifftiau o **Gyfnodau Newid** yng nghyswllt y profiad o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol:

**Cyn-fyfyrio:** Nid yw'r cleient yn adnabod eu profiad fel cam-drin neu ddim yn deall pam fod gan wasanaethau bryderon.

**Myfyrio:** Mae'r cleient yn adnabod problem yn eu perthynas, mae ganddynt rai pryderon ond nid o reidrwydd am wneud dim amdanynt neu ddim yn gwybod beth i'w wneud.

**Paratoi: :** Mae'r cleient yn adnabod bod cam-drin yn digwydd, mae eisiau i bethau newid ac yn ystyried beth allai wneud gwahaniaeth - gallai olygu darllen taflenni, meddwl am opsiynau gadael neu ddod i hyd i gymorth.

**Gweithredu:** Mae'r cleient yn newid pethau.  Gallai olygu ffonio'r llinell gymorth neu'r heddlu am y tro cyntaf.

**Cynnal y sefyllfa:** Mae'r cleient wedi newid pethau, e.e. mae wedi gadael y partner camdriniol ac yn cynnal y newid drwy ymatal rhag cysylltu a ryportio unrhyw ddigwyddiadau parhaus.

**Llithro'n ôl:** Mae cleient wedi newid ei sefyllfa'n flaenorol ac wedi cynnal y sefyllfa am gyfnod. Fodd bynnag, yn awr mae wedi llithro'n ôl fymryn i'w hen sefyllfa, er enghraifft drwy ateb galwadau ffôn gan gamdriniwr neu wedi troi'n ôl yn llwyr at ymddygiad blaenorol, er enghraifft drwy ddychwelyd i'r cartref teuluol i ail-gychwyn perthynas â'r camdriniwr.

Mae'n bwysig bod yr awdurdod perthnasol yn cynnig gwasanaethau ac yn defnyddio holi wedi'i dargedu **ar bob cyfle perthnasol.** Drwy wneud hyn, bydd mwy o gyfle i gynnig gwasanaeth ar y pwynt pryd y mae'n fwy tebygol o gael ei dderbyn neu i ofyn cwestiynau pan fo'r cleient yn barod i ateb. Er na fydd cleient yn y cam cyn-fyfyrio efallai'n datgelu cam-drin, gallai cleient yn y cam myfyrio neu baratoi fod yn barod i wrando ar y cwestiwn a, thrwy ei ofyn, gallai'r gweithiwr proffesiynol gynnig llu o wasanaethau a allai sefydlogi ymhellach y newid y mae'r cleient eisiau ei wneud a gwella eu diogelwch.

DRAFT

## Adnabod risg

Mae amcanion “Gofyn a Gweithredu” yn cynnwys adnabod trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Fel y nodir yn yr adrannau ar resymeg a diffiniadau yn y canllawiau hyn, mae’n cynnwys amrywiaeth eang o ymddygiad gan bartneriaid, cyn-bartneriaid ac aelodau o'r teulu neu gan ddieithriaid a chydnabod, gan gynnwys:

- Cam-drin domestig
- Trais rhywiol (o fewn ac nid o fewn perthynas)
- Anffurfio organau cenhedlu menywod (FGM)
- Priodi dan orfod
- Cam-drin ar sail "anrhydedd"
- Stelcian a harasio (o fewn ac nid o fewn perthynas)
- Ecsbloetio rhywiol

Ar gyfer nifer o’r profiadau hyn, sefydlwyd proses o adnabod risg. **Nid yw’r broses yma’n adnabod pwy sydd fwyaf tebygol neu mewn perygl o brofi’r problemau hyn, dylid ei defnyddio pan fo’n hysbys bod rhywun yn eu profi.** Mae’r risg sy’n cael ei hasesu’n ymwneud â mathau arbennig o ymddygiad sy’n gysylltiedig â niwed difrifol a marwolaeth a cham-drin sy’n gwaethygu.

Mae nifer o ddulliau adnabod risg a ddefnyddir yn rhyngwladol sydd i gyd yn gymwys ar gyfer cyfuniad o gam-drin domestig, cam-drin rhywiol (o fewn perthynas), priodi dan orfod, cam-drin ar sail anrhydedd, stelcian a harasio. Ni chysylltir hwynt â’r profiad penodol o Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod, trais rhywiol gan rywun dieithr neu gydnabod, neu fathau eraill o drais ar sail “anrhydedd”.

## Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod

Lle nad oes model ffurfiol o asesu risg ar gyfer FGM, mae’n hanfodol bod gweithwyr proffesiynol yn effro i beth allai gynyddu risg menyw ifanc o gael ei cham-drin fel hyn.

Dylid glynu wrth y Protocol Cymru Gyfan ar Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod.

Dylai gweithwyr proffesiynol ystyried yn enwedig:

- rhaid ystyried bod unrhyw eneth a anwyd i fenyw a gafodd brofiad o FGM mewn perygl, felly hefyd unrhyw blant benywaidd eraill yn y teulu estynedig;

- rhaid ystyried bod unrhyw eneth sydd â chwaer a gafodd brofiad o FGM mewn perygl, felly hefyd unrhyw blant benywaidd eraill yn y teulu estynedig;

DRAFT

- lle daw'r teulu o gymuned lle gwyddom fod FGM yn gyffredin, e.e. Somalia, Swdan a gwledydd eraill yn Affrica. Mae'n bosibl y caiff FGM ei wneud os yw aelod hŷn benywaidd o'r teulu o gwmpas.

**Lle datgelir profiad o Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod neu fygythiad ohono, rhaid ryportio hyn i'r heddlu fel trosedd. Lle caiff ei brofi gan rywun dan ddeunaw oed, mae FGM yn gyfystyr â cham-drin plentyn.**

Ar draws Cymru, yng nghyswllt cam-drin domestig, cam-drin rhywiol (o fewn perthynas), priodi dan orfod, cam-drin ar sail anrhydedd, stelcian a harasio, defnyddir un dull asesu risg gan y rhan fwyaf o asiantaethau cyfiawnder troseddol, gwasanaethau arbenigol a rhai awdurdodau perthnasol.

Gelwir y dull hwn yn Rhestr Adnabod Risg DASH (sef *Domestic Abuse, Stalking, Harassment and Honour Based Violence* yn Saesneg). Fe'i cyhoeddir gan yr elusen Gweithredu Cydgysylltiedig yn erbyn Cam-drin Domestig (CAADA) a chafodd ei ddatblygu mewn partneriaeth â Laura Richards ar ran Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu ac mewn ymgynghoriad â CAFCASS, Respect ac arbenigwyr pwnc annibynnol.[74]

**Nodau Rhestr Adnabod Risg DASH (sef *Domestic Abuse, Stalking, Harassment and Honour Based Violence* yn Saesneg) yw:**

- Helpu gweithwyr rheng flaen proffesiynol i adnabod risg mewn achosion o gam-drin domestig, stelcian a thrais ar sail "anrhydedd".
- Penderfynu pa achosion y dylid eu hatgyfeirio i'r Gynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol (MARAC) a pha gymorth arall sydd efallai ei angen. Daw ffurflen wedi'i chwblhau'n gofnod "byw" y gellir cyfeirio ato yn y dyfodol i bwrpas rheoli achosion.
- Cynnig dull cyffredin i asiantaethau sy'n rhan o'r broses MARAC a darparu cyd-ddealltwriaeth o risg yng nghyswllt cam-drin domestig, stelcian a cham-drin ar sail "anrhydedd".
- Fel bod asiantaethau'n gall gwneud penderfyniadau amddiffynadwy ar sail tystiolaeth o ymchwil helaeth i achosion, gan gynnwys dynladdiad domestig a rhai "a fu bron â digwydd", sy'n ategu'r modelau asesu risg mwyaf cydnabyddedig.


Am y rhesymau isod, hwn yw'r dull y mae Llywodraeth Cymru'n argymell bod gwasanaethau cyhoeddus Cymru'n ei ddefnyddio.

Cyflwynwyd y Rhestr DASH fel dull asesu risg amlasiantaethol yn 2009 ac mae'n **cyfuno nifer o fodelau asesu risg sy'n bodoli'n barod**, gan gynnwys y dull integredig a ddefnyddir gan yr heddlu.

Dyfeisiwyd y Rhestr **i'w defnyddio gan ymarferwyr ac arbenigwyr cam-drin domestig yn gweithio ar draws y gwasanaeth cyhoeddus.** Mae Llywodraeth

Cymru'n awyddus i weld Rhestr gytunedig yn cael ei defnyddio'n gyson ar draws Cymru.

Mae'r Rhestr DASH yn **seiliedig ar dystiolaeth.** Lluniwyd y ffactorau risg a ddefnyddir o ymchwil helaeth gan academyddion blaenllaw ym maes dynladdiad domestig a rhai "a fu bron â digwydd". Mae'r ymchwil ar gyfer pob ffactor ar gael yn y cyfarwyddyd ymarfer ar gyfer y dull, a rhoddir dolen i hwnnw yn adran dolenni defnyddiol y canllawiau hyn. Gellir trefnu'r arwyddion a restrir yn ffactorau'n ymwneud ag ymddygiad ac amgylchiadau'r camdriniwr (wyr) honedig ac amgylchiadau'r dioddefwr. Mae'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth ymchwil sydd ar gael, y seiliwyd y ffactorau risg arni, yn canolbwyntio ar ddynion fel camdrinwyr a menywod fel dioddefwyr mewn perthynas agos bresennol neu flaenorol. Ar y cyfan mae'r ffactorau risg yn cyfeirio at y risg o ymosodiad pellach, er bod rhai hefyd yn gysylltiedig â'r risg o ddynladdiad.



**Ar waith**

**Pryd i ddefnyddio'r rhestr**

**Dylid defnyddio'r Rhestr gyda phob cleient sy'n datgelu cam-drin domestig, stelcian a thrais ar sail "anrhydedd" presennol i weithiwr proffesiynol.**

Mae rhywun yn ddioddefwr cam-drin 'presennol' pan ddigwyddodd unrhyw fath o gamdriniaeth (gan gynnwys seicolegol, ariannol, rhywiol a chorfforol) yn y tri mis diwethaf. Fodd bynnag nid yw hyn yn absoliwt; gall risg newid a bydd sefyllfa pob cleient yn wahanol. Felly mae'n hanfodol bod gweithwyr proffesiynol yn ystyried pob achos ar sail yr amgylchiadau unigol.

Mae'r rhestr yn cynnwys cwestiynau am ffactorau risg statig a deinamig:

- y ffactorau risg statig yw'r rhai na fydd yn newid. Er enghraifft, os yw'r camdriniwr *erioed* wedi bygwth lladd y dioddefwyr neu rywun arall neu *erioed* wedi bygwth neu geisio lladd eu hunain.
- mae'r ffactorau risg deinamig yn rhai fel bod yn feichiog, problemau ariannol neu gam-drin rhywiol.

Lle mae'r cwestiynau ar y rhestr yn cyfeirio at 'bresennol' (e.e. "ydy'r digwyddiad presennol wedi arwain at anaf" fel y disgrifir hyn uchod) dylid defnyddio amserlen o hyd at dri mis i ddiffinio'r term hwn. Am y rheswm hwn, ar waith ni fydd y Rhestr yn hawdd i'w chymhwyso i achosion hanesyddol, h.y. os daeth y gamdriniaeth i ben ac mae angen cymorth cyffredinol ar y cleient i ddod dros drawma hanesyddol.

**Gyda phwy y dylid defnyddio'r rhestr?**

Mae'r rhestr wedi'i dyfeisio i'w defnyddio ag oedolion sy'n dioddef cam-drin domestig, stelcian a thrais ar sail "anrhydedd" (dros 18 oed). Mae ffurflen benodol, ddiwygiedig i'w defnyddio â phobl ifanc hefyd ar gael.[75]

**Sut i ddefnyddio'r rhestr:**

- Mae'n bwysig iawn gofyn **yr holl** gwestiynau ar y rhestr i gael darlun cynhwysfawr o'r risg y mae rhywun yn ei phrofi. Os bydd cwestiwn yn cael ei adael allan, mae perygl y gallai rywbeth pwysig gael ei fethu gan olygu rhoi ymateb annigonol i'r cleient.
- Dylai'r gweithiwr proffesiynol fod yn gyfarwydd â'r rhestr cyn ei defnyddio â'u cleient cyntaf fel eu bod yn teimlo'n hyderus ynghylch perthnasedd a goblygiadau pob cwestiwn.
- Dylai'r gweithiwr proffesiynol fod yn siŵr eu bod yn ymwybodol o'r mesurau rheoli risg a diogelwch gwasanaeth y gellir eu cynnig a rhaid iddynt wybod pa adnoddau lleol a chenedlaethol sydd ar gael i'r cleient.

**Cyn cwblhau'r Rhestr, dylai'r gweithiwr proffesiynol sefydlu:**

Faint o amser sydd gan y cleient i siarad gyda nhw.

Manylion cyswllt diogel y cleient rhag ofn bod yr alwad ffôn yn cael ei therfynu neu os oes raid iddynt adael ar frys

A yw'r camdriniwr o gwmpas, a fydd yn dod yn ôl neu bryd y bydd yn ôl ar amser neilltuol.

Os galwad ffôn ydyw, a yw'n ddiogel iddynt siarad ar y funud.

A:

Cyflwyno'r cysyniad o risg i'ch cleient ac egluro pam eich bod yn gofyn y cwestiynau hyn.

**Rhoi'r Rhestr Adnabod Risg ar waith.**

Wedi egluro polisi cyfrinachedd y sefydliad

Wedi egluro'r polisi gofyn a gweithredu

Arwydd o gam-drin domestig wedi'i nodi

Ystafell ddiogel wedi'i darparu

Cwestiwn wedi'i ofyn

Trefnu i gysylltu ar unwaith â darparwr gwasanaethau arbenigol i adnabod y risgiau cychwynnol ac egluro'r opsiynau gwasanaeth

Gellir hwyluso hyn mewn nifer o ffyrdd, gan ddibynnu ar amgylchiadau'r sefydliad:

- Drwy wasanaeth wedi'i gyd-leoli
- Drwy lwybrau atgyfeirio lleol effeithiol
- Drwy ddefnyddio'r llinell gymorth genedlaethol ar Gam-drin Domestig a Rhywiol

Egluro pa wasanaeth y gallai gwasanaethau cyhoeddus ei gynnig

Lle bo hynny'n bosibl, cwblhau'r Rhestr yn ystod eich cyswllt cyntaf â'r cleient.

Cyflwyno ac egluro'r Rhestr Adnabod Risg

Gofyn i'r cleient a allwch ofyn y cwestiynau ar y ffurflen

Mynd drwy'r ffurflen

Egluro canlyniadau'r ffurflen

Ystyried opsiynau gwasanaeth gyda'r cleient

Egluro pa wasanaeth y gallai gwasanaethau arbenigol ei gynnig

**Gwasanaethau arbenigol**

Barn broffesiynol a sefyllfa sy'n gwaethygu

| 9 tic neu lai* | 10 tic neu fwy | 14 tic neu fwy |
|---|---|---|
| Gwasanaethau arbenigol | Gwasanaethau IDVA<br>Gwasanaethau arbenigol | IDVA a MARAC |

*Mater i bob gwasanaeth unigol yw penderfynu ar drothwyon ar gyfer darparu gwasanaeth a mater i bartneriaethau lleol yw cytuno ar drothwyon ar gyfer ymyraethau lleol.

Gellir defnyddio'r Rhestr Adnabod Risg i osod trothwyon yn sail ar gyfer sut i strwythuro gwasanaethau lleol ac i greu'r porth ar gyfer fforymau amlasiantaethol lleol.  Mater i bartneriaethau lleol yw cytuno ar drothwyon priodol sy'n cwrdd ag angen lleol, fodd bynnag rhoddir amlinelliad (ar sail y trothwy a argymhellir gan CAADA) isod:

### Barn broffesiynol

**Mae barn broffesiynol yr ymarferydd yn hollbwysig bob tro; nid yw canlyniadau Rhestr yn asesiad diffiniol o risg. Mae'r canlyniadau'n rhoi strwythur ar gyfer goleuo barn ac yn gweithredu fel 'prociau' i holi, dadansoddi a rheoli risg ymhellach.  Nid yw'r Rhestr yn dangos maint unrhyw risg.**[76]

Os oes gan y gweithiwr proffesiynol bryderon difrifol am sefyllfa dioddefwr, dylai gyfeirio'r achos at MARAC ac at y gwasanaeth Cynghorwr Annibynnol ar Drais Domestig ynghlwm wrth MARAC.

Bydd adegau lle mae cyd-destun penodol achos yn codi pryderon difrifol hyd yn oed os nad yw'r dioddefwr wedi gallu datgelu'r wybodaeth a allai amlygu eu risg yn gliriach. Gallai hyn adlewyrchu ofn dychrynllyd, rhwystrau diwylliannol i ddatgelu, materion mewnfudo neu rwystrau iaith, yn enwedig mewn achosion trais ar sail "anrhydedd". Bydd y farn hon yn seiliedig ar brofiad y person proffesiynol a/neu argraff y dioddefwr o'i risg, hyd yn oed os na sylwir ar ffactorau risg amlwg a bod sefyllfa'n gwaethygu.

**'Risg uchel weladwy':** nifer y 'ticiau' sydd ar y Rhestr. Os caiff 10 neu fwy o flychau 'ie' eu ticio, dylid ystyried yr achos i fod yn "risg uchel".  Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o Gynadleddau MARAC yn gosod meini prawf uwch na hyn, sef 14 tic, i ddarparu trothwy priodol ac ymarferol i'r fforwm hwn.

Mae'r opsiwn "ddim yn gwybod" wedi'i gynnwys ar y ffurflen lle nad yw'r dioddefwr yn gwybod yr ateb i gwestiwn penodol. Dylid ei ddefnyddio lle byddai ticio "na" yn rhoi lefel risg gamarweiniol o isel.

**Gwaethygu posibl:** nifer y digwyddiadau hysbys o gam-drin a brofodd y dioddefwr o ganlyniad i gam-drin domestig yn y 12 mis diwethaf. Gellir defnyddio'r maen prawf hwn i nodi achosion lle na chafodd y rhan fwyaf o'r ffactorau risg ar y Rhestr eu hadnabod yn bositif, ond lle ymddengys bod y gamdriniaeth yn gwaethygu ac mae'n briodol asesu'r sefyllfa'n fwy trylwyr drwy rannu gwybodaeth.

Mae gan y rhan fwyaf o Gynadleddau MARAC drothwy o dri digwyddiad neu fwy dros gyfnod o 12 mis ond bydd angen adolygu hyn gan ddibynnu ar faint a lefel y ryportio lleol a wnaed i'r heddlu.

### Risg a grëir gan wasanaeth

Defnyddir y term "Risg a grëir gan wasanaeth" yn Fframwaith Cynllunio Gwasanaethau Diogel i Fenywod y System Galedonaidd fel rhan o'r rhaglen yma i gamdrinwyr yn yr Alban.[77] Defnyddir y term i enwi'r senario lle mae systemau neu ymarfer y gweithwyr proffesiynol yn creu neu'n cynyddu'r risg i'r cleient gan y camdriniwr, neu'n creu rhwystrau ychwanegol i'r cleient.

Drwy weithio gyda'n gilydd a chynnwys cam wrth gynllunio sy'n gofyn a fydd y camau sydd i'w cymryd yn cynyddu'r risg neu'r trafferthion i'r cleient gan y camdriniwr, gall y person proffesiynol (a fforymau amlasiantaethol wedyn) sicrhau eu bod yn gweithio i liniaru'r risgiau wrth iddynt ddod yn glir.

Nid yw adnabod risg a grëir gan wasanaeth yn rheswm dros gamu'n ôl o weithredu, yn hytrach rhaid felly gwneud cynlluniau pellach i ddiogelu mewn achos unigol a rhoi sylw i, ac addasu, unrhyw beth sy'n cynhyrchu risgiau o'r fath yn gyson.

### Egluro adnabod risg i gleientiaid ac egluro canlyniadau'r gwaith adnabod risg

### Egluro risg a chyfrinachedd

Dylai gweithwyr proffesiynol atgoffa eu cleientiaid o bolisi cyfrinachedd eu sefydliad cyn cwblhau'r gwaith Rhestr. Bydd hyn yn gwneud pethau'n fwy clir ac agored i'r cleient o ran sut a phryd y bydd y wybodaeth a ddatgelir ganddynt efallai'n cael ei defnyddio a'i rhannu. Gall hefyd fod yn syniad da egluro y bydd cwblhau'r Rhestr yn helpu i ddeall eu sefyllfa'n well ac i benderfynu pa wasanaethau a fyddai'n fwyaf priodol ar eu cyfer.

Cyn ichi ddechrau'r Rhestr, gallai hefyd fod yn ddefnyddiol:

- Dweud faint o amser sydd gan y cleient i siarad â chi.
- Gofyn am fanylion cyswllt diogel y cleient rhag ofn y bydd raid iddynt adael ar frys.
- Gofyn a yw'r camdriniwr o gwmpas, ar fin dychwelyd neu i'w ddisgwyl ar amser penodol.
- Os yw'n alwad ffôn, gofyn a yw'n ddiogel iddynt siarad y funud honno.

### Egluro canlyniadau adnabod risg

Mae'n bwysig gwneud hyn mewn ffordd sensitif a gofalus i sicrhau nad yw'r cleient yn dychryn o glywed canlyniad yr asesiad risg neu'n ormod iddynt ymdopi â fo neu, i'r gwrthwyneb, bod eu sefyllfa'n cael ei chymryd yn ysgafn. Mae'n gwbl greiddiol nad yw'r cleient yn teimlo embaras am geisio cymorth neu'n ddigefnogaeth i ddelio â'r canlyniad.

Dylech ystyried yr egwyddorion canlynol wrth egluro canlyniad y ffurflen i'r cleient:

DRAFT

### Cyflwyno'ch tystiolaeth
Mae'n bwysig nodi'n fanwl beth yw eich pryderon drwy ddefnyddio'r atebion a roddodd y cleient i chi a thrwy egluro eich barn broffesiynol.

### Bod yn glir ynghylch y camau y byddwch yn eu cymryd
Mae'n bwysig i chi egluro beth fydd y camau nesaf, h.y. rheoli risg, cynlluniau diogelwch, atgyfeirio at MARAC ac asiantaethau amddiffyn plant.

### Rhoi sylw i bryderon diogelwch presennol y cleient
Mewn sawl achos, bydd angen i chi dawelu meddwl y dioddefwr bod systemau yn eu lle i sicrhau na chysylltir gyda, ac na hysbysir aelodau o'r teulu neu'r gymuned ehangach. Gallai cyswllt o'r fath gyflwyno risg waeth i'r dioddefwr.

### Defnyddio'r dull gyda gwahanol fathau o drais ar sailo rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Mae'r Rhestr Adnabod Risg yn seiliedig ar brofiad o gam-drin domestig, stelcian a harasio a thrais ar sail "anrhydedd" ym mhob ffurf arnynt.  Fel y nodwn uchod, mae'r sail dystiolaeth ar gyfer y ffurflen yn bennaf yn cynnwys menywod fel dioddefwyr a dynion fel camdrinwyr, gan hynny dylai gweithwyr proffesiynol gynnwys ystyriaethau ychwanegol pan ddefnyddir y Rhestr gyda chleientiaid mewn sefyllfa sy'n wahanol i'r sail dystiolaeth sylfaenol.

Nid yw'r ffurflen yn addas ar gyfer achosion o gaethwasiaeth, trais rhywiol gan berson dieithr neu gydnabod nac ar gyfer Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod. Nid oes asesiad risg cyfwerth ar gyfer y mathau hyn o gamdriniaeth.  Fodd bynnag, gellir ei defnyddio ar gyfer cam-drin domestig, trais rhywiol yn y teulu neu mewn perthynas agos, cam-drin ar sail "anrhydedd", stelcian a harasio.

### Trais ar sail "anrhydedd"

Mae'r cwestiynau ar y Rhestr Adnabod Risg yn cynnwys y posibilrwydd bod cleient yn wynebu risg gan fwy nag un camdriniwr oherwydd mae'n gyffredin cael sawl camdriniwr mewn achosion o drais ar sail "anrhydedd".  Yn ogystal, mae cwestiynau uniongyrchol yn holi am drais ar sail "anrhydedd" yn y canllawiau ar gyfer y Rhestr i helpu ymarferwyr i adnabod yr achosion hyn.

Bydd barn gweithiwr proffesiynol yn greiddiol i adnabod risg o drais ar sail "anrhydedd" oherwydd mae llawer o'r cwestiynau ar y Rhestr yn holi am ymddygiad troseddol ehangach a allai fod yn absennol yn yr achosion hyn.  Yn yr achosion hyn, mae'r sgôr ar y Rhestr yn annhebygol o gyrraedd y trothwy i atgyfeirio at MARAC er bod y sefyllfa'n ofnadwy o ddifrifol.  Yn yr achosion hyn, dylai barn broffesiynol er hynny ysgogi atgyfeiriad at MARAC.

Mae'r materion diogelwch yng nghyswllt rhannu gwybodaeth yn arbennig o berthnasol gyda thrais ar sail "anrhydedd".

### Stelcian

Mae'r Rhestr wedi'i dyfeisio i'w defnyddio mewn achosion o drais gan bartner agos a theulu ehangach ac, felly, nid yw'n briodol mewn achosion lle mae stelcian yn digwydd a heb berthynas flaenorol.



DRAFT

Mewn achosion lle caiff stelcian ei adnabod fel rhan o gam-drin domestig, dylid yn sicr ei gymryd o ddifrif.  Mae'r canllawiau ar gyfer y Rhestr hefyd yn nodi'r cwestiynau ychwanegol i'w hystyried lle caiff stelcian ei adnabod a bydd gwasanaethau arbenigol yn defnyddio dulliau ychwanegol i asesu'r risg o stelcian ar ôl derbyn atgyfeiriad.

### Dioddefwyr LGBT

Bydd pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol neu Drawsrywiol (LGBT) yn gorfod datgelu eu profiad o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a hefyd eu tueddiad rhywiol neu hunaniaeth o ran rhywedd. Mae creu amgylchedd diogel a hygyrch lle gall dioddefwyr deimlo y medrant wneud hyn, a defnyddio termau rhywedd niwtral fel partner / cyn-bartner, yn hanfodol.

Mae rhai cwestiynau ar y Rhestr Adnabod Risg yn ymwneud ond â phrofiad menywod, er enghraifft y cwestiwn ar feichiogrwydd.  Ni ddylid gofyn y cwestiwn hwn i gleientiaid sy'n ddynion a dylai'r cleient bersonoleiddio cwblhau'r Rhestr gymaint â phosibl i hwyluso sgwrs yn hytrach nag ymarfer cwestiwn-ateb.

Fodd bynnag, dylai'r person proffesiynol hefyd gofio bod hyn yn tynnu'r cwestiwn allan (a'r sgôr felly) o'r Rhestr gan olygu bod barn broffesiynol yr ymarferydd yn hollbwysig.

### Trais teuluol

Oherwydd bod risg, o'i hadnabod drwy'r Rhestr Adnabod Risg, yn ymwneud â risg a wynebir gan oedolyn, yn rhannol ar sail eu hargraff o'r risg a gyflwynir gan eu camdriniwr, mae'r Rhestr yn addas i'w defnyddio mewn achosion o drais rhwng gwahanol genedlaethau lle mae'r dioddefwr dros 18 oed (hyd yn oed os yw'r person sy'n ymddwyn yn gamdriniol o dan 18 oed). Dylid cwblhau ac asesu'r ffurflen yn yr un modd ag ar gyfer partner agos.

**Dylid cynnwys y tîm Diogelu Plant lleol lle caiff plentyn ei adnabod i fod yn ymddwyn yn gamdriniol.**

### Plant a phobl ifanc

Bydd y ffurflen yn rhoi gwybodaeth werthfawr am y risgiau y mae plant yn byw gyda nhw ond **nid yw'n** asesiad risg llawn ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae presenoldeb plant yn cynyddu'r risg ehangach o drais domestig ac mae 'llysblant' yn enwedig mewn perygl. Os amlygir bod risg tuag at blant, dylech wneud atgyfeiriad diogelu i sicrhau y gwneir asesiad llawn o sefyllfa'r plant.

Mae dulliau penodol ar gael i ddeall y risg a wynebir gan bobl ifanc sy'n dioddef cam-drin yn uniongyrchol yn eu perthnasoedd eu hunain.  Lle mae person ifanc wedi'i adnabod i fod yn y sefyllfa hon, dylid cymryd eu risg yn wirioneddol o ddifrif a rhoi gwybod i'r gwasanaethau arbenigol yn syth.[78]

## Ystyried a yw'r risg yn golygu bod angen rhannu gwybodaeth y cleient

Mae rhannu gwybodaeth yn hanfodol wrth weithio â dioddefwyr trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Rhaid i bob gweithiwr proffesiynol fedru dangos eu bod wedi gwneud penderfyniadau amddiffynadwy sef bod y wybodaeth a rannwyd a'r camau i'w gymryd yn gyfreithiol, angenrheidiol a chymesur i warchod diogelwch y cleient, ac yn aml iawn, eu plant.

Yn ôl canllawiau cyffredinol ar rannu gwybodaeth, dim ond gyda chaniatâd y cleient y dylid rhannu data fel arfer. Fodd bynnag, dim ond un o'r dulliau o dan Ddeddf Diogelu Data 1998 lle gellir rhannu data yw 'caniatâd' ac mae'r Ddeddf yn cydnabod a chaniatáu ar gyfer sefyllfaoedd lle gellir rhannu data'n gyfreithlon lle nad oes gan weithiwr proffesiynol ganiatâd penodol y cleient.

Bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi canllawiau ar wahân ar rannu gwybodaeth. Dylai'r ymarferydd ystyried y canllawiau hyn, y protocol lleol a'r fframwaith deddfwriaethol yng nghyswllt diogelu data a rhannu gwybodaeth.




## Ar waith

Mae tair senario bosibl yn dilyn datgelu'r profiad o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol:

1. Mae adnabod risg yn awgrymu bod risg uchel i oedolyn, plentyn neu rywun arall.
    - Mae'r cleient yn caniatáu i'w wybodaeth gael ei rhannu
    - Nid yw'r cleient yn caniatáu i'w wybodaeth gael ei rhannu
2. Nid yw adnabod risg yn awgrymu risg uchel ac mae'r cleient yn caniatáu i'w wybodaeth gael ei rhannu.
3. Nid yw adnabod risg yn awgrymu risg uchel ac nid yw'r cleient yn caniatáu i'w wybodaeth gael ei rhannu, neu ni chafwyd caniatâd i rannu eu gwybodaeth.

Bydd angen ystyriaethau gwahanol gyda phob un o'r senarios hyn a rhaid i bob penderfyniad fod yn seiliedig ar fanylion yr achos unigol. Dylech ystyried y canllawiau sydd ar ddod gan Lywodraeth Cymru, ynghyd â'r fframwaith deddfwriaethol, wrth wneud eich penderfyniadau

DRAFT




## Opsiynau atgyfeirio a gynigir ac a wneir

Dylid integreiddio gwasanaethau cyhoeddus ac arbenigol ar lefel leol er mwyn:

- adnabod yn gadarn y bobl sy'n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
- llwybrau atgyfeirio clir ac effeithlon (o fewn neu'r tu allan i sefydliadau); ac
- ymyriadau ar gyfer pob cam o brofiad y cleient ac i reoli rhai sy'n cyflawni camdriniaeth .

Dylai'r llwybrau atgyfeirio yma hefyd sicrhau bod pobl sy'n camddefnyddio cyffuriau neu alcohol neu sydd â phroblemau iechyd meddwl ac yr effeithir arnynt gan drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, hefyd yn cael eu hatgyfeirio at y gwasanaethau cyhoeddus ac arbenigol perthnasol.



## Ar waith

Rhaid i weithwyr proffesiynol sy'n "Gofyn a Gweithredu" wybod pa wasanaethau lleol a chenedlaethol a allai helpu rhai sy'n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a dylai'r sefydliadau sy'n eu cyflogi fod yn rhan o drefniadau gweithio sy'n hwyluso mynediad diymdroi at wasanaethau o'r fath.

Rhoddir rhestr isod o'r mathau o wasanaeth sydd ar gael ar draws Cymru. Mae cyfeiriadur o fanylion cyswllt lleol ar gael yn www.livefearfree.org.uk.

## Cymorth hyblyg

Mae darparwyr gwasanaethau trais domestig wedi datblygu ystod o wasanaethau i estyn allan a chynnig help a chymorth i fenywod p'un ai ydynt yn aros mewn lloches neu beidio. Mae cymorth hyblyg yn fath penodol o wasanaeth allgymorth a ddyfeisiwyd i helpu menywod sydd am aros yn eu cartrefi eu hunain (pa bynnag fath o denantiaeth sydd ganddynt) neu sydd mewn llety argyfwng neu lety dros dro arall.

## Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVA)

Prif bwrpas cynghorwyr annibynnol ar drais domestig (IDVA) yw rhoi sylw i ddiogelwch dioddefwyr gyda **risg uchel** o niwed gan bartneriaid, cyn-bartneriaid neu aelodau o'r teulu i sicrhau eu diogelwch nhw a diogelwch eu plant. Fel y prif bwynt cyswllt i ddioddefwr, mae cynghorwyr IDVA fel arfer yn gweithio â'u cleientiaid **o'r pwynt argyfwng ymlaen** i asesu lefel y risg, trafod y gwahanol opsiynau addas a datblygu cynlluniau diogelwch.

DRAFT

Maent yn **rhagweithiol** gyda gweithredu'r cynlluniau, sy'n rhoi sylw i ddiogelwch presennol ac yn cynnwys camau ymarferol i amddiffyn eu hunain a'u plant, ynghyd ag atebion mwy hirdymor. Bydd y cynlluniau hyn yn cynnwys gweithredu gan y Gynhadledd MARAC a hefyd sancsiynau ac atebion sydd ar gael drwy'r llysoedd troseddol a sifil, opsiynau tai a gwasanaethau gan sefydliadau eraill. Mae Cynghorwyr IDVA yn cefnogi a gweithio dros y tymor byr i ganolig i roi'r cleient ar y llwybr i **ddiogelwch hirdymor.** Maent yn derbyn hyfforddiant achrededig arbenigol ac yn meddu ar gymhwyster wedi'i gydnabod yn genedlaethol.

Oherwydd eu bod yn gweithio â'r achosion risg mwyaf, mae Cynghorwyr IDVA yn fwyaf effeithiol fel rhan o wasanaeth IDVA ac o fewn fframwaith amlasiantaethol. Rôl yr IDVA ym mhob lleoliad amlasiantaethol yw cadw persbectif a diogelwch y cleient wrth galon y drafodaeth.

Yn ôl astudiaethau, pan fydd cleientiaid risg uchel yn ymgysylltu ag IDVA, mae **gwelliannau clir a mesuradwy yn eu diogelwch**, gan gynnwys nad yw'r gamdriniaeth yn gwaethygu gymaint, ac yn llai difrifol, a lleihad neu hyd yn oed ddiwedd ar gamdriniaeth sy'n digwydd dro ar ôl tro[79].

### Allgymorth

Mae gan wasanaethau allgymorth ystod o raglenni newydd gan gynnwys gwasanaethau gwybodaeth mewn ardaloedd gwledig a gwasanaethau allgymorth arbenigol i fenywod o gymunedau lleiafrifol ethnig.


### Lloches

Tŷ diogel yw lloches lle gall rhai sy'n profi cam-drin domestig fynd i aros. Mae cyfeiriad pob lloches (ac weithiau'r rhifau ffôn) yn gyfrinachol. Mae dros hanner cant o lochesau a gwasanaethau cymorth yng Nghymru, y mwyafrif i fenywod yn unig. Mae cyfran fach o'r unedau ar gael i ddynion.

Mae rhai llochesau'n benodol i fenywod o gefndiroedd ethnig neu ddiwylliannol neilltuol (er enghraifft, menywod Duon neu Asiaidd). Mae gan sawl lloches fynediad i bobl anabl a staff a gwirfoddolwyr sy'n gallu helpu menywod a phlant gydag anghenion arbennig.


### Y Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol

Mae Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol yn darparu gweithwyr proffesiynol profiadol wedi eu hyfforddi'n arbennig i helpu a rhoi cyngor i ddynion, menywod, plant a phobl ifanc a brofodd drais rhywiol. Datblygwyd Canolfannau SARC mewn partneriaeth â'r heddlu a'r gwasanaethau iechyd a gwirfoddol.
Mae'r SARC yn aml yn cyflogi Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol (ISVA) sy'n gallu cynnig cymorth arbenigol ac eiriolaeth i rai a brofodd drais rhywiol gan unrhyw un. Maent yn cynnig arbenigedd ar y System Cyfiawnder Troseddol ac yn gallu cefnogi rhai lle caiff eu camdrinwyr eu herlyn drwy broses y Llys.



## Ystyried materion diogelu

Mae plant sy’n byw ar aelwyd lle mae cam-drin domestig yn digwydd yn agored i risg sylweddol o niwed (Gweithio Gyda’n Gilydd o Dan Ddeddf Plant 2004). Mae Adran 120 Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 yn ehangu ar y diffiniad o niwed yn adran 31 Deddf Plant 1989 (gorchmynion gofal a goruchwylio) i gynnwys, ‘er enghraifft, amhariad a ddioddefir o weld neu glywed rhywun arall yn cael ei gam-drin’.



## Ar waith

Dylai pob gweithiwr proffesiynol gyda chyfrifoldeb i “Ofyn a Gweithredu”:

- Ddeall eu rôl a’u cyfrifoldeb i ddiogelu a hybu lles plant;
- Bod yn gyfarwydd gyda, a dilyn gweithdrefnau a phrotocol eu sefydliad ar ddiogelu a hybu lles plant a gwybod gyda phwy i gysylltu yn eu sefydliad i leisio pryderon am les plentyn;
- Bod yn effro i arwyddion o gam-drin ac esgeuluso;
- Cael mynediad at, a chydymffurfio â’r *Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan*;
- Deall yr egwyddorion a’r ymarfer yn *Diogelu Plant: Gweithio Gyda’n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004;*
- Gwybod pryd a sut i atgyfeirio unrhyw bryderon am gam-drin ac esgeuluso plant i’r gwasanaethau cymdeithasol neu’r heddlu;
- Gwybod na ddylid byth gofyn i blentyn, rhiant, gofalwr, perthynas nac aelod o’r cyhoedd sy’n lleisio pryderon am les plentyn i weithiwr proffesiynol a / neu i weithiwr asiantaeth wneud hunan-atgyfeiriad i’r gwasanaethau cymdeithasol neu’r heddlu. Rhaid i’r gweithiwr proffesiynol a / neu’r gweithiwr asiantaeth atgyfeirio'r person.

**Os oes gan unrhyw un wybodaeth, pryderon neu amheuon bod plentyn yn dioddef, wedi dioddef neu’n debygol o fod mewn perygl o gael niwed, eu cyfrifoldeb nhw yw sicrhau bod y pryderon yn cael eu hatgyfeirio i’r gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu, sydd â dyletswydd statudol a’r pwerau i wneud ymholiadau ac i ymyrryd lle bo angen.**

**Nid mater o ddewis yr unigolyn yw hyn.**[80]

DRAFT


## Cofnodi

Rhaid i weithwyr proffesiynol gofnodi'r cwestiynau a ofynnir ganddynt, ac atebion y cleient, yn gywir mewn nodiadau achos perthnasol.  Mae gan gleientiaid hawl i gael gweld eu data personol o dan Ddeddf Diogelu Data 1998 felly mae'n hanfodol bod y cofnodion hyn yn berthnasol a chywir.

Dylai'r cofnodion fod:

- Yn gryno ond eto'n ddigon manwl i fod yn ddefnyddiol er mwyn rheoli a datblygu'r achos.
- Yn eglur fel bod eraill yn y tîm yn gallu eu darllen yn eich absenoldeb neu mewn argyfwng.
- Dylent wahaniaethu'n gywir rhwng ffaith a barn.
- Yn berthnasol i'ch gwaith achos.[81]

Mae'n arbennig o bwysig y cofnodir penderfyniadau a wneir ar ôl i gleient ddatgelu, yn bennaf lle credir bod angen gwneud penderfyniad i rannu eu gwybodaeth heb eu caniatâd i wella eu diogelwch.



DRAFT

## Ar waith

Fel y nodir yn yr adran uchod, mae tri ymateb posibl i gwestiwn ar y profiad o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

**Mae adnabod risg yn awgrymu bod risg uchel i oedolyn, plentyn neu rywun arall.**

**Mae'r cleient yn caniatáu i'w wybodaeth gael ei rhannu.**

**Nid yw'r cleient yn caniatáu i'w wybodaeth gael ei rhannu.**

Lle mae cleient wedi adnabod bod risg uchel, mae'n debyg y bydd angen ymateb amlasiantaethol i wella eu diogelwch ac i amddiffyn eu plant.  Er mwyn cydgysylltu'r ymateb hwn, mae'n debyg y bydd angen i'r gweithiwr proffesiynol rannu gwybodaeth y cleient â phartneriaid perthnasol i gychwyn ymateb.

Lle mae plant yn y sefyllfa, efallai na fydd hyn yn benderfyniad lle mae angen rhoi dewis i'r unigolyn: Os oes gan unrhyw un wybodaeth, pryderon neu amheuon bod plentyn yn dioddef, wedi dioddef neu'n debygol o fod mewn perygl o gael niwed, eu cyfrifoldeb nhw yw sicrhau bod y pryderon yn cael eu hatgyfeirio i'r gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu.

Fodd bynnag lle nad yw amddiffyn plant yn ffactor, mae'r penderfyniad yn fwy cymhleth, ac yn yr achosion hyn rhywbeth a "ganiateir" nid a orfodir yw rhannu gwybodaeth.[82] Yn yr achosion hyn bydd angen i weithiwr proffesiynol lunio barn am ba wybodaeth y gellir ei rhannu'n gyfreithiol, a chyda phwy. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio:

*"Nad oes cyfiawnhad moesegol dros fod â gwybodaeth lle gwyddom y gallai atal niwed difrifol i eraill ond eto'n penderfynu'n wybodus peidio ei rhannu."*[83]

Os bydd gweithiwr proffesiynol yn dewis peidio â rhannu gwybodaeth ar sail datgelu, dylai:

- gofnodi'r penderfyniad, gan gynnwys y rhesymau drosto
- ystyried sut y gellid lleihau'r risg i'r cleient ac i'w plant
- ystyried ffordd ragweithiol o helpu'r cleient i gael cymorth gan asiantaethau eraill.

Os bydd gweithiwr proffesiynol yn dewis rhannu gwybodaeth ar sail datgelu, dylai:

- gofnodi eu penderfyniad a'r rhesymau drosto
- gwneud penderfyniadau / ymholiadau yng nghyswllt y wybodaeth i ddatgelu, sut ac i bwy
- trafod gyda'r cleient, lle bo'n briodol a diogel
- nodi a hysbyswyd y cleient a phryd, ac os na chafodd ei hysbysu pam ddim.

**2. Nid yw adnabod risg yn awgrymu risg uchel ac mae'r cleient yn caniatáu i'w wybodaeth gael ei rhannu.**

Lle mae cleient yn rhoi caniatâd penodol i rannu eu gwybodaeth, mae'n bwysig y cedwir cofnod o hyn ar ffeil gan nodi pa wybodaeth sydd i'w rhannu, gyda phwy ac i ba bwrpas.

**3. Nid yw adnabod risg yn awgrymu risg uchel ac nid yw'r cleient yn caniatáu i'w wybodaeth gael ei rhannu, neu ni chafwyd caniatâd i rannu eu gwybodaeth.**

Lle nad oes pwrpas clir a chyfreithlon dros rannu gwybodaeth y cleient, ni ddylid rhannu'r wybodaeth. Yn yr achosion hyn:

- Dylai gweithwyr proffesiynol gofnodi'r camau gweithredu ar ffeil
- Dylid sicrhau'r cleient bod gwasanaethau'n dal i fod ar gael iddynt
- Dylid marcio / fflagio'r ffeil i sicrhau y darperir ymateb sensitif a mwy manwl os bydd y cleient yn dychwelyd at y gwasanaeth.

### Cymhwyso “Gofyn a Gweithredu” i rai ag anghenion amrywiol ychwanegol

Rhaid i broses sefydliadol o “Ofyn a Gweithredu” ystyried amrywiaeth y boblogaeth y mae’n ei gwasanaethu a’r ymchwil hysbys ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Dylai cydnabod yr amrywiaeth hwn fod yn rhan annatod o bob maes ymarfer ac o’r ymateb i bob cleient.

Rhaid i hyfforddiant "Gofyn a Gweithredu” gynnwys ystyriaeth o amryw o wahanol grwpiau cleientiaid sy’n adlewyrchu poblogaeth Cymru ac sy’n adnabod unrhyw anghenion arbenigol a’r ymateb iddynt.

Gall partneriaeth rhwng y gwasanaethau cyhoeddus ac arbenigol gynnig ymateb effeithiol i gymunedau lleiafrifol.

**Ni ddylai ystyried anghenion amrywiol cleient fod yn ychwanegiad “at gwt” gwasanaeth, ac ni ddylid ychwaith rhagdybio ynghylch profiad cleient – dylid trin pob un yn unigol.** Fodd bynnag, er mwyn bod yn glir pa ffactorau y bydd angen i weithwyr proffesiynol eu hystyried fel arfer, mae’r bennod hon yn crynhoi rhai o’r rhwystrau y mae pobl o gymunedau amrywiol a lleiafrifol efallai’n eu hwynebu i ddatgelu camdriniaeth. Nid yw’r cynnwys yn gynhwysfawr, nac ychwaith unrhyw awgrym y bydd profi’r rhwystrau hyn yn anochel. Y gobaith yw y bydd sylwi arnynt yn dylanwadu ar ba mor debygol y bydd gweithiwr proffesiynol o sbarduno holi:

### Rhai mewn perygl o gam-drin ar sail “anrhydedd”[84]

Mae’r termau “anrhydedd” neu “izzat” yn ymwneud ag anrhydedd ac enw da teulu, ac enw da personol. Gallai rhywun ddod â chywilydd i deulu drwy ymddygiad y barnir iddo fod yn andwyo enw da teulu neu gymuned.

Mae aros yn driw i ddiwylliant a chadw enw da’r teulu mewn cymdeithas yn ganolog i “anrhydedd” neu “izzat”. Mae cadw anrhydedd y teulu wedi bod yn gysylltiedig â chywilydd personol. Gall rhai sy’n cael eu magu mewn diwylliant lle mae “anrhydedd” yn cael blaenoriaeth deimlo eu bod wedi eu dal yn gaeth mewn perthnasoedd anodd neu gamdriniol. Hefyd, ystyrir bod ofn y cywilydd a adlewyrchir arnynt a cholli *izzat* yn rhai o’r prif resymau pam nad yw rhai sy’n teimlo’n gyfrifol am gadw “anrhydedd” y teulu’n gofyn am help.

Rhwystr ychwanegol i rai mewn perygl o gam-drin ar sail “anrhydedd” yw ofni na fydd gweithwyr proffesiynol yn cadw cyfrinachedd neu na fydd cofnodion yn cael eu cadw’n ddigon diogel i gadw cyfrinachedd.[85]

### Unigolion Du, Asiaidd, Lleiafrifol Ethnig a Ffoaduriaid[86]

Mae trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, yn cael ei dan-ryportio gan bobl o gymunedau Du, Lleiafrifol Ethnig a Ffoaduriaid (BAMER) yn y boblogaeth yn gyffredinol. Dyma rai o’r rhwystrau ychwanegol i ryportio y maent efallai’n eu hwynebu:

- rhwystrau iaith - cyfieithu;

- statws mewnfudo a dim mynediad at arian cyhoeddus;
- hiliaeth (naill ai'r argraff neu'n ofni cael ymateb hiliol neu'n cael ymateb hiliol mewn gwirionedd gan ddarparwr gwasanaeth);
- credoau ac arferion diwylliannol; ofn cael eu gwrthod gan eu cymuned; a
- dim ffydd mewn awdurdodau.

Trais yn y wlad enedigol - gallai fod pobl sy'n ceisio lloches neu'n ffoaduriaid wedi profi trais neu gamdriniaeth cyn cyrraedd yn y DU.

Mae'r system lloches yn aml wedi'i beirniadu am ei diffyg sensitifrwydd a dealltwriaeth o hawliadau lloches gan fenywod oherwydd bod y system wedi ei gerio'n hanesyddol tuag at brofiadau dynion. Sonnir yn aml am ddiffyg hyder ac anfodlonrwydd â'r system loches yng nghyswllt trais ar sail rhywedd.

Gall y cyfweliad lloches fod yn brofiad brawychus i fenywod sydd efallai wedi profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol sy'n berthnasol i'w hawliad lloches, a bydd rhai efallai'n teimlo na fedrant ddatgelu gwybodaeth, yn enwedig am drais rhywiol, oherwydd tabŵ diwylliannol a diffyg paratoi a chymorth.

Gallai menywod hŷn o gymunedau lleiafrifol ethnig fod yn llai tebygol na menywod iau o siarad na deall Saesneg, ac wedi / neu efallai wedi eu cadw rhag gwybod am ffynonellau cymorth a chefnogaeth sydd ar gael iddynt.

Efallai fod ysgariad neu wahanu'n amhosibl iddynt ei ystyried a gallai poeni am "anrhydedd" y teulu ddylanwadu ar rai pobl yn enwedig o gymunedau BAMER.

### Dynion fel dioddefwyr

Gall dynion sy'n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol fod yn gyndyn o ddatgelu eu profiad oherwydd ofn cael eu gwawdio, na fydd pobl yn eu credu neu o gael eu trin yn annheg gan asiantaethau. Efallai fod ganddynt syniadau camarweiniol am wrywdod sy'n achosi teimladau pellach o gywilydd ac embaras o fod wedi profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae llawer o'r delweddau a'r wybodaeth gyhoeddus am drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn ei gyflwyno fel problem mewn perthnasoedd heterorywiol gyda'r fenyw fel y dioddefwr. Gallai dynion sy'n cael eu cam-drin gan fenywod neu ddynion eraill fod yn llai tebygol o adnabod eu hunain fel dioddefwyr camdriniaeth os nad yw'r delweddau a ddefnyddir i ddisgrifio'r profiad yn eu cynnwys.

### Pobl ifanc mewn perygl o briodi dan orfod

Mae 16 yn oed sbardun risg uchel ar gyfer priodi dan orfod oherwydd bod addysg ffurfiol yn dod i ben a dyma'r oed caniatâd yn y DU. Nid 16 yw'r unig oed risg a dylai gweithwyr proffesiynol fod yn wyliadwrus ynghylch pobl ifanc o bob oed.

Mewn achosion lle mae'r cysyniad o "anrhydedd" yn y fantol, mae potensial llawer mwy ar gyfer sawl camdriniwr.  Gallai fod ofn amryw o bobl ar y cleient, gan gynnwys

perthnasau sy’n ddynion a menywod, a hefyd eraill yn y gymuned ehangach neu ffigyrau awdurdod, a gallai fod yn anodd iawn iddynt ymddiried yn neb. O ganlyniad, ynysu cymdeithasol yw un o’r problemau mwyaf i bobl ifanc sy’n wynebu risg o briodi dan orfod.

### Pobl hŷn[87]

Gallai fod yn arbennig o anodd i bobl hŷn ddatgelu o gofio’r syniad traddodiadol y dylai pobl gadw’n dawel am eu problemau, yn enwedig os ydynt yn cynnwys teulu. [88] Bydd rhai pobl hŷn yn cael eu cam-drin gan eu plant, er enghraifft. Gallai hyn ei gwneud yn anoddach siarad am y peth a gofyn am help.

Yn y gorffennol, roedd y dewisiadau a’r opsiynau oedd ar gael i rai oedd yn profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn brin o’u cymharu â’r amrediad eang o wasanaethau sydd ar gael heddiw. Efallai na fydd gan bobl hŷn y wybodaeth nac ychwaith yn disgwyl i help fod ar gael iddynt ac yn llai tebygol o ofyn am gymorth o’r herwydd.

Fodd bynnag, mae pobl hŷn yn fwy tebygol o fod yn derbyn gwasanaeth cyhoeddus ac yn ddibynnol arnynt am gymorth. Gallai bod yn ddibynnol ar y gwasanaethau a’r gofalwyr hyn gynyddu'r risg o gamdriniaeth a'u gwneud yn llai tebygol o’i datgelu mewn unrhyw ffordd.

Mae “stori gyhoeddus” o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol hefyd yn berthnasol i bobl hŷn; mae delweddau yn y cyfryngau'n aml yn portreadu pobl iau a gallai hyn roi’r argraff na ddisgwylir i drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol effeithio ar bobl hŷn.

### Pobl ifanc

Menywod ifanc (16-24 oed neu iau) sydd fwyaf tebygol o gael eu cam-drin yn gorfforol gan bartner agos. [89]

Yn y berthynas gyntaf y mae person fwyaf tebygol o brofi cam-drin domestig a bydd y rhan fwyaf o’r rhain yn digwydd yn yr arddegau. Mae yna hefyd lefel uchel o normaleiddio cam-drin, trais ac ymddygiad rheoli ymhlith pobl ifanc. Efallai na fydd cleient ifanc yn adnabod y gamdriniaeth ac efallai’n cymryd y niwed a achosir yn ysgafn.

Gallai hefyd fod gorgyffwrdd rhwng rôl gangiau ac ecsbloetio rhywiol sy’n effeithio’n anghymesur ar bobl ifanc. Gallai’r profiadau hyn ehangu nifer y camdrinwyr posibl a bod yn gysylltiedig â throseddu cyfundrefnol. O’r herwydd, gallai pobl ifanc fod ag ofn siarad allan oherwydd bygythiadau o sawl cyfeiriad.

Mae pobl ifanc yn fwy tebygol nag eraill o ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Mae gwefannau rhwydweithio cymdeithasol yn rhoi mwy o gyfle i gamdriniwr fedru rheoli a thracio rhywun ar-lein. Mae defnydd pobl ifanc o dechnolegau newydd yn gwneud dioddefwyr ifanc yn fwy agored i gael eu rheoli, e.e. drwy fygwth dosbarthu lluniau cywilyddus ohonynt. Gallai hyn fod yn rhwystr pellach i ddatgelu.

DRAFT

### Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol

Mae llawer o'r delweddau a'r wybodaeth gyhoeddus am drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cyfleu'r broblem fel un mewn perthnasoedd heterorywiol; trais corfforol gan y dyn heterorywiol 'cryfach' yn erbyn y fenyw heterorywiol lai a 'gwannach'. Gallai pobl LGBT fod yn llai tebygol o labelu eu hunain fel unigolion sy'n cael eu cam-drin os na fedrant uniaethu â'r nodweddion cam-drin domestig a gyflwynir gan y "stori gyhoeddus" hon.[90] Er bod 80% o'r rhai a ymatebodd i Arolwg Profiadau Pobl Drawsrywiol o Gam-drin Domestig yn yr Alban wedi adnabod eu bod wedi profi rhyw fath o ymddygiad camdriniol gan bartner neu gyn-bartner, dim ond 60% o ymatebwyr oedd yn adnabod yr ymddygiad fel cam-drin domestig.[91]

Gall tybio nad yw menywod yn dreisgar, neu fod trais sy'n digwydd rhwng dwy fenyw neu ddau ddyn yn llai difrifol na mewn perthynas heterorywiol neu'n debygol o fod yn gamdriniaeth ar y ddwy ochr, arwain at gamddealltwriaeth ar ran ymarferwyr neu gymryd y risg a brofir gan ddioddefwyr LGBT yn ysgafn.

Mae ymchwil i'r profiad o gam-drin gan bobl LGBT yn disgrifio "bwlch ymddiriedaeth" rhwng rhai mewn perthynas o'r un rhyw a'r gwasanaethau cyhoeddus. Fel arfer mae hyn yn seiliedig ar ofni bod yr asiantaethau hyn efallai'n homoffobig neu'n drawsffobig, na fyddant yn cydymdeimlo neu ddim yn deall profiad y cleient.[92] I rai cleientiaid bydd hyn yn codi o brofiad blaenorol o homoffobia gwirioneddol gan ddarparwyr gwasanaeth, neu argraff ohono. Yn ogystal, gall rhai gwasanaethau ymddangos i fod yn heterorywiaethol (h.y. yn tybio bod pob cleient yn heterorywiol) gan felly eithrio pobl LGBT yn ddiarwybod.

Er mwyn datgelu profiad o gam-drin, bydd angen i berson LGBT 'ddod allan' i wasanaethau. Gall hefyd arwain at boeni am gyfrinachedd os nad yw'r cleient wedi dod 'allan' ym mhob rhan o'u bywyd (e.e. i deulu neu gydweithwyr). Gallai fod yn wybodaeth nad ydynt eto'n barod i'w rhannu, neu fod ofn y canlyniadau arnynt pe bai'r bobl 'anghywir' yn dod i wybod am eu rhywioldeb neu hunaniaeth o ran rhywedd.[93]

Mae pobl drawsrywiol yn aml yn disgrifio bod eu hunaniaeth ar sail rhywedd yn cael ei ddefnyddio fel rhan o'u profiad o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Y math o gamdriniaeth a brofir amlaf gan bobl drawsrywiol yw cam-drin emosiynol trawsffobig, gyda 73% o'r rhai a ymatebodd yn profi o leiaf un math o ymddygiad cam-drin emosiynol trawsffobig gan bartner neu gyn-bartner.[94]

### Pobl anabl

Mae pobl anabl yn fwy tebygol o fod yn gorfforol agored i niwed na phobl nad ydynt yn anabl ac yn llai tebygol o fod yn gallu symud i ffwrdd o sefyllfa gamdriniol.

Mae menywod anabl ddwywaith mor debygol â menywod nad ydynt yn anabl o brofi cam-drin domestig.[95] Maent hefyd yn fwy tebygol o brofi camdriniaeth dros gyfnod hirach o amser ac o ddioddef anafiadau mwy difrifol o ganlyniad i'r trais.

Mae camdrinwyr sy’n bygwth atal gofal neu dynnu’r dyfeisiau synhwyraidd neu symudol, sydd eu hangen ar berson anabl i fod yn annibynnol, oddi arnynt yn cyfyngu ar eu gallu i ddatgelu, gan wneud sefyllfa ynysig rhai pobl anabl yn waeth.

### Enghreifftiau o ymarfer presennol

Cymru fydd y wlad gyntaf yn y DU i fabwysiadu proses genedlaethol o holi wedi’i dargedu ar draws y gwasanaeth cyhoeddus.  Fodd bynnag mae prosiectau llai a thebyg ar waith sy’n cwrdd â’r gofynion allweddol ar gyfer “Gofyn a Gweithredu”.

Gan ddibynnu ar gyllideb a nod, gallai’r prosiectau hyn gynnig enghreifftiau o fodelau i’w mabwysiadu’n lleol.

### Adnabod ac Atgyfeirio i Wella Diogelwch - IRIS

Rhaglen hyfforddiant, cymorth ac atgyfeirio trais domestig i staff gofal sylfaenol mewn meddygfeydd yw IRIS. Mae’n ymyriad wedi’i dargedu at gleifion sy’n fenywod 16+ oed ac sydd yn, neu wedi profi cam-drin domestig gan bartner, cyn-bartner neu oedolyn sy'n aelod o'r teulu.

Mae’r model yn seiliedig ar un eiriolwr-addysgwr llawn amser yn gweithio gyda 25 o feddygfeydd. Mae’r eiriolwr-addysgwr yn weithiwr arbenigol wedi’i gysylltu i’r meddygfeydd ac wedi’i leoli mewn gwasanaeth cam-drin domestig arbenigol, lleol.

Ym mhob meddygfa, caiff gweithiwr proffesiynol arweiniol ei nodi fel y pencampwr ymarfer IRIS. Y person hwn yw’r prif bwynt cyswllt i’r eiriolwr-addysgwr - gall fod yn unrhyw aelod o dîm y feddygfa ac nid oes raid iddo / iddi fod yn weithiwr proffesiynol neilltuol.

Mae meddygfeydd hefyd yn defnyddio ‘proc’ electronig yn y cofnod meddygol o’r enw HARKS (yn Saesneg *Humiliate, Afraid, Rape, Kick and Safety*) wedi’i gysylltu i symptomau iechyd cam-drin domestig.  Mae’r ‘proc’ hwn wedi’i osod yn ganolog drwy system cofnodion meddygol electronig bresennol y feddygfa ac yn atgoffa rhywun i ofyn am gam-drin drwy fod yn ddull diogelwch seiliedig ar risg ac i gofnodi cam-drin a ddatgelir.[96]

### Y model Peabody

Mae Peabody, un o elusennau tai hynaf a mwyaf Llundain, yn arwain y ffordd wrth wella sut y mae darparwyr tai’n ymateb i gam-drin domestig. Dros y pum mlynedd diwethaf, cyflwynodd hyfforddiant cam-drin domestig i’w staff rheng flaen, ac i aelodau o fasnachau cysylltiedig (e.e. archwilwyr nwy, contractwyr cynnal a chadw) i godi eu hymwybyddiaeth o’r broblem a gwella eu hymateb. Mae hefyd wedi datblygu system rheoli achosion fwy effeithlon, wedi cryfhau ei chysylltiadau ag awdurdodau lleol ac wedi ychwanegu dau gynghorwr cam-drin domestig annibynnol cymwysedig i'w tîm diogelwch cymunedol.

Sbardunwyd y gwaith gan ddadansoddiad o’r ddarpariaeth bresennol, gwelliannau polisi ac ymarfer a chyflwyno’r dull i gymdeithasau tai a chynghorau eraill. Hyd yn hyn, mae Peabody wedi hyfforddi 552 o weithwyr tai proffesiynol ac wedi gweld

cynnydd nodedig mewn adnabod ac atgyfeirio. Ers 2009 ar gyfartaledd, mae chwarter llwyth achosion y Tîm Diogelwch Cymunedol wedi bod yn gam-drin domestig. Rhwng 2006 a 2009, ar gyfartaledd roedd saith achos cam-drin domestig y flwyddyn yn cael eu hadnabod yn Peabody.  Ar ôl gweithredu'r rhaglen hyfforddiant a chymorth, mae 81 achos y flwyddyn ar gyfartaledd bellach yn cael eu hadnabod.

DRAFT

## Diffiniadau

**Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod:** gweithred sy'n drosedd o dan adrannau 1, 2 neu 3 Deddf Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod 2003 (c. 31)

**Awdurdod Lleol (fel y'i diffinnir yn y Bil):** Cyngor sirol neu fwrdeistref sirol.

**Awdurdodau perthnasol:** Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol, Awdurdodau Tân ac Achub ac Ymddiriedolaethau'r GIG.

**Cam-drin (fel y'i diffinnir gan y Bil):** Cam-drin corfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol.

**Cam-drin domestig (fel y'i diffinnir gan y Bil):** Cam-drin lle mae cydgysylltiad rhwng y dioddefwr a'r sawl sy'n cam-drin yn awr neu yn y gorffennol.

**Cyd-gysylltiad (fel y'i diffinnir gan y Bil):** Mae gan berson gydgysylltiad â pherson arall, i bwrpas y diffiniad o 'gam-drin domestig', os ydynt yn dod o dan y diffiniad a nodir yn adran 21(2) a (3) y Bil.

**Dangosyddion:** I bwrpas y canllawiau hyn defnyddir y term "dangosyddion" ("arwyddion") i ddisgrifio'r holl wahanol fathau o arwyddion, symptomau, ciwiau neu sefyllfaoedd lle gallai cam-drin domestig a mathau eraill o drais yn erbyn menywod a thrais rhywiol gael ei adnabod. Yn y cyswllt hwn nid yw'n cyfeirio at ddangosyddion fel mesuriadau perfformiad.

> **Arwyddion:** Yr arwyddion allanol a chorfforol posibl bod rhywun yn profi cam-drin domestig.
>
> **Ciwiau:** Presenoldeb gwybodaeth arall a allai awgrymu profiad o gam-drin.
>
> **Sefyllfaoedd:** Fel pan fydd pryderon ynghylch cam-drin plant neu mewn lleoliadau iechyd meddwl lle byddai gofyn i bob cleient / claf yn cael ei ystyried i fod yn ymarfer da.
>
> **Symptomau:** Symptomau o gam-drin neu o'r effeithiau cysylltiedig (fel gorbryderu neu iselder).

**Dulliau sgrinio:** Holiadur byr a chryno sy'n helpu gweithwyr proffesiynol i adnabod achosion o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

**Ecsbloetio rhywiol (fel y'i diffinnir gan y Bil):** rhywbeth a wneir i neu yng nghyswllt person sydd

> (a) yn golygu cyflawni trosedd o dan Ran 1 Deddf Troseddau Rhywiol 2003 (c.42), o ran ei heffaith yng Nghymru a Lloegr, neu
> (b) yn golygu cyflawni trosedd o'r fath pe bai'n cael ei wneud yng Nghymru a Lloegr.

**"Gofyn a Gweithredu":** Proses o holi wedi'i dargedu ar draws Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru yng nghyswllt trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a phroses o holi cyffredinol gan wasanaethau iechyd y fam a bydwreigiaeth.

**Gofyn:** Term a ddefnyddir i ddisgrifio adnabod arwyddion posibl o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol a'r broses o holi'r cleient wedyn gan y gweithiwr proffesiynol hwn.

**Y gwasanaeth cyhoeddus:** Gwasanaethau cyhoeddus yw gwasanaethau a ddarperir er budd y cyhoedd. Gall y rhain gynnwys gwasanaethau a ddarperir drwy'r trydydd sector, gan fentrau cymdeithasol neu drwy wasanaethau sydd wedi eu contractio allan.

**Gweithredu:** Term a ddefnyddir i ddisgrifio'r broses sy'n cael ei dilyn gan y gweithiwr proffesiynol perthnasol gan ddibynnu ar ymateb y cleient i ofyn y cwestiwn.

**Harasio:** Ymddygiad gan berson lle mae ef neu hi'n gwybod neu lle dylai wybod ei fod yn gyfystyr â harasio'r person arall; ac i bwrpas y diffiniad hwn

(a) dylai person wybod bod ei ymddygiad ef neu hi'n gyfystyr â neu'n golygu harasio os byddai person rhesymol oedd yn meddu ar yr un wybodaeth yn meddwl bod y cwrs ymddygiad yn gyfystyr â neu'n golygu harasio person arall, a
(b) mae "ymddygiad" yn cynnwys iaith lafar;

**Perthynas (fel y'i diffinnir gan y Bil):** Yng nghyswllt person, mae'n golygu rhiant, nain neu daid person, plentyn, ŵyr neu wyres, brawd, hanner brawd, chwaer, hanner chwaer, ewythr, modryb, nai, nith (gan gynnwys unrhyw berson sydd neu a fu yn y berthynas honno drwy briodas neu bartneriaeth sifil neu berthynas deuluol barhaus).

**Trais ar sail Rhywedd (fel y'i diffinnir gan y Bil):**

(a) trais, bygythiadau o drais neu harasio'n codi'n union neu'n anuniongyrchol o werthoedd, credoau neu arferion yng nghyswllt rhywedd neu dueddiad rhywiol
(b) anffurfio organau cenhedlu menywod;
(c) gorfodi person (p'un ai drwy rym corfforol neu reidrwydd drwy fygwth neu ddulliau seicolegol eraill) i gymryd rhan mewn seremoni briodas grefyddol neu sifil (p'un ai'n rhwymo'n gyfreithiol neu beidio)

**Trais Rhywiol (fel y'i diffinnir gan y Bil):** ecsbloetio rhywiol, harasio rhywiol neu fygwth trais o natur rywiol.

**Trais yn erbyn menywod** yw profiad menywod o drais ar sail rhywedd (fel y'i diffinnir yn y Bil).

## Dulliau sgrinio

Mae nifer o ddulliau sgrinio ar gael ar gyfer gwahanol fathau o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'r dulliau hyn wedi eu profi mewn amrywiol leoliadau (er mai lleoliadau clinigol yw'r rhain yn bennaf) a'u gwerthuso mewn amrywiol ffyrdd.

Yn y bennod hon rhestrir detholiad bychan o'r dulliau hyn a ddewiswyd oherwydd y gwyddom y defnyddir hwynt mewn lleoliadau yn y DU neu y cawsant eu gwerthuso droeon.[97] Ni ddylid cymryd bod cynnwys dull ar y rhestr yn golygu bod Llywodraeth Cymru'n ei gymeradwyo neu'n ei ffafrio.

### HITS[98] - Dull Sgrinio Trais gan Bartner Agos:

Dull byr yw hwn a ddyluniwyd yn yr Unol Daleithiau i "sgrinio trais domestig". Mae ei fyrdra pwrpasol gymaint fel y gall meddygon teulu yn hawdd ei gofio a'i ddefnyddio. Holiadur pedair eitem ydyw sy'n gofyn i'r ymatebydd pa mor aml y mae eu partner wedi eu brifo'n gorfforol, eu sarhau, bygwth eu brifo ac wedi sgrechian atynt. Mae'r pedair eitem, yn Saesneg, yn creu'r acronym HITS.

Mae'r dull HITS wedi'i werthuso gan astudiaeth dau gam oedd yn cymharu eitemau ymosodiadau llafar a chorfforol y Raddfa Tactegau Gwrthdaro (CTS) â'r dull HITS. Mae casgliad y gwerthusiad hwn yn awgrymu bod y dull HITS yn addawol fel mnemonig sgrinio trais domestig i feddygon teulu. Cafwyd hefyd fod y dull HITS yn sensitif a defnyddiol yng nghyswllt cam-drin a brofir gan ddynion.[99]

Mae'r dull yn cynnwys 4 cwestiwn: Pa mor aml y mae eich partner?

1. Yn eich brifo / anafu'n gorfforol
2. Yn eich sarhau neu'n eich bychanu
3. Yn bygwth eich brifo
4. Yn sgrechian neu'n eich melltithio.

Gofynnir i'r rhai sy'n ateb y cwestiynau naill ai roi atebion "byth", "pur anaml", "weithiau", "yn eithaf aml" neu "yn aml". Rhoddir sgôr rhwng 1-5 i bob ateb. Ystyrir bod sgôr mwy na 10 yn ddatgeliad o gamdriniaeth.

### Y dull sgrinio HARK[100]

Defnyddir y dull sgrinio HARK fel arfer fel 'proc' electronig mewn cofnodion meddygol. Mnemonig ydyw am *Humiliate, Afraid, Rape, Kick a Safety* ac mae wedi'i gysylltu i symptomau iechyd o drais a cham-drin domestig.

Nod HARK yw atgoffa clinigwyr mewn ffordd ymarferol i ofyn am drais a cham-drin domestig, fflagio'r gofyniad i unrhyw ymddygiad ar gofnod y claf, a chysylltu i ddiogelwch ac asesiad o'r risg taer o gam-drin. Rhoddir un pwynt am bob ateb "ie".

Cafwyd fod y pedwar cwestiwn HARK yn adnabod yn gywir menywod a brofodd Drais gan Bartner Agos yn y flwyddyn ddiwethaf. Y ffordd symlaf o ddefnyddio HARK yw fel prawf syml gyda sgôr torbwynt o 1 neu lai. Cafwyd fod sgôr o 1 wedi adnabod 81% o fenywod yr effeithiwyd arnynt gan Drais gan Bartner Agos. Mae menyw gyda'r sgôr hwn yn 83% tebygol ei bod wedi profi Trais gan Bartner Agos yn y flwyddyn ddiwethaf a 16 gwaith yn fwy tebygol o fod wedi cael ei heffeithio gan Drais gan Bartner Agos yn y flwyddyn ddiwethaf na rhywun gyda sgôr o 0.[101]

Mae'r dull yn cynnwys 4 cwestiwn:

HUMILIATION / CYWILYDDIO: Yn y flwyddyn ddiwethaf, a gawsoch eich cywilyddio neu eich cam-drin yn emosiynol mewn ffyrdd eraill gan eich partner neu gyn-bartner?

AFRAID / OFN: Yn y flwyddyn ddiwethaf, a ydych wedi bod ag ofn eich partner neu gyn-bartner?

RAPE / TREISIO: Yn y flwyddyn ddiwethaf, a gawsoch eich treisio neu eich gorfodi i gael unrhyw fath o gyswllt rhywiol gan eich partner neu gyn-bartner?

KICK / CICIO: Yn y flwyddyn ddiwethaf, a gawsoch eich cicio, taro, slapio neu eich brifo'n gorfforol fel arall gan eich partner neu gyn-bartner?

### Y Dull Sgrinio Cam-drin Menywod (WAST)[102]

Cafodd y dull WAST wyth eitem ei ddatblygu'n wreiddiol i Feddygon Teulu ac mae hefyd wedi'i brofi mewn lleoliadau gofal brys. Cafwyd fod y dull WAST yn ddibynadwy i wahaniaethu rhwng profiad menywod wedi eu cam-drin a heb eu cam-drin.

Ni roddir sgôr penodol gan y dull hwn – dibynnir ar farn broffesiynol. Fodd bynnag, defnyddir y dull yn aml drwy ofyn y ddau gwestiwn cyntaf sy'n gwestiynau cyffredinol am berthynas yn lle cwestiynau penodol am drais. Lle mae'r ymatebydd yn ateb "llawer o densiwn" a "trafferth sylweddol" i'r cwestiynau hyn, dylid eu dilyn gan gwblhau gweddill y cwestiynau. Cafwyd fod WAST yn fesur dibynadwy a dilys o gam-drin mewn meddygfeydd, gyda chleifion a meddygon teulu yn dweud eu bod yn gyffyrddus iddo fod yn rhan o'r apwyntiad clinigol.[103]

1. Ar y cyfan, sut y byddech yn disgrifio eich perthynas?
    - Llawer o densiwn
    - Peth tensiwn
    - Dim tensiwn

2. Ydych chi a'ch partner yn datrys dadleuon gyda:
- Trafferth sylweddol?
- Peth trafferth?
- Dim trafferth?

3. A yw'r dadleuon yn gwneud i chi deimlo'n isel neu'n ddrwg amdanoch eich hun?
- Yn aml
- Weithiau
- Byth

4. Ydy'r dadleuon yn arwain o gwbl at daro, cicio neu wthio?
- Yn aml
- Weithiau
- Byth

5. Ydy'r hyn y mae eich partner yn ei ddweud neu wneud yn eich dychryn?
- Yn aml
- Weithiau
- Byth

6. Ydy eich partner wedi eich cam-drin yn gorfforol?
- Yn aml
- Weithiau
- Byth

7. Ydy eich partner wedi eich cam-drin yn emosiynol?
- Yn aml
- Weithiau
- Byth

8. Ydy eich partner wedi eich cam-drin yn rhywiol?
- Yn aml
- Weithiau
- Byth

DRAFT

**Dogfennau cysylltiedig a dolenni defnyddiol**

Dylid darllen y canllawiau hyn ar y cyd â'r canllawiau ychwanegol a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru ar fforymau Amlasiantaethol, y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol a Rhannu Gwybodaeth.

**Rhannu gwybodaeth a diogelu data**

Canllawiau Caldicott

http://www.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=950&pid=51917

Fframwaith Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru

http://www.waspi.org/

**Polisi a chanllawiau**

Canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal ar Drais a Cham-drin Domestig – Sut y gall gwasanaethau ymateb yn effeithiol.

http://guidance.nice.org.uk/PHG/44

Ymateb i drais gan bartner agos a thrais rhywiol yn erbyn menywod. Canllawiau polisi a chlinigol gan Sefydliad Iechyd y Byd (2013)

http://www.who.int/reproductivehealth/publications/violence/9789241548595/en/

Adeiladu ymatebion effeithiol: Adolygiad annibynnol o wasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru (2014)

http://wales.gov.uk/statistics-and-research/building-effective-responses-independent-review-violence-against-women/?lang=cy

**Adnoddau i ymarferwyr**

Byw Heb Ofn

http://livefearfree.org.uk/splash?orig=/

Rhestr Adnabod Risg CAADA DASH

http://www.caada.org.uk/marac/RIC_for_MARAC.html

**Diogelu plant**

Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan

Protocol Cymru Gyfan: Diogelu Plant a Phobl Ifanc sy'n Cael eu Heffeithio gan Gam-drin Domestig



DRAFT

Protocol Cymru Gyfan: Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod

http://www.awcpp.org.uk/home/wales-protocols/

Canllawiau Ymarfer Amlasiantaethol Llywodraeth EM: Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod (Y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad 2011)

http://www.dh.gov.uk/prod_consum_dh/groups/dh_digitalassets/documents/digitalasset/dh_124588.pdf

DRAFT

## Atodiadau

### Atodiad 1: Y dystiolaeth dros sgrinio

Mae’r ymchwil i’r amrywiaeth o dechnegau sgrinio’n gyfyngedig o ran nifer, yr amrywiadau ar ymarfer a'r diffyg gwaith mwy hirdymor. Fel gyda sawl maes gwaith i fynd i’r afael â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, byddai gwaith pellach yn y maes hwn yn ddefnyddiol i wella ymarfer yn y dyfodol.

Ar y cyfan, mae’r rhan fwyaf o’r astudiaethau sy’n ymwneud â holi cyffredinol ac wedi’i dargedu'n astudiaethau cynt a chwedyn. Mae’r data ar ganlyniadau tymor canolig i hir ar goll.

Mae’r rhan fwyaf o’r astudiaethau hefyd yn canolbwyntio ar gamdriniaeth o fenywod gan ddynion fel partneriaid. Ychydig iawn o astudiaethau a edrychodd ar effaith dulliau neu ymyriadau adnabod ar gyfer is-boblogaethau amrywiol o fenywod i sgrinio ar gyfer:  camdrinwyr, plant sy’n dyst i drais, trais ar sail “anrhydedd” a pherthnasau hŷn.

Mae'r rhan fwyaf o’r dystiolaeth yn deillio o ymarfer iechyd; prin yw’r ymchwil i adnabod problemau ym maes gofal cymdeithasol, addysg, tai neu fel rhan o ddulliau adnabod integredig ar draws amrywiol leoliadau iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae llawer o’r dystiolaeth o brosesau holi cyffredinol a holi wedi’i dargedu’n ymwneud â cham-drin domestig, a elwir yn aml yn Drais gan Bartner Agos (IPV). Mae rhai hanesion disgrifiadol am adnabod trais rhywiol ond, ar hyn o bryd, dim gwerthusiadau’n ymwneud yn benodol ag adnabod trais rhywiol, priodi dan orfod, Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod (FGM), caethwasiaeth neu buteindra. Fodd bynnag, mae’n rhesymol tybio y gallai llawer o’r ymyriadau seiliedig ar dystiolaeth i adnabod ac atgyfeirio cam-drin domestig, y buom yn eu trafod, gael eu cymhwyso i fathau eraill o drais.[104]

Nid oedd y rhan fwyaf o’r astudiaethau’n mesur cyfraddau ddim pellach na’r gweithrediad cychwynnol.

Mae angen ymchwil bellach i archwilio a mynd i’r afael â’r rhwystrau a wynebir gan ddarparwyr i adnabod ac ymateb i drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Hefyd, mae angen ymyriadau sy’n cynnwys ymyriad ôl-adnabod ac sy’n mesur canlyniadau iechyd i gyfranogwyr.

### Atodiad 2: Rhwystrau posibl i “Ofyn a Gweithredu”

Disgrifir manteision gweithredu proses “Gofyn a Gweithredu” yn y bennod flaenorol.

Er y dylai adnabod arwyddion o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol eisoes fod yn rhan o ymarfer clinigol a gofal cymdeithasol da, caiff ei gydnabod y gallai cyflwyno proses ffurfiol i gefnogi hyn ddod ar draws trafferthion. Mae’r bennod hon yn nodi’r rhwystrau i weithrediad effeithiol holi wedi’i dargedu a chynigion i liniaru’r rhwystrau hynny.

Gall rhwystrau i weithredu ymwneud ag agwedd gweithwyr proffesiynol, strwythur sefydliadol a theimladau ac ofnau’r cleientiaid.

DRAFT

| **Agweddau proffesiynol** | | |
|---|---|---|
| **Pryder** | **Ymateb** | **Lliniaru** |
| Gallai holi wedi’i dargedu ddigio’r cleient neu achosi trallod ac anesmwythyd emosiynol. | Yn gyffredinol, mae mân effeithiau andwyol sgrinio wedi cael eu hadnabod.[105]<br><br>Mae ymarfer yn y maes hwn yn awgrymu bod y bobl yr holir hwynt am eu profiad o drais neu gam-drin ar y cyfan yn cefnogi’r broses.[106] Mae hyn yn arbennig o wir am rai a brofodd drais a cham-drin.<br><br>Mae’r ymchwil hefyd yn awgrymu bod menywod yn llawer mwy tebygol na gweithwyr proffesiynol o gefnogi arferion sgrinio.<br><br>Mae’r adborth seiliedig ar ymarfer yn cynnwys sawl enghraifft o gleientiaid a brofodd gam-drin domestig am ddegawdau ond na wnaethant ofyn am help oherwydd diffyg gwybodaeth neu ofn ond a fyddai wedi gofyn pe bai rhywun wedi eu holi. | Y ffordd orau fyddai trefnu bod hyfforddiant “Gofyn a Gweithredu” yn cael ei gyd-ddarparu gan weithiwr proffesiynol gyda gwybodaeth dda am y gynulleidfa (yn gweithio yn yr un maes neu faes tebyg) a gweithiwr proffesiynol gyda gwybodaeth drylwyr am brofiad ac effaith trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.<br><br>Nod cyd-ddarparu o’r fath fydd cynnig adborth arbenigol a seiliedig ar ymarfer i'r gynulleidfa hyfforddiant i wella eu hyder i ymarfer holi wedi’i dargedu. |
| Gallai holi wedi’i dargedu beryglu’r cleient ymhellach. | Yn gyntaf mae’n bwysig adnabod, **os gwneir hyn yn breifat a diogel**, na fydd holi am y profiad o drais neu gam-drin yn gwneud iddo ddigwydd. Ar ben hynny bydd gan bob cleient ddewis i ddatgelu neu beidio. Yn y pen draw, dewis y cleient ydyw. | Fel yr uchod – bydd cyd-ddarparu gan arbenigwyr cynulleidfa a phwnc yn helpu i fagu hyder mewn ymarferwyr proffesiynol.<br><br>Dylid cadw’r risgiau a greir gan wasanaeth mewn cof a sicrhau bod gan staff y sgiliau a’r adnoddau / dulliau i’w lliniaru. |

| | | |
|---|---|---|
| | Fodd bynnag, gallai proses o holi wedi'i dargedu greu risg lle nad yw'n cael ei ymarfer yn briodol neu lle na chymerir camau ôl-weithredu priodol. | Dylid sicrhau bod y sefydliad wedi cytuno i Brotocol Rhannu Gwybodaeth perthnasol sy'n nodi dyletswydd gweithwyr proffesiynol i gadw cyfrinachedd a phryd a pham y gellir torri'r cyfrinachedd hwn.<br><br>Dylid sicrhau bod y sefydliad yn gweithio drwy ddilyn llwybrau atgyfeirio clir ar gyfer cynnig opsiynau / gweithredu i ddiogelu oedolion a phlant. |
| **Strwythur sefydliadol** | | |
| Diffyg capasiti o ran amser gyda'r cleient i ofyn cwestiynau neu i'r cleient gael ateb yn ddigonol. | Dylai holi wedi'i dargedu gael ei gefnogi drwy weithredu newidiadau polisi a sefydliadol sy'n hwyluso'r broses. | Dylai awdurdodau perthnasol weithio gyda thimau staff a phartneriaid allanol i gytuno ar ba broses "Gofyn a Gweithredu" sydd fwyaf priodol i'w gwasanaeth. |
| Diffyg hyfforddiant / addysg / profiad yn arwain at:<br><br>Gweithwyr yn teimlo nad oes ganddynt ddigon o sgiliau a hyder<br><br>Diffyg gwybodaeth am yr adnoddau sydd ar gael | Dengys tystiolaeth fod rhaglenni cynhwysfawr – rhai sy'n cefnogi proses o holi wedi'i dargedu ar wahanol lefelau; drwy hyfforddi ymarferwyr, cymorth, seilwaith a buddsoddiad sefydliadol – yn arwain at adnabod mwy o Drais gan Bartner Agos na rhaglenni nad ydynt yn gynhwysfawr. | Bydd hyfforddiant wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru ar "Gofyn a Gweithredu" yn cael ei gynnig drwy'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.<br><br>Bydd arweinwyr awdurdodau perthnasol hefyd yn cael eu helpu, drwy'r fframwaith hwn, i ddangos arweinyddiaeth ar y pwnc ac i ddatblygu seilweithiau i gefnogi ymarfer. |
| Diffyg mynediad at ymyriadau VAWDASV effeithiol. | Ni all unrhyw asiantaeth, ar ei phen ei hun, fynd i'r afael yn effeithiol â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Dylai'r holl waith fod yn rhan annatod o ymateb amlasiantaethol.<br><br>Nid rôl y gweithwyr proffesiynol perthnasol yw dod yn arbenigwyr ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, neu ddod yn weithwyr arbenigol. Bydd y rolau hyn yn bodoli'n lleol a bydd ymarfer effeithiol yn golygu cael partneriaethau cadarn a chynaliadwy rhwng Gwasanaethau | Dylid sicrhau bod y sefydliad yn gweithio drwy ddilyn llwybrau atgyfeirio clir ar gyfer cynnig opsiynau / gweithredu i ddiogelu oedolion a phlant.<br><br>Gallai'r llwybrau atgyfeirio hyn olygu gorfod cyd-leoli, er i lawer ni fydd hyn yn realistig.<br><br>Dylid hefyd ystyried clinigau galw heibio ac atgyfeiriadau uniongyrchol ac effeithlon at wasanaethau lleol a defnyddio'r Llinell Gymorth Genedlaethol. |

| | | |
|---|---|---|
| | Cyhoeddus a'r sector arbenigol. | |
| Trafferth darparu ystafell ddiogel | Dylai holi wedi'i dargedu gael ei gefnogi drwy weithredu newidiadau polisi a sefydliadol sy'n hwyluso'r broses.<br><br>Mae ystafell ddiogel yn rhywle lle gellir sicrhau preifatrwydd llwyr. Ni fydd hyn byth yn ystafell aros gyhoeddus neu'n rhywle gyda dim ond llenni o'i gwmpas i'w guddio. | Dylai arweinwyr sefydliad ystyried pa ystafelloedd sydd ar gael i gynnig rhywle preifat a diogel i drafod gyda'r cleient. Gallai hyn olygu defnyddio ystafell gyfweld neu wneud defnydd creadigol o le arall.<br><br>I rai grwpiau proffesiynol gallai hyn olygu sicrhau nad yw neb arall yn gallu gwrando ar sgyrsiau sy'n digwydd yng nghartref y cleient, neu mewn mannau cyhoeddus. |
| **Teimladau ac ofnau'r cleient** | | |
| Ofn dial, ofn ymateb, na fydd neb yn eu credu neu ofn ymateb y sefydliad / gweithiwr proffesiynol. | Bydd ymateb empathig a chryf i ddatgeliad cleient, sy'n cyfleu eich bod yn eu credu ac sy'n dilysu eu profiad, yn tawelu meddwl y cleient yn syth. | |
| Pryder ynghylch colli preifatrwydd | Mae'n hollbwysig bod pob cleient yn ymwybodol o bolisi cyfrinachedd y sefydliad dan sylw ac felly'n gallu gwneud penderfyniadau gwybodus am ba wybodaeth i'w rhannu â'r gweithiwr proffesiynol y maent yn gweithio â fo neu hi a bod ganddynt ddisgwyliadau rhesymol o sut yr ymdrinnir â'r wybodaeth hon. | Sicrhau bod polisïau'r sefydliad ar ddiogelu data, rhannu gwybodaeth a chyfrinachedd yn cael eu diweddaru, yn gyfreithiol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.<br><br>Sicrhau bod y gweithwyr i gyd yn deall eu dyletswydd i gadw cyfrinachedd ac yn gallu ei hegluro'n glir i'w cleientiaid. |
| Pryder y gallai datgelu wneud y sefyllfa'n waeth | **Rhaid i ddiogelwch y cleient a'u plant fod yn ganolog i unrhyw broses "Gofyn a Gweithredu"**<br><br>Ni ddylid byth cymryd unrhyw gamau gweithredu lle gwyddoch y byddai risg i'r cleient a dylai gweithwyr proffesiynol leisio unrhyw bryder i'w goruchwyliwr neu reolwr os felly.<br><br>Yn aml iawn bydd cleientiaid wedi bod yn gofalu am eu diogelwch ers tro cyn datgelu'r gamdriniaeth. [107] Dylai gweithwyr proffesiynol gofio y bydd y cleient yn adnabod y person sy'n cam-drin yn well na neb arall ac felly rhaid cymryd eu barn nhw | Sicrhau y rhoddir cyfle i adnabod risg yn fuan ar ôl datgelu (naill ai drwy lwybrau mewnol neu allanol).<br><br>Sicrhau bod y gweithwyr i gyd yn deall eu dyletswydd i gadw cyfrinachedd ac yn gallu ei hegluro'n glir i'w cleientiaid. |

| | | |
|---|---|---|
| | am eu sefyllfa'n wirioneddol o ddifrif. **Mae cleient yn fwy tebygol o wneud yn fach na gwneud yn fawr o'r risg a wynebir ganddynt.**<br><br>Er na ddylid gofyn am ganiatâd i rannu gwybodaeth am sefyllfa cleient lle maen nhw neu eu plant mewn perygl, mae'n ymarfer da gweithio gyda'u caniatâd ac ar sail dewis, dymuniadau a theimladau'r cleient, lle bo hynny'n bosibl. | |
| Diffyg ymwybyddiaeth o wasanaethau | Ni ddylai gweithwyr proffesiynol perthnasol fod yn rhan o broses "Gofyn a Gweithredu" oni bai y cawsant eu hyfforddi'n ddigonol yn y gwasanaethau lleol sydd ar gael. Bydd "gweithredu" gan amlaf yn golygu egluro pa wasanaethau arbenigol lleol a chenedlaethol sydd ar gael, neu atgyfeirio atynt. | Rhaid i hyfforddiant "Gofyn a Gweithredu" gynnwys gwybodaeth am ba wasanaethau arbenigol sydd ar gael ac am drothwyon a phrosesau atgyfeirio. |

DRAFT

**Dogfennau cyfeirio**

---

[1] *Responding to Intimate partner violence and sexual violence against women*. Canllawiau clinigol a pholisi gan Sefydliad Iechyd y Byd (2013)

[2] *Domestic violence and abuse: how health services, social care and the organisations they work with can respond effectively*. Canllawiau iechyd cyhoeddus NICE 50 (Chwefror 2014)

[3] Berry V et al (2014) Adeiladu ymatebion effeithiol: adolygiad annibynnol o wasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru

[4] Ibid

[5] Rhwng Ionawr a Rhagfyr 2011, deliodd yr uned â 1,468 o achosion

[6] *Foundation for Women's Health, Research and Development* – FORWARD (Mai 2013) drwy'r Bwletin Ystadegau gan Cymorth i Fenywod

[7] CAADA (2014) *In Plain Sight: Effective help for children exposed to domestic abuse.*

[8] Ibid

[9] CAADA (2010) *Saving Lives Saving Money*

[10] Taflen Ffeithiau Rhif 239, Sefydliad Iechyd y Byd (2013) http://www.who.int/mediacentre/factsheets/fs239/en/

[11] Y Swyddfa Gartref

[12] CAADA (2012) *A Place of Greater Safety*

[13] Ramsey a Richardson et al (2002) *Should health professionals screen for domestic violence?* BMJ 2002:324:1-6

[14] http://www.rcog.org.uk/news/intercollegiate-group-draws-ground-breaking-recommendations-tackling-female-genital-mutilation

[15] Lewis a Drife, (2001, 2005); McWilliams a McKiernan, (1993).

[16] Ramsay J, Carter Y, Davidson L, Dunne D, Eldridge S, Feder G, Hegarty K, Rivas C, Taft A, Warburton A. Ymyriadau eiriolaeth i leihau neu ddileu trais a hyrwyddo lles corfforol a seico-gymdeithasol mewn menywod sy'n profi trais gan bartner agos. Cronfa Ddata Cochrane o Adolygiadau Systematig. 2009 Gorff. 8;(3):CD005043

[17] Yr Adran Iechyd, 2002; Farmer ac Owen, 1995.

[18] https://statswales.wales.gov.uk/Catalogue/Housing/Homelessness/Acceptances-and-Other-Decisions/HouseholdsAcceptedAsHomeless-by-PriorityNeed-Period

[19] Websdale (1999); Regan, Kelly, Morris a Dibb, (2007) *If Only We'd Known: An exploration study of 7 intimate partner homicides in Engleshire*. CWASU

[20] Wilson a Daly, 1993; ACPO – Darganfyddiadau'r Dadansoddiad Amlasiantaethol o'r Adolygiad o Ddynladdiad Trais Domestig, 2003

[21] CAADA(2013) Adroddiad interim ar y prosiect Themis

DRAFT

[22] *Domestic violence and abuse: how health services, social care and the organisations they work with can respond effectively.* Canllawiau iechyd cyhoeddus NICE 50 (Chwefror 2014)

[23] *Responding to Intimate partner violence and sexual violence against women*. Canllawiau polisi a chlinigol Sefydliad Iechyd y Byd (2013)

[24] Mae'r model *Peabody* wedi gweld cynnydd clir mewn lefelau adnabod ac atgyfeirio gan weithwyr Tai proffesiynol

[25] Taft A, O'Doherty L, Hegarty K, Ramsay J, Davidson L, Feder G. *Screening women for intimate partner violence in healthcare settings*. Cronfa Ddata Cochrane o Adolygiadau Systematig 2013 Ebrill 30;4:CD007007.BMJ 2002:325:314-8 (Adolygiad Systematig Ramsey et al:2002)

[26] Ibid

[27] Feder, et al. (2011) Gwerthusiad o'r prosiect IRIS.

[28] Nodwyd rhai gwahaniaethau rhwng y samplau cymharol (e.e. cyfranogwyr trefol o'u cymharu â rhai maestrefol)

[29] *Domestic violence and abuse: how health services, social care and the organisations they work with can respond effectively*. Canllawiau iechyd cyhoeddus NICE 50 (Chwefror 2014)

[30] Norwich Union Healthcare (2003), *Doctors orders: Health of the nation index*, Norwich Union: Yn Llundain, dywedodd wyth allan o bob deg o feddygon eu bod yn rhagnodi mwy o gyffuriau gwrthiselder nag y dylent, yn bennaf i fenywod.

[31] Devine A, Spencer A, Eldridge S, Norman R, Feder G. *Cost-effectiveness of Identification and Referral to Improve Safety (IRIS), a domestic violence training and support programme for primary care: a modelling study based on a randomised controlled trial.*

[32] Ramsey et al (2002) *Should health professionals screen women for domestic violence?* Adolygiad systematig. BMJ Open. 2012 Mehefin 22;2(3).

[33] *Domestic violence and abuse: how health services, social care and the organisations they work with can respond effectively*. Canllawiau iechyd cyhoeddus NICE 50 (Chwefror 2014)

[34] Feder, G. et al (2009) *How far does screening women for domestic (partner) violence in different healthcare settings meet criteria for a screening programme?* Adolygiad Systematig o 9 Maen Prawf Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU.

[35] (Price 2004; Prosiect Rhyngasiantaethol Leeds, 2005).

[36] Trevillion K, Oram S, Feder G, Howard LM. *Experiences of domestic violence and mental disorders: a systematic review and meta-analysis*. PLoS One. 2012;7(12):e51740.

[37] (Phillips, 2000; Yr Adran Iechyd, 2002). *'Women's Mental health: Into the Mainstream: Strategic Development of Mental Health Care for women'.*

[38] Spataro, Mullen et al (2004) *Impact of child sexual abuse on mental health Prospective study in males and females.* British Journal of Psychiatry

[39] Budd, T., 2003. *Alcohol Related Assault*: Darganfyddiadau o Arolwg Troseddu Prydain, Adroddiad Ar-lein y Swyddfa Gartref 35/03]

[40] Brecklin, L., 2002. *The role of perpetrator alcohol use in the injury outcomes of intimate assaults*, Journal of Family Violence, 17 (3), 185-196]

[41] Humphreys, C. & Regan, L., 2005. *Domestic Violence and Substance Use: Overlapping Issues in Separate Services*, *Final Report*

[42] Yr Adran Iechyd (1999), *Secure futures for women: Making a difference*, Yr Adran Iechyd: Llundain

[43] DoH (2003)

[44] http://www.mentalhealthwales.net/mhw/mental_health_measure.php

[45] CAADA (2013) Adroddiad interim ar y Prosiect Themis

[46] ibid

[47] Ibid

[48] Mae'r bennod hon yn crynhoi'r canllawiau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar ddiogelu data a rhannu gwybodaeth.

[49] Regan, Kelly, Morris and Dibb, (2007) *If Only We'd Known: An exploration study of 7 intimate partner homicides in Engleshire.* CWASU

[50] Murray J (2010) *Clinical judgment in violence risk assessment*. EJP

[51] Barter C (2009) *Partner exploitation and violence in teenage intimate relationships*

[52] Ibid a CAADA (2014) *In Plain Sight: Effective help for children exposed to domestic abuse*.

[53]Robertson N *"Evidence is your raw material': the potential impact of undertaking DHRs".* Cyflwyniad i'r Gymdeithas Llywodraeth Leol ym mis Mai 2013

[54] Pearlman (1990) Vicarious Trauma. *A framework for understanding*.... Journal of Traumatic Stress.

[55] The Headington Institute: http://www.headington-institute.org/topic-areas/125/trauma-and-critical-incidents/246/vicarious-trauma

[56] ibid

[57] Robertson N *"Evidence is your raw material': the potential impact of undertaking DHRs".* Cyflwyniad i'r Gymdeithas Llywodraeth Leol ym mis Mai 2013

[58] Ibid

[59] The Headington Institute: http://www.headington-institute.org/topic-areas/125/trauma-and-critical-incidents/246/vicarious-trauma

[60] Bydd hwn yn cael ei deilwra i bob proffesiwn

[61] Walby, Sylvia. *The Cost of Domestic Violence: Update* 2009

DRAFT

[62] Walby, Sylvia.  *The Cost of Domestic Violence: Update* 2009

[63] *Domestic violence and abuse: how health services, social care and the organisations they work with can respond effectively*. Canllawiau iechyd cyhoeddus NICE UCLAN

[64] Harvey S, Mitchell M et al  (2014) *Barriers faced by Lesbian, Gay, Bisexual and Trans People in Accessing Domestic Abuse, Stalking, Harassment and Sexual Violence Services*.  Y Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol.

[65] Problemau gynaecolegol yw'r gwahaniaeth iechyd mwyaf cyson, sy'n para hiraf a mwyaf rhwng merched a gafodd ac na chafodd eu cam-drin (Feder et al (2009)) drwy flaenoriaethau ar gyfer Bil Trais yn erbyn Menywod (Cymru). Grŵp Gweithredu Cymru ar Drais Yn Erbyn Menywod (2011)

[66] Trevillion K, Oram S, Feder G, Howard LM. *Experiences of domestic violence and mental disorders: adolygiad systematig a meta-ddadansoddiad*. PLoS One. 2012;7(12):e51740.

[67] Lewis a Drife, 2001, 2005; McWilliams a McKiernan, 1993.

[68] Ramsay J et al. (2009) *Advocacy interventions to reduce or eliminate violence and promote the physical and psychosocial well-being of women who experience intimate partner abuse.* Cronfa Ddata Cochrane o Adolygiadau Systematig.

[69] Yr Adran Iechyd, 2002; Farmer ac Owen, 1995.

[70] Taft A, et al (2013) *Screening women for intimate partner violence in healthcare settings.* Cronfa Ddata Cochrane o Adolygiadau Systematig (Adolygiad Systematig Ramsey et al:2002)

[71] (Price 2004; Prosiect Rhyngasiantaethol Leeds, 2005).

[72] Coulthard et al (2010)

[73] Prochaska, J. a DiClemente, C.(1983) *Stages and processes of self-change in smoking: toward an integrative model of change*. Journal of Consulting and Clinical Psychology

[74] Jan Pickles, Dr Amanda Robinson, James Rowlands a Jasvinder Sanghera.

[75] www.caada.org.uk

[76] Gwneir hyn gan ddull ar wahân (a elwir y grid difrifoldeb camdriniaeth), a ddefnyddir gan ymarferwyr arbenigol i asesu pa mor ddifrifol yw'r gamdriniaeth**.**

[77] http://www.scotland.gov.uk/Resource/Doc/1032/0099922.pdf.

[78] http://www.caada.org.uk/Young_People/YP_RIC.htm

[79] Howarth, E, Stimpson, L., Barran, D., Robinson, A., *Safety in Numbers: A Multi-Site Evaluation of Independent Domestic Violence Advisor Services,* November 2009.

[80] Codwyd o'r Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (2008)

[81] CAADA Case Management Pack http://www.caada.org.uk/dvservices/resources-for-domestic-abuse-practitioners.html

DRAFT

[82] Fincken C *Striking the Balance*: Canllawiau Ymarferol ar gymhwyso Egwyddorion Gwarcheidwad Caldicott i Drais Domestig a Chynadleddau MARAC

[83] Ibid

[84] Ar sail darganfyddiadau gan Bartneriaeth Mewnfudo Cymru (2013), ''*Uncharted Territory: Violence against migrant, refugee and asylum seeking women in Wales.''*

[85] Gilbert, Gilbert, Sanghera (2004) *A focus group exploration of the impact of izzat, shame, subordination and entrapment on mental health and service use in South Asian women living in Derby Mental Health, Religion & Culture* Cyfrol 7, Rhif 2, Mehefin 2004, 109–130

[86] Ar sail darganfyddiadau gan Bartneriaeth Mewnfudo Cymru (2013), ''*Uncharted Territory: Violence against migrant, refugee and asylum seeking women in Wales.''*

[87] Fel gyda'r holl gategorïau a restrir yma, nid yw pobl hŷn yn grŵp homogenaidd. Gallent fod yn bobl o wahanol genedlaethau a gall ystod oed pobl a ddiffinnir fel pobl hŷn amrywio'n eang. Gallai eu cyfnod bywyd a hanes eu bywyd fod yn bwysicach na'u hoed ac, fel gyda phob grŵp lleiafrifol, mae'n bwysig peidio byth â gwneud tybiaethau.

[88] *Older women and domestic violence*: *Overview* (Cymorth i Fenywod) www.womensaid.org.uk/downloads/olderwomenanddvreport(1).pdf

[89] Swyddfa Ystadegau Gwladol (2011-2012) *Focus on: Violent Crime and sex offences*

[90] Donovan & Hester, 2010)-via CAADA *Practice Guidance on engaging and working with lesbian, gay, bisexual and transgender (LGBT) clients*

[91] Roch, Ritchie ac LGBT Youth Scotland (2010) *Out of Sight Out of Mind.*

[92] (Donovan & Hester, 2011) drwy CAADA *Practice Guidance on engaging and working with lesbian, gay, bisexual and transgender (LGBT) clients*

[93] Harvey S, et al (2014) *Barriers Faced by Lesbian, Gay, Bisexual and Transgender People in Accessing Domestic Abuse, Stalking and Harassment, and Sexual Violence Services.* Y Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol.

[94] Roch, Ritchie av LGBT Youth Scotland (2010) *Out of Sight Out of Mind* Transgender People's *Experiences of Domestic Abuse*

[95] 1995 Arolwg Troseddu Prydain

[96] http://www.irisdomesticviolence.org.uk/iris/

[97] *"Even the most common tools were evaluated in only a small number of studies. Sensitivities and specificities varied widely within and between screening tools. Further testing and validation are critically needed"* http://www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC2034562/ .97

[98] Sherin K et al (2003) HITS. Dull sgrinio trais domestig i'w ddefnyddio yn y gymuned.www.orchd.com/violence/documents/HITS_eng.pdf

[99]Rabin et al (2010) Dulliau Sgrinio Trais gan Bartner Agos. http://www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC2688958/

[100]Sohal et al (2007) *The sensitivity and specifity of four questions (HARK) to identify Intimate Partner Violence: diagnostic accuracy study in General Practice.*

http://www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC2034562/

[101] ibid

[102] Rabin et al (2010) Dulliau Sgrinio Trais gan Bartner Agos. http://www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC2688958/

[103] Brown et al (2000) Cymhwyso'r Dull Sgrinio Cam-drin Menywod (WAST) a'r WAST SF (cryno) mewn meddygfeydd setting.http://www.ncbi.nlm.nih.gov/pubmed/11052161

[104]Berry V et al (2014) Adeiladu ymatebion effeithiol: Adolygiad annibynnol o wasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru.

[105] Feder, G. et al (2009) *How far does screening women for domestic (partner) violence in different healthcare settings meet criteria for a screening programme?* Adolygiad systematig o 9 Maen Prawf Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU.

[106] Mae'r ymchwil yn canolbwyntio'n bennaf ar brofiad menywod.

DRAFT

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

| Rhif papur: | Mater | Oddi wrth | Cam gweithredu |
|---|---|---|---|
| 2 | Bil Tai (Cymru) | Gweinidog Tai ac Adfywio | Gwybodaeth ychwanegol yn dilyn y sesiwn graffu gyffredinol ar 19 Mehefin 2014 |
| 3 | Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru) | Darren Millar AC | Gwybodaeth ychwanegol ynglyn a'r Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru) |

**Carl Sargeant AC / AM**
**Y Gweinidog Tai ac Adfywio**
**Minister for Housing and Regeneration**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: SF/CS/1028/14

Christine Chapman AM
Chair
Communities, Equality and Local Government Committee
National Assembly for Wales

08 July 2014

Dear Christine

**In year Scrutiny Session: 19 June 2014**

Thank you for your letter of 26 June following my evidence session on 19 June.

During the session we agreed that I would write to you on the following issues:

**Affordable Housing**

The definition of affordable housing in Wales, used for the purposes of the data collection for the 10,000 affordable housing target, is included within Planning Policy Wales – Technical Advice Note 2:-

> *"The definition of 'affordable housing' for the purpose of the land use planning system as described in this Technical Advice Note is housing where there are secure mechanisms in place to ensure that it is accessible to those who cannot afford market housing, both on first occupation and for subsequent occupiers. However, it is recognised that some schemes may provide for stair casing to full ownership and where this is the case there must be secure arrangements in place to ensure the recycling of capital receipts to provide replacement affordable housing. Affordable housing includes:*
>
> - *Social rented housing;*
> - *Intermediate housing.*
>
> *Social rented housing is that provided by local authorities and registered social landlords. Intermediate housing is that where prices or rents are above those of social rent but below market housing prices or rents"*

Whilst the planning policy definition is broadly the same in the UK Government's Communities and Local Government (CLG) National Planning Policy Framework, the approach to funding affordable housing development is very different.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Carl.Sargeant@wales.gsi.gov.uk



*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

In the UK the Affordable Homes Programme is described by the CLG as being available for "Affordable Rent" with some for affordable home ownership, supported housing and in some circumstances, social rent. They go on to describe Affordable Rent as requiring a rent of no more than 80% of the local market rent. As a result of the direction of this programme the vast majority of properties developed under this programme are at a much higher, intermediate rent, which is higher than social rent.

Whilst the Welsh Governments Social Housing Grant programme does include the option for intermediate rent at or below 80% of local market rents (but at or below local housing allowance), the vast majority of the programme supports the delivery of social rented housing, which is provided for those in greatest housing need.

**Welsh Housing Quality Standard achievement**

All the local authorities have up to date business plans which show achievement of WHQS by 2020 or before. These plans, together with annual statistical returns on WHQS progress, are carefully monitored to ensure the target is met. The table below sets out completion dates: -

| Local Housing Authority | Stock at March 2013 | Achievement of WHQS |
|---|---:|:---:|
| Cardiff | 13,661 | 2012 |
| Anglesey | 3,806 | 2012 |
| Pembrokeshire | 5,670 | 2013 |
| Denbighshire | 3,458 | 2014 |
| Carmarthenshire | 9,073 | 2015 |
| Vale of Glamorgan | 3,911 | 2017 |
| Powys | 5,407 | 2018 |
| Caerphilly[1] | 10,912 | 2019/20 |
| Wrexham | 11,322 | 2020 |
| Swansea | 13,590 | 2020 |
| Flintshire | 7,402 | 2020 |

*[1] We are currently assessing the latest business plan for Caerphilly and details so far indicate that they will still meet WHQS by 2019/2020*

**Help to Buy Wales by Local Authority**

I attach a spreadsheet which includes a detailed breakdown of the scheme by local authority.

**Intermediate Care Fund Plans and Projects**

The Intermediate Care Fund is designed to promote new ways of working and integrate provision of services between health, social services and housing providers. £15 million of the £50 million budget relates to capital projects and forms part of my portfolio. All six regions submitted strong bids for new and innovative proposals which will require close monitoring to ensure they deliver the outcomes aspired to of long lasting service change and improved outcomes for people who need our support. I have attached an Annex which sets out details of projects.

**Section 180 Review of the Homelessness Grant Programme**

The Housing White Paper (2012) committed to a major review of the Section 180, Homelessness Grant Programme. The purpose of the review was to ensure the deployment of funding is in line with the prevention goals of the new legislation. The review process has now been completed. My officials are working on the recommendations and are meeting with organisations individually to build a clear picture which will, in turn inform my decisions on changes to some projects.

In addition to the reductions as a result of individual projects, all organisations funded through the grant have been advised of a reduction of 3% from 2013/14 levels of funding, with effect from 1st October 2014. All of the funding released as a result of the review and the flat rate reduction will be reinvested in line with the prevention agenda of the Housing (Wales) Bill.

**Evaluation of the Supporting People Programme**

We have started a programme of audit to ensure that Supporting People funding is being spent in accordance with Grant Conditions and is providing value for money. As part of this work Welsh Government officials have reviewed two local authorities and one provider. Two of the final reports of these reviews are in preparation, and one has been submitted to me for consideration.

Overall there has been good evidence of services being reviewed by both the authorities and the provider. In one of the authorities and in the provider case there was clear evidence of changes being made to a service to ensure it was the best use of funding. This work will continue and all authorities will be reviewed in a similar way as part of the wider review and evaluation of the Supporting People programme. The evidence from the audits is being used to shape the work of local authorities and Regional Collaborative Committees.

You have also asked for more detail on the subjects below.

**Tenant Participation**

I have agreed the majority of the recommendations set out in the 2014 research study *Support for Tenant Participation*. I am monitoring progress on the implementation of the recommendations by stakeholders, including Welsh Tenants, TPAS, social landlords, the Welsh Local Government Association, and Community Housing Cymru.

The recommendation to tender a national contract for support to the Welsh Government is perhaps the most significant recommendation in the report. Its rationale is understood and broadly supported. However, procuring such a contract will take time and I aim to do it in consultation with stakeholders. Meanwhile, we are core-funding to support tenant participation and continue to work with TPAS and Welsh Tenants on the most effective way to use and to monitor this funding.

We envisage core funding remaining in place until a contract is able to be tendered. Future years' core funding would not be immune to further reductions as all Welsh Government funding programmes are under pressure.

**Home Adaptations**

As regards the Review of Home Adaptations and the Framework for Action on Independent Living, the review of adaptations is underway.

The contract for the review was let in February 2014. A consortium involving Shelter, Tai Pawb and Cardiff Metropolitan University, amongst others, will explore and test potential changes to the structural and delivery mechanisms for independent living adaptations. Specifically, it will explore options for a system which can achieve the Welsh Government's goal of consistently accessible, good quality adaptations delivered in all areas of Wales. The aim is to ensure that adaptations can be delivered more speedily to those who need them and, in doing so, help to reduce inherent inequalities in the current system by ensuring joined up solutions, prevention and early intervention activity. The research team is currently gathering evidence before formulating recommendations with a view to submitting their final report in the autumn.

**Framework for Action on Independent Living**

I note the Committee's comments about the Framework and am fully apprised of the need to ensure that the review takes account of the Framework. I have asked officials to remind the research team to keep the Framework in mind when developing recommendations. I look forward to seeing the final report and will make sure the Committee is provided with a copy.

I trust this information assists the Committee's considerations and I look forward to continuing to work closely with it.

Carl

**Carl Sargeant AC / AM**
Y Gweinidog Tai ac Adfywio
Minister for Housing and Regeneration

**Annex**

**Intermediate Care Fund Projects**

**Cardiff**
A 'Smart House' has been created to raise awareness and provide an opportunity for older people and their family to see and try out what can be provided in the home environment. It will showcase the potential for independent living to prospective clients, and can also be used for staff training. It aims to encourage more independence, and an awareness of what can be done in the home, without care.

**Cardiff and the Vale**
A new project will be piloting preventative intervention through the Gateway service. The project will pilot a preventative approach by training a network of well positioned stakeholders (including GPs, Community Alarm Wardens, Care and Repair staff) to identify appropriate people to be referred to the Gateway. The region is also developing a range of preventative and accommodation solutions to support older people at times of crisis (e.g. Hospital Discharge) or in response to the emerging physical requirements of older people. It will also be driven forward through the establishment of Interim Care Flats supported by care provider staff, and additional care support team. Preventative intervention and enablement services: Including working with Care and Repair and RNIB to deliver integrated services.

**Cwm Taf**
The integrated '@home' service will make better use of existing resources, as well as harness additional resources in the programme. The outcome will be more people offered support, care and treatment at home. This is as part of its "create a whole system approach", promoting healthy interdependence for older people.

Also in Cwm Taf, work will enhance housing options and adaptations services. This will involve placing housing, people's need for well-planned accommodation and/or adaptations as a critical feature of people being and feeling safe to remain in their own home.

**North Wales**
Step up and step down provision will be increased and the Rapid Response Adaptations Service will be expanded to minor adaptations and repairs for individuals, focussing on timely discharge and admission.

In Anglesey two Community Hubs will also be developed on two designated sheltered accommodation complexes.

Gwynedd will pilot co-located health and social care offices in acute hospitals to aid communication, reduce handovers and share capacity as key outcomes.

In Wrexham "Wander Guards" will be installed within all council sheltered units to enable independent living for tenants with dementia.

In Denbighshire a Sheltered Housing Unit will be refurbished to pilot a range of services, including step up and step down provision, provision of respite for carers, and an alternative setting whilst adaptations are carried out at home. This will be supported by a 7 days support multidisciplinary team from Enhanced Care at home, Community Therapies and Reablement.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Darren Millar AM / AC

Ref: CA/SG/CC

9th July 2014

Christine Chapman AM
Chair
Communities, Equality and Local Government Committee
National Assembly for Wales
Tŷ Hywel
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Dear Christine

**Holiday Caravan Sites (Wales) Bill**

I am writing following my appearance before the Committee on 25 June.

As I outlined during the meeting, there is general support for the need to update the licensing regime for holiday caravan sites and for many provisions in the Bill including:

- Requirements for written agreements between site and caravan owners;
- Powers for local authorities to charge fees for site licences;
- The requirement to consult with flood-risk management agencies when issuing a site licence;
- The removal of a duty requiring local authorities to automatically issue a site licence where planning permissions exist.

However, some other issues have been the subject of much discussion. During the meeting I outlined a number of changes that I proposed to make to the Bill to should it progress to Stage 2 to address these issues. The changes I outlined will ensure that the Bill is a proportionate response to the need to modernise legislation in this area.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8731
E-bost / Email: darren.millar@wales.gov.uk
Web/Gwe: www.darrenmillaram.com

To assist the Committee's consideration of the Bill, I thought it would be helpful to summarise the main changes I intend to bring forward.

**Fit and Proper Person Test**

The Test set out in the Bill is based on the similar one in the Mobile Homes Act 2013, with some additional protection on trading standards issues.

I remain of the view that an appropriate *Fit and Proper Person Test* is needed to protect vulnerable consumers and ensure that sites are safe and well managed.

However, a number of witnesses and Members have made the point that the inclusion of breaches of housing law in the test is overly prescriptive and is not appropriate given that holiday caravans are not permanent dwellings. I think there is considerable merit to that argument.

Therefore, if the Bill proceeds to Stage 2, *I intend to bring forward an amendment to Section 34 to remove references to housing law as a factor in the Fit and Proper Person Test.*

I will also consider bringing forward other amendments to ensure that the test is focused on the key issues of fraud, dishonesty, and equality, which I think are the essential protections appropriate to this sector.

**Frequency of Inspections**

Frequency of Inspections is another issue that has been raised by witnesses and Members. The Bill currently sets a maximum period between inspections of 3 years. I continue to believe that it is important that there should be a statutory maximum period of time between inspections.

However, there are concerns that local authorities may have difficulty in carrying out inspections every three years – particularly if they also carry out more frequent, risk-based, inspections of some sites - and that it could be an excessive intrusion on well-run caravan sites.

Again, I have been persuaded by these arguments. Therefore, to address these concerns should the Bill proceed to Stage 2, *I intend to bring forward an amendment to Section 16 to increase the maximum period between inspections from 3 years to 5 years*.

The provisions already in the Bill [S16(2)], which require the Welsh Government to consult industry bodies and others before commencing the duty to inspect, will also help to ensure that the new inspection regime will be introduced sensitively and over an appropriate timescale.

**Residence Test**

I have noted the scepticism from some quarters regarding the evidence in relation to the residential misuse of holiday caravans. I continue to maintain that there is evidence that points to people using holiday caravans as their main home and note Professor Forthergill's evidence to the Committee, which supports this view. I also believe that this is a problem that has the potential to damage the holiday caravan industry and, consequently, the wider tourism economy in the longer term.

The provisions in Part 4 of the Bill regarding requirements for written agreements between holiday caravan owners and site owners will help to deter and redress the problem of residential misuse to some extent, but I remain convinced that there also needs to be a robust mechanism for addressing the issue of permanent residency, when it is identified.

I have considered whether this can be addressed through updating the model standards, which were last updated in 1989, or through issuing Ministerial guidance. The legal advice I have received, which I outlined at the meeting, is that the model standards cannot make any provision in relation to residency; nor can they require written agreements between site owners and caravan owners.

I have also been advised that there does not seem to be any obvious and clear Ministerial power that would allow Ministers to direct local authorities to enforce the law more rigorously in this area.

Whilst Welsh Ministers may issue guidance to local authorities on any matter, that guidance cannot address the need for additional resources via the introduction of a fee regime for site inspections, nor can it be used to place duties on local authorities regarding inspection or enforcement.

Nevertheless, I have listened carefully to what witnesses have said, and I have reconsidered how the Bill can best achieve the right balance in this area. Therefore, should the Bill proceed, *I intend to bring forward amendments to Part 3 of the Bill to remove the compulsory residence test and replace it with a discretionary power for local authorities to conduct residence tests* where they have a suspicion that residential misuse is a factor on a site.

This will be in keeping with the risk-based approach to inspection elsewhere in the Bill and ensure that particular local and regional problems can be dealt with effectively, while not requiring an intrusive approach in areas where permanent occupation has not been identified as a problem.

These changes to the frequency of inspections and the application of a residence test will reduce costs of licensing fees over 5 years by approximately 24%. As a result, an estimated annual licence fee of £122 per site is expected, just £2.61 per pitch per annum. The overall estimated costs of the Bill over 5 years would be reduced by 28%. I attach further details about the basis for these figures, which I hope you will find helpful.

**<u>Written Statements</u>**

In addition to the above changes, Jocelyn Davies asked me during the meeting about the application of Section 55 of the Bill. In particular the requirement that site owners must provide occupiers with a written statement of the particulars of a holiday caravan agreement no later than 28 days before the date on which the agreement is made. There was a concern that this would put the industry in Wales at a competitive disadvantage compared to other parts of the UK where no such time constraint existed. As I indicated during the evidence session, this was the first time that concerns regarding these provisions had been raised with me.

As I explained in response to Jocelyn Davies, the 28 day period can be shortened to any shorter period with the consent of the proposed occupier. This should ensure that agreements could be entered into quickly if both sides agreed. However, under Section 55(3), this would not apply where the holiday caravan is being sold by the site owner to the proposed occupier.

I believe that the requirement for a written statement of particulars, provided in advance, remains an important safeguard for caravan occupiers. However, it was not part of my intention that this should become a way of frustrating site owners and occupiers from reaching earlier agreement where they wished. Therefore, should the Bill proceed to Stage 2, *I intend to bring forward an amendment to delete the final part of S55(3) so that the 28 day period can be reduced by agreement in all circumstances*.

I am very grateful to the Committee for helping me to identify this issue and I trust that the solution I propose will address the concerns expressed.

**<u>Exemptions</u>**

Finally, in your letter of 9 May you sought clarification on the exemptions in the Bill for certain sites and organisations. I'm afraid through an oversight I did not respond to this point in my letter to you of 29 May. Please accept my apologies for this.

The exemptions in question are set out in Schedule 1 of the Bill. This maintains all of the exemptions previously contained in the Caravan Sites and Control of Development Act 1960, without substantive changes.

I have noted a concern raised by the Caravan Club that paragraph 4 of Schedule 1 refers to holiday caravan sites 'owned' by an organisation which holds a certificate of exemption. They have pointed out that the equivalent part of the 1960 Act refers instead to sites 'occupied' by organisations with exemption certificates.

The use of 'owner' does not make any substantive change to the position as set out in the 1960 Act. This is because the Bill (Section 5) defines the meaning of 'owner' in the same substantive way that 'occupier' is defined in the 1960 Act. The change in terminology is simply for consistency with that used in the Mobile Homes (Wales) Act 2013 and to reflect modern legislative drafting conventions.

I trust that this letter is of assistance to the Committee.

Yours sincerely,



**Darren Millar AM**

# Eitem 5

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 6

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon